# Cyfraith Bwyd

## Canllawiau Ymarfer (Cymru)

**(Cyhoeddwyd Gorffennaf 2021)**

**Asiantaeth Safonau Bwyd**

# Cynnwys

**Pennod 1 Cyflwyniad** ..... **1**

**Pennod 2 Gweinyddu, cyswllt a chydgysylltu** ..... **3**

2.1 Cyflwyniad ..... 3

2.2 Rhestri setiau data perthnasol ..... 3

2.3 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau wedi'u dogfennu ..... 3

2.3.1 Cofrestru gweithdrefn a/neu drefniadau sefydliadau busnesau bwyd ..... 3

2.3.2 Cymeradwyo gweithdrefn sefydliadau busnesau bwyd ..... 4

2.3.3 Gweithdrefn cronfa ddata sefydliad busnes bwyd ..... 4

2.3.4 Gweithdrefn dilysu rheolaeth ..... 4

2.3.5 Gweithdrefn awdurdodi ..... 10

2.3.6 Gweithdrefn digwyddiadau a rhybuddion bwyd ..... 10

2.3.7 Gweithdrefn cwynion corfforaethol ..... 11

2.3.8 Gweithdrefn cwynion bwyd ..... 11

2.3.9 Gweithdrefn samplu ..... 12

2.3.10 Gweithdrefn offer ..... 12

2.3.11 Gweithdrefn a/neu drefniadau gwybodaeth ..... 12

2.3.12 Rheolaethau bwyd swyddogol a gweithdrefn gweithgareddau swyddogol eraill ..... 12

2.3.13 Gweithdrefn orfodi ..... 13

2.3.14 Gweithdrefn a/neu drefniadau gwrthdaro buddiannau ..... 13

2.3.15 Gweithdrefn rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ..... 14

2.4 Gofynion sy'n ymwneud â pholisïau wedi'u dogfennu ..... 14

2.4.1 Polisi samplu ..... 14

2.4.2 Polisi gorfodi ..... 15

2.4.3 Polisi cwynion ..... 15

2.5 Gofynion sy'n ymwneud â chynlluniau wedi'u dogfennu ..... 16

2.5.1 Cynllun gwasanaeth ..... 16

2.5.2 Cynlluniau wrth gefn ..... 24

2.6 Gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni a strategaethau wedi'u dogfennu ..... 24

2.6.1 Rhaglen ymyrraeth ..... 24

2.6.2 Rhaglen samplu ..... 25

2.6.3 Rhaglen hyfforddi ..... 26

2.6.4 Strategaeth orfodi amgen ..... 27

2.7 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ..... 28
2.7.1 Cyswllt ..... 28
2.7.2 Pwyntiau mynediad cyswllt ..... 28
2.8 Prif Awdurdod ..... 29
2.8.1 Cynllun Prif Awdurdodau ..... 29
2.8.2 Nodi busnesau mewn Prif Awdurdod ..... 29
2.8.3 Cynlluniau arolygu ..... 29
2.8.4 Materion cydymffurfio a chamau gorfodi ..... 30
2.8.5 Rheoleiddiwr ategol ..... 30
2.9 Cyfleusterau ac offer ..... 31
2.10 Cyfeiriadau e-bost gorfodi ..... 31
2.11 Cofrestru sefydliadau bwyd ..... 31
2.11.1 Beth yw sefydliad busnes bwyd? ..... 31
2.11.2 Pwy sy'n Weithredwr Busnes Bwyd (FBO)? ..... 32
2.11.3 Gofyniad i gofrestru sefydliad busnes bwyd ..... 32
2.11.4 Sianeli cofrestru ..... 32
2.11.5 Defnyddio Gwybodaeth o ffynonellau eraill ..... 33
2.11.6 Eithriadau rhag cofrestru ..... 33
2.11.7 Camau ar ôl derbyn cofrestriad wedi'i gwblhau ..... 36
2.11.8 Cydnabod cofrestriad ..... 37
2.11.9 Newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd ..... 37
2.11.10 Newid perchnogaeth ar ôl cofrestru ..... 37
2.11.11 Gweithrediadau aml-safle a lloeren ..... 39
2.11.12 Sefydliadau busnes bwyd symudol ..... 43
2.11.13 Sefydliadau bwyd symudol ..... 44
2.12 Cymeradwyo sefydliadau ..... 47
2.12.1 Rhannu cyfrifoldebau rhwng Awdurdodau Bwyd a'r ASB ..... 47
2.12.2 Eithriadau rhag cymeradwyaeth ..... 49
2.12.3 Cymeradwyaeth amodol ..... 50
2.12.4 Gwrthod cymeradwyaeth ac apeliadau ..... 50
2.12.5 Newid gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion ..... 51
2.12.6 Hysbysu'r ASB ynghylch statws cymeradwyaeth ..... 51
2.12.7 Ffeiliau'r Awdurdod Bwyd ..... 51
2.12.8 Marc adnabod (gan gynnwys cod cymeradwyo) ..... 52

2.12.9 Ffurflenni templed ..... 53
2.12.10 Canllawiau pellach ..... 53
2.13 Cofnodion Sefydliad Busnes Bwyd ..... 54
2.13.1 Rhestr o Sefydliadau Busnesau Bwyd cofrestredig ..... 54
2.13.2 Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data ..... 54
2.13.3 Gofyniad gwybodaeth ..... 54
2.14 Uwchgyfeirio ymholiadau technegol at yr ASB neu Asiantaeth arall y Llywodraeth ..... 55
**Pennod 3 Awdurdodiadau, cymhwysedd a chymwysterau ..... 56**
3.1 Cyflwyniad ..... 56
3.2 Awdurdodiadau ..... 56
3.2.1 Penodi staff ..... 56
3.2.2 Swyddog bwyd arweiniol ..... 56
3.2.3 Y weithdrefn awdurdodi ..... 56
3.2.4 Awdurdodi swyddogion ..... 57
3.3 Gofynion cymwysterau ..... 58
3.3.1 Cymwysterau â chyfyngiadau ..... 58
3.3.2 Cyfwerthedd cymwysterau ..... 59
3.4 Gofynion cymhwysedd ..... 59
3.4.1 Cyflwyniad ..... 59
3.4.2 Gofynion cymhwysedd swyddogion bwyd arweiniol ..... 60
3.4.3 Gofynion cymhwysedd swyddogion cymorth rheoleiddiol ..... 60
3.4.4 Swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill mewn Mannau Rheoli ar y Ffin (BCPs) ..... 61
3.4.5 Asesiad cymhwysedd ..... 61
3.4.6 Tystiolaeth o gymhwysedd ..... 62
3.4.7 Swyddogion yn symud o un Awdurdod Bwyd i un arall ..... 62
3.5 Hyfforddiant ..... 63
3.5.1 Rhaglen Hyfforddi ..... 63
3.5.2 Hyfforddiant i staff ar gynnal gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion cenhedlol (*germinal*) neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn BCPs ..... 63
3.6 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ..... 64
3.6.1 Cyflwyniad ..... 64

3.6.2 Gofynion DPP ..... 64
3.6.3 Ffyrdd o gyflawni DPP ..... 66
3.6.4 Tystiolaeth a chofnodi DPP ..... 66
**Pennod 4 Darparu ymyriadau ..... 67**
4.1 Cyflwyniad ..... 67
4.2 Ymyriadau ..... 67
4.2.1 Mathau o ymyriadau ..... 67
4.2.2 Arolygiadau ac archwiliadau ..... 68
4.2.3 Llongau ffatri a physgota – arolygiadau hylendid ..... 69
4.2.4 Dilysu ..... 69
4.2.5 Monitro a goruchwylio ..... 70
4.2.6 Ymweliadau samplu ..... 70
4.2.7 Gwaith addysg a chynghori ..... 70
4.2.8 Casglu gwybodaeth ..... 71
4.2.9 Ailymweliadau ..... 71
4.3 Cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol ..... 71
4.3.1 Hysbysiad o reolaethau bwyd swyddogol ..... 71
4.3.2 Arolygiad cychwynnol o sefydliadau newydd ..... 72
4.3.3 Cynnal arolygiadau ac archwiliadau ..... 72
4.3.4 Adroddiadau'n dilyn rheolaethau bwyd swyddogol ..... 74
4.4 Gofyniad am weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ..... 75
4.4.1 Hyblygrwydd HACCP ..... 76
4.4.2 Cynlluniau Sicrwydd Cymeradwy'r ASB ..... 81
4.4.3 Ffurflenni enghreifftiol ..... 81
4.5 Rheolaethau mewnforio ..... 81
4.5.1 Canllawiau i Awdurdodau Bwyd ar fwyd a fewnforir o'r tu allan i'r DU 81
4.5.2 Deddfwriaeth bwyd wedi'i fewnforio – Bwyd nad yw'n dod o Anifeiliaid (FNAO) ..... 83
4.5.3 Gwybodaeth ..... 84
4.5.4 Cofnodion ..... 85
4.5.5 Adrodd, hysbysu a gwahardd ..... 86
4.5.6 Cyswllt/atgyfeiriadau ..... 88
4.5.7 Arolygiad mewndirol o fwyd a fewnforir ..... 89
4.5.8 Samplu bwyd wedi'i fewnforio ..... 89

4.5.9 Rheolaethau Swyddogol ar gynnyrch FNAO ........ 90
4.5.10 Cludo ymlaen ........ 93
4.5.11 Ffioedd ........ 94
4.5.12 Cadw dogfennau mewnforio ........ 94
4.5.13 Gorfodi ar bwyntiau mynediad ac yn fewndirol ........ 94
4.5.14 Gorfodi Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (POAO) ........ 95
4.6 Samplu a dadansoddi ........ 96
4.6.1 Tystysgrif a ddyfernir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd ........ 97
4.6.2 Rhannu samplau i'w dadansoddi ........ 98
4.6.3 Samplau i'w dadansoddi – Maint ........ 98
4.6.4 Samplau i'w dadansoddi – Cynwysyddion ar gyfer samplau ........ 99
4.6.5 Samplau i'w dadansoddi – Cludo samplau ........ 99
4.6.6 Samplau i'w dadansoddi – Samplau sy'n peri anawsterau wrth eu rhannu ........ 99
4.6.7 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (dadansoddi) ........ 100
4.6.8 Tystysgrifau dadansoddi ........ 100
4.6.9 Hysbysu am ganlyniadau (dadansoddi) ........ 100
4.6.10 Samplau i'w harchwilio ........ 101
4.6.11 Samplau i'w harchwilio – Osgoi halogi ........ 101
4.6.12 Samplau i'w harchwilio – Parhad tystiolaeth/olrhain ........ 101
4.6.13 Samplau i'w harchwilio – Trefnu ........ 102
4.6.14 Samplau i'w harchwilio – Maint y samplau ........ 102
4.6.15 Samplau i'w harchwilio – Trin ........ 102
4.6.16 Samplau i'w harchwilio – Trin, cludo a storio sbesimenau ysgarthol. 103
4.6.17 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (archwilio) ........ 103
4.6.18 Tystysgrifau archwilio ........ 103
4.6.19 Hysbysu am ganlyniadau ........ 103
4.6.20 Samplau i'w harchwilio – cais am archwiliad ........ 104
4.6.21 Ceisiadau am wybodaeth oddi wrth weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr 104
4.6.22 Samplu nwyddau sy’n cyrraedd trwy gyfathrebu o bell ........ 104
4.6.23 Hawl i ail farn ........ 104
4.7 Arolygu llongau ac awyrennau ........ 104
4.7.1 Cyflwyniad ........ 104

4.7.2 Cyffredinol ... 105
4.7.3 Gwastraff arlwyo ... 106
4.7.4 Gwastraff arlwyo rhyngwladol ... 106
4.7.5 Arolygiadau a gorfodi ... 106
4.7.6 Llong wedi'i chofrestru y tu allan i'r DU ... 107
4.7.7 Llongau ac awyrennau milwrol y DU ... 107
4.7.8 Arolygiadau diogelwch bwyd ar longau ... 109
4.7.9 Arolygu awyrennau ... 113
**Pennod 5 Digwyddiadau, rhybyddion a throseddau bwyd ... 118**
5.1 Cyflwyniad ... 118
5.2 Rheoli digwyddiadau a rhybuddion bwyd ... 118
5.2.1 Cysylltiadau digwyddiadau bwyd ... 118
5.2.2 Gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd – ymatebion i gyswllt cyn y digwyddiad gan yr ASB ... 118
5.2.3 Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau Bwyd i'r ASB ... 118
5.2.4 Gwybodaeth a geir yn lleol a allai ddynodi problem ehangach ... 119
5.2.5 Dadansoddi Gwraidd y Broblem ... 119
5.3 Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ... 120
5.3.1 Rôl yr Uned ... 120
5.3.2 Rhoi gwybod am amheuon o drosedd bwyd i'r Uned ... 120
5.4 Cyswllt â gwledydd eraill y tu allan i'r DU ... 121
5.4.1 System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ... 121
5.4.2 Rhoi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau bwyd mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio ... 121
5.4.3 Materion trawsffiniol ... 121
5.4.4 Cyfathrebu â gwledydd eraill y tu allan i'r DU ... 121
5.4.5 Datgelu gwybodaeth i wledydd y tu allan i'r DU ... 122
5.4.6 Defnyddio tystiolaeth dramor mewn achos troseddol ... 122
**Pennod 6 Gorfodi ... 124**
6.1 Cyflwyniad ... 124
6.2 Pwerau i gyflawni rheolaethau swyddogol ... 124
6.2.1 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ... 124
6.2.2 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ... 124

6.2.3 Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 124
6.2.4 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ........ 125
6.3 Cwynion am fwyd ........ 125
6.3.1 Gofynion cyffredinol ........ 125
6.3.2 Cynnwys Awdurdodau Bwyd eraill ........ 125
6.3.3 Ymchwiliad gwyddonol i samplau cwynion bwyd ........ 125
6.4 Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ........ 126
6.4.1 Y dull gorfodi ........ 126
6.4.2 Gwybodaeth am orfodi ........ 127
6.4.3 Cronfa ddata canlyniadau erlyn yr ASB ........ 127
6.5 Ymchwilio i droseddau ........ 127
6.5.1 Pwerau Mynediad, Arolygu ac Atafaelu a Deddf Hawliau Dynol 1998 127
6.5.2 Pwerau mewn perthynas â cherbydau ........ 128
6.5.3 Hysbysiadau Cod B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 128
6.5.4 Hysbysiadau Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ........ 129
6.6 Hysbysiadau hylendid bwyd a safonau bwyd ........ 129
6.6.1 Cyflwyniad ........ 129
6.6.2 Cyhoeddi Hysbysiadau a chyflawni gwaith gorfodi mewn modd cymesur ........ 129
6.6.3 Pryd i ddefnyddio hysbysiad ........ 130
6.6.4 Pryd i beidio â defnyddio hysbysiad ........ 130
6.6.5 Drafftio hysbysiadau ........ 130
6.6.6 Mesurau o'r un effaith ........ 131
6.6.7 Terfynau amser ........ 132
6.6.8 Ymestyn terfynau amser ........ 132
6.6.9 Cyflwyno hysbysiadau ........ 133
6.6.10 Apelio ........ 134
6.6.11 Trafodaethau eraill gyda'r Awdurdod Bwyd ........ 137
6.6.12 Iawndal ........ 137
6.6.13 Cydymffurfiaeth ........ 137
6.6.14 Gorfodi ........ 137
6.6.15 Cyhoeddi hysbysiadau ........ 138

6.6.16 Hysbysiadau templed ... 139
6.6.17 Canllawiau eraill ... 139
6.7 Hysbysiad Camau Unioni ... 139
6.7.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Camau Unioni ... 139
6.7.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Camau Unioni ... 140
6.7.3 Drafftio Hysbysiadau Camau Unioni ... 140
6.7.4 Tynnu Hysbysiad Camau Unioni yn ôl ... 140
6.7.5 Apelio ... 141
6.7.6 Ffurflenni Templed ... 141
6.7.7 Gweithdrefnau Gwahardd ... 141
6.7.8 'Cyflwr Risg Iechyd' / 'Risg (ar Fin Digwydd) o Niwed i Iechyd' ... 142
6.7.9 Meini prawf ar gyfer gweithredu – gweithdrefnau gwahardd hylendid/gweithdrefnau gwahardd ... 144
6.7.10 Ceisio cyngor ychwanegol ... 145
6.7.11 Gohirio gweithredu ar unwaith ... 145
6.7.12 Gwahardd person ... 145
6.7.13 Achos llys ... 146
6.8 Cyflwyno hysbysiadau a gorchmynion gwahardd ... 148
6.8.1 Dulliau o gyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn ... 148
6.8.2 Gosod yr hysbysiad neu'r gorchymyn ar y safle ... 149
6.8.3 Tynnu neu ddifrodi hysbysiadau neu orchmynion heb awdurdod ... 149
6.9 Mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn gwahardd ... 150
6.10 Codi hysbysiad neu orchymyn ... 150
6.10.1 Codi hysbysiadau a gorchmynion gwahardd ... 150
6.10.2 Codi Gorchmynion Gwahardd yn erbyn Personau ... 151
6.10.3 Apeliadau – gwrthod codi gorchymyn gwahardd ... 152
6.11 Iawndal ... 152
6.12 Cadw ac atafael ... 152
6.12.1 Cyflwyniad ... 152
6.12.2 Bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd ... 153
6.12.3 Ymdrin â sypiau (*batches*), lotiau neu lwythi (*consignments*) bwyd ... 154
6.12.4 Cadw bwyd yn ôl ... 155
6.12.5 Atafael (*seize*) bwyd ... 156
6.12.6 Dinistrio neu gael gwared ar fwyd ... 158

6.13 Gweithdrefnau gwirfoddol ... 158
6.13.1 Gofynion cyffredinol ... 158
6.13.2 Gwaharddiadau gwirfoddol ... 159
6.13.3 Ildio/dinistrio gwirfoddol ... 160
6.14 Gorfodi mewn sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth ... 160
6.14.1 Cyflwyniad ... 160
6.14.2 Atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol ... 161
6.14.3 Tynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl ... 161
6.14.4 Hysbysiadau bod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi'i hatal neu ei thynnu'n ôl ... 161
6.14.5 Apeliadau yn erbyn atal neu dynnu gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl ... 162
6.14.6 Ffurflenni templed ... 162
6.15 Gorfodi mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio ... 163
6.15.1 Pwerau gorfodi ar gyfer Bwyd nad yw'n Dod o Anifeiliaid (FNAO) ... 163
6.15.2 Pwerau gorfodi ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO) a gaiff eu mewnforio ... 165
6.15.3 Canllawiau pellach ... 166
6.16 Sefydliadau'r Goron ... 166
6.16.1 Cyflwyniad ... 166
6.16.2 Pwerau mynediad ac ymyriadau ... 166
6.16.3 Categorïau o safleoedd y Goron ... 167
6.16.4 Gorfodi ... 169
**Pennod 7 Canllawiau pwnc-benodol ... 171**
7.1 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw ... 171
7.1.1 Cyflwyniad ... 171
7.1.2 Eithriad y Farchnad Leol (Meintiau Bach) ... 171
7.1.3 Pectinidae (cregyn bylchog neu *scallops*) a gastropodau sy'n bwydo trwy hidlo sy'n cael eu cynaeafu o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig ... 172
7.1.4 Dulliau trin a ganiateir ... 172
7.1.5 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn ... 172
7.1.6 Gofynion ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig 173
7.1.7 Monitro dogfennau cofrestru ... 174

7.1.8 Samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw (LBMs) gan weithredwyr busnesau bwyd ... 176
7.1.9 Labordai a ddefnyddir mewn cysylltiad â sefydliadau dosbarthu, puro a phrosesu ... 177
7.1.10 Profi molysgiaid dwygragennog byw yn ficrobiolegol ... 177
7.1.11 Biotocsinau morol ... 177
7.1.12 Profion rheolaethau swyddogol – samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw gan Awdurdodau Bwyd ... 178
7.1.13 Safonau ar gyfer canolfannau puro ... 178
7.1.14 Molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill nad ydynt yn bodloni gofynion ... 178
7.1.15 Trosglwyddo grawn (*seed*) molysgiaid dwygragennog byw i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig ... 179
7.1.16 Hysbysiadau Cau (cau ardaloedd cynaeafu Molysgiaid Dwygragennog Byw dros dro) ... 179
7.1.17 Adrodd am weithgarwch cynaeafu anghyfreithlon ... 180
7.1.18 Marciau adnabod ar bysgod cregyn ... 180
7.1.19 Ffurflenni templed a nodiadau canllaw ychwanegol ... 181
7.2 Materion sy’n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd ... 181
7.2.1 Cyflwyniad ... 181
7.2.2 Awdurdod Bwyd ... 181
7.2.3 Cwmpas cymeradwyo ... 181
7.2.4 Cyflenwad uniongyrchol o feintiau bach o bysgod ... 181
7.2.5 Amodau yn ystod ac ar ôl glanio ... 182
7.2.6 Gwybodaeth am safonau i'w defnyddio ... 182
7.2.7 Rhestrau gwirio a nodiadau canllaw ychwanegol ... 182
7.3 Materion yn ymwneud â chig ... 183
7.3.1 Cig – Canllawiau ... 183
7.3.2 Cig – Cymeradwyo Sefydliadau ... 183
7.3.3 Gorfodi mewn sefydliadau cig ... 183
7.3.4 Eithriadau cymeradwyo ... 185
7.3.5 Cynhyrchion cig, briwgig a pharatoadau cig – Torri cig ... 189
7.3.6 Lladd da byw gartref: canllaw i'r gyfraith yng Nghymru ... 189
7.3.7 Y sector anifeiliaid hela gwyllt *(wild game)* – pa reoliadau sy’n berthnasol i ba weithgareddau ... 190
7.3.8 Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr (LTTC) ... 192

7.3.9 Materion bwyd Halal ........ 192
7.4 Materion yn ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth amrwd ........ 192
7.4.1 Cyflwyniad ........ 192
7.4.2 Gorfodi ........ 192
7.4.3 Gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu llaeth yfed amrwd a hufen i'w hyfed neu eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl ........ 193
7.4.4 Cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio ........ 194
7.4.5 Gofynion iechyd ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd ........ 194
7.4.6 Meini prawf a safonau ar gyfer llaeth amrwd ........ 194
7.4.7 Gofynion tymheredd ar gyfer llaeth a ddefnyddir i weithgynhyrchu cynhyrchion llaeth ........ 195
7.4.8 Trin llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth â gwres ........ 195
7.4.9 Profi ffosffatase *(phosphatase)* ........ 195
7.4.10 Labelu cawsiau wedi'u gwneud o laeth amrwd ........ 195
7.4.11 Statws 'rhydd rhag twbercwlosis' swyddogol a deddfwriaeth hylendid llaeth ........ 196
7.5 Materion yn ymwneud â chanolfannau pacio wyau ........ 199
7.5.1 Cyflwyniad ........ 199
7.5.2 Cwmpas y rheoliadau ........ 200
7.5.3 Gofynion hylendid penodol ar gyfer wyau cregyn ........ 200
7.5.4 Marchnata wyau ........ 201
7.5.5 Cynllun 'Lion' a chynlluniau sicrwydd ansawdd eraill a arweinir gan y diwydiant ........ 201
7.6 Materion yn ymwneud â chynhyrchion wyau ac wy ar ffurf hylif ........ 202
7.6.1 Cyflwyniad ........ 202
7.6.2 Cwmpas y rheoliadau ........ 202
7.6.3 Mathau o safleoedd cymeradwy ........ 202
7.6.4 Wyau budr ........ 203
7.6.5 Allgyrchu *(centrifuging)* neu falu ........ 203
7.6.6 Marciau adnabod a gofynion labelu eraill ........ 203
7.6.7 Pasteureiddio a thrin â gwres ........ 204
7.6.8 Manylion dadansoddol ........ 204
7.6.9 Rheoli tymheredd ........ 204
7.6.10 Storio a chludo ........ 204
7.7 Bwyd ar gyfer grwpiau penodol ........ 204

7.7.1 Rheoliad (UE) Rhif 609/2013 ar fwydydd ar gyfer grwpiau penodol .. 204
7.7.2 Gofynion Deddfwriaethol ar gyfer fformiwla fabanod, fformiwla ddilynol a bwydydd babanod ... 205
7.7.3 Bwyd at ddibenion meddygol arbennig (FSMP) ... 207
7.7.4 Bwydydd ar gyfer amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau ... 208
7.7.5 Ychwanegu sylweddau at FSG at ddibenion maethol penodol ... 208
7.7.6 Gweithdrefnau hysbysu ... 208
7.7.7 Bwydydd i bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ... 209
7.7.8 Bwydydd sy'n addas i bobl sydd ag anoddefiad i glwten ... 209
7.8 Darpariaethau rheoli tymheredd ... 209
7.8.1 Cyflwyniad ... 209
7.8.2 Dull cyffredinol o wirio tymheredd ... 209
7.8.3 Cymryd mesuriadau tymheredd ... 211
7.8.4 Lefelau goddefiant ... 211
7.8.5 Gwirio a chalibro thermomedrau mesur gorfodi ... 212
7.8.6 Oeri offer ymlaen llaw ... 212
7.8.7 Paratoi samplau ar gyfer mesur tymheredd ... 213
7.8.8 Mesur tymheredd cynnyrch ... 213
7.8.9 Offer a ddefnyddir i fesur tymheredd cynnyrch wedi'i oeri ... 213
7.8.10 Bwyd sy'n gynhesach na'r tymheredd cadw oer rhagnodedig ... 214
7.8.11 Bwyd sy'n oerach na'r tymheredd cadw poeth rhagnodedig ... 214
7.8.12 Gwyriadau tymheredd ... 214
7.9 Dŵr potel ... 216
7.9.1 Cyflwyniad ... 216
7.9.2 Dŵr mwynol naturiol (NMW) ... 216
7.9.3 Cydnabod dŵr mwynol naturiol ... 217
7.9.4 Cydnabyddiaeth dŵr mwynol naturiol o du allan i Gymru ... 217
7.9.5 Labelu dŵr mwynol naturiol ... 218
7.9.6 Dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi'i botelu arall ... 218
7.9.7 Labelu dŵr ffynnon a dŵr wedi'i botelu arall ... 218
7.10 Gwastraff bwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 218
7.10.1 Cyflwyniad ... 218
7.10.2 Arolygu busnesau bwyd ... 219
7.10.3 Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 219

7.10.4 Bwyd anifeiliaid – deunyddiau a arferai fod yn fwyd *(former foodstuffs)* a chyd-gynhyrchion ........ 220
7.10.5 Bwyd anifeiliaid – rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid ........ 221
7.10.6 Bwyd anifeiliaid – gwastraff arlwyo ........ 221
7.10.7 Ymchwiliadau mawr ........ 221
7.11 Gwerthu o bell/archebu drwy'r post ........ 222
7.11.1 Cyflwyniad ........ 222
7.11.2 Lleoliad y gwerthwr ........ 222
7.11.3 Gwerthu bwyd o bell o'r DU ........ 222
7.11.4 Gwerthu bwyd o bell o'r tu allan i'r DU ........ 222
7.11.5 Cyfeiriadau eraill ........ 223
7.12 Nodiadau canllaw ychwanegol i Awdurdodau Bwyd ........ 223

# Pennod 1 Cyflwyniad

Mae Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Canllawiau Ymarfer):

- yn cael eu cyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
- ar gyfer Awdurdodau Lleol (Awdurdodau Bwyd) sy'n gyfrifol am gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill
- gyda'r nod o gynorthwyo Awdurdodau Bwyd i gyflawni eu dyletswydd statudol i orfodi cyfraith bwyd
- gyda'r nod o gefnogi ansawdd, cysondeb, effeithiolrwydd a phriodoldeb rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Maent yn ategu Cod Ymarfer statudol Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod) ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar sut i orfodi'r gyfraith lle gallai ei bwriad fod yn aneglur. Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i Benodau perthnasol y Canllawiau Ymarfer y cyfeirir atynt yn benodol yn y Cod.

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon:

- yn cael eu rhoi'n ddidwyll ac yn cyd-fynd â dealltwriaeth yr ASB o ofynion cyfreithiol perthnasol
- yn ystyried argymhellion a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Iechyd a Diogelwch Bwyd – Archwilio a Dadansoddi (DGF) yn dilyn unrhyw archwiliad o systemau rheoli bwyd y Deyrnas Unedig (DU)
- yn darparu dolenni i ystod o ganllawiau

Mae'r DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) yn darparu bod deddfwriaeth benodol yr UE sy'n uniongyrchol gymwys wedi'i throi'n gyfraith y DU o 1 Ionawr 2021. Cyfeirir at gyfraith wedi'i throsi fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir'. Mae'r EUWA yn rhoi pwerau i wneud cywiriadau i gyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol fel cyfraith y DU. Mae enghreifftiau o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid yn cynnwys Rheoliad (CE) 178/2002 ar Gyfraith Bwyd Cyffredinol, Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd. Mae'r rhan fwyaf o gyfraith diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i fod yn gymwys o 1 Ionawr 2021 yn y DU yn yr un modd ag yr oedd cyn i'r DU ymadael â'r UE[1].

Gwneir pob cyfeiriad at ddeddfwriaeth yn y Canllawiau Ymarfer ar y sail y gall y ddeddfwriaeth fod yn destun gwelliant a/neu ddirymiad. Wrth gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau gorfodi, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod yn cyfeirio'n gywir at fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth berthnasol a nodir yn y Canllawiau Ymarfer.

Mae cyfeiriadau at:

[1] Mae cyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y Cod yn gyfeiriadau at gyfraith yr UE a ddargedwir fel y gwelir ar wefan legislation.gov.uk a dylid eu darllen ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ei diwygio.

- benodau ac adrannau yn cyfeirio at y rhannau perthnasol o’r ddogfen hon oni nodir yn wahanol
- rhaid ystyried deddfwriaeth yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno ar ei ffurf bresennol (oni nodir yn wahanol)

Os oes gennych unrhyw amheuaeth a yw darpariaeth gyfreithiol benodol y cyfeirir ati yn y Canllawiau Ymarfer yn dal i fod mewn grym, efallai yr hoffech ymgynghori â’ch cynghorydd cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau yn erbyn busnes bwyd o dan y ddarpariaeth honno.

Ni ddylid cymryd unrhyw ganllawiau[2] ar y gyfraith yn y Canllawiau Ymarfer fel dehongliad neu ddatganiad awdurdodol o’r gyfraith gan mai dim ond gan y Llysoedd y mae’r pŵer hwnnw. Mae unrhyw enghreifftiau a roddir yn enghreifftiol ac nid yn gynhwysfawr.

Cynghorir Awdurdodau Bwyd yn gryf i ymgynghori â’u hadrannau cyfreithiol eu hunain wrth ystyried camau gorfodi ffurfiol.

Mae yna restr termau gyda diffiniadau o dermau a byrfoddau a ddefnyddir yn y Canllawiau Ymarfer.

[2] Bydd angen i Awdurdodau Bwyd gofrestru i gael mynediad at y canllawiau sydd ar gael ar yr Hwb Gwybodaeth

# Pennod 2 Gweinyddu, cyswllt a chydgysylltu

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 2 yn trafod:

- y trefniadau gweinyddol, gan gynnwys dynodi Awdurdodau Bwyd, cofrestru a chymeradwyo sefydliadau busnes bwyd
- trefniadau cyswllt[3] i sicrhau bod:
  - cydgysylltu effeithlon ac effeithiol rhwng Awdurdodau Bwyd, cyrff dirprwyedig ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am reolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill
  - cysondeb ac effeithiolrwydd rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ledled y DU
- gwrthdaro buddiannau yn cael ei osgoi[4]
- gofynion monitro i sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol cyson, priodol ac effeithiol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael eu cynnal gan Awdurdodau Bwyd

## 2.2 Rhestri setiau data perthnasol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddarparu rhestri setiau data perthnasol i'r ASB, ar hyn o bryd mae'r rhestr yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd (LAEMS)
- Safonau Bwyd (LAEMS)
- Bwyd a Fewnforir (LAEMS)
- Safleoedd Bwyd Cymeradwy
- Mesurau Diogelu Bwyd a Fewnforir
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

## 2.3 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau wedi'u dogfennu

### 2.3.1 Cofrestru gweithdrefn a/neu drefniadau sefydliadau busnesau bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu cofrestriad o weithdrefn(au) a/neu drefniadau a roddir ar waith gan sefydliadau busnesau bwyd:

- yn caniatáu i weithredwyr busnesau bwyd (FBOs) gyflwyno ffurflen gofrestru sy'n gyflawn ac yn gywir o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau masnachu neu i weithrediadau bwyd gychwyn
- yn darparu ffurflen gofrestru sydd ar gael i FBOs ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi manylion llawn yr holl weithgareddau a gyflawnir

[3] Erthygl 4(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[4] Erthygl 5(1)(c) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn manylu ar y camau i’w cymryd ar ôl cael ffurflenni cofrestru wedi’u cwblhau, gan gynnwys hysbysu Awdurdodau Bwyd eraill lle mae gweithgareddau y tu allan i gylch gwaith neu awdurdodaeth orfodi’r Awdurdodau Bwyd sy’n derbyn
- yn cynnwys manylion am sut y bydd yr Awdurdod Bwyd yn cael gwybodaeth a hepgorwyd o ffurflen gofrestru, lle bo hynny’n berthnasol, ac amgylchiadau lle caiff ffurflenni cofrestru eu gwrthod neu eu dychwelyd i FBOs

### 2.3.2 Cymeradwyo gweithdrefn sefydliadau busnesau bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu cymeradwyaeth o weithdrefn(au) sefydliadau busnesau bwyd:

- yn caniatáu i FBOs gyflwyno ffurflen gais am gymeradwyaeth sy’n gyflawn ac yn gywir
- yn darparu ffurflen gais am gymeradwyaeth sydd ar gael yn rhwydd i FBOs ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu manylion llawn yr holl weithgareddau a gyflawnir
- yn manylu ar y camau i’w cymryd ar ôl cael ffurflenni cais cymeradwyaeth wedi’u cwblhau, gan gynnwys hysbysu Awdurdodau Bwyd eraill lle mae gweithgareddau y tu allan i gylch gwaith neu awdurdodaeth orfodi’r Awdurdodau Bwyd sy’n derbyn
- yn cynnwys manylion am sut y bydd yr Awdurdod Bwyd yn cael gwybodaeth a hepgorwyd o ffurflen gais am gymeradwyaeth, lle bo hynny’n berthnasol, ac amgylchiadau lle caiff ffurflenni cais am gymeradwyaeth eu gwrthod neu eu dychwelyd i FBOs
- yn cynnwys manylion am sut y penderfynir ar gymeradwyaethau (gan gynnwys niferoedd a gymeradwyir a hysbysu), sy’n ystyried y Cod, y Canllawiau Ymarfer a deddfwriaeth a/neu ganllawiau perthnasol eraill

### 2.3.3 Gweithdrefn cronfa ddata sefydliad busnes bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) cronfa ddata sefydliadau busnesau bwyd yn rhoi manylion:

- sut y cynhelir eu rhestr o sefydliadau busnesau bwyd sydd wedi’u cofrestru gyda nhw neu a gymeradwywyd ganddynt fel ei bod yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol
- y camau a gymerir ar ôl cael hysbysiadau o newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd, a sut, lle y bo’n briodol, y caiff y newidiadau hyn eu gwneud i’r gronfa ddata

### 2.3.4 Gweithdrefn dilysu rheolaeth

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) dilysu rheolaeth, y cyfeirir ati’n fwy cyffredin fel gweithdrefn monitro mewnol[5]:

- yn darparu ar gyfer cynnal a chyflawni’r rhaglen ymyrraeth arfaethedig yn gymwys

[5] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn cynnwys manylion y camau angenrheidiol i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw berfformiad nad yw'n bodloni safonau disgwyliedig
- yn dangos bod systemau sgorio risg cyfraith bwyd yn cael eu cymhwyso'n briodol ac yn gyson, gan gynnwys lle y gwneir newidiadau i sgôr risg sefydliad
- yn cynnwys mesurau i sefydlu:
  - bod camau a gymerir gan swyddogion yn ystod ac yn dilyn rheolaeth swyddogol neu weithgareddau swyddogol eraill, gan gynnwys mewn mannau mynediad, yn briodol ac yn gyson â gweithdrefn(au) a pholisïau'r Awdurdodau Bwyd a chyda'r ASB, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) neu ganllawiau perthnasol eraill[6]
  - sut y gellir diwygio'r rhaglen ymyrraeth arfaethedig i ganiatáu ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn, er enghraifft sefydliadau busnes bwyd newydd a rhai sydd wedi cau a sefydliadau busnes bwyd sydd â sgôr ymyrraeth sydd wedi newid
  - bod swyddogion yn ymwybodol o godau ymarfer cyhoeddedig eraill y diwydiant sy'n berthnasol i'r busnesau o fewn ardal yr Awdurdod Bwyd ac yn gallu cael gafael arnynt
  - bod swyddogion yn rhoi sylw dyledus i Ganllawiau Ymarfer Da cyhoeddedig
  - cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, y Cod, y Canllawiau Ymarfer, y Cytundeb Fframwaith ar Reolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (y Cytundeb Fframwaith), Gwybodaeth a sgiliau'r ASB ar gyfer cyflawni rheolau bwyd a phorthiant swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol (Y Fframwaith Cymwyseddau)[7], a chanllawiau perthnasol eraill gan yr ASB neu ganllawiau perthnasol eraill
  - cydymffurfio â gweithdrefn(au) a pholisïau mewnol, fel sy'n ofynnol gan y Cod
  - defnydd priodol o ffurflenni profforma perthnasol (gan gynnwys hysbysiadau gorfodi)
- yn cynnwys darpariaethau i unioni'n briodol unrhyw beth sy'n anghywir yn yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd[8]
- yn darparu mesurau i'w cymryd pan ganfyddir bod swyddogion yn rhoi tystysgrifau swyddogol ffug neu gamarweiniol neu'n camddefnyddio tystysgrifau swyddogol[9] sy'n cynnwys:
  - atal swyddog ardystio o'i ddyletswyddau dros dro
  - tynnu awdurdodiad yn ôl i lofnodi tystysgrifau swyddogol
  - unrhyw fesur arall i atal y problemau hyn rhag digwydd eto

[6] Erthygl 12 (3) (a) o Reoliad (UE) 2017/625
[7] Mae cymhwysedd yn gyfuniad o'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gweithgareddau rheoli bwyd swyddogol, rheolaethau swyddogol eraill yn effeithiol
[8] Erthygl 11(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[9] Erthygl 138(5) o Reoliad (UE) 2017/625

Dylai Awdurdodau Bwyd gyfeirio at y Cytundeb Fframwaith a chanllawiau perthnasol yr ASB wrth ddatblygu ac adolygu eu gweithdrefnau monitro mewnol.

#### 2.3.4.1 Monitro darpariaeth gwasanaethau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal gwiriadau dilysu rheolaeth i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol, canllawiau swyddogol a'u gweithdrefn, polisïau, cynlluniau a rhaglenni eu hunain ar draws yr ystod lawn o weithgareddau gwasanaeth[10].

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- bod yr holl weithgareddau perthnasol yn destun monitro meintiol ac ansoddol cymesur a rheolaidd fel y gallant ddangos eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, y Cod, y Cytundeb Fframwaith a chanllawiau swyddogol perthnasol eraill
- y cedwir cofnodion priodol a chymesur i gadarnhau goruchwyliaeth gan reolwyr o weithgareddau a chamau gweithredu allweddol gan y gwasanaeth, ac y cymerir camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd
- bod monitro yn hyblyg, yn gymesur, yn amrywiol, wedi'i dargedu a'i deilwra yn ôl risgiau i bersonél neu safleoedd

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried:

- ymarferion cysondeb o fewn ac ar draws Awdurdodau Bwyd er enghraifft casgliad o senarios busnes i alluogi cymhariaeth o asesiadau swyddogion, gallai'r rhain gynnwys:
  - sgoriau risg
  - penderfyniadau gorfodi
  - canolbwyntio ar fonitro a gwelliannau ansoddol mewnol (yn hytrach na dim ond gwiriadau meintiol ar nifer y gweithgareddau a gyflawnir) er enghraifft monitro tueddiadau mewn proffiliau risg busnes ac ansawdd ymyriadau swyddogion
- dull 'seiliedig ar risg' o fonitro ansoddol mewnol, er enghraifft mwy o bwyslais ar feysydd problemus hysbys (unrhyw broblemau gyda staff penodol a chyfran uwch o fusnesau risg uwch) yn hytrach na dull anhyblyg seiliedig ar wiriad o ganran o'r holl ffeiliau
- creu adroddiadau sy'n rhestru'r sgoriau risg diweddar fel y gall rheolwyr nodi ac ymchwilio'n gyflym i'r rhesymau pam mae unrhyw fusnesau yn parhau i fod yn risg uchel dros gyfres o ymyriadau
- mae dirprwyo rhai gweithgareddau monitro rheolaidd yn annog pob aelod o staff i gymryd rhan mewn hunanfonitro a gwirio gwaith ei gilydd, er enghraifft llythyrau, hysbysiadau, diweddaru ffeiliau
- gweithgareddau monitro a allai weithio'n dda i rai Awdurdodau Bwyd, a allai gynnwys:

[10] Erthygl 5 (1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

- arolygiadau/archwiliadau cyfnodol gyda swyddog
- adolygiadau o waith papur ôl-arolygiad/archwilio
- ymweliadau ôl-arolygiad/archwilio â sefydliadau gan reolwyr
- adolygiadau rheolwr o'r holl weithgareddau gorfodi, gan gynnwys gwiriadau yn erbyn y canllawiau a'r polisi gorfodi perthnasol
- cyfarfodydd llwyth achosion arferol

- cymryd rhan mewn cynlluniau perthnasol a chadarn ar gyfer adolygu gan gymheiriaid a/neu archwilio rhyng-awdurdod, y gellir eu defnyddio:
  - at ddibenion cysondeb gorfodi
  - i nodi ymarfer da y gellir ei fabwysiadu
  - i nodi unrhyw feysydd i'w gwella

**2.3.4.2 Monitro ymyriadau**

Rhaid i raglenni ymyrraeth fod yn seiliedig ar risg; mae asesiadau o drefniadau rheoli a rheolaeth diogelwch bwyd busnesau'n ganolog i hyn.

Rhaid cael dogfennau digon manwl, cywir a hawdd cael gafael arnynt ar gyfer gweithrediadau a gweithgareddau busnes allweddol, ymyriadau a chofnodion asesu, yn enwedig mewn perthynas â systemau rheoli diogelwch bwyd, ac unrhyw gamau gorfodi, er mwyn:

- dangos bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd berthnasol
- sicrhau bod swyddogion arolygu dilynol yn ymwybodol o hanes busnesau unigol o ran cydymffurfio
- hysbysu pob cam o ddull gorfodi graddedig
- darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gorfodi ffurfiol
- caniatáu monitro ansoddol mewnol effeithiol, er enghraifft gwirio:
  - nad yw busnesau risg is yn cael ymyriadau cyn rhai risg uchel hysbys, a/neu ar draul gwneud gwaith dilynol a mynd i'r afael â phroblemau parhaus gyda busnesau risg uwch
  - bod diffyg cydymffurfio mynych neu hirfaith yn cael ei drin yn effeithiol a bod monitro digonol gan reolwyr llinell
  - bod cofnodion ymyrraeth (electronig neu gopi caled) yn ddigonol i lywio ymyriadau a chamau gweithredu dilynol, yn enwedig pan fyddant yn nwylo swyddog gwahanol
  - bod adroddiadau arolygu/ymyrryd ysgrifenedig yn ddarllenadwy
  - bod gwahaniaethu clir rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor
  - bod unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn pennu, lle y bo'n berthnasol, y camau dilynol a'r amser a ganiateir ar gyfer gwaith adfer

- bod camau priodol wedi'u cymryd mewn perthynas â bwyd a fewnforir gan Awdurdodau Bwyd mewndirol gan gynnwys cyswllt rhwng awdurdodau

#### 2.3.4.3 Monitro camau gweithredu a gorfodi dilynol

Fel rhan o waith monitro mewnol effeithiol mewn perthynas â chamau dilynol a chamau gorfodi, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- y gweithredir yn briodol ynghylch achosion o beidio â chydymffurfio
- yr eir i'r afael â phob achos sylweddol o beidio â chydymffurfio mewn modd amserol ac effeithiol
- bod unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn unol â pholisïau gorfodi lleol, canllawiau cenedlaethol ac yn briodol i ddifrifoldeb a natur ailadroddus y troseddau
- bod unrhyw benderfyniadau i wyro oddi wrth y dull a bennir yn y polisi gorfodi yn cael eu hystyried yn briodol a bod y rhesymau'n cael eu cofnodi (fel arfer dylai camau gweithredu arfaethedig gan swyddogion, neu ddiffyg gweithredu, nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi gorfodi Awdurdod Bwyd gael eu cyfeirio i lefel uwch i gael cytundeb)
- y cydymffurfir yn llawn â'r broses gyfreithiol briodol ar gyfer pob un o'r casgliad o opsiynau gorfodi ffurfiol
- y gweithredir ynghylch hysbysiadau ffurfiol mewn modd amserol (hynny yw, yn union ar ôl y dyddiad y daw i ben), gyda rhagdybiaeth y bydd gorfodaeth yn dilyn os bydd diffyg cydymffurfio parhaus
- yr eir i'r afael ag achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd a sgoriau risg gwael mynych
- eu bod yn nodi methiant i ymdrin â gorfodi mewn modd graddedig a/neu ddefnyddio'r casgliad llawn o ddulliau gorfodi
- eu bod yn nodi unrhyw ddiffyg camau gweithredu dilynol amserol a fyddai'n caniatáu gorfodi'r gofynion hysbysu er enghraifft gwiriadau ar yr adeg y daw hysbysiadau ffurfiol i ben
- eu bod yn nodi lle mae symptomau diffyg cydymffurfio wedi'u trin (hynny yw, ateb tymor byr) yn hytrach na mynd i'r afael â'r achos sylfaenol, gan arwain at broblemau mynych a pharhaus

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried:

- cynadleddau achos rheolaidd rhwng rheolwyr a staff, er enghraifft i drafod cynnydd pob busnes risg uchel yn ardal pob swyddog o ran cydymffurfiaeth
- gan gynnwys adran 'adolygiad gorfodi' ar 'ffurflenni/ffeiliau arolygu/archwilio i swyddogion roi rhesymau byr dros unrhyw gamau a gymerwyd/nas cymerwyd, i hysbysu swyddogion arolygu/archwilio dilynol ac i hwyluso gwiriadau rheolwr o gysondeb yn erbyn y polisi gorfodi lleol

- ymgynghori â gwasanaethau cyfreithiol yn gynnar mewn camau gorfodi ffurfiol i sicrhau y gall achosion fodloni'r holl feini prawf tystiolaeth a gweithdrefnol, ac osgoi her dechnegol ddiangen i achosion sydd â sail dda iddynt
- datblygu rhestri gwirio gorfodi ffurfiol i sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei gwirio cyn pob cam o gamau gweithredu ffurfiol (er enghraifft addasu rhestri gwirio archwilio perthnasol yr Asiantaeth i gynnwys meini prawf polisi gorfodi lleol, a'u defnyddio cyn cyflwyno hysbysiad)
- amserlenni swyddogion a nodi ymweliadau dilynol/gwiriadau cydymffurfio mewn dyddiaduron yn erbyn hysbysiadau/camau gweithredu ffurfiol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n brydlon (a lle bo'n briodol, hysbysu'r busnes am y dyddiadau hyn yn yr adroddiad arolygu/archwilio perthnasol neu lythyr eglurhaol yr hysbysiad)

#### 2.3.4.4 Monitro systemau gwybodaeth reoli

Mae cronfeydd data cyflawn, cyfredol, cywir a dibynadwy o fusnesau bwyd lleol yn hanfodol er mwyn galluogi rheolwyr i wybod am yr holl fusnesau perthnasol sydd wedi'u lleoli yn eu hardal ac i ddarparu'r sail ar gyfer rhaglenni arolygu/archwilio ac ymyrryd cynhwysfawr sy'n seiliedig ar risg. Mae angen monitro a chynnal y cronfeydd data er mwyn sicrhau y gellir olrhain newidiadau i ddefnydd busnes a pherchnogaeth, busnesau sy'n cau a busnesau newydd.

Argymhellir bod Awdurdodau Bwyd:

- yn sefydlu prosesau i fonitro cywirdeb y gronfa ddata safleoedd fel mater o drefn, a'r cofnodion gweithredu/gwybodaeth a fewnbynnir ac a gynhelir ar gyfer pob busnes
- cynnal gwiriadau achlysurol i nodi unrhyw anghysondebau rhwng cofnodion ffeiliau a chofnodion cronfa ddata o fanylion ymyrraeth, gweithgareddau gorfodi a chamau gweithredu

Gallai problemau gynnwys:

- busnesau wedi'u dyblygu ar y gronfa ddata electronig
- cofnodion cronfa ddata o arolygiadau/ymyriadau sy'n anghyson â data a gedwir ar ffeiliau copi caled (er enghraifft dyddiadau gweithredu, sgoriau risg)
- dim monitro rheolaidd ar gofnodion data a/neu anghysonderau ac anghywirdebau nas sylwyd arnynt
- adroddiadau arolygu/archwilio mewn llawysgrifen annealladwy wedi'u sganio ar y system

Gallai atebion gynnwys:

- defnyddio cyfleuster adrodd rheolwr meddalwedd y gronfa ddata, neu daenlen syml, i fonitro ar gyfer materion cysondeb ac i wirio'n rheolaidd am anghysondebau a gwallau mewn cofnodion arolygu/archwilio electronig

- gwiriadau croesgyfeirio rheolaidd o fusnesau a gedwir ar gronfa ddata'r safle yn erbyn rhestri eraill o fusnesau lleol er enghraifft:
  - hysbysebion ar beiriannau chwilio ar-lein
  - tudalennau y cyfryngau cymdeithasu
  - cronfeydd data mewnol eraill Awdurdodau Bwyd er enghraifft Cynllunio, Ardrethi Busnes a Rheoli Adeiladu
  - asiantaethau perthnasol eraill, er enghraifft y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
  - Gwefan Sicrwydd Tractor Coch (RTA)
  - cynlluniau Sicrwydd perthnasol eraill a weithredir gan y diwydiant

### 2.3.5 Gweithdrefn awdurdodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) awdurdodi yn:

- rhoi manylion sut y caiff cymhwysedd ei asesu a'i gofnodi i gwblhau'r broses awdurdodi
- ymdrin â rolau a chyfrifoldebau staff yn y broses awdurdodi
- nodi pwy sydd wedi'i awdurdodi i gymeradwyo achosion cyfreithiol
- ymdrin â'r broses ar gyfer awdurdodi penodiadau newydd, swyddogion newydd gymhwyso a'r rhai sy'n dychwelyd i orfodi cyfraith bwyd
- rhoi manylion sut mae'r Awdurdod Bwyd yn sicrhau bod ei swyddog(ion) bwyd arweiniol a'i swyddogion awdurdodedig wedi'u hawdurdodi yn unol â Phennod 3 o'r Cod

### 2.3.6 Gweithdrefn digwyddiadau a rhybuddion bwyd

- Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) digwyddiadau bwyd a rhybuddion bwyd)[11]:
- yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag:
- aelodau'r Grŵp Cyswllt Bwyd perthnasol;
  - Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW);
  - Dadansoddwr Cyhoeddus;
  - Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC); a
  - swyddogion perthnasol yr Awdurdod Bwyd, er enghraifft Swyddog Cynllunio at Argyfyngau
- manylion sut yr ymdrinnir â digwyddiadau bwyd a rhybuddion bwyd a ganfyddir yn eu hardal
- yn cynnwys darpariaethau i:

[11] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- ffonio asiantaethau priodol gyda'i gilydd ar fyr rybudd
- gweithredu mesurau rheoli brys pryd bynnag y bydd eu hangen
- nodi awdurdod arweiniol, lle bo angen

- ymdrin â chychwyn ac ymateb yn effeithiol i Rybuddion Bwyd a gyhoeddir gan yr ASB
- cynnwys manylion am ymateb effeithiol i gyswllt cyn digwyddiad gan yr ASB

Rhaid i'r weithdrefn gynnwys y canlynol:

- manylion, gan gynnwys manylion cyswllt, y swyddog bwyd arweiniol ar gyfer materion o'r fath
- trefniadau cyswllt rhwng Adrannau Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd
- unrhyw drefniadau ar gyfer derbynfa y tu allan i oriau ac ymateb i rybuddion ac argyfyngau
- trefniadau i sicrhau bod rhybuddion a diweddariadau bwyd yn cael eu dwyn i sylw swyddog sydd ag awdurdod i gychwyn camau priodol heb oedi diangen
- trefniadau ar gyfer cysylltu â chyrff perthnasol eraill, Awdurdodau Bwyd, o fewn a thu allan i oriau swyddfa arferol
- trefniadau i ddarparu adnoddau staff digonol i ganiatáu ymateb effeithiol i rybuddion
- trefniadau i ddarparu offer digonol, gan gynnwys mynediad gan yr Awdurdod Bwyd y tu allan i oriau, er mwyn caniatáu ymateb effeithiol

Wrth ddatblygu gweithdrefnau digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd, dylai Awdurdodau Bwyd ystyried canllawiau'r ASB ar Ddiogelwch Bwyd, y Gallu i Olrhain, Galw a Thynnu Cynnyrch yn Ôl.**Gweithdrefn cwynion corfforaethol**

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) cwyno:

- ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn ei ardal
- yn arwain at ymchwilio i gwynion a dderbynnir am yr Awdurdod Bwyd yn unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog
- yn ei gwneud yn ofynnol i gofnod gael ei wneud o bob cwyn a dderbynnir a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r cwynion hynny gan yr Awdurdod Bwyd

### 2.3.8 Gweithdrefn cwynion bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) cwynion bwyd:

- yn ymdrin â chwynion am fwyd sy'n tarddu o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU
- yn ymdrin â chwynion am fwyd a sefydliadau a busnesau bwyd
- yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer unrhyw drefniadau atgyfeirio i awdurdodau mewndirol, neu awdurdodau sy'n gyfrifol am reolaethau bwyd a fewnforir yn y man cyrraedd
- yn arwain at ymchwilio i gwynion a dderbynnir mewn modd sy'n unol â'r Cod, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd

- yn rhoi manylion y mecanwaith/mecanweithiau[12] ar gyfer sut y gellir gwneud cwynion am ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl sy'n cynnwys:
  - gweithdrefnau ar gyfer derbyn cwynion a gwaith dilynol yn eu cylch
  - manylion am sut y bydd personau sy'n adrodd am gwynion yn cael eu diogelu rhag dial, gwahaniaethu neu fathau eraill o driniaeth annheg o ganlyniad i'w cwyn (er enghraifft, pobl sy'n chwythu'r chwiban)
  - manylion am sut y bydd data personol personau sy'n adrodd am gwynion yn cael ei ddiogelu

### 2.3.9 Gweithdrefn samplu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) samplu)[13]:

- yn cynnwys mesurau ar gyfer caffael neu brynu samplau, gan gynnwys y rhai a gynigir i'w gwerthu drwy gyfathrebu o bell
- yn nodi sut y cynhelir parhad tystiolaeth
- yn cynnwys camau i'w cymryd ar gyfer canlyniadau samplu anfoddhaol
- yn cynnwys mesurau i atal dirywiad neu ddifrod i samplau tra'u bod o dan reolaeth yr Awdurdod Bwyd[14]

### 2.3.10 Gweithdrefn offer

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) cyfarpar:

- yn darparu ar gyfer nodi offer
- yn darparu tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi
- yn cynnwys mesurau i ddangos canlyniadau unrhyw wiriadau gwasanaeth a'r camau a gymerwyd lle mae'r canlyniadau'n anfoddhaol

### 2.3.11 Gweithdrefn a/neu drefniadau gwybodaeth

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) gwybodaeth a/neu'r trefniadau y maent yn eu rhoi ar waith:

- yn lleihau'r risg o lygru neu golli gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data
- yn darparu ar gyfer mesurau diogelwch rhesymol i atal mynediad a diwygio data a gedwir ar gronfeydd data gan bersonau anawdurdodedig
- yn arwain at gadw arferion data da a chynnal ansawdd data

### 2.3.12 Rheolaethau bwyd swyddogol a gweithdrefn gweithgareddau swyddogol eraill

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu rheolaethau bwyd swyddogol a'u gweithdrefn gweithgareddau swyddogol eraill[15]:

- yn cynnwys manylion am reolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir ar fwyd a fewnforir

---

[12] Erthygl 140 o Reoliad (UE) 2017/625
[13] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[14] Erthygl 34(5) o Reoliad (UE) 2017/625
[15] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn arwain at ymgymryd â rheolaethau cymesur, cyson sy'n seiliedig ar risg
- yn rhoi digon o awgrymiadau i sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol yn effeithiol ac yn briodol

### 2.3.13 Gweithdrefn orfodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) gorfodi[16].

- yn arwain at gymryd camau gorfodi gan eu swyddogion awdurdodedig sy'n rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arferion da
- yn ystyried y canlynol wrth benderfynu ar gamau priodol i'w cymryd:
  - hierarchaeth gorfodi
  - y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron
  - polisi gorfodi'r Awdurdodau Bwyd
  - lefel y risgiau i ddiogelwch defnyddwyr o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio
  - sensitifrwydd defnyddwyr ynghylch y mater, gan arwain at golli hyder defnyddwyr neu golled economaidd i'r diwydiant
  - potensial i fwydydd nad ydynt yn cydymffurfio gael eu dosbarthu'n eang gan effeithio ar nifer fawr o ddefnyddwyr
  - hanes blaenorol o gydymffurfio
  - Partneriaethau Prif Awdurdodau
  - Partneriaethau Awdurdodau Cartref

### 2.3.14 Gweithdrefn a/neu drefniadau gwrthdaro buddiannau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y gweithdrefn(au) a/neu drefniadau gwrthdaro buddiannau a roddant ar waith, er enghraifft, polisi gwrthdaro buddiannau[17]:

- yn golygu bod swyddogion awdurdodedig sy'n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill:
  - yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau
  - yn ymwybodol o'r gwrthdaro buddiannau posibl a all godi drwy hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdodau Bwyd
  - ddim yn darparu eu gwasanaethau preifat eu hunain, i fusnesau, yn eu hamser eu hunain, o fewn ardal yr Awdurdod Bwyd sy'n eu cyflogi neu o fewn ardaloedd Awdurdodau Bwyd eraill sy'n cysylltu â'r awdurdod sy'n cyflogi ar faterion gorfodi
  - yn osgoi hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdodau Bwyd yn unig, os oes darparwyr eraill o'r gwasanaethau hynny i'w cael yn yr ardal, neu os yw'r gwasanaethau'n cael eu cynnig gan sefydliad gwahanol o'r tu allan i ardal
- yn golygu nad yw gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol yn codi o ganlyniad i gyfrifoldebau Prif Awdurdod, gwasanaethau dewisol y codir tâl amdanynt[18] neu gontractio gwasanaethau allan

---

[16] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[17] Erthygl 5 (1)(c) o Reoliad (UE) 2017/625
[18] Adran 93(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003

- yn darparu gwahaniad clir a thryloyw rhwng darparu unrhyw wasanaethau dewisol, megis cyngor neu hyfforddiant (p'un ai y codir tâl am neu beidio) a chyfrifoldeb yr Awdurdodau Bwyd i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill
- yn cynnwys prosesau fel bod penderfyniadau gorfodi'n rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau
- yn cynnwys manylion am y camau i'w cymryd pan nodir gwrthdaro buddiannau, neu ddarparu cyfeiriad at ddogfennau eraill lle gellir dod o hyd i'r manylion hyn

### 2.3.15 Gweithdrefn rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn(au) rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd:

- yn cwmpasu rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- yn cwmpasu ymchwilio i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- yn cael ei datblygu ar y cyd â'r holl sefydliadau perthnasol
- yn cael ei datblygu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog
- yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd gael eu cadw am chwe blynedd

## 2.4 Gofynion sy'n ymwneud â pholisïau wedi'u dogfennu

### 2.4.1 Polisi samplu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu polisi samplu:

- yn cael ei gyhoeddi ac ar gael yn rhwydd i fusnesau a defnyddwyr
- yn egluro dull cyffredinol yr Awdurdodau Bwyd o samplu bwyd, gan gynnwys samplau anfoddhaol
- yn egluro dulliau'r Awdurdodau Bwyd mewn sefyllfaoedd penodol megis:
  - gwyliadwriaeth
  - monitro bwyd a fewnforir
  - busnesau â chynllun arolygu a gyhoeddwyd gan y prif awdurdod
  - ymyriadau
  - cwynion
  - ymchwiliadau arbennig
  - rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol cydgysylltiedig
- yn cwmpasu'r holl samplau a gymerir gan gynnwys y rhai nas cymerir yn unol â'r Canllawiau Ymarfer
- yn manylu ar y ffactorau a ystyriwyd wrth lunio eu rhaglen samplu, gan gynnwys unrhyw faterion defnyddwyr cenedlaethol neu leol a fydd yn dylanwadu ar lefel y samplu sydd i'w wneud

- yn ymrwymo'r Awdurdod Bwyd i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei raglen samplu bwyd

### 2.4.2 Polisi gorfodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu polisi gorfodi:

- ar gael yn rhwydd i Weithredwyr Busnesau Bwyd (FBOs) a defnyddwyr
- yn cwmpasu pob maes o gyfraith bwyd y mae gan yr Awdurdod Bwyd ddyletswydd i'w orfodi
- yn rhoi manylion y dull o ymdrin â gorfodi, pryd ac ym mha amgylchiadau y mae camau gorfodi'n debygol o gael eu cymryd gan yr Awdurdod Bwyd, mewn perthynas â'r casgliad o gamau gorfodi sydd ar gael
- yn rhoi manylion y dull o ymdrin ag ailymweliadau, ac eithrio pan fo hyn wedi'i ddogfennu eisoes mewn polisi neu weithdrefn arall sy'n ofynnol o dan y Cod
- yn rhoi sylw i unrhyw gyngor a gyhoeddir gan yr ASB a CLILC
- ddim yn defnyddio nifer yr hysbysiadau gwella a gyflwynir nac achosion cyfreithiol, megis erlyniadau neu rybuddion syml, fel dangosydd o berfformiad
- wedi'i gymeradwyo gan fforwm aelodau perthnasol yr Awdurdod Bwyd neu, os yw cymeradwyo a rheoli cynlluniau darparu gwasanaethau wedi'i ddirprwyo i uwch swyddogion, gan yr uwch swyddog perthnasol
- yn rhoi manylion y trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd mewn sefydliadau lle mai'r Awdurdod Bwyd ei hun yw'r FBO, a lle y deuir o hyd i unrhyw achos difrifol o dorri cyfraith bwyd mewn sefydliad o'r fath, caiff ei ddwyn i sylw Prif Weithredwr yr Awdurdodau Bwyd yn ddi-oed

Gall Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Bwyd fod yn rhan o bolisi generig, neu fod wedi'i gyfuno â pholisïau gorfodi eraill, ar yr amod ei bod yn glir bod y polisi'n berthnasol i orfodi cyfraith bwyd.

Gall yr ASB gyhoeddi gohebiaeth i Awdurdodau Bwyd ar:

- bolisïau gorfodi newydd a/neu ddiwygiedig
- gwybodaeth am faterion diogelwch bwyd
- materion eraill sy'n gysylltiedig â gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol

Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd drefniadau i benderfynu pa gamau sy'n briodol ar ôl derbyn cyfathrebiadau o'r fath, a'u dwyn i sylw eu swyddogion awdurdodedig yn ôl yr angen.

### 2.4.3 Polisi cwynion

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu polisi cwynion:

- yn egluro dull yr Awdurdod Bwyd o ymdrin â derbyn, trin ac ymchwilio i gwynion am fwyd a sefydliadau busnes bwyd
- yn ymdrin â chwynion am fwyd sy'n tarddu o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU
- yn arwain at ymchwilio i gwynion a ddaw i law mewn modd sy'n unol â'r Cod, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd

## 2.5 Gofynion sy’n ymwneud â chynlluniau wedi’u dogfennu

### 2.5.1 Cynllun gwasanaeth

#### 2.5.1.1 Cyflwyniad

Mae cynlluniau gwasanaeth yn rhan bwysig o’r broses i sicrhau yr eir i’r afael â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol a’u darparu’n lleol. Mae cynlluniau gwasanaeth yn helpu Awdurdodau Bwyd i wneud y canlynol hefyd:

- dilyn egwyddorion rheoleiddio da
- canolbwyntio ar faterion a chanlyniadau cyflawni allweddol
- darparu cyswllt hanfodol â chynllunio corfforaethol ac ariannol
- gosod amcanion ar gyfer y dyfodol, a nodi materion pwysig sy’n croesi ffiniau gwasanaethau
- darparu dull o reoli perfformiad a gwneud cymariaethau perfformiad
- darparu gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau awdurdod i randdeiliaid, gan gynnwys busnesau a defnyddwyr

Wrth ddatblygu ei gynllun gwasanaeth, dylai Awdurdod Bwyd ei gwneud yn glir pa gyfnod y mae’r cynllun yn ei gwmpasu, a pha drefniadau sydd wedi’u rhoi ar waith ar gyfer adolygu a diweddaru’r cynllun yn rheolaidd.

#### 2.5.1.2 Fformat y cynllun gwasanaeth

Mae cynlluniau gwasanaeth yn fynegiant o ymrwymiad Awdurdodau Bwyd eu hunain i ddatblygu’r gwasanaeth bwyd. Fodd bynnag, mae’n bwysig ystyried y defnydd a wneir o’r cynlluniau gan yr ASB hefyd, a fydd yn gofyn am wybodaeth am weithgareddau rheoli bwyd swyddogol mewn fformat cyffredin i’w alluogi i asesu’r modd y mae Awdurdodau Bwyd yn darparu’r gwasanaeth.

Yn ogystal, gall cynlluniau gwasanaeth fod o ddefnydd i Awdurdodau Bwyd eraill a fydd yn gweld bod dadansoddiad a chymhariaeth o’u perfformiad cymharol yn cael ei hwyluso’n sylweddol gan fformat cyffredin. Felly, mae’r canllawiau hyn wedi’u strwythuro o ran fformat cyffredin gyda phenawdau penodau a phynciau wedi’u nodi, a disgrifiad cyffredinol o’r cynnwys a ddylai fod yn rhan o bob un. Fodd bynnag, nid oes bwriad i ddileu hyblygrwydd Awdurdodau Bwyd i gynnwys eitemau ychwanegol o dan benawdau penodol.

Cydnabyddir bod gan Awdurdodau Bwyd gynlluniau gwasanaeth ers blynyddoedd lawer ac y gall fod ganddynt arddull neu dempledi corfforaethol y maent yn dymuno eu cadw. Cydnabyddir hefyd fod rhai Awdurdodau Bwyd yn ymgymryd â’r prosesau cynllunio ac adolygu ar adegau gwahanol ac yn cyhoeddi canlyniadau’r adolygiad fel dogfen ar wahân. Mae rhai yn cynnwys eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth bwyd fel rhan o gynllun mwy ar gyfer gwasanaethau awdurdod. Er bod hyblygrwydd i Awdurdodau Bwyd barhau â fformat corfforaethol, rhaid iddynt sicrhau bod y gofynion gwybodaeth yn y Canllawiau Ymarfer yn cael eu cynnwys. Pan fo cynlluniau gwasanaeth bwyd yn rhan o gynlluniau corfforaethol ehangach, rhaid nodi’r manylion bwyd ar wahân yn eu dogfennau cynllunio.

Yn yr un modd, yn yr achosion hynny lle mae sawl awdurdod yn uno fel un awdurdod, dylent sicrhau bod gofynion y Canllawiau Ymarfer yn cael eu cynnwys a bod modd eu hadnabod ar wahân yn y dogfennau cynllunio ar gyfer yr awdurdod unedol newydd. Pan rennir gwasanaeth gorfodi rhwng awdurdodau, dylid gallu adnabod gofynion y Canllawiau Ymarfer yn y dogfennau cynllunio ar gyfer pob awdurdod.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd:

- gynnal adolygiadau perfformiad ansoddol a meintiol o gyflawni yn erbyn y cynllun, o leiaf unwaith y flwyddyn, a rhaid eu cofnodi[19]
- cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo, boed hynny ar lefel Aelod, fforwm Aelodau neu uwch swyddogion sydd wedi'u dirprwyo'n briodol. Gellir teilwra'r cynllun hwn i weddu i'r gynulleidfa (er enghraifft adroddiad cryno i aelodau) ar yr amod bod cynllun yn bodoli hefyd sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn adran 2.6.1.3
- cadw cofnodion i ddangos bod cynlluniau wedi cael cymeradwyaeth briodol
- sicrhau bod eu cynllun gwasanaeth:
  - yn egluro sut ac ar ba lefel y darperir rheolaethau bwyd swyddogol, yn unol â'r Cod
  - yn rhoi sylw i unrhyw gyngor a gyhoeddir gan yr ASB a CLILC
  - yn cwmpasu pob cam o'r gadwyn fwyd a sectorau'r diwydiant bwyd, lle bo hynny'n berthnasol
  - ar gael yn rhwydd i FBOs a defnyddwyr
  - yn nodi'n glir hyd y cyfnod y mae'r cynllun ar waith
  - yn cwmpasu'r pump maes canlynol yn adran 2.6.1.3[20]
- yn cael ei ddrafftio yn unol â'r canllawiau, a nodir yn adran 2.6.1.3 o'r Canllawiau Ymarfer, gan ystyried y canlynol a chyfeirio atynt, lle y bo'n berthnasol:
  - pob mater gorfodi cyfraith bwyd (gan gynnwys rheolaethau mewnforio) ac yn ystyried gofynion ac argaeledd adnoddau (gan gynnwys unrhyw ddiffyg) i gyflawni'r rhaglen ymyrraeth arfaethedig, gan gynnwys capasiti a darpariaeth y tu allan i oriau
  - dull yr Awdurdodau Bwyd o ymdrin â gorfodi
  - sut y caiff sefydliadau busnes bwyd newydd eu nodi a sut y cânt eu cynnwys yn rhaglen ymyrraeth arfaethedig yr Awdurdodau Bwyd
  - y dull o ymdrin ag ailymweliadau a gorfodi (oni bai ei fod wedi'i gynnwys ym mholisi gorfodi'r Awdurdodau Bwyd)

---

[19] Pennod 2, Paragraff 3.2 o'r Cytundeb Fframwaith

[20] Fodd bynnag, gall pob Awdurdod Bwyd ddewis ei ffordd ei hun o lunio'r cynlluniau hyn – megis rhoi rhai agweddau mewn cynlluniau rheoli, a rhai mewn cynlluniau gweithredol

- sut y caiff ansawdd gwasanaeth Awdurdodau Bwyd ei asesu a'i fonitro gan gynnwys nodi gwallau mewn cronfeydd data, adolygu targedau blynyddol, a nodi problemau o ran cysondeb a chymhwysedd
- manylion unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r cynllun, o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a sut y cynigir mynd i'r afael â hyn[21]
- datganiad mewn perthynas â pholisi samplu'r Awdurdodau Bwyd gan gynnwys sail y rhaglen samplu
- yn rhoi manylion ynghylch sut y caiff rhaglenni samplu/ymyrryd a gweithgareddau gorfodi eu datblygu a'u gweithredu gan roi ystyriaeth briodol i'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol (NEPs), y mae'n rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth am unrhyw weithgareddau penodol a gynhelir i'w gweithredu (gall hyn fod yn rhestr pwyntiau bwled syml o weithgareddau arfaethedig)
- pa ffynonellau gwybodaeth lleol a/neu ranbarthol y mae'r Awdurdod Bwyd wedi'u hystyried wrth gynllunio eu rheolaethau bwyd swyddogol
- yn rhoi manylion cynlluniau'r Awdurdodau Bwyd ar gyfer gwelliant parhaus
- yn rhoi manylion y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer adolygu a diweddaru'r cynllun yn rheolaidd
- pa arian grant, os o gwbl, sydd ar gael gan yr ASB a ddyrannwyd i'r Awdurdod Bwyd a'i ddefnyddio

Gall yr ASB ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd adolygu eu cynllun gwasanaeth, er enghraifft i ddarparu ar gyfer gwaith astudiaethau dichonoldeb cymeradwy, cynlluniau peilot neu brosiectau braenaru.

Bydd yr ASB yn cyfleu unrhyw waith perthnasol a allai effeithio ar gynlluniau gwasanaeth i'r Awdurdod Bwyd fel y gellir eu hadolygu.

[21] Pennod 2, Paragraff 3.3 o'r Cytundeb Fframwaith

### 2.5.1.3 Templed cynllun gwasanaeth

**1. Nodau ac Amcanion Gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| 1.1 Nodau ac amcanion | Datganiad o nodau ac amcanion y gwasanaeth. |
| 1.2 Cysylltiadau ag amcanion a chynlluniau corfforaethol | Dylai'r adran hon nodi sut mae'r cynllun(iau) gwasanaeth yn cyd-fynd â phroses cynllunio corfforaethol yr Awdurdod Bwyd a sut y mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion yr Awdurdod Bwyd. Dylai hyn gynnwys bodloni unrhyw ddangosydd cenedlaethol perthnasol. Dylai nodi unrhyw drawsgysylltiad â chynlluniau eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod Bwyd hefyd. |

**2. Cefndir**

| | |
|---|---|
| 2.1 Proffil yr Awdurdod Bwyd | Dylai'r adran hon gynnwys manylion poblogaeth, maint a natur yr Awdurdod Bwyd. |
| 2.2 Strwythur sefydliadol | Siart syml sy'n dangos gwasanaethau'r cyngor a strwythur y pwyllgorau sy'n dangos lle mae'r gwasanaeth bwyd yn perthyn. Dylai'r strwythur nodi'r rheolwr/rheolwyr sy'n gyfrifol am ddarparu rheolaethau bwyd swyddogol a'r swyddog(ion) sydd â chyfrifoldeb arbenigol am hylendid bwyd a/neu safonau bwyd os yw'n wahanol, a'r ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir, er enghraifft, gan ddadansoddwyr cyhoeddus ac archwilwyr bwyd. |
| 2.3 Cwmpas y gwasanaeth bwyd | Datganiad byr sy'n nodi cwmpas y cyfrifoldebau a'r gwasanaeth a ddarperir. Dylai hyn nodi lle mae rhannau o'r gwasanaeth bwyd yn cael eu darparu gan sefydliad arall, er enghraifft contractwyr. Gellir disgrifio unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir ochr yn ochr â'r gwasanaeth bwyd, er enghraifft arolygiadau iechyd a diogelwch, yma. |
| 2.4 Y galw ar y gwasanaeth bwyd | Dylai'r adran hon gynnwys amlinelliad byr o'r canlynol:<br>• proffil y sefydliadau<br>• nifer y sefydliadau cymeradwy neu gofrestredig yn ardal yr Awdurdod Bwyd<br>• unrhyw ofynion lleol penodol sy'n gysylltiedig â phrosesau arbenigol neu gymhleth<br>• y pwyntiau darparu gwasanaeth a ddefnyddir gan yr Awdurdod Bwyd |

| | |
|---|---|
| | • yr adegau y mae'r gwasanaeth ar gael o'r pwyntiau hyn<br>Mae'r adran hon yn galluogi'r Awdurdod Bwyd i ddisgrifio unrhyw ffactorau allanol a allai effeithio ar eu gwasanaeth hefyd, er enghraifft:<br>• canran y perchnogion busnes nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf<br>• canran y sefydliadau bwyd sy'n gweithgynhyrchu bwydydd<br>• cyfrifoldebau bwyd a fewnforir<br>• gweithgareddau tymhorol |
| 2.5 Polisi rheoleiddio | Datganiad cyfeirio byr at bolisi gorfodi cofnodedig yr Awdurdod Bwyd. |

**3. Cyflenwi gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| 3.1 Ymyriadau mewn sefydliadau bwyd | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ar ymyriadau a sut y cânt eu dewis mewn achosion unigol, gan gynnwys manylion y rhaglen ymyriadau mewn sefydliadau bwyd sydd i'w chynnal. Dylai hyn gynnwys:<br>• proffil y sefydliadau<br>• nifer yr ymyriadau a drefnwyd<br>• amcangyfrif o nifer yr ailymweliadau a wneir<br>• amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen er enghraifft staffio<br>Dylai'r cynllun fanylu hefyd ar unrhyw weithgarwch ymyrryd wedi'i dargedu y mae'r Awdurdod Bwyd yn bwriadu ei gyflawni gan gynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol a allai fod yn ofynnol ar gyfer hyn; gallai hyn gynnwys gwaith prosiect penodol.<br>Dylai'r Awdurdod Bwyd nodi unrhyw flaenoriaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau a gaiff eu llywio'n genedlaethol neu'n lleol, megis cydymffurfio â deddfwriaeth newydd neu gydymffurfio'n well â deddfwriaeth bresennol a mentrau eraill y llywodraeth ganolog.<br>Dylai'r adran gynnwys, lle y bo'n briodol, y trefniadau y mae'r Awdurdod Bwyd wedi'u gwneud i sicrhau bod ganddynt fynediad at arbenigedd priodol digonol i alluogi arolygu unrhyw brosesau arbenigol a nodir yn Adran 2 mewn modd cymwys. |

| | |
|---|---|
| 3.2 Cwynion am fwyd | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ynghylch ymchwilio i gwynion bwyd gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o'r galw tebygol ar y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen. |
| 3.3 Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ar egwyddor yr Awdurdod Cartref a, lle y bo'n berthnasol, y Prif Awdurdod, gan gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen mewn perthynas â chyfarfod a chynghori'r busnesau hynny y mae'n gweithredu ar eu rhan, datblygu cynlluniau arolygu ar gyfer y busnesau hynny y mae'n Brif Awdurdod iddynt, ac ymateb i hysbysiadau ac ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill. Dylai'r datganiad gynnwys manylion am sut y bydd adnoddau ar gael ar gyfer cyflawni hefyd. |
| 3.4 Cyngor i fusnesau | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ynghylch cyngor i fusnesau (fel rhan o bolisi cyffredinol ymyriadau) gan gynnwys amcangyfrif o nifer y cysylltiadau gan fusnesau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth. Dylai'r adran hon gynnwys, lle y bo'n briodol, unrhyw fewnbwn sydd gan yr Awdurdod Bwyd i bartneriaethau neu fforymau busnes. |
| 3.5 Samplu bwyd | Datganiad mewn perthynas â pholisi samplu'r Awdurdod Bwyd, gan gynnwys sail y rhaglen samplu ac amcangyfrif o nifer y samplau a gymerir o sefydliadau, neu a gyflwynir mewn perthynas â chwynion, ac unrhyw ddyraniad adnoddau perthnasol gan gynnwys staffio. Dylai fanylu hefyd ar y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio'r samplau. |
| 3.6 Digwyddiadau diogelwch bwyd | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ar ymdrin â rhybuddion bwyd i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol; amcangyfrif o'r galw tebygol ar y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen. |
| 3.7 Cysylltu â sefydliadau eraill | Dylai'r Awdurdod Bwyd egluro'r trefniadau y mae wedi'u gwneud i sicrhau bod camau gorfodi a gymerir yn ei ardal yn gyson â rhai Awdurdodau Bwyd cyfagos. Dylai'r adran hon gynnwys:<br>• unrhyw gyswllt sydd gan yr Awdurdod Bwyd ag Awdurdodau Bwyd eraill<br>• unrhyw gyswllt, lle bo'n briodol, â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) |

| | |
|---|---|
| | • unrhyw drefniadau gyda chyrff rheoli swyddogol eraill neu arolygiaethau'r llywodraeth i gydlynu rheolaethau bwyd<br>• unrhyw gynrychiolaeth ar weithgorau neu bwyllgorau'r Llywodraeth<br>• cysylltu â gweithgorau cyrff proffesiynol<br>• cysywllt a chyfranogiad gyda grwpiau cynghori cyswllt bwyd perthnasol a chyrff tebyg neu gysylltiedig<br>• unrhyw gyswllt ffurfiol â grwpiau gwirfoddol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus<br>• unrhyw gyswllt ffurfiol â gwasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod<br>• unrhyw ymrwymiad i grwpiau lleol/rhanbarthol<br>• amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau |
| 3.8 Gwaith hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd | Datganiad am unrhyw waith hyrwyddo diogelwch/safonau bwyd, neu waith casglu gwybodaeth, y mae'r Awdurdod Bwyd yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn a'r mesurau y bydd yn eu defnyddio i werthuso ei effeithiolrwydd, gydag amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau gan gynnwys staffio i ymgymryd â'r gwaith hwn. |
| 3.9 Rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd | Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Bwyd ar ymchwilio i hysbysiadau gwenwyn bwyd a rheoli achosion gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o alw tebygol ar y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen. |

**4. Adnoddau**

| | |
|---|---|
| 4.1 Dyraniad ariannol | Dylai'r adran hon nodi lefel gyffredinol y gwariant sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ac archwilio'r duedd o dwf neu ostyngiad mewn termau real. Darperir manylion o ran y costau nad ydynt yn rhai sefydlog gan gynnwys staffio, teithio a chynhaliaeth, offer gan gynnwys buddsoddi mewn TG, cyllidebau samplu a'r ddarpariaeth ariannol a wneir gan yr Awdurdod Bwyd ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol sy'n angenrheidiol fel rhan o'i swyddogaeth orfodi. |
| 4.2 Dyraniad staffio | Datganiad am nifer y swyddi sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth, ac am nifer y staff sy'n gweithio |

| | |
|---|---|
| | ar orfodi cyfraith bwyd a materion cysylltiedig (o ran swyddi cyfwerth ag amser llawn); dylai hyn wahaniaethu rhwng staff cymwysedig a staff cymorth. Dylid mynegi'r ffigurau hyn o ran lefelau cymhwysedd gan gyfeirio at y Cod, gan gynnwys staff cymorth. |
| 4.3 Cynllun datblygu staff | Datganiad mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant parhaus perthnasol, gan gynnwys yr hyn sydd i'w ddarparu'n fewnol ac yn allanol ar gyfer swyddogion awdurdodedig a rhai dan hyfforddiant yn y flwyddyn i ddod. |

**5. Asesu Ansawdd**

| | |
|---|---|
| 5.1 Asesu ansawdd a monitro mewnol | Datganiad yn nodi'r mesurau sydd i'w rhoi ar waith i asesu ansawdd gwasanaeth yr Awdurdod Bwyd, gan gynnwys unrhyw drefniadau monitro perthnasol a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Bwyd i asesu perfformiad yn erbyn y Safon. Dylai hyn gynnwys unrhyw drefniadau archwilio rhyng-awdurdod neu adolygu gan gymheiriaid y cytunwyd arnynt. Bydd yr Awdurdod Bwyd yn dymuno cynnwys manylion unrhyw fodelau achrededig neu hunanasesu allanol a ddefnyddir hefyd. |

**6. Adolygu**

| | |
|---|---|
| 6.1 Adolygu yn erbyn y cynllun gwasanaeth | Dylai'r Awdurdod Bwyd egluro'r broses ar gyfer adolygu ac adrodd ar y modd y darperir y cynllun gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau perfformiad a safonau perfformiad penodedig a chanlyniadau wedi'u targedu. |
| 6.2 Nodi unrhyw amrywiad oddi wrth y cynllun gwasanaeth | Dylai'r adolygiad nodi lle'r oedd yr Awdurdod Bwyd yn gweithredu'n wahanol i'w gynllun gwasanaeth a, lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y gwahaniaeth hwnnw. Gall yr Awdurdod Bwyd benderfynu bod gwaith ychwanegol y mae wedi'i wneud mewn meysydd eraill o'r darpariaethau gorfodi wedi cyflawni'r un amcan. Dylid nodi hyn yn glir yn y rhan hon o'r cynllun. |
| 6.3 Meysydd i'w gwella | Dylai'r Awdurdod Bwyd egluro cynlluniau ar gyfer unrhyw welliant neu ddatblygiad gwasanaeth perthnasol y nodwyd ei fod yn angenrheidiol gan yr adolygiad neu'r asesiad ansawdd. |

### 2.5.2 Cynlluniau wrth gefn

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu cynllun wrth gefn:

- yn rhoi manylion am yr Awdurdodau Bwyd a'r asiantaethau eraill sydd i gymryd rhan
- yn egluro pwerau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Bwyd a'r asiantaethau hynny
- yn rhoi manylion am y sianeli a'r gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdodau Bwyd a'r asiantaethau dan sylw
- yn cwmpasu trefniadau ar gyfer achlysuron pan fo swyddogion awdurdodedig yn absennol, er enghraifft, os mai dim ond un swyddog sydd wedi'i awdurdodi i ymgymryd â rheolaethau penodol, gallai'r trefniadau hyn gynnwys swyddogion mewn Awdurdodau Bwyd eraill yn cael eu hawdurdodi dros dro i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn

## 2.6 Gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni a strategaethau wedi'u dogfennu

### 2.6.1 Rhaglen ymyrraeth

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu rhaglen ymyrraeth:

- yn darparu rhaglen ymyriadau briodol ac effeithiol[22] sy'n seiliedig ar risg[23] yn unol â'r Cod
- yn cynnwys yr holl sefydliadau a busnesau bwyd cofrestredig sydd wedi'u cymeradwyo
- yn seiliedig ar y cynllun sgorio ymyrraeth perthnasol (hylendid bwyd a/neu safonau bwyd) a benderfynir yn unol â Phennod 4 o'r Cod
- yn cymhwyso rheolaethau bwyd swyddogol i allforion gyda'r un gofal ag y mae eu cymhwyso i'r farchnad yn y Deyrnas Unedig yn darparu mecanweithiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion awdurdodedig:
  - roi sylw i gyngor gwarantedig Prif Awdurdodau
  - dilyn cynlluniau arolygu
- yn defnyddio gwybodaeth a roddwyd iddynt gan FBOs mewn cysylltiad â chofrestru neu wneud cais i gymeradwyo eu sefydliadau busnes bwyd er mwyn penderfynu pryd i gynnal ymyriadau
- wedi'i gynllunio fel bod sefydliadau'n derbyn ymyriad heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad perthnasol a nodir ym Mhennod 4 o'r Cod
- yn cael digon o adnoddau

Gall yr ASB:

- gynghori Awdurdodau Bwyd i wyro oddi wrth eu rhaglen ymyrraeth, er enghraifft:
- i ddarparu ar gyfer gwaith astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau peilot, neu brosiectau braenaru cymeradwy

[22] Erthygl 5(1)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[23] Erthygl 9(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- mewn ymateb i ddigwyddiad sy’n dod i’r amlwg neu raglen waith genedlaethol

Bydd yr ASB yn cyfleu unrhyw waith perthnasol a allai effeithio ar raglenni ymyrraeth i Awdurdodau Bwyd fel y gellir adolygu rhaglenni ymyrraeth. Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â’r ASB os yw cyngor o’r fath yn amharu’n sylweddol ar eu gallu i ddarparu rhaglen ymyrraeth sy’n seiliedig ar risg.

Gall ardaloedd Awdurdod Bwyd un haen ddewis seilio eu rhaglen ymyrraeth arfaethedig ar y cynllun asesu risg hylendid bwyd o dan y Cod. Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy’n arfer yr opsiwn hwn sicrhau bod:

- ymyriadau’n ystyried hylendid bwyd a safonau bwyd
- ymyriadau ddim yn digwydd yn llai aml nag a fyddai wedi digwydd pe bai’r ddau gynllun wedi’u defnyddio
- asesiad risg safonau bwyd yn cael ei gwblhau a’i gofnodi

### 2.6.2 Rhaglen samplu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu rhaglen samplu[24]:

- yn rhoi manylion y blaenoriaethau samplu bwyd arfaethedig
- yn seiliedig ar risg[25] ac yn ystyried:
  - nifer, math, maint a sgoriau ymyrraeth sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal
  - y math o fwyd a gynhyrchir yn yr ardal
  - y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y busnes bwyd i sicrhau cydymffurfiaeth
  - bwydydd a fewnforir
  - cyfrifoldebau Prif Awdurdod, Awdurdod Cartref neu awdurdod gwreiddiol Awdurdodau Bwyd
  - yr angen i sicrhau bod darpariaethau cyfraith bwyd yn cael eu gorfodi
  - wedi’i chynllunio i osgoi bwydydd sydd eisoes yn cael eu hystyried ar lefel ehangach, er enghraifft y rhai a samplwyd fel rhan o reolaethau bwyd a fewnforir mewn Mannau Rheoli ar y Ffin (BCPS)
- yn ystyried prif amcanion samplu bwyd:
  - diogelu iechyd
  - canfod gweithgareddau dichellgar (*deceptive*) a thwyllodrus
  - cydymffurfio â gofynion labelu
  - rhoi cyngor i FBOs
  - hyrwyddo masnach deg ac atal arferion gwael
- yn ystyried y canlynol i sicrhau bod y rhaglen samplu’n effeithiol:
  - ai’r Awdurdod Bwyd yw’r Prif Awdurdod neu’r awdurdod gwreiddiol ar gyfer unrhyw safle bwyd sy’n masnachu bwyd anarferol
  - a oes gweithgynhyrchwyr bwyd yn yr ardal

[24] Erthygl 34 o Reoliad (UE) 2017/625
[25] Erthygl 9(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- a oes unrhyw ganolfannau dosbarthu sy’n danfon bwyd i ardal eang
- y math o ychwanegion bwyd y mae FBOs (er enghraifft gweithgynhyrchwyr bwyd, a mewnforwyr) yn eu defnyddio yn yr ardal
- a yw Rhaglenni Samplu cenedlaethol yn amlygu unrhyw fathau o fwyd sy’n ymwneud â safleoedd penodol yn yr ardal
- blaenoriaethau/arolygon cenedlaethol neu ranbarthol bwyd a fewnforir a Chynllun Rheoli Cenedlaethol y DU

O ran bwyd a fewnforir, dylai’r rhaglen samplu ystyried:

- unrhyw ofynion statudol ar gyfer samplu a nodir yng Nghyfraith yr UE a Ddargedwir
- unrhyw raglenni samplu CLlLC/ASB y cytunwyd arnynt
- unrhyw samplu sy’n ofynnol yn dilyn Rhybudd Bwyd, System Rhybuddio Cynnar (EWS) neu hysbysiad perthnasol
- gwybodaeth gan unrhyw Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grŵp cyswllt rhanbarthol, arolwg samplu lleol neu arolwg samplu arall
- unrhyw fwyd a fewnforir lle nad oes hanes na gwybodaeth hysbys am y cynnyrch
- blaenoriaethau lleol, gan gynnwys cwynion defnyddwyr sy’n ymwneud â bwyd a fewnforir

Rhaid ystyried y materion canlynol sy’n ymwneud â risg ar gyfer pob sampl a gymerir hefyd:

- difrifoldeb effaith unrhyw fai gyda’r bwyd
- y tebygolrwydd y bydd y bai’n digwydd
- y patrwm bwyta sy’n berthnasol i’r bwyd
- y graddau a’r dosbarthiad
- graddau’r rheolaeth a’r monitro gan y gweithgynhyrchwr ar gyfer pob bai posibl
- y cam yn y gadwyn gynhyrchu a dosbarthu lle gall y broblem ddigwydd neu y gellid ei chanfod yn haws
- hanes cydymffurfio busnes bwyd
- cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol sy’n dod i’r amlwg
- pryderon defnyddwyr a busnesau lleol

### 2.6.3 Rhaglen hyfforddi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu rhaglen hyfforddi[26]

- yn egluro sut y bydd swyddogion awdurdodedig sy’n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau’n gymwys ac sy’n briodol i lefel eu hawdurdodiad

[26] Erthygl 5(4) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn nodi'r broses ar gyfer adolygu DPP ac anghenion hyfforddi, fel bod swyddogion awdurdodedig yn cadw eu meysydd cymhwysedd yn gyfredol
- yn cynnwys y broses ar gyfer nodi anghenion hyfforddi ychwanegol
- yn cynnwys hyfforddiant ar bynciau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II Rheoliad (UE) 2017/625
- yn cynnwys, lle y bo'n briodol, hyfforddiant i staff sy'n cynnal gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) mewn BCPs ar bynciau fel y nodir ym Mhennod 3
- yn darparu sut y cedwir cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a DPP parhaus

Gellir cynnwys y rhaglen hyfforddi hon yn y weithdrefn awdurdodi.

### 2.6.4 Strategaeth orfodi amgen

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n penderfynu rhoi strategaethau gorfodi amgen ar waith ar gyfer sefydliadau busnes bwyd sicrhau bod eu strategaeth orfodi amgen:

- yn egluro eu strategaethau ar gyfer cynnal gwyliadwriaeth ar y sefydliadau hyn naill ai yn eu cynllun gwasanaeth neu eu polisi gorfodi, a allai gynnwys defnyddio:
  - holiaduron
  - arolygon
  - arolygiadau sy'n seiliedig ar brosiectau (a fyddai'n cael eu cyfuno â math arall o ymyriad fel arfer)
  - ymweliadau casglu gwybodaeth
- ddim yn caniatáu i strategaethau gorfodi amgen gael eu defnyddio ar gyfer sefydliadau busnes bwyd sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004
- ddim yn atal arolygiad llawn, arolygiad rhannol nac archwiliad o'r sefydliadau, lle mai'r rhain yw'r opsiwn ymyrraeth a ffefrir gan yr Awdurdodau Bwyd
- yn cynnwys mesurau i sefydlu bod sefydliadau busnes bwyd yn destun arolygiad cychwynnol ac yn cael eu graddio ar sail risg yn unol â Phennod 4 o'r Cod, cyn penderfynu bod strategaethau gorfodi amgen yn briodol
- yn caniatáu i ymyriadau gael eu cynnal mewn sefydliadau sy'n destun strategaethau gorfodi amgen lle bu:
  - cwyn gan ddefnyddwyr
  - ceisiadau cynllunio neu reoliadau adeiladau
  - hysbysiad o glefyd heintus
  - newidiadau mewn gweithgareddau neu reolaeth
  - holiadur heb ei ddychwelyd
- yn cynnwys mesurau i sefydlu bod canran ar hap o'r busnesau hyn yn destun arolygiad

## 2.7 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

### 2.7.1 Cyswllt

Mae Pennod 2 o'r Cod yn darparu bod yn rhaid i Awdurdodau Bwyd ymateb i unrhyw ohebiaeth resymol gan Awdurdodau Bwyd eraill yn gofyn am wybodaeth neu gymorth. Gall enghreifftiau o pryd y gall Awdurdodau Bwyd ofyn am wybodaeth neu gymorth gynnwys:

- atgyfeiriadau am faterion neu bryderon gorfodi trawsffiniol
- atgyfeiriadau am gwynion bwyd a adroddwyd i Awdurdod Bwyd
- gwybodaeth i helpu i gydgysylltu gweithgareddau gorfodi/rheoli clefydau heintus
- gwybodaeth i helpu Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am gyflawni rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol i sicrhau bod cofrestri o sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid yn gyflawn ac yn gywir mewn perthynas â busnesau sy'n cynhyrchu neu'n rhoi cynhyrchion ar y farchnad i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid

Ar ôl i gais neu atgyfeiriad ddod i law, dylai Awdurdod Bwyd gymryd y camau canlynol:

- cydnabod derbyn y cyfathrebiad a chynghori'r Awdurdod Bwyd gwreiddiol bod y mater yn cael sylw
- ymchwilio a/neu gymryd camau gorfodi priodol, os oes angen
- hysbysu'r Awdurdod Bwyd gwreiddiol am unrhyw gamau a gymerwyd
- sicrhau bod ymatebion i geisiadau yn agored, yn dryloyw ac yn cael eu darparu heb oedi diangen
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Awdurdod Bwyd gwreiddiol am gynnydd, yn enwedig pan fydd camau gweithredu'n parhau, ac na fydd y canlyniad yn hysbys am beth amser

### 2.7.2 Pwyntiau mynediad cyswllt

Mae Pennod 2 o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd sydd â phwyntiau mynediad neu Gyfleusterau Storio Allanol Dros Dro (ETSF) gysylltu â sefydliadau lleol perthnasol. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys, lle y bo'n briodol:

- Awdurdodau Bwyd cyfagos (yn enwedig ar gyfer byrddau a phorthladdoedd ar y cyd, sy'n dod o dan awdurdodaeth mwy nag un Awdurdod Bwyd, gan gynnwys Cynghorau Sir ar gyfer rhai cyfrifoldebau Safonau Masnach)
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)
- Llu'r Ffiniau
- Timau Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl (CITES)
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)
- Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA)
- gweithredwr porthladd

- asiantau mewnforio
- Gweithredwyr Cyfleusterau Storio Dros Dro Mewnol
- Gweithredwyr Cyfleusterau Storio Dros Dro Allanol
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)
- Prif Awdurdodau perthnasol

## 2.8 Prif Awdurdod

### 2.8.1 Cynllun Prif Awdurdodau

Nodir egwyddorion Prif Awdurdod yn rhannau 1 a 2 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau (RESA) 2008 ac fe'u gweinyddir gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) ar ran Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae'r ASB yn gweithio gydag OPSS yn ei gwaith i gefnogi'r gwaith o ddarparu Prif Awdurdod i reoleiddwyr bwyd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng Awdurdodau Bwyd ac osgoi dyblygu ymdrech reoleiddiol yn ddiangen.

Mae'r cynllun yn rhoi'r hawl i fusnesau ffurfio partneriaeth statudol gydag unrhyw Awdurdod Bwyd, sydd wedyn yn rhoi cyngor cadarn a dibynadwy y mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd eraill ei barchu.

Gall Prif Awdurdod gefnogi ei fusnes partner i gydymffurfio â rheoliadau drwy:

- gyhoeddi cyngor sicr
- cydlynu camau gorfodi
- datblygu cynllun arolygu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i'r Prif Awdurdod ac i Ganllawiau Statudol Prif Awdurdodau BEIS, yn benodol i Ran E, sy'n rhoi arweiniad ar eu cyfrifoldebau fel 'awdurdodau gorfodi' o fewn Prif Awdurdod.

### 2.8.2 Nodi busnesau mewn Prif Awdurdod

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i Brif Awdurdod wrth gynllunio a chyflawni rheolaethau bwyd swyddogol; er enghraifft, drwy ddefnyddio system TG ddiogel y cynllun fel mater o drefn i benderfynu a oes gan fusnesau y maent yn ymdrin â hwy bartneriaethau Prif Awdurdod. Dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr Prif Awdurdodau i benderfynu a oes gan fusnesau y maent yn ymdrin â hwy bartneriaethau Prif Awdurdod.

Dylid defnyddi'r Gofrestr Prif Awdurdodau hefyd i nodi a yw cyngor Prif Awdurdod wedi'i roi gan y Prif Awdurdod i fusnesau ac a oes cynllun arolygu ar waith.

### 2.8.3 Cynlluniau arolygu

Gall Prif Awdurdodau lunio cynllun arolygu ar gyfer y busnes(au) yn eu partneriaeth. Mae cynllun arolygu yn helpu i arwain awdurdodau gorfodi drwy eu proses arolygu a gwiriadau eraill, megis ymweliadau samplu a phrynu profion, gan ganolbwyntio gweithgarwch lle y mae ei angen fwyaf.

Rhaid i gynllun arolygu gael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn ei gyhoeddi yn ardal ddiogel y Gofrestr Prif Awdurdodau i reoleiddwyr ei weld. Dylai Swyddogion Awdurdodedig wirio'r Gofrestr Prif Awdurdodau i nodi a oes cynllun arolygu yn bodoli ar gyfer busnes cyn iddynt gyflawni rheolaeth swyddogol.

Pan gyhoeddir cynllun arolygu gan y Prif Awdurdod, rhaid i Swyddogion Awdurdodedig ei ddilyn a rhoi adborth i'r Prif Awdurdod os oes angen, ac eithrio mewn amgylchiadau lle:

- gwnaed cais i ddilyn dull amgen i'r Prif Awdurdod, ac mae'r Prif Awdurdod naill ai wedi cytuno neu wedi methu ag ymateb o fewn y cyfnod gofynnol o 5 diwrnod gwaith
- nodir diffyg cydymffurfio posibl yn ystod ymyriad rhagweithiol y mae angen mynd i'r afael ag ef

#### 2.8.4 Materion cydymffurfio a chamau gorfodi

Pan fo Awdurdod Bwyd yn ystyried ei ymateb i ddiffyg cydymffurfio posibl gan fusnes sydd â Phrif Awdurdod, dylai ystyried unrhyw gyngor gan Brif Awdurdod a roddir ac ystyried cyfathrebu priodol â'r Prif Awdurdod yn gynnar.

Os rhagwelir camau gorfodi[27], rhaid i'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r Prif Awdurdod, yn unol â gofynion statudol y Prif Awdurdod. Dylid hysbysu drwy'r Gofrestr Prif Awdurdodau.

Yn y rhan fwyaf o achosion dylid gwneud hyn cyn cymryd camau, ac eithrio pan fo angen dybryd i osgoi risg sylweddol o niwed i iechyd pobl, yr amgylchedd neu fuddiannau ariannol defnyddwyr, lle mae'n rhaid hysbysu'r camau gorfodi'n ôl-weithredol.

Mae hysbysiad yn caniatáu i'r Prif Awdurdod adolygu'r camau gorfodi arfaethedig a phenderfynu a yw'n anghyson â'r cyngor a roddir gan y Prif Awdurdod. Gall Prif Awdurdod gyfarwyddo yn erbyn unrhyw gamau gorfodi os ystyrir bod y camau gweithredu'n anghyson â'r cyngor a roddwyd.

Pan fo anghytundeb rhwng unrhyw un o'r tri pharti – y Prif Awdurdod, yr awdurdod gorfodi, a'r busnes – ynghylch a yw'r camau gorfodi arfaethedig yn anghyson â chyngor y Prif Awdurdod ac a oedd y cyngor hwnnw'n gywir ac wedi'i roi'n briodol gan y Prif Awdurdod, ymgynghorir â'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd yn gwneud penderfyniad.

Ceir rhagor o fanylion yng Nghanllawiau Statudol Awdurdod Sylfaenol BEIS.

#### 2.8.5 Rheoleiddiwr ategol

Daeth yr ASB yn rheoleiddiwr ategol Prif Awdurdodau ar 1 Hydref 2017 yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Menter 2016. Gall Prif Awdurdodau geisio

[27] Fe'i diffinnir yn Rheoliad 5 o Reoliadau Cydgysylltu Gorfodi Rheoleiddiol 2017 (CORE)

cymorth gan reoleiddwyr ategol mewn perthynas â darparu Cyngor Prif Awdurdod neu ddatblygu a rheoli cynllun arolygu.

Mae canllawiau pellach a thempled cais ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB..

## 2.9 Cyfleusterau ac offer

Dylai Awdurdodau Bwyd:

- roi'r offer a'r cyfleusterau angenrheidiol i swyddogion i'w galluogi i gyflawni'r casgliad llawn o reolaethau bwyd:
  - yn gymwys
  - yn unol â chyfraith bwyd
  - yn unol â gofynion y Cod
  - darparu dillad amddiffynnol glân i swyddogion sy'n cynnal ymyriadau, gan gynnwys penwisg, sy'n gyson ag arferion da yn y diwydiant
- ei gwneud yn ofynnol i swyddogion, wrth arolygu busnesau:
  - wisgo dillad amddiffynnol, pan fo angen
  - rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol am eu statws iechyd pan ofynnir amdani
  - cydymffurfio ag unrhyw ragofalon rhesymol sy'n ofynnol gan y busnes

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i offer priodol fod ar gael, sy'n golygu y gellir ei rannu ag Awdurdodau Bwyd eraill, ar yr amod y bydd ar gael yn rhwydd i'w defnyddio, pan fo angen, er mwyn peidio ag amharu ar ddarparu rheolaethau bwyd swyddogol yn effeithiol.

## 2.10 Cyfeiriadau e-bost gorfodi

Fel sy'n ofynnol gan Bennod 2 o'r Cod, rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r ASB o'r cyfeiriad e-bost y gellir anfon gohebiaeth ato, drwy lasupportwales@food.gov.uk.

## 2.11 Cofrestru sefydliadau bwyd

### 2.11.1 Beth yw sefydliad busnes bwyd?

Mae Erthygl 2(1)(c) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn diffinio 'sefydliad' fel unrhyw uned o fusnes bwyd.

Ystyr 'busnes bwyd' fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yw unrhyw ymgymeriad, boed er elw ai peidio ac a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

Gall sefydliad busnes bwyd gynnwys unedau lle nad yw bwyd yn cael ei drin a'i drafod, ond lle gwneir penderfyniadau ar agweddau perthnasol ar y busnes bwyd megis symud/cludo a/neu labelu'r bwyd.

### 2.11.2 Pwy sy'n Weithredwr Busnes Bwyd (FBO)?

Mae erthygl 3(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yn diffinio FBO fel y personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd sydd o dan eu rheolaeth.

Mae **person naturiol** yn berson dynol, yn hytrach na pherson artiffisial neu gyfreithiol.

Mae gan **berson cyfreithiol** enw cyfreithiol ac mae ganddo hawliau, amddiffyniadau, breintiau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau o dan y gyfraith, yn union fel y mae gan bersonau naturiol (pobl). Mae personoliaeth gyfreithiol yn caniatáu i un neu fwy o bobl naturiol weithredu fel endid unigol (megis cwmni cyfyngedig - a ystyrir o dan y gyfraith ar wahân i'w aelodau neu gyfranddalwyr unigol) at ddibenion cyfreithiol.

Wrth ystyried pwy i'w gofrestru fel yr FBO o dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, dylai Awdurdodau Bwyd ofyn i'r FBO nodi eu hunain, gan gynnwys enw'r gweithredwr yn achos personau cyfreithiol, cyfeiriad a math o endid busnes ar y ffurflen gofrestru.

Diffinnir y mathau o endid busnes yn unol â'r system gyfreithiol ar gyfer gwlad unigol ond gallant gynnwys elusen, cwmni cyfyngedig, sefydliad neu ymddiriedolaeth sy'n ei weithredu, partneriaethau ac unig fasnachwyr.

### 2.11.3 Gofyniad i gofrestru sefydliad busnes bwyd

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, rhaid i FBOs gofrestru'r sefydliad(au) sydd o dan eu rheolaeth gyda'r Awdurdod Bwyd priodol.

Dylai Awdurdodau Bwyd gynghori FBOs i gyflwyno cofrestriad sefydliad bwyd o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau masnachu neu i'r gweithrediadau bwyd ddechrau.

Anogir Awdurdodau Bwyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fusnesau am y gofynion sy'n ymwneud â chofrestru.

Efallai y bydd sefyllfaoedd pan fydd FBO yn cofrestru fel busnes bwyd cyn 28 diwrnod cyn eu bod yn bwriadu dechrau gweithrediadau. Barn yr ASB yw y gallai Awdurdodau Bwyd, mewn amgylchiadau o'r fath, ei chael yn ddefnyddiol osgoi mewnbynnu cofrestriadau i'w cronfeydd data nes eu bod yn cael cadarnhad bod y busnesau hynny wedi dechrau neu eu bod ar fin dechrau gweithrediadau ar ddyddiad penodol. Gallai hyn olygu cadw cofnod dros dro o fusnesau o'r fath gyda gwiriadau cyfnodol i gadarnhau a ydynt wedi dechrau gweithrediadau bwyd.

Os yw cofrestru'n ymwneud â busnes sy'n cynnwys mwy nag un uned symudol, dylai'r FBO ddarparu manylion yr holl unedau symudol sy'n eiddo iddynt (hynny yw, rhifau cofrestru/adnabod, nodweddion adnabod, mathau o gyfleusterau, mathau o fwyd ac ati.).

### 2.11.4 Sianeli cofrestru

Dylai Awdurdodau Bwyd ei gwneud yn ofynnol i FBOs gofrestru i roi manylion llawn iddynt am y gweithgareddau a gyflawnir yn y sefydliad(au) sydd o dan eu rheolaeth.

O dan Reoliad 32(1) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd ddull electronig i FBOs gofrestru sefydliadau busnesau bwyd. Cofrestru digidol yw'r dull a ffefrir ar gyfer cofrestru a dylid annog FBOs, lle bo modd, i gwblhau eu cofrestriad ar-lein.

Mae gwasanaeth ar-lein Cofrestru Busnesau Bwyd (RAFB) yn adnodd i FBOs gofrestru eu busnes bwyd gyda'r Awdurdod Bwyd sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn eu hardal. Gellir cael gafael ar y gwasanaeth hwn drwy wefan yr ASB, neu drwy wefan yr Awdurdodau Bwyd sy'n cymryd rhan.

Anogir Awdurdodau Bwyd i helpu'r FBOs hynny sydd angen cymorth i gwblhau eu cofrestriad ar-lein. Gellir rhoi cymorth yn bersonol yn y sefydliad, dros y ffôn neu drwy wahodd FBO i'r swyddfa.

### 2.11.5 Defnyddio Gwybodaeth o ffynonellau eraill

Os oes gwybodaeth am gyfeiriad y sefydliad a bod y gweithgaredd a gyflawnir ar gael eisoes ar gyfer ffynonellau eraill fel y nodir isod, gellir defnyddio'r wybodaeth honno at ddiben cofrestru[28].

#### 2.11.5.1 Cynhyrchu cynradd

Ystyrir bod sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd sydd wedi'u cofrestru gyda Thaliadau Gwledig Cymru (RPW) cyn 1 Rhagfyr 2006 wedi'u cofrestru at ddibenion Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

#### 2.11.5.2 Llongau pysgota

Ystyrir bod llongau pysgota ar lefel cynhyrchu cynradd sydd wedi'u cofrestru gyda'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) wedi'u cofrestru at ddibenion Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Cyhoeddir y rhestr hon ar-lein gan yr MMO.

### 2.11.6 Eithriadau rhag cofrestru

#### 2.11.6.1 Graddau'r drefniadaeth a pharhad gweithgareddau

Nid yw sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd nad ydynt yn cynnwys rhywfaint o drefniadaeth a pharhad gweithgareddau[29] yn bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, felly maent y tu allan i gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Felly, nid oes angen i sefydliadau sy'n trin bwyd o bryd i'w gilydd gofrestru.

Mae canllawiau'r ASB ar gymhwyso cyfraith hylendid bwyd yr UE i ddarpariaeth bwyd cymunedol ac elusennol wedi'u cyhoeddi i roi eglurder ar Gronicliad 9[30].

At hynny, mae 'dogfen ganllaw'r Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu darpariaethau penodol o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd' yn dweud 'na ellir ystyried rhywun sy'n trin, paratoi, storio neu weini bwyd yn achlysurol ac ar raddfa fach fel 'ymgymeriad'.

[28] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[29] Cronicliad 9 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004
[30] Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002

Er bod sefydliadau o'r fath wedi'u heithrio rhag gofynion cofrestru, fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn ddarostyngedig i rai o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

Un enghraifft fyddai digwyddiad elusennol neu gymunedol lle'r oedd person preifat yn paratoi cacennau ar gyfer stondin gacennau, ond yn anfwriadol yn defnyddio sylwedd peryglus yn lle cynhwysyn bwyd.

Ceir cyngor pellach ynghylch pa gyflenwyr neu werthwyr bwyd na fyddent yn cyfrif o bosibl fel ymgymeriadau yn nogfen ganllaw'r ASB: Canllawiau ar gymhwyso cyfraith hylendid bwyd yr UE i ddarpariaeth bwyd cymunedol ac elusennol.

#### 2.11.6.2 Sefydliadau cymeradwy

Mae Erthygl 4(1)(b) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi nad yw'n ofynnol i sefydliadau bwyd sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004 hefyd.

#### 2.11.6.3 Eithriadau eraill

Mae Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn egluro o dan ba amgylchiadau na fyddai'r gofyniad i gofrestru o dan Erthygl 6(2) yn gymwys, sef:


- cynhyrchu cynradd at ddefnydd domestig preifat
- paratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref at ddefnydd domestig preifat
- symiau bach[31] o gynhyrchion cynradd a gyflenwir yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol
- canolfannau casglu a thanerdai sy'n dod o fewn y diffiniad o fusnes bwyd dim ond am eu bod yn trin deunydd amrwd ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen

[31] Am ragor o wybodaeth gweler y canllawiau ar gymeradwyo sefydliadau bwyd.

### 2.11.6.4 Siart llif cofrestru

Mae Ffigur 1 yn darparu coeden benderfynu i helpu i benderfynu pa weithgareddau bwyd sydd angen eu cofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd.

**Ffigur 1**



Nodiadau esboniadol:

1. Nid yw Rheoliadau Cymunedol yn gymwys i gynhyrchu cynradd at ddefnydd domestig preifat nac i baratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref at ddefnydd domestig preifat[32].
2. Mae hyn yn golygu unrhyw gam, gan gynnwys mewnforio, o a chan gynnwys cynhyrchu cynradd bwyd, hyd at a chan gynnwys ei storio, ei gludo, ei werthu neu ei gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol[33].
3. Nid yw 'ymgymeriad' wedi'i ddiffinio mewn cyfraith bwyd ond mae dogfen Comisiwn yr UE yn awgrymu nad rhywun sy'n trin, paratoi, storio neu wasanaethu bwyd yn achlysurol ac ar raddfa fach yw ymgymeriad.
4. Parhad gweithgareddau[34] – barn yr ASB yw y dylid ystyried yn gyffredinol nad oes gan weithrediadau sy'n darparu bwyd yn llai aml nag yn fisol ar gyfartaledd barhad gweithgarwch ac na ddylai fod angen eu cofrestru.
5. Graddau'r sefydliad[35] – barn yr ASB yw y dylid ystyried y materion canlynol wrth benderfynu i ba raddau y gellir dweud bod unrhyw weithrediad penodol wedi'i drefnu: bwydydd a risg, a natur y digwyddiad. Nodir hyn yn fanylach yng nghanllawiau'r ASB ar gymhwyso cyfraith hylendid bwyd yr UE i ddarpariaeth bwyd cymunedol ac elusennol.
6. Dylai Awdurdodau Bwyd ddweud, os bydd gweithrediadau bwyd yn newid, y dylent gysylltu â'r Awdurdod Bwyd perthnasol i wirio a oes angen cofrestru wedi hynny.
7. Mae canllawiau cymeradwyo ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.
8. Canllawiau a chofrestru ar-lein ar wefan yr ASB.

### 2.11.7 Camau ar ôl derbyn cofrestriad wedi'i gwblhau

Ar ôl derbyn ffurflen gofrestru wedi'i chwblhau, dylai Awdurdodau Bwyd gofnodi'r dyddiad derbyn. Os bydd unrhyw weithgareddau a nodir ar y ffurflen y tu allan i'w cylch gwaith gorfodi, dylid hysbysu'r Awdurdod Bwyd perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ar gyfer Awdurdodau Bwyd ar y gwasanaeth RAFB, bydd hyn yn cael ei gofnodi'n awtomatig gan y system.

Dylai Awdurdodau Bwyd gofnodi gwybodaeth berthnasol o'r ffurflen gofrestru ar eu cronfa ddata o sefydliadau busnes bwyd cofrestredig. Yna dylid rhoi'r ffurflen gofrestru ar ffeil (electronig neu fel arall) wedi'i pharatoi mewn perthynas â phob sefydliad busnes bwyd.

Os yw sefydliad yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd y gellid ei ystyried yn risg uchel, dylid ystyried hyn wrth flaenoriaethu arolygiadau cychwynnol.

---

[32] Erthygl 1(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 ac Erthygl 1(2)(b) o Reoliad (CE) 852/2004

[33] Erthygl 3(16) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002

[34] Cronicliad 9 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004

[35] Cronicliad 9 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004

Dylai Awdurdodau Bwyd gadw ffurflenni cais sy'n ymwneud â sefydliadau mewn fformat sy'n cynnal y gallu i'w derbyn fel tystiolaeth os oes angen.

Os caiff unrhyw wybodaeth ei hepgor o ffurflen gofrestru a gyflwynir gan FBO, dylai'r Awdurdod Bwyd naill ai gysylltu â'r FBO i gael y wybodaeth sydd ar goll neu, os oes swm sylweddol o wybodaeth ar goll, dychwelyd y cyflwyniad i'r FBO i'w gwblhau'n llawn.

Ar ôl derbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau, dylai Awdurdodau Bwyd roi sylw i Bennod 4 o'r Cod mewn perthynas â chynnal unrhyw arolygiad, os oes angen.

### 2.11.8 Cydnabod cofrestriad

Dylai Awdurdodau Bwyd gydnabod eu bod wedi derbyn cofrestriad busnes bwyd a gyflwynwyd.

Bydd cadarnhau cofrestriad yn cynnwys nodyn atgoffa i'r FBO i roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd am unrhyw newidiadau dilynol i'r busnes, yn unol ag Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Os yw Awdurdod Bwyd wedi'i gysylltu â'r gwasanaeth RAFB, anfonir cydnabyddiaeth o gais i gofrestru gan FBO yn awtomatig gan y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Bwyd yn anfon ei gydnabyddiaeth ei hun hefyd.

### 2.11.9 Newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, rhaid i FBOs sicrhau bod gan yr Awdurdod Bwyd priodol y wybodaeth ddiweddaraf am eu sefydliad(au) bwyd bob amser a rhaid iddynt hysbysu eu Hawdurdod Bwyd cofrestredig am unrhyw newidiadau sylweddol o ran gweithrediad a chau.

Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys newidiadau o ran gweithrediad a'r gweithredwr.

Ystyrir bod newidiadau sylweddol yn cynnwys newidiadau mewn, neu derfynu:

- gweithgareddau bwyd
- perchnogaeth
- newidiadau i'r manylion a ddarparwyd yn flaenorol

### 2.11.10 Newid perchnogaeth ar ôl cofrestru

Gall Awdurdodau Bwyd ddod ar draws newidiadau perchnogaeth yn ystod ymyriadau mewn sefydliadau busnes bwyd. Mae'n ofynnol i'r FBO yn rhinwedd Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 hysbysu'r Awdurdod Bwyd am unrhyw newidiadau sylweddol, sy'n cynnwys newid perchnogaeth. Mae peidio â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn dramgwydd o dan Reoliad 17 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amgylchiadau lle mae newidiadau perchnogaeth wedi'u nodi ac felly dylai'r FBO gwblhau ffurflen gofrestru newydd.

**Tabl 1 – Newid senarios FBO – pan fydd angen cofrestriad newydd.**

| FBO presennol (fel y nodir yn y ddogfen gofrestru) | Newid FBO (gan dybio nad oes unrhyw newidiadau eraill i'r busnes) | Sylwadau | Angen cofrestriad newydd? |
|---|---|---|---|
| Unig fasnachwr, partneriaeth neu gwmni corfforedig (er enghraifft Ltd, Cyf, PLC, ac ati.) | Mae unig fasnachwr, partneriaeth neu gwmni corfforedig gwahanol yn cymryd perchnogaeth | Gweithredwr/gweithredwyr yn terfynu | Oes |
| Unig fasnachwr neu Bartneriaeth | Cwmni wedi'i gorffori (a'i gofrestru), unig fasnachwr neu bartner/partneriaid yn dod yn Gyfarwyddwr/wyr | Creu cwmni yn newid matrics cyfreithiol FBOs | Oes |
| Unig fasnachwr | Creu partneriaeth lle mai'r unig fasnachwr yw un o'r partneriaid | Gweithredwr yn parhau | Nac oes |
| Partneriaeth | Wedi'i ddiddymu ac mae un o'r partneriaid yn cymryd perchnogaeth lwyr fel unig fasnachwr | Gweithredwr yn parhau | Nac oes |
| Partneriaeth | Partner newydd yn ymuno neu bartner yn gadael, cyn belled â bod o leiaf un partner yn parhau | Gweithredwr yn parhau | Nac oes |
| Cwmni corfforedig | Cwmni'n mynd i ddwylo gweinyddwyr ac yn cael ei redeg fel busnes | Gweithredwr/gweithredwyr yn terfynu | Nac oes |

| FBO presennol (fel y nodir yn y ddogfen gofrestru) | Newid FBO (gan dybio nad oes unrhyw newidiadau eraill i'r busnes) | Sylwadau | Angen cofrestriad newydd? |
|---|---|---|---|
| | gweithredol gan weinyddwyr | | |
| Cwmni corfforedig yn nwylo gweinyddwyr | Cwmni wedi'i gymryd oddi wrth weinyddwyr gan unig fasnachwr, partneriaeth neu gwmni corfforedig gwahanol | Gweithredwr/gweithredwyr yn terfynol, cofrestriad yn dod i ben | Oes |
| Unig fasnachwr, Partneriaeth neu Gwmni Corfforedig | Methdaliad, ansolfedd neu mewn diddymiad (wedi'i ddirwyn i ben/diddymu) | | Amherthnasol |

Dylid trin mathau eraill o fusnesau megis cwmnïau cydweithredol, elusennau cofrestredig a mathau arbenigol eraill o sefydliadau (er enghraifft sefydliadau sydd o dan reolaeth bwrdd/pwyllgor) fesul achos i nodi'r person naturiol neu'r person cyfreithiol sydd ei angen i sicrhau y cydymffurfir â chyfraith bwyd o fewn y busnes bwyd sydd o dan ei reolaeth.

### 2.11.11 Gweithrediadau aml-safle a lloeren

#### 2.11.11.1 Cofrestriad sengl ar gyfer sefydliadau cysylltiedig lluosog

Mae amgylchiadau lle caniateir cofrestriad sengl, o dan yr un FBO, ar gyfer busnes bwyd sy'n gweithredu ar sawl safle. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddai'n well gan swyddogion awdurdodedig ystyried safleoedd a/neu leoliadau ar wahân fel rhan o sefydliad ehangach at ddibenion cofrestru o dan Erthygl 6 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ac ar gyfer sgôr ymyrraeth yn unol â Phennod 4.

Yn y sefyllfaoedd hyn, dylid ei gwneud yn glir i'r FBO y gallai peidio â chydymffurfio mewn un safle arwain at israddio'r sgôr gyffredinol (sgoriau ymyrraeth a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)) y gweithrediad yn ei gyfanrwydd.

Diben yr hyblygrwydd hwn yn bennaf yw dileu'r angen i gymeradwyo busnesau bwyd llai lle nad yw'r broses o brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) a'r elfen fanwerthu (hynny yw, y lle neu bwynt cyflenwi i'r defnyddiwr) ar yr un 'safle' ond mae cysylltiad cryf rhwng safleoedd ac un 'meddwl sy'n rheoli' sy'n goruchwylio'r gweithgareddau. Fodd bynnag, gall fod yn berthnasol hefyd i weithrediadau lle na fyddai angen cymeradwyo'r un o'r safleoedd ond gallai leihau'r angen am

gofrestriadau lluosog. Bydd gan y meddwl sy'n rheoli reolaeth lwyr ac effeithiol o'r gweithdrefnau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) o'r safle cynhyrchu i'w siop/siopau eu hunain i'r defnyddiwr terfynol.

Dim ond os mai prif ffocws gweithgareddau'r sefydliad yw busnes manwerthu y gellir defnyddio'r hyblygrwydd hwn, hynny yw, pan fo'r cyflenwad bwyd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol.

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried busnesau o'r fath fesul achos er mwyn sicrhau bod pob un o'r tri maen prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- mae'r gweithrediad o dan un 'meddwl sy'n rheoli', hynny yw, mae'r person neu bersonau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am weithredu 'gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP', yr un fath ar bob safle
- mae un set o 'weithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP' yn cwmpasu pob cam ac uned o'r gweithrediad ar draws y sefydliad ehangach
- mae'r holl weithgareddau a gyflawnir yn y gwahanol unedau yn y sefydliad cysylltiedig yn ddigon agos fel y gellir disgwyl yn rhesymol y gall yr un 'meddwl sy'n rheoli' reoli'r rheolaethau rheoli diogelwch bwyd yn effeithiol ym mhob safle

Pan fo'r tri maen prawf wedi'u bodloni, ond prif weithgaredd y sefydliad yw cyflenwi POAO i fusnesau eraill, yna mae angen cymeradwyaeth (oni bai ei fod yn bodloni'r eithriadau a ganiateir yn Erthygl 1(3) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004). Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried a chyfeirio at y ddogfen ganllawiau ar weithredu darpariaethau penodol Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ar hylendid bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

Lle na ellir bodloni un neu ragor o'r meini prawf a nodir uchod, dylai'r Awdurdod Bwyd wneud cofrestriad bwyd yn ofynnol ar gyfer pob sefydliad bwyd unigol a nodir yn y gweithrediad (oni bai bod gan y sefydliad gymeradwyaeth).

Mae'r ASB yn derbyn y gallai'r 'meddwl sy'n rheoli' fod yn fwy nag un person mewn rhai busnesau. Fodd bynnag, nid yw'r ASB o'r farn y gallai hyn ymestyn i weithrediadau lle mae gwahanol unigolion, er eu bod yn un fenter, yn rheoli gwahanol safleoedd fel endidau cyfreithiol ar wahân ynddynt eu hunain.

Rhaid bod system unigol o reolaethau integredig sy'n seiliedig ar HACCP hefyd. Gall hyn gynnwys rheolaethau rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar risg sy'n gymesur â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y gwahanol safleoedd, ond rhaid iddynt fod yn rhan o system gyffredinol sydd o dan gyfarwyddyd gweithredol yr un 'meddwl sy'n rheoli'.

#### 2.11.11.2 Gorfodi a goruchwylio aml-safleoedd sy'n gweithredu o dan gofrestriad sengl

Oherwydd ymarferoldeb cael swyddog yn cynnal yr oruchwyliaeth barhaus angenrheidiol ac asesiad o sefydliadau o'r fath sy'n gweithredu fel cofrestriad, argymhellir mai dim ond i sefydliadau o fewn yr un ardal Awdurdod Bwyd y dylid cymhwyso'r hyblygrwydd hwn. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd busnesau sy'n

bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 2.12.11.1 yn gweithredu ar draws ffiniau Awdurdodau Bwyd.

Argymhellir bod yr Awdurdodau Bwyd perthnasol yn ystyried gyda'i gilydd a yw'n ymarferol rhoi gweithdrefn ar waith sy'n caniatáu'r hyblygrwydd hwn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn sefyllfaoedd lle gallai arwain at leihad yn y baich rheoleiddio i'r busnes, megis lle byddai cymeradwyaeth yn gymwys fel arall.

Mae'r hyblygrwydd hwn yn ddewisol a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion awdurdodedig asesu fesul achos a yw busnes yn bodloni'r meini prawf ar gyfer sefydliad bwyd sengl. Dylid cofnodi cofnod o'r asesiad a'r rhesymau ategol yn ffeiliau perthnasol y sefydliad.

Mae gan yr FBO yr opsiwn i beidio â mabwysiadu'r trefniant hwn a gwneud cais am gofrestriadau ar wahân o'r aml-safleoedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gallai'r cysyniad o gofrestriad unigol fod yn briodol neu beidio. Nid ydynt yn rhagnodol nac yn hollgynhwysfawr o bell ffordd ac maent at ddibenion enghreifftiol yn unig.

### 2.11.11.3 Enghreifftiau o pryd y byddai cofrestru sefydliad bwyd sengl yn berthnasol

**Enghraifft 1 - Arlwyo ar gyfer safleoedd lloeren**

Sefydliad arlwyo neu 'gegin hwb' heb le gweini ar y safle ond sy'n paratoi bwyd i'w gludo i un neu nifer o siopau manwerthu lleol, neu 'geginau lloeren' a reolir gan yr un FBO, i'w gweini'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol heb unrhyw ddosbarthu pellach. Gall y bwyd gael ei gludo'n boeth neu'n oer ond ni fydd yn cael ei brosesu ymhellach yn y pen manwerthu ac eithrio prosesau sylfaenol cadw'n boeth, ailgynhesu ac efallai rhywfaint o baratoi syml, risg isel.

**Enghraifft 2 - Cyflenwi i siopau manwerthu**

Uned weithgynhyrchu fach sy'n cynhyrchu caws arbenigol i'w werthu yn ei siop deli stryd fawr gyfagos. Mae'r un FBO neu 'feddwl sy'n rheoli' yn berchen ar y ddau safle ac yn eu rheoli, a'u prif ffocws yw gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol heb unrhyw ddosbarthu pellach i fusnesau manwerthu eraill. Mae'r FBO wedi datblygu cynllun HACCP a system rheoli diogelwch bwyd ar gyfer y caws arbenigol, sy'n llifo o gynhyrchu drwodd i wasanaeth yn y deli (siop fanwerthu).

Noder: Byddai'r math hwn o fusnes (gweithgynhyrchu rhai cynhyrchion POAO) yn amodol ar gymeradwyaeth, pe bai cynhyrchion yr uned weithgynhyrchu yn cael eu cyflenwi'n bennaf i fusnesau eraill a weithredir gan FBOs eraill.

**Enghraifft 3 - Aml-unedau ar yr un safle**

a) Gwasanaethau traffordd: Nifer o unedau manwerthu bwyd heb eu brandio mewn gorsaf gwasanaethau traffordd, gan gynnwys siop goffi, bar byrbrydau, a bwyty'n cael eu rheoli'n ganolog gan un FBO ac mae'r holl fwyd a gyflenwir i'r unedau'n cael ei baratoi mewn cegin ganolog ar y safle neu'n cael ei brynu i mewn drwy restr cyflenwyr cymeradwy'r cwmni. Mae un system rheoli diogelwch bwyd yn cwmpasu'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd.

b) Gwasanaethau traffordd: Cadwyn goffi â brand sydd â phrif siop goffi ynghyd â dwy uned loeren sefydlog lai y tu mewn i'r orsaf wasanaethau a cherbyd symudol sy'n gweithredu o fewn cwrtil y safle, y mae pob un ohonynt yn dod o dan yr un cwmni cyfyngedig ac yn cael eu goruchwylio gan yr un rheolwr neu 'feddwl sy'n rheoli' ar y safle.

c) Archfarchnad: Archfarchnad fawr sy'n cyflenwi ei gorsaf betrol ei hun ar y safle gyda bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Darperir ar gyfer trosglwyddo, storio ac arddangos bwyd yn yr orsaf betrol yng nghynllun HACCP y siop ac fe'i rheolir gan yr un 'meddwl sy'n rheoli'.

### 2.11.11.4 Enghreifftiau o pryd na fyddai cofrestru sefydliad bwyd sengl yn berthnasol

**Enghraifft 1 - Arlwyo ar gyfer safleoedd lloeren**

Mae cwmni arlwyo'n cynhyrchu amrywiaeth o fwydydd ac yn cyflenwi dau fwyty. Er bod y ddau fwyty'n eiddo i'r cwmni arlwyo hefyd, mae cynhyrchu a phrosesu bwyd risg uchel pellach yn digwydd yn y ddau fwyty ac felly mae gan bob sefydliad system rheoli diogelwch bwyd ar wahân sy'n cael ei rheoli'n lleol i reoli'r gwahanol risgiau yn y safle perthnasol. Yn yr achos hwn, mae cymhlethdod rheolaethau bwyd yn y gwahanol safleoedd a diffyg rheolaeth effeithiol ar y system rheoli diogelwch bwyd gyfan gan 'un meddwl' yn golygu nad yw'r meini prawf cofrestru sengl yn cael eu cyflawni, ac ni ddylid defnyddio'r hyblygrwydd cofrestru sengl.

**Enghraifft 2 - Cyflenwi i siopau manwerthu**

Mae becws yn cyflenwi cynhyrchion bwyd wedi'u pobi'n ffres fel pasteiod cig i wahanol siopau manwerthu sy'n rhan o'r un cwmni. Mae'r canghennau wedi'u lleoli mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol ac mae gan bob cangen reolwr lleol i weithredu polisïau a gweithdrefnau'r cwmni, gan gynnwys y gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. Nid yw'r becws a'r siopau'n ddigon agos i un FBO eu rheoli i gyd yn effeithiol ac mae mwy nag un 'meddwl sy'n rheoli' yn gyfrifol am weithredu'r gweithdrefnau diogelwch bwyd ym mhob safle. Gan fod y prif safle pobi yn prosesu POAO amrwd ac yn cyflenwi'r cynhyrchion sy'n deillio o hynny i siopau manwerthu, gallai'r safle hwn fod yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

### 2.11.12 Sefydliadau busnes bwyd symudol

Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sy'n symud rhwng lleoliadau sefydlog ac ar hyd llwybrau a drefnwyd fel arfer.

Er bod llongau ar y môr, awyrennau, trenau a choetsys pellter hir yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 852/2004; mae eu natur symudol yn golygu'n gyffredinol nad oes llawer o werth ymarferol i gofrestru cerbydau unigol gydag Awdurdodau Bwyd y DU, gan nad ydynt yn bresennol yn yr un ardal awdurdodaeth bob amser. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cofrestru sefydliadau symudol:

#### 2.11.12.1 Llongau

Rhaid i FBOs gofrestru llongau o dan eu rheolaeth sy'n bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, oni bai bod angen eu cymeradwyo (hynny yw, llongau rhewgell a ffatri). Mae hyn yn cynnwys:

- llongau sydd wedi'u hangori'n barhaol yn y DU (bwytai arnawf (*floating*))
- llongau sy'n ymwneud â dal, casglu a dosbarthu bwyd
- llongau teithwyr sy'n masnachu ar ddyfrffyrdd mewndirol ac yn teithio'r un llwybrau, heb adael dyfroedd tiriogaethol er enghraifft fferïau traws-sianel, fferïau afonydd a chychod pleser.

Os yw'r llong yn galw'n rheolaidd mewn mwy nag un porthladd yn y DU, yr Awdurdod Iechyd Porthladd lle mae 'porthladd cartref' y llong fel llong gofrestredig gydag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) ddylai fod yn 'awdurdod cofrestru' fel arfer.

#### 2.11.12.2 Awyrennau

Dylai cwmnïau awyrennau ac arlwywyr mewn awyrennau sy'n fusnesau bwyd gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd mwyaf priodol. Fel arfer, yr Awdurdod Bwyd neu'r Awdurdod Iechyd Porthladd yw hwn lle gwneir penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd.

#### 2.11.12.3 Trenau a choetsys

Dylai cwmnïau trenau a choetsys sy'n fusnesau bwyd gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd mwyaf priodol. Fel arfer, yr Awdurdod Bwyd yw hwn lle gwneir penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd.

Nid oes angen cofrestru trenau a choetsys unigol ar wahân ond dylai'r FBO gofrestru unrhyw sefydliad neu uned statig arall sy'n ymgymryd â gweithgareddau'r busnes bwyd.

Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n cofrestru ar gyfer y prif sefydliad archwilio nifer gynrychioliadol o gerbydau trên sy'n darparu bwydydd (fel bwffes a cherbydau bwyta) lle mae'r unedau gwasanaeth bwyd ar draws y stoc yn debyg o ran eu cynllun ac yn gweithredu ar sail gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd cyffredin. Pan fo prif sefydliadau a gweithrediadau trenau (sy'n darparu bwyd) wedi'u cydleoli, gall yr Awdurdod Bwyd cofrestredig ei hun gynnal yr arolygiadau hyn.

#### 2.11.12.4 Marchnadoedd

Yn achos cerbydau a stondinau (p’un ai y darperir y cyfleusterau hyn gan reolwr y farchnad ai peidio) a ddefnyddir i gludo, paratoi neu werthu bwyd i ddefnyddwyr o fewn ardal marchnad, dylai’r FBO gofrestru’r sefydliad gyda’r Awdurdod Bwyd lle mae eu stociau bwyd yn cael eu storio fel arfer.

### 2.11.13 Sefydliadau bwyd symudol

Mae’r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sydd â’r symudedd i fasnachu mewn mwy nag un lleoliad, ac eithrio’r sefydliadau bwyd symudol hynny a ddisgrifir yn adran 2.12.12.

#### 2.11.13.1 Gofynion cofrestru

Mae’n ofynnol i sefydliadau bwyd symudol gael eu cofrestru gan yr FBO gyda’r Awdurdod Bwyd (yr Awdurdod Bwyd cofrestredig) lle cedwir y sefydliad fel arfer neu y mae’n dychwelyd iddo rhwng cyfnodau masnachu. Er enghraifft, tŷ preswyl preifat perchennog y sefydliad bwyd symudol.

Ar ôl cofrestru, ni ddylid gofyn i’r FBO gofrestru gydag unrhyw Awdurdod Bwyd arall y mae’n masnachu yn ei ardal.

#### 2.11.13.2 Cyfrifoldebau’r Awdurdod Bwyd

Awdurdodau Bwyd sy’n gyfrifol am gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol o’r gweithgareddau a gyflawnir gan sefydliad symudol sy’n gweithredu yn eu hardal.

Dylai Awdurdodau Bwyd sy’n arolygu gysylltu â’r Awdurdod Bwyd sy’n cofrestru cyn unrhyw ymyriad i:

- ofyn am wybodaeth gyfredol am y sefydliad
- penderfynu a yw’n bryd cynnal arolygiad
- os yw’n bryd cynnal ymyriad, y math o ymyriad a allai fod yn briodol o dan yr amgylchiadau (er enghraifft arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad)

Mae gan yr Awdurdod Bwyd sy’n cofrestru ddisgresiwn i benderfynu a oes angen iddo ymgymryd ag unrhyw ymyriad penodol, er enghraifft mewn amgylchiadau, lle mae arolygiad llawn wedi’i gynnal gan yr Awdurdod Bwyd sy’n arolygu y mae’r sefydliad symudol yn gweithredu yn ei ardal.

Er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi ‘gor-arolygu’, rhaid i’r Awdurdod Bwyd sy’n arolygu roi gwybodaeth i’r Awdurdod Bwyd sy’n cofrestru am ymyriadau a wneir mewn perthynas â sefydliadau symudol sy’n gweithredu yn eu hardal.

Dylid trosglwyddo manylion ymyriadau a chamau gorfodi i’r Awdurdod Bwyd sy’n cofrestru cyn gynted â phosibl, yn dilyn ymyriad. Dylai’r Awdurdod Bwyd sy’n cofrestru ystyried gwybodaeth a ddarparwyd wrth bennu’r sgôr ymyrraeth, y dylid ei diwygio yn unol â Phennod 4 o’r Cod a’i chofnodi ar gronfa ddata Awdurdodau Bwyd o sefydliadau bwyd.

#### 2.11.13.3 Busnes bwyd symudol â nifer o unedau

Pan fo busnes bwyd yn gweithredu mwy nag un sefydliad symudol, dylid ystyried a yw’n briodol cofrestru’r busnes fel un sefydliad unigol (hynny yw, lle ceir un ‘meddwl

sy'n rheoli') neu gofrestru pob sefydliad symudol unigol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai Awdurdodau Bwyd benderfynu a yw'r busnes bwyd yn bodloni'r meini prawf yn adran 2.12.11.1. Dim ond pan fydd y tri maen prawf yn cael eu bodloni, y dylid derbyn cofrestriad busnes bwyd sengl.

#### 2.11.13.4 Sgôr risg sefydliadau symudol

Dylai Awdurdodau Bwyd gynnal gwaith sgorio risg ar gyfer sefydliadau symudol sydd wedi'u cofrestru gyda hwy pan fydd yn bryd gwneud hynny. Dylai hyn fod yn seiliedig ar eu harolygiad eu hunain ac ystyriaeth o wybodaeth a ddarperir drwy Awdurdodau Bwyd sy'n arolygu lle mae ymyriad priodol wedi digwydd. Dylai'r sgôr risg ddeillio o ymyriad sydd wedi cynnwys arsylwadau o fusnes ar waith lle bo modd.

#### 2.11.13.5 Ffynonellau gwybodaeth am sefydliadau bwyd symudol

Mae'r Nationwide Caterers Association (NCASS) wedi datblygu NCASS Connect, cronfa ddata ar-lein sy'n caniatáu i FBOs storio dogfennau fel dogfennau cofrestru, cofnodion hyfforddiant staff a gweithdrefnau HACCP ar gyfer y sefydliad. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys cofnodion ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau arlwyo a busnesau bwyd symudol.

Gall Awdurdodau Bwyd gael mynediad i NCASS Connect am ddim i weld dogfennau a lanlwythwyd gan aelodau NCASS, yn ogystal ag unrhyw aelodau nad ydynt yn aelodau o'r NCASS sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gall y gronfa ddata helpu hefyd i gael gwybodaeth am fasnachwr symudol sydd wedi'i drefnu i fynychu digwyddiad lleol a nodi unrhyw un nad yw wedi cofrestru.

Ar hyn o bryd mae gan NCASS Bartneriaeth Prif Awdurdod gyda Chyngor Sir Fynwy yng Nghymru a Bwrdeistref Frenhinol Greenwich yn Lloegr. Gweler y Gofrestr Prif Awdurdodau i gael rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth hon, gan gynnwys manylion unrhyw gynlluniau arolygu neu Gyngor i Brif Awdurdodau.

#### 2.11.13.6 Mathau eraill o sefydliadau

#### 2.11.13.7 Busnesau bwyd sy'n gweithredu o safle domestig megis arlwywyr cartref a darparwyr gwely a brecwast

Mae paratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref sydd i'w roi ar y farchnad (boed yn rhad ac am ddim ai peidio) ac sy'n bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd', yn ddarostyngedig i ofynion cofrestru a dylid ei gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd lle mae'r ymgymeriad yn digwydd.

#### 2.11.13.8 Gofal cartref/gofal byw â chymorth

Bydd cofrestru busnes bwyd yn gymwys os ystyrir bod gweithrediadau'r gwasanaeth gofal yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'fusnes bwyd'. Os oes angen cofrestru, yna dylid cofrestru'r sefydliad ei hun hyd yn oed os nad oes angen i rai gweithrediadau a gyflawnir gan y sefydliad fod yn rhan o'r cofrestriad. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ganllawiau'r ASB ar 'Gymhwyso deddfwriaeth hylendid bwyd ar gyfer gofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal'.

### 2.11.13.9 Banciau bwyd

Bydd angen cofrestru banciau bwyd sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr cymunedol, os ydynt yn bodloni'r diffiniad o fusnes bwyd, a bydd angen iddynt gydymffurfio â chyfraith bwyd yn gymesur. Gall rhai banciau bwyd gael eu heithrio rhag cofrestru os nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o 'ymgymeriad' a roddir yng Nghronicliad 9 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ac Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002. Dylai canllawiau'r ASB ar gymhwyso cyfraith hylendid bwyd yr UE i ddarpariaeth bwyd cymunedol ac elusennol helpu i benderfynu hyn.

### 2.11.13.10 Broceriaid bwyd

Busnesau bwyd yw broceriaid bwyd sy'n gweithredu fel cyfryngwyr yn y gadwyn gyflenwi, sy'n gweithredu ar wahanol gamau rhwng busnesau bwyd eraill a'r defnyddiwr neu arlwywr terfynol.

Er y gallant drefnu i symud bwyd rhwng cyflenwyr neu i fanwerthwyr, nid ydynt yn ymdrin â'r bwyd o reidrwydd nac yn ei storio yn eu heiddo hyd yn oed (a all fod yn swyddfa i bob pwrpas). Cyn belled â'u bod yn bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd' ac 'FBO', yna mae'r gofyniad cofrestru yn berthnasol, a rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd y maent yn ymgymryd â'r gwaith ynddo.

O ran cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 931/2011 ar ofynion olrhain ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid, yn gosod dyletswydd ar yr FBO, gan gynnwys broceriaid bwyd, i allu adnabod a darparu gwybodaeth olrhain benodol i'r Awdurdod Bwyd.

Mae canllawiau i swyddogion awdurdodedig ar froceriaid bwyd yn cynnwys gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng broceriaid bwyd ac asiantau bwyd, sy'n gweithredu fel cynrychiolydd FBO heb unrhyw awdurdod i fasnachu yn ei enw ei hun ac nad yw'n cymryd meddiant cyfreithiol na chorfforol na chadw'r bwyd ar unrhyw adeg.

### 2.11.13.11 Gwerthu ar y rhyngrwyd

Mae rhai busnesau'n cynnig eu nwyddau ar werth drwy'r rhyngrwyd. Er na chyfeirir yn benodol at fasnach o'r fath yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Os bydd busnesau o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o fusnes bwyd fel yr amlinellir yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, yna bydd gofynion perthnasol cyfraith bwyd yn berthnasol iddynt.

Rhaid i fusnesau o'r fath gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd mwyaf priodol. Gall hyn fod lle maent yn byw, lle mae eu swyddfa wedi'i lleoli neu lle mae'r stociau bwyd yn cael eu storio.

Dylid cofrestru busnesau bwyd fel y rhai sy'n sefydlu gwefannau sy'n darparu bwydlenni arlwywyr i ddefnyddwyr, sy'n hwyluso gwerthu'r bwyd ac yn trefnu i'w ddanfon o arlwywyr at ddefnyddwyr, fel busnesau bwyd hefyd.

Ceir canllawiau i Awdurdodau Bwyd ynghylch bwydydd a werthir ar-lein ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

#### 2.11.13.12 Sefydliadau busnes bwyd dros dro

Mae busnesau bwyd dros dro neu fusnesau bwyd ‘pop-up’ yn sefydliadau sydd ar agor am gyfnod cyfyngedig yn unig. Gall yr amser y maent ar agor amrywio o ychydig oriau, i ychydig fisoedd, yn dibynnu ar natur y busnes bwyd. Dylid trin y busnesau hyn yn yr un modd â sefydliadau bwyd symudol at ddibenion cofrestru.

Dylai Awdurdodau Bwyd flaenoriaethu arolygiadau cychwynnol o’r busnesau hyn yn seiliedig ar risg ac yn unol â’u cynllun gwasanaeth a’u rhaglen ymyrraeth.

#### 2.11.13.13 Peiriannau gwerthu

Mae peiriannau gwerthu yn ddarostyngedig i ddarpariaethau perthnasol Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Nid yw’r ASB yn gweld gwerth ymarferol i gofrestru peiriannau gwerthu unigol na’r sefydliad y maent wedi’u lleoli ynddo os yw’r unig weithgaredd sy’n gysylltiedig â bwyd yn y sefydliadau hynny’n ymwneud â pheiriannau gwerthu yn unig.

Fodd bynnag, dylai canolfannau dosbarthu lle mae bwyd ar gyfer stocio peiriannau gwerthu’n cael ei storio a/neu y cludir bwyd ohono i beiriannau gwerthu ar gyfer stocio gael eu cofrestru gyda’r Awdurdod Bwyd perthnasol. Dylai’r cerbydau dosbarthu a ddefnyddir i gludo bwyd ar gyfer peiriannau gwerthu stocio gael eu cynnwys yn yr ymyriadau mewn sefydliadau o’r fath.

#### 2.11.13.14 Sefydliadau anfasnachol

Rhaid i weithgareddau bwyd nad ydynt yn gweithredu o safleoedd masnachol yn bennaf ond sy’n bodloni’r diffiniad o ‘fusnes bwyd’, gael eu cofrestru fel sefydliad busnes bwyd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, busnes bwyd sy’n gweithredu o safle domestig a ddefnyddir fel annedd yn bennaf.

## 2.12 Cymeradwyo sefydliadau

### 2.12.1 Rhannu cyfrifoldebau rhwng Awdurdodau Bwyd a’r ASB

Awdurdodau Bwyd sy’n gyfrifol am gymeradwyo a gorfodi sefydliadau sy’n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 **nad** yw rheolaeth ohonynt yn nwylo Milfeddyg Swyddogol.

Bydd y sefydliadau ‘cynnyrch penodol’ hyn yn cynhyrchu unrhyw un, neu unrhyw gyfuniad, o’r canlynol:

- briwgig (*minced meat*)
- paratoadau cig
- cig wedi’i wahanu’n fecanyddol
- cynhyrchion cig
- molysgiaid dwygragennog byw (*live bivalve molluscs*)
- cynhyrchion pysgodfeydd
- llaeth amrwd heblaw llaeth buwch amrwd
- cynnyrch llaeth
- wyau (nid cynhyrchu cynradd) a chynhyrchion wyau
- coesau brogaod a malwod

- brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion (*greaves*)
- stumogau wedi'u trin
- pledrenni a choluddion
- gelatin a cholagen

Bydd hyn yn cynnwys rhai sefydliadau ail-lapio/ailbacio, storfeydd oer a rhai marchnadoedd cyfanwerthu.

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol hefyd am orfodi mewn perthynas â chanolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunydd crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen a fwriedir i'w fwyta gan bobl.

Mae'r ASB yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 lle mae rheolaeth yn nwylo Milfeddyg Swyddogol, ac am orfodi mewn sefydliadau o'r fath ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Mae sefydliadau o'r fath yn cynnwys:

- lladd-dai
- sefydliadau trin helgig (*game*)
- gweithfeydd torri sy'n rhoi cig ffres ar y farchnad

Mae'r ASB yn gyfrifol hefyd am sefydliadau sydd wedi'u lleoli ar y cyd â'r sefydliadau hyn sydd hefyd yn cynhyrchu:

- briwgig
- paratoadau cig
- cig wedi'i wahanu'n fecanyddol
- cynhyrchion cig
- brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion
- stumogau wedi'u trin
- pledrenni a choluddion
- gelatin
- colagen

Pan fo lladd-dy, sefydliad trin helgig, neu ffatri dorri wedi'i chydleoli gyda sefydliad sy'n cyflawni unrhyw weithrediad busnes bwyd arall, y mae naill ai Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 neu Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer cynnyrch nad yw'n gig yn gymwys iddo, caiff yr ASB, fesul achos, gyda chytundeb yr Awdurdod Bwyd, gymryd cyfrifoldeb am orfodi yn y sefydliad sydd wedi'i gydleoli, ac eithrio pan fo gweithgarwch manwerthu'n bodoli. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnyrch arall sy'n dod o anifeiliaid a chynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid.

Mae angen cyfeirio ceisiadau i'r ASB ymgymryd â chyfrifoldebau gorfodi at yr ASB i'w cytuno a phenderfynu arnynt cyn y gellir trosglwyddo.

Mae'r ASB yn gyfrifol hefyd am orfodi mewn perthynas â'r materion a reoleiddir gan Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â llaeth buchod crai y bwriedir i bobl ei yfed yn uniongyrchol.

Pan fo busnes bwyd yn cyflawni unrhyw weithgaredd sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 (gan gynnwys y rhai y mae angen

i'r ASB eu cymeradwyo, ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo eto) heb y gymeradwyaeth amodol neu lawn ofynnol, cyflawnir trosedd o dan Reoliad 17 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a chyfrifoldeb yr Awdurdod Bwyd perthnasol yw camau gorfodi.

### 2.12.2 Eithriadau rhag cymeradwyaeth

Ar ôl cael cais am gymeradwyaeth neu wrth roi cyngor i FBOs, bydd angen i Awdurdodau Bwyd ystyried a oes angen cymeradwyo'r gweithgareddau a gynigir, neu a allai'r FBO gael ei eithrio.

Mae'r eithriadau perthnasol o'r gofynion i'w cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn perthyn i dri chategori:

- **cyflenwad uniongyrchol o symiau bach o gynhyrchion cynradd**[36]
- eithriad manwerthu[37]
- bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o blanhigion a chynhyrchion POAO wedi'u prosesu (cynhyrchion cyfansawdd)[38]

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol bod sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cymeradwyo am eu bod yn cydosod, yn gweithgynhyrchu neu'n ymdrin â chynhyrchion cyfansawdd yn unig, ddangos bod y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a ddefnyddiwyd i wneud y cynhyrchion cyfansawdd wedi'u cynhyrchu a'u trin yn unol â'r gofynion penodol yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn ogystal â'r gofynion yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Nodir hyn yn Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr eithriadau hyn yng nghanllawiau'r ASB, 'Cymeradwyo sefydliadau - Canllawiau i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol'.

### 2.13.3 Ceisiadau am gymeradwyaeth

O dan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd ddull electronig i FBOs geisio cymeradwyaeth i sefydliadau bwyd.

Gellir cwblhau ceisiadau am gymeradwyaeth yn electronig a'u cyflwyno i'r Awdurdod Bwyd perthnasol ar-lein gan ddefnyddio gwefan GOV.UK.

### 2.13.4 Mwy nag un math o gynnyrch

Wrth ystyried cais i gymeradwyo sefydliad, rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried yr holl weithgareddau a gyflawnir yn y sefydliad.

Bydd sefydliadau lle mae dau neu fwy o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys, er enghraifft sefydliad sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig a chynhyrchion pysgodfa. Mewn achosion o'r fath, bydd y darpariaethau perthnasol yn gymwys i ardaloedd o'r sefydliad lle

[36] Erthygl 1(3)(c) i (e) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004
[37] Erthygl 1(5)(b)(ii) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004
[38] Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004

cynhyrchir y naill fath o gynnyrch a'r llall. Bydd holl ddarpariaethau perthnasol y rheoliad yn gymwys i'r rhannau hynny o'r sefydliad lle caiff cyfleusterau eu rhannu.

### 2.13.5 Penderfynu ar gymeradwyaeth

Cyn dod i benderfyniad ar gais am gymeradwyaeth, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod ymweliad ar y safle[39] yn cael ei wneud ar ffurf arolygiad o'r sefydliad, i gadarnhau, lle bo angen, bod yr holl systemau, gweithdrefnau a dogfennau'n bodloni gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

Rhaid cynnal yr arolygiad yn unol â phob agwedd ar y ffurflen arolygu berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw, ac ymdrin â phob agwedd, ac ystyried yr holl faterion a nodwyd gan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, fel rhai y mae angen caniatâd yr Awdurdod Bwyd ar eu cyfer.

Yn unol ag Erthygl 148(3) o Reoliad (UE) 2017/625 rhaid cydymffurfio'n llawn â gofynion perthnasol cyfraith bwyd cyn i gymeradwyaeth lawn gael ei rhoi.

### 2.12.3 Cymeradwyaeth amodol

Mae Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 yn caniatáu rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad, yn dilyn ymweliad ar y safle, nad yw'n cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfraith bwyd, ond dim ond os yw'r sefydliad yn bodloni'r holl ofynion seilwaith ac offer. Mater i'r Awdurdodau Bwyd yw penderfynu a ddylid rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad busnes bwyd nad yw'n cydymffurfio'n llawn.

Os rhoddir cymeradwyaeth amodol, rhaid cynnal ymweliad rheoli swyddogol newydd o fewn tri mis i roi'r gymeradwyaeth amodol.

Mewn amgylchiadau priodol, gellir ymestyn cymeradwyaeth amodol, ond ni ddylid ei hymestyn i fwy na chwe mis[40] o ddyddiad rhoi cymeradwyaeth amodol yn y lle cyntaf.

Yn achos llongau ffatri a rhewgell, ni fydd cymeradwyaeth amodol yn fwy na 12 mis.

Rhaid defnyddio barn broffesiynol fesul achos wrth benderfynu a fyddai'n briodol ymestyn cymeradwyaeth amodol, ond dylai Awdurdodau Bwyd nodi bod Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnydd clir gael ei wneud tuag at gydymffurfio.

### 2.12.4 Gwrthod cymeradwyaeth ac apeliadau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gofio bod gan yr FBO yr hawl i apelio i Lys perthnasol yn erbyn y penderfyniad ar gymeradwyaeth. Mae hawliau i apelio yn ddarostyngedig i Reoliad 12 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

O'r dyddiad y caiff yr hysbysiad am y penderfyniad ei gyflwyno i'r unigolyn perthnasol, ni all y sefydliad barhau i weithredu tra bo'r apêl yn cael ei phenderfynu.

[39] Erthygl 148(2) o Reoliad (UE) 2017/625

[40] Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625

### 2.12.5 Newid gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion

I gael canllawiau ar y camau y mae angen eu cymryd lle bu newid mewn gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion, gweler dogfen yr ASB, ‘Cymeradwyo sefydliadau - Canllawiau i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol‘

### 2.12.6 Hysbysu’r ASB ynghylch statws cymeradwyaeth

Mae Pennod 2 o’r Cod yn egluro’r amgylchiadau lle mae’n ofynnol i Awdurdodau Bwyd hysbysu’r ASB am fanylion y sefydliad cymeradwy.

Cyn gynted ag y bo’n ymarferol, rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu’r ASB am y manylion hyn drwy e-bost i asupportwales@food.gov.uk

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wedyn i ddiweddaru’r rhestri o sefydliadau bwyd cymeradwy a gyhoeddir ar wefan yr ASB.

### 2.12.7 Ffeiliau’r Awdurdod Bwyd

Bydd y canllawiau canlynol yn cefnogi Awdurdodau Bwyd er mwyn sicrhau cysondeb yng nghynnwys a strwythur y ffeiliau a gynhyrchir ar gyfer sefydliadau y mae angen eu cymeradwyo.

Mae ffeil wedi’i strwythuro’n briodol, ar ffurf copi caled neu wedi’i chadw’n electronig, sy’n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, yn bwysig i’r Awdurdod Bwyd. Mae’n darparu:

- hanes y sefydliad a sut mae wedi datblygu
- parhad i swyddogion newydd
- ar gyfer hwyluso ymarferion monitro
- cymorth i’r Awdurdod Bwyd wrth ddangos cymhwysedd

Mae enghraifft o’r hyn y gall ffeil gymeradwyo ei gynnwys, fel y bo’n berthnasol ac yn briodol ar gyfer y sefydliad, yn cynnwys:

- y ffurflen gais
- cynllun(iau) o’r sefydliad sy’n dangos:
  - cynllun y sefydliad
  - lleoliad yr offer
  - llif gwaith ar gyfer pob llinell gynnyrch
  - system dosbarthu dŵr o fewn y sefydliad gan gynnwys pob allfa (*outlet*) a phwynt samplu
  - cynllun draenio
  - rheoli plâu - pwyntiau dal o fewn y sefydliad ac ardaloedd allanol
- crynodeb o’r sefydliad (dim mwy nag un ochr i ddalen A4) sy’n disgrifio’n fyr pa fath o sefydliad ydyw, y cynhyrchion a gynhyrchir, faint o gynnyrch, y math o fasnach, nifer y cyflogeion, rhif cymeradwyo, yr hyn y mae wedi’i gymeradwyo ar ei gyfer, manylion busnesau eraill sy’n cynhyrchu neu’n mewnforio ar gyfer y busnes
- adroddiad arolygu cyn cymeradwyo
- rhaglen waith wedi’i chynllunio i gael cymeradwyaeth

- dogfen hysbysu cymeradwyaeth sy'n nodi:
  - manylion gweithgareddau y mae'r gymeradwyaeth yn ymwneud â hwy
  - rhif cymeradwyo
  - dosbarthiad
  - cyfarwyddyd/cyfarwyddiadau hylendid arbennig
  - unrhyw randdirymiadau a roddwyd sy'n benodol i sefydliad
  - unrhyw amodau neu gyfyngiadau eraill a bennwyd gan yr Awdurdod Bwyd
- unrhyw drefniadau sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Bwyd
- unrhyw wybodaeth a dogfennau perthnasol, gan gynnwys
  - labeli a dogfennau masnachol sy'n cynnwys y marc adnabod
  - llythyr yn nodi bod yr Awdurdodau Bwyd yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gweithredu hyfforddiant hylendid y sefydliad ar gyfer staff
  - adroddiadau ymyrraeth mewn trefn gronolegol
  - gohebiaeth â'r sefydliad mewn trefn gronolegol
  - copïau o hysbysiadau neu gamau ffurfiol eraill a gymerwyd, mewn trefn gronolegol
  - copi o gynllun y cwmni ar gyfer galw cynnyrch yn ôl a chadw cynnyrch yn ôl mewn argyfwng a'r system olrhain gan gynnwys enwau, rhifau ffôn ac ati personél allweddol yn y cwmni
- canlyniadau'r holl samplau a gymerwyd gan yr Awdurdod Bwyd
- lleoliad unrhyw gyfleusterau oddi ar y safle
- copïau o unrhyw ddogfennau eraill a ddarparwyd gan y safle cymeradwy, neu a gopïwyd yn y safle cymeradwy, gan gynnwys:
  - Dogfennau HACCP
  - gwybodaeth am gyflenwyr
  - rhestr cynnyrch
  - deunydd crai, cynlluniau samplu cynnyrch a dŵr a chanlyniadau profion*
  - cynlluniau a chanlyniadau samplu eraill er enghraifft samplu amgylcheddol*
  - cofnodion proses
  - rheolwyr ac enwau cyswllt allweddol a manylion cyswllt
  - ffotograffau a delweddau digidol, fel y bo'n briodol

*Os yw FBOs yn defnyddio cynlluniau neu ddulliau samplu amgen yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar y meini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd, dylid cadw gwiriad yr Awdurdodau Bwyd o'r dull amgen arfaethedig ar ffeil.

### 2.12.8 Marc adnabod (gan gynnwys cod cymeradwyo)

Mae Pennod 2 o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd roi rhif cymeradwyo unigryw i bob sefydliad busnes bwyd y mae'n ei gymeradwyo, neu'n ei gymeradwyo'n amodol, yn unol ag Erthygl 148 o Reoliad (UE) 2017/625.

Rhaid i'r rhif cymeradwyo hwn fod yn rhif tri digid sy'n unigryw i'r awdurdod hwnnw, a ddylai fod yn rhan o god cymeradwyo sy'n cynnwys cod dwy lythyren yr Awdurdodau Bwyd ac yna'r rhif cymeradwyo.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd gytuno ar farc adnabod gyda phob sefydliad y mae'n ei gymeradwyo sy'n:

- ymgorffori'r cod cymeradwyo y mae wedi'i ddyrannu
- bodloni gofynion Atodiad II, Adran I B o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 gan gynnwys yr angen i'r marc fod o fewn siâp hirgrwn

Mae'n ofynnol i sefydliadau cymeradwy roi'r marc adnabod ar eu cynnyrch, fel y bo'n briodol. Nodir y gofynion ar gyfer gosod y marc adnabod a'i ffurf yn ogystal â'r dull marcio yn Atodiad II, Adran I, A, B ac C o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Mae canllawiau ar y marciau iechyd ac adnabod y mae'n rhaid eu rhoi ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, megis cig, cynhyrchion wyau, pysgod, caws a llaeth, ar gael ar wefan yr ASB.

### 2.12.9 Ffurflenni templed

Mae cyfres o ffurflenni templed i gynorthwyo Awdurdodau Bwyd i weinyddu cymeradwyaethau ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

Mae hyn yn cynnwys y ffurflenni canlynol:

- Cais am Gymeradwyaeth
- Hysbysiad o Roi Cymeradwyaeth Lawn/Cymeradwyaeth Amodol
- Hysbysiad o Benderfyniad i Beidio â Rhoi Cymeradwyaeth
- Hysbysiad o Benderfyniad i Dynnu Cymeradwyaeth/Cymeradwyaeth Amodol yn ôl
- Hysbysiad o Benderfyniad i Atal Cymeradwyaeth/Cymeradwyaeth Amodol
- Hysbysiad o Wrthod Rhoi Cymeradwyaeth Lawn i Sefydliad a Gymeradwywyd yn Amodol

Cofiwch: mae'r ffurflenni hyn i gyd wedi'u cynnwys yn yr un ddogfen gyfansawdd.

Er bod yn rhaid ystyried cynnwys y dogfennau hyn fel yr isafswm gofynnol, gall Awdurdodau Bwyd eu haddasu yn ôl yr angen i fodloni gofynion lleol.

### 2.12.10 Canllawiau pellach

I gael rhagor o gyfarwyddyd ar gymeradwyo sefydliadau busnes bwyd sy'n ymdrin â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, gweler dogfen yr ASB o'r enw 'Cymeradwyo sefydliadau – Canllawiau ar gyfer swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol'.

Mae'r Polisi Gweithredol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau cig gan yr ASB ar gael ar wefan yr ASB.

## 2.13 Cofnodion Sefydliad Busnes Bwyd

### 2.13.1 Rhestr o Sefydliadau Busnesau Bwyd cofrestredig

Mae Pennod 2 o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd gadw rhestr gyfoes o sefydliadau busnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru gyda nhw. Dylai'r rhestr hon gynnwys y wybodaeth ganlynol am bob sefydliad busnes bwyd:

- enw gweithredwr y busnes bwyd (FBO)
- enw'r sefydliad bwyd
- cyfeiriad y sefydliad bwyd
- natur y busnes bwyd

### 2.13.2 Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y maent yn berthnasol i gofnodion busnes bwyd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu cofrestriad diogelu data yn cwmpasu eu holl resymau dros gadw data, gan gynnwys ei gyflenwi i asiantaethau eraill at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd a gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.

Os oes gan Awdurdodau Bwyd unrhyw amheuon ynghylch rhyddhau data neu wybodaeth dylent ofyn am gyngor cyfreithiol a/neu gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### 2.13.3 Gofyniad gwybodaeth

Rhaid diweddaru ffeiliau cofnodion sefydliad yr Awdurdodau Bwyd, a all fod wedi'u cadw ar gyfrifiadur, ar ôl pob ymyriad a chynnwys:

- gwybodaeth am faint a graddfa'r busnes a'i sylfaen cwsmeriaid
- gwybodaeth am y math o weithgareddau bwyd a gyflawnir gan y busnes, gan gynnwys unrhyw offer, prosesau neu nodweddion arbennig
- copïau o unrhyw ohebiaeth â'r busnes, gan gynnwys dogfennau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu gofrestru
- copïau o ddadansoddiadau samplau bwyd/canlyniadau archwiliadau
- system o fflagio ar gyfer materion arwyddocaol, gan gynnwys manylion unrhyw ddiffyg cydymffurfio i'w hadolygu mewn ymyriadau yn y dyfodol
- mewn perthynas â sefydliadau a arolygwyd at ddibenion hylendid bwyd, asesiad o gydymffurfiaeth y busnesau â gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, lle y bo'n briodol
- gwybodaeth am hyfforddiant hylendid a gyflawnir gan gyflogeion a'r cymwysterau sydd ganddynt; gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar gyflwyno a gweithredu'r system rheoli diogelwch bwyd
- gwybodaeth ynghylch a yw'r busnes yn mewnforio bwyd a/neu a yw'n gyrchfan fewndirol gyntaf ar ôl ei fewnforio ac, yn ogystal mewn perthynas â safleoedd a arolygwyd at ddibenion safonau bwyd:
  - bodolaeth ac asesiad o unrhyw system ansawdd a gofnodwyd

– manylion busnesau eraill sy'n cynhyrchu neu'n mewnforio ar gyfer y busnes

#### 2.13.3.1 Cadw cynlluniau HACCP

Argymhellodd yr ymchwiliad cyhoeddus i'r achosion o E. coli O157 yn Ne Cymru yn 2005, y dylai Swyddogion gael copi o gynllun HACCP/rheoli diogelwch bwyd busnes ym mhob arolygiad, y dylid ei gadw yn ffeil arolygu'r busnes.

O ran yr argymhelliad hwn, y prif bryder oedd cadw elfennau craidd y cynllun. Ystyrir bod cadw'r pwyntiau rheoli critigol o gynllun HACCP busnes, yn hytrach na'r cynllun cyfan, yn ddigonol i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig wedi edrych ar berfformiad busnes dros amser ac nad oeddent wedi methu arwyddion perygl o arolygiadau blaenorol.

Mae'r ASB wedi cynhyrchu canllawiau sy'n tynnu sylw at yr argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad Cyhoeddus i gynorthwyo Awdurdodau Bwyd i reoli cofnodion sefydliad yn effeithiol.

## 2.14 Uwchgyfeirio ymholiadau technegol at yr ASB neu Asiantaeth arall y Llywodraeth

Cyn uwchgyfeirio ymholiad at yr ASB, rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried a dilyn yr hierarchaeth y cytunwyd arni ar gyfer uwchgyfeirio ymholiadau a gymeradwyir gan y grŵp Ffocws Hylendid Bwyd a'r Grŵp Safonau a Gwybodaeth Bwyd, sef cysylltu:

1. o fewn eich Awdurdod Bwyd
2. gyda'ch grŵp cyswllt bwyd sirol neu ranbarthol
3. gyda'ch cynrychiolydd Grwpiau Hylendid Bwyd neu Safonau Bwyd lleol

Er cysondeb, rydym yn cynghori hefyd y dylid postio ymholiadau neu geisiadau am wybodaeth ar yr Hwb Gwybodaeth.

# Pennod 3 Awdurdodiadau, cymhwysedd a chymwysterau

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn rhoi cyngor ar y gofynion ar gyfer cymwysterau, cymhwysedd a hyfforddiant i swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain.

## 3.2 Awdurdodiadau

### 3.2.1 Penodi staff

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd benodi nifer digonol o swyddogion cymwys sydd â chymwysterau addas fel y gellir cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol, fel rhan o'u rhwymedigaethau statudol[41].

Gall hyn gynnwys:

- sefydlu trefniadau rhanbarthol neu drawsranbarthol fel y gall Awdurdodau Bwyd eraill ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol ar ran yr Awdurdod Bwyd
- cyflogi staff dros dro neu gontractwyr.

Mantais trefniadau rhanbarthol neu drawsranbarthol yw eu bod yn cefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd o ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng ac o fewn Awdurdodau Bwyd a rhanbarthau.

### 3.2.2 Swyddog bwyd arweiniol

Efallai y bydd swyddogion bwyd arweiniol ar wahân sy'n gyfrifol am hylendid bwyd, safonau bwyd, rheolaethau mewnforio bwyd a/neu hylendid bwyd ar lefel gorfodi cynhyrchu cynradd, ac am dasgau penodol, er enghraifft:

- datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau sydd wedi'u dogfennu;
- rheoli'r ymateb i ddigwyddiad a rhybudd; a
- choladu ac adrodd data

Fel sy'n ofynnol gan Bennod 2 o'r Cod, rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r ASB o enw a manylion cyswllt eu swyddog(ion) bwyd arweiniol penodedig a rhoi manylion unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol i lasupportwales@food.gov.uk.

### 3.2.3 Y weithdrefn awdurdodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gael gweithdrefn awdurdodi wedi'i dogfennu sy'n egluro'r broses sydd i'w dilyn wrth asesu cymhwysedd y swyddog i ymgymryd â rheolaethau

[41] Erthygl 5(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625 a Phennod 2, Paragraff 5.3 o'r Cytundeb Fframwaith

bwyd swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain cyn ei awdurdodi. Mae hyn yr un mor berthnasol i swyddogion sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, staff asiantaeth, staff dros dro, ac i'r rhai a gyflogir gan gontractwyr neu fel contractwyr.

### 3.2.4 Awdurdodi swyddogion

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd sicrhau bod ganddo nifer digonol o swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol i ymgymryd â rheolaethau bwyd wedi'i fewnforio, hylendid bwyd a/neu waith rheoli safonau a chamau gorfodi cysylltiedig.

Nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Bwyd awdurdodi swyddogion i ymgymryd â'r holl weithgareddau gorfodi bwyd. Gellir ymestyn awdurdodiad swyddog gan fod y swyddog yn ennill y cymhwysedd a'r cymwysterau angenrheidiol lle bo'u hangen.

Dylai awdurdodiadau nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau a roddir ar awdurdodiad swyddog, lle y bo'n briodol.

Rhaid i swyddogion gael eu hawdurdodi i orfodi rheoliadau cyfraith bwyd perthnasol sy'n cynnwys pwerau gorfodi penodol o fewn y rheoliadau eu hunain.

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu awdurdodi swyddogion, yn ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Ddeddf neu'r Rheoliadau a wneir oddi tani. Fodd bynnag, er enghraifft, mae angen i swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 gael eu hawdurdodi'n ysgrifenedig ar wahân i ymdrin â materion sy'n codi o dan y rheoliadau hyn, gan nad ydynt wedi'u gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a'u bod yn cynnwys pwerau gorfodi penodol o fewn y rheoliadau.

Felly, rhaid cyfeirio'n benodol at y rheoliadau hyn mewn dogfennau awdurdodi, gan gynnwys cymwysterau swyddogion.

Barn yr ASB yw nad oes angen i swyddogion gael eu hawdurdodi'n benodol i orfodi datganiadau a wneir o dan Reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 os ydynt eisoes wedi'u hawdurdodi o dan y rheoliadau hyn.

Efallai y bydd Awdurdodau Bwyd am ymgynghori â'u cynghorwyr cyfreithiol ar y mater hwn hefyd.

## 3.3 Gofynion cymwysterau

### 3.3.1 Cymwysterau â chyfyngiadau

#### 3.3.1.1 Hylendid Bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau y cyfyngir ar awdurdodi pwerau a dyletswyddau cyfreithiol swyddogion, hyd nes y gallant ddangos y gofynion cymhwysedd sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y byddant yn ymgymryd â hwy, fel y nodir isod.

**Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB), y Sefydliad Gwyddor Bwyd a Thechnoleg (IFST), a'r Scottish Food Safety Officers' Registration Board (SFSORB).**

**Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB gyda'r Gymeradwyaeth Safonau Bwyd.**

**Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB gyda'r Gymeradwyaeth Arolygu Bwyd.**

**Tystysgrif Arferol mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB.**

| Cyfyngiad ar weithgaredd | Gofynion cymhwysedd i ymgymryd â gweithgarwch cyfyngedig |
|---|---|
| Cynnal arolygiad o fwyd i benderfynu ar addasrwydd | Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin.<br>Gweithgaredd B6: Asesu cynhyrchion, labelu a gwybodaeth arall.<br>Is-weithgaredd B6.1: Asesu a yw cynhyrchion bwyd yn ddiogel ac yn addas i'w bwyta gan bobl. |
| Atafael (*seize*) a chadw bwyd | Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin.<br>Gweithgaredd D2: Camau gorfodi ffurfiol.<br>Is-weithgaredd D2.2 Cadw, atafaelu ac ildio bwyd yn wirfoddol. |
| Cyflwyno Hysbysiadau Camau Unioni | Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin.<br>Gweithgaredd D2: Camau gorfodi ffurfiol. |
| Cyflwyno Hysbysiadau Gwahardd Brys o ran Hylendid | Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin.<br>Gweithgaredd D2: Camau gorfodi ffurfiol.<br>Is-weithgaredd D2.1: Gweithdrefnau gwahardd brys. |
| Ymgymryd â swyddogaethau rheoli mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd | Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin.<br>Gweithgaredd E2: Rheolaethau mewnforio.<br>Is-weithgaredd E2.1: Rheolaethau mewnforio yn y man cyrraedd. |

| | |
|---|---|
| | Is-weithgaredd E2.2 Rheolaethau mewnforio cynhyrchion pysgodfeydd. |

#### 3.3.1.2 Safonau Bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau nad yw swyddogion sydd ag un neu fwy o'r cymwysterau canlynol yn cael eu hawdurdodi i orfodi safonau bwyd oni bai bod ganddynt un neu fwy o'r cymwysterau addas a restrir yn adran 3.4.2 o'r Cod.

- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB gyda'r Gymeradwyaeth Arolygu Bwyd.
- Tystysgrif Arferol mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu'r SFSORB

### 3.3.2 Cyfwerthedd cymwysterau

Y cyrff dyfarnu perthnasol yw Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI), IFST, The Royal Environmental Health Institute of Scotland (REHIS) a'r SFSORB.

Hysbysir yr ASB gan y cyrff hyn am unrhyw benderfyniad ynghylch asesu cymwysterau.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried a chydnabod cymwysterau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir sydd o safon gyfatebol i gymwysterau'r DU o ran cwmpas, cynnwys a lefel[42]. Gall y sefyllfa hon godi os bydd unigolyn yn ceisio cyflogaeth yn y DU fel Dadansoddwr Cyhoeddus, Archwiliwr Bwyd, neu swyddog gorfodi cyfraith bwyd, ar ôl ennill cymwysterau a phrofiad gwaith perthnasol yn ei wlad gartref.

Gall Canolfan Wybodaeth am Gydnabyddiaeth Academaidd Genedlaethol y Deyrnas Unedig (UK NARIC) benderfynu ar gyfwerthedd cymwysterau proffesiynol nad ydynt o'r DU ac a ddylid eu cydnabod.

## 3.4 Gofynion cymhwysedd

### 3.4.1 Cyflwyniad

Mae cymhwysedd yn gyfuniad o'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gweithgareddau rheoli bwyd swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain yn effeithiol.

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau'n seiliedig ar weithgareddau ac mae'n disgrifio'r cymwyseddau sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgaredd.

Mae pob gweithgaredd yn sefyll ar ei ben ei hun, sy'n golygu y gellir awdurdodi unigolyn i ymgymryd ag un neu fwy o weithgareddau o fewn y fframwaith yn dibynnu

[42] Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

ar ei rôl. Nid oes disgwyl i unigolyn fod yn gymwys ar gyfer pob gweithgaredd o fewn y fframwaith.

Efallai y bydd gan Awdurdodau Bwyd offer asesu cymwyseddau sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Cod. Gellir parhau i'w defnyddio ar yr amod eu bod yn bodloni amcanion y Fframwaith Cymwyseddau yn y Bennod hon.

Dylai Awdurdodau Bwyd fodloni eu hunain drwy werthuso ac asesu y gall swyddog ddarparu tystiolaeth ei fod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd perthnasol a nodir yn y Bennod hon.

Mae cymhwysedd yn cydnabod y gellir ehangu awdurdodiad swyddog wrth i'r unigolyn ennill gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd.

Yn y Fframwaith Cymwyseddau, cymwyseddau swyddogion awdurdodedig yw'r rhai sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y bydd y swyddog wedi'u hawdurdodi i ymgymryd â hwy.

### 3.4.2 Gofynion cymhwysedd swyddogion bwyd arweiniol

Gweithgareddau penodol swyddogion bwyd arweiniol, yn y Fframwaith Cymwyseddau, yw E1.1 i E1.3 'Rheolaeth Weithredol':

- E1.1: Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau sydd wedi'u dogfennu
- E1.2: Rheoli'r ymateb i ddigwyddiad a rhybudd; ac
- E1.3: Coladu ac adrodd data.

Yn ogystal, rhaid i swyddogion bwyd arweiniol fodloni'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer swyddog awdurdodedig fel y nodir yn y Fframwaith Cymwyseddau, sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y byddant wedi'u hawdurdodi i ymgymryd â hwy.

Dylai rheolwr priodol (megis rheolwr gwasanaeth neu uwch swyddog sy'n gyfrifol am wasanaeth bwyd yr Awdurdod Bwyd) weithio gyda'r swyddog bwyd arweiniol i asesu ei gymhwysedd. Fel arall, gallai hyn gael ei wneud gan swyddog bwyd arweiniol arall o Awdurdod Bwyd arall.

Er mwyn rhoi sicrwydd pellach, anogir swyddogion bwyd arweiniol i gymryd rhan mewn archwiliadau rhyng-awdurdod ac adolygiadau gan gymheiriaid. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dulliau cyson o asesu cymhwysedd.

Mae'r Cod yn cydnabod y gall mwy nag un person gyflawni rôl y swyddog bwyd arweiniol. Dylid ystyried cymwyseddau sy'n berthnasol i rôl unigolyn wrth gynnal asesiadau.

### 3.4.3 Gofynion cymhwysedd swyddogion cymorth rheoleiddiol

Gweithgareddau penodol swyddogion cymorth rheoleiddiol, yn y Fframwaith Cymwyseddau, yw:

- ymyriadau amgen – B11
- addysg, cyngor a hyfforddiant – B7

- casglu gwybodaeth - B8 ac eithrio’r is-weithgaredd B8.1: Casglu, prosesu a rhannu gwybodaeth
- monitro amgylcheddol pysgod cregyn – E6

### 3.4.4 Swyddogion sy’n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill mewn Mannau Rheoli ar y Ffin (BCPs)

Rhaid i Awdurdodau Bwyd benderfynu pa rai o’r gweithgareddau o fewn y Fframwaith Cymwyseddau y mae angen i’r swyddogion sy’n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill mewn BCPs fod yn gymwys i’w cyflawni.

Mae’n ofynnol i’r swyddogion hynny sy’n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill mewn BCPs allu dangos y cymwyseddau ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin
- Gweithgaredd E2: Rheolaethau mewnforio
- Is-weithgaredd E2.1: Rheolaethau mewnforio yn y man cyrraedd
- Gweithgaredd B5 Samplu
- Is-weithgaredd B5.1 Cymryd samplau ffurfiol
- Is-weithgaredd B5.2 Cymryd samplau anffurfiol
- Is-weithgaredd E2.2: Rheolaethau Mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd (ar gyfer arolygwyr pysgod swyddogol yn unig)

Pan fo Awdurdod Bwyd yn dewis awdurdodi swyddog i ymgymryd â gwaith gorfodi, rhaid i’r swyddogion hynny allu dangos y cymwyseddau ar gyfer y gweithgareddau gorfodi perthnasol, er enghraifft:

- Gweithgaredd D1: Camau gorfodi anffurfiol
- Gweithgaredd D2: Camau gorfodi ffurfiol
- Is-weithgaredd D2.2: Cadw, atafaelu ac ildio bwyd yn wirfoddol

### 3.4.5 Asesiad cymhwysedd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y swyddog(ion) bwyd arweiniol yn penderfynu a yw swyddogion yn bodloni’r gofynion cymhwysedd sy’n berthnasol i’r gweithgareddau y byddant yn cael eu hawdurdodi i ymgymryd â hwy. Gall swyddogion awdurdodedig cymwys eraill asesu cymhwysedd a gwneud argymhellion i’r swyddog bwyd arweiniol, ond y swyddog(ion) bwyd arweiniol yn unig sy’n penderfynu ynghylch awdurdodi o hyd.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau’r dull canlynol o asesu cymhwysedd ei swyddogion.

- **Cam 1:** nodi’r gweithgareddau a’r is-weithgareddau o fewn y fframwaith cymhwysedd sy’n berthnasol i:
  - rôl y swyddog
  - gweithgareddau y bydd y swyddog yn cael ei awdurdodi i ymgymryd â hwy.

- **Cam 2:** cynnal asesiad cymhwysedd yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau i benderfynu a all y swyddog fodloni'r holl ofynion cymhwysedd ar gyfer pob gweithgaredd y bydd yn ymgymryd ag ef;
- **Cam 3:** yn dilyn yr asesiad cymhwysedd, dylai'r swyddog bwyd arweiniol, mewn ymgynghoriad â'r swyddog unigol, nodi anghenion datblygu y gellir eu defnyddio i lywio cynllun datblygu personol a blaenoriaethau DPP swyddog;
- **Cam 4:** darparu'r hyfforddiant angenrheidiol sy'n cael ei oruchwylio gan swyddog(ion) bwyd arweiniol neu swyddog awdurdodedig cymwys arall i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlygir yn yr asesiad cymhwysedd;
- **Cam 5:** awdurdodi neu gyfyngu ar awdurdodiad y swyddog hyd nes y gall ddangos ei fod yn bodloni'r holl gymwyseddau ar gyfer gweithgaredd neu is-weithgaredd;
- **Cam 6:** cadw cofnod, yn ysgrifenedig, neu drwy ddull electronig, o fanylion yr asesiad cymhwysedd, y cymwysterau a'r hyfforddiant.

Dylid adolygu cymhwysedd yn barhaus, er enghraifft fel rhan o broses werthuso Awdurdod Bwyd.

### 3.4.6 Tystiolaeth o gymhwysedd

Mae'r canlynol yn ffyrdd y gall Awdurdod Bwyd ddangos cymhwysedd ei swyddogion, a dylai Awdurdodau Bwyd ystyried cynnal portffolio o dystiolaeth i bob un o'u swyddogion i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau a allai gynnwys:

- cymwysterau academaidd a phroffesiynol
- cyrsiau ôl-gymwysterau sy'n arwain at gymhwyster perthnasol ychwanegol
- manylion hanes cyflogaeth yn manylu ar swyddogaethau a gyflawnwyd, y cyfrifoldeb a arferwyd, a'r profiad a gafwyd
- manylion rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir o dan oruchwyliaeth swyddog a awdurdodwyd yn briodol
- cwblhau cyrsiau hyfforddi'n llwyddiannus, gan gynnwys cyrsiau byr ac e-ddysgu, er enghraifft, ar faterion sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd swyddogol, HACCP, sancsiynau gorfodi
- cynnal arolygiadau/ymweliadau o dan oruchwyliaeth swyddog a awdurdodwyd yn briodol
- ar ôl cynnal darn penodol o waith, er enghraifft drafftio hysbysiadau, cynhyrchu datganiadau tyst, casglu tystiolaeth, adeiladu elfennau o ffeil erlyn, cynnal samplu yn unol â phrotocol penodol
- perfformio gweithgareddau'n foddhaol fel rhan o weithdrefnau gwerthuso/monitro perfformiad mewnol
- gwneud unrhyw rai o'r pethau a awgrymir yn adran 3.6.3.

### 3.4.7 Swyddogion yn symud o un Awdurdod Bwyd i un arall

Disgwylir y bydd Awdurdodau Bwyd yn cydweithredu ac yn helpu i ddilysu a throsglwyddo gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol mewn perthynas â chymwysterau, asesu cymhwysedd, hyfforddiant a chofnodion DPP pan fydd swyddog yn symud o un Awdurdod Bwyd i'r llall.

- Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion yn cael cyfnod ymsefydlu ffurfiol ac yn ymgyfarwyddo â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdodau Bwyd
- dylent gynnal asesiad cymhwysedd priodol yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau yn unol â'u gweithdrefn awdurdodi, gan ystyried:
    - y gweithgareddau y bydd y swyddog yn cael ei awdurdodi i ymgymryd â hwy; ac
    - unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod cyflogi blaenorol

## 3.5 Hyfforddiant

### 3.5.1 Rhaglen Hyfforddi

Gellir cynnwys rhaglen hyfforddi'r Awdurdod Bwyd yn y weithdrefn awdurdodi.

Mae'r ASB yn cydnabod yr angen i bob swyddog ddiweddaru neu adnewyddu ei wybodaeth a'i gymhwysedd i addasu i'r amgylchiadau newidiol y mae'n gweithio ynddynt, ac i swyddogion sy'n dechrau gorfodi cyfraith bwyd am y tro cyntaf, neu swyddogion sy'n dychwelyd i orfodi cyfraith bwyd ar ôl seibiant sydd angen datblygu eu gwybodaeth a'u cymhwysedd.

Mae nifer o gyrsiau e-ddysgu'r ASB ar gael.

### 3.5.2 Hyfforddiant i staff ar gynnal gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion cenhedlol (*germinal*) neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn BCPs

Rhaid i gynnwys y rhaglen hyfforddi:

- gael eu pennu yn ôl yr anifeiliaid a'r nwyddau y mae'r mannau rheoli ar y ffin wedi'u dynodi ar eu cyfer a'r tasgau a'r cyfrifoldebau y mae'r staff wedi'u neilltuo iddynt
- ymdrin â'r pynciau canlynol[43], fel y bo'n briodol
    - deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â mewnforio anifeiliaid a nwyddau i'r DU, gan gynnwys gweithdrefnau a gweithgareddau i'w cynnal yn ystod ac ar ôl gwiriadau ffisegol
    - egwyddorion cyffredinol archwilio anifeiliaid
    - archwilio ffitrwydd anifeiliaid i deithio
    - agweddau ymarferol ar drin a thrafod anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth, gan gynnwys trefniadau i atal neu leihau oedi mewn BCPs a, lle bo angen, bwydo, rhoi dŵr, dadlwytho a darparu llety ar gyfer yr anifeiliaid
    - archwiliad synhwyraidd o nwyddau
    - archwilio'r dull o deithio a'r amodau cludo, gan gynnwys rheoli nwyddau sy'n sensitif i dymheredd (cadwyn oer) a chludo anifeiliaid
    - adnabod rhywogaethau anifeiliaid, gan gynnwys, pan fo'n briodol, adnabod rhywogaethau goresgynnol estron (*invasive alien species*) a gyflwynir drwy anifeiliaid a nwyddau

[43] Erthygl 3 o Reoliad (UE) 2019/1081

- gweithdrefnau rheoli, sy'n ymwneud â defnyddio cyfarpar, gweithredu cynlluniau monitro a gweithdrefnau samplu a dadansoddiad labordy o ran anifeiliaid ac agweddau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd
- dulliau ar gyfer dehongli canlyniadau profion labordy a phenderfyniadau cysylltiedig yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol
- asesiad risg, gan gynnwys casglu data mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd er mwyn cynnal gwiriadau ffisegol wedi'u targedu'n briodol
- atal croeshalogi a chydymffurfio â safonau bioddiogelwch perthnasol
- gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid
- ymchwiliadau a thechnegau rheoli sydd â'r nod o ganfod arferion twyllodrus neu ddichellgar mewn masnach.

## 3.6 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

### 3.6.1 Cyflwyniad

DPP yw sut mae swyddogion awdurdodedig yn cynnal, yn gwella ac yn ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac yn datblygu'r rhinweddau a chymwyseddau personol sydd eu hangen i ymgymryd â'u rôl gorfodi cyfraith bwyd. Mae llawer o broffesiynau'n diffinio DPP fel dull strwythuredig o ddysgu er mwyn helpu i sicrhau cymhwysedd i ymarfer, ymgorffori gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ymarferol. Gall DPP gynnwys unrhyw weithgaredd dysgu perthnasol, boed yn ffurfiol ac yn strwythuredig neu'n anffurfiol ac yn hunangyfeiriedig.

Yr hyn sy'n sylfaenol i gynllun DPP yw'r angen i unigolion gymryd perchnogaeth o'u dilyniant gyrfa.

Mae cyrff proffesiynol fel y CIEH, CTSI, IFST a REHIS yn gweithredu gofynion DPP ar gyfer eu haelodaeth, sy'n cynnwys darparu tystiolaeth DPP fel rhan o'u haelodaeth neu statws siartredig. Dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff hyn os oes unrhyw gwestiynau ar eu gofynion DPP unigol.

Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n cyflogi swyddogion nad ydynt yn aelodau o gyrff proffesiynol barhau i gadw cofnod o'u DPP, a ddylai gael ei gydlofnodi gan swyddog bwyd arweiniol.

### 3.6.2 Gofynion DPP

Heblaw lle na ellir osgoi hynny (er enghraifft oherwydd absenoldeb estynedig), rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ymgymryd ag o leiaf 20 awr DPP bob blwyddyn. Gallai blwyddyn DPP fod yn flwyddyn galendr neu'n gyfnod treigl o 12 mis.

Er bod y Cod yn pennu lefel ofynnol, efallai y bydd angen oriau ychwanegol yn dibynnu ar brofiad swyddogion unigol a'u maes/meysydd awdurdodi, unrhyw anghenion hyfforddi penodol neu ddiffyg cymhwysedd a nodwyd yn eu hadolygiadau blynyddol.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 10 awr o DPP gael eu treulio ar bynciau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II o Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r

Awdurdod Bwyd sy’n deillio o’r Rheoliad hwn, sy’n berthnasol i’r gweithgareddau yr awdurdodir swyddogion i ymgymryd â hwy.

Gall enghreifftiau gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- ymarferion cysondeb sgoriau risg
- gwahanol dechnegau rheoli, megis arolygu, gwirio, sgrinio, sgrinio wedi’i dargedu, samplu, dadansoddiadau labordy, profi a diagnosis
- gweithdrefnau rheoli
- gofynion cyfraith bwyd
- asesu diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd
- peryglon wrth gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd
- gwahanol gamau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu a’r risgiau posibl i iechyd pobl, a lle bo’n briodol ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, lles anifeiliaid a’r amgylchedd
- gwerthuso’r defnydd o weithdrefnau HACCP
- systemau rheoli megis rhaglenni sicrhau ansawdd y mae FBOs yn eu rheoli a’u hasesiad i’r graddau y mae’r rhain yn berthnasol i ofynion cyfraith bwyd
- systemau ardystio swyddogol
- trefniadau wrth gefn ar gyfer argyfyngau
- achosion cyfreithiol a goblygiadau rheolaethau bwyd swyddogol
- archwilio deunydd ysgrifenedig, dogfennol a chofnodion eraill, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â phrofion cymharol rhwng labordai, achredu ac asesu risg, a allai fod yn berthnasol i asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd; gall hyn gynnwys agweddau ariannol a masnachol
- gweithdrefnau rheoli a gofynion ar gyfer bwyd sy’n dod i mewn i’r DU
- unrhyw faes arall sy’n angenrheidiol i sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol yn cael eu cyflawni’n unol â Rheoliad (UE) 2017/625.

Gall y 10 awr sy’n weddill gynnwys dysgu sy’n gysylltiedig â ‘materion proffesiynol eraill’ hynny yw, DPP a fydd yn cefnogi proffesiwn swyddog ac nid yn gysylltiedig â bwyd o reidrwydd.

Gall enghreifftiau o DPP ‘materion proffesiynol eraill’ gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- fynychu cyrsiau/cynadleddau hyfforddi nad ydynt yn gysylltiedig â rheolaethau bwyd swyddogol ond sy’n cefnogi datblygiad proffesiynol
- cysgodi cydweithwyr profiadol (mewnol neu allanol) i ddatblygu gwybodaeth
- mynychu’r llys
- cymryd rhan mewn astudiaethau achos sy’n seiliedig ar senarios
- drafftio erthyglau perthnasol ar gyfer cylchgronau/papurau a adolygir gan gymheiriaid
- ymgymryd â gweithgareddau dysgu o bell neu e-ddysgu perthnasol er enghraifft, ar gasglu tystiolaeth
- gwneud cyflwyniadau i gydweithwyr ar ddeddfwriaeth newydd neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

### 3.6.3 Ffyrdd o gyflawni DPP

Mae'r enghreifftiau isod i gyd yn ffyrdd y gall swyddogion awdurdodedig ymgymryd â DPP a'i gyflawni. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cyrsiau hyfforddi perthnasol gan gynnwys dysgu o bell neu weithgareddau e-ddysgu
- hyfforddiant gan swyddogion awdurdodedig profiadol eraill
- adolygiad o astudiaethau achos a llenyddiaeth
- cynadleddau neu gyfarfodydd sy'n cynnwys elfen o ddysgu
- darllen i ddeall y fframwaith cyfreithiol, rheoleiddiol ar gyfer gwaith proffesiynol
- cynnal neu ddatblygu sgiliau arbenigol
- cysgodi swyddog awdurdodedig sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd
- mynychu cyrsiau/cynadleddau hyfforddi nad ydynt yn gysylltiedig â rheolaethau bwyd swyddogol ond sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol
- cymryd rhan mewn archwiliad DGF neu genhadaeth canfod ffeithiau
- cysgodi cydweithwyr profiadol (mewnol neu allanol) i ddatblygu gwybodaeth am broses arbenigol, fel gwneud caws; cynhyrchion cig; cynhyrchion pysgod cregyn/pysgodfeydd
- cymryd rhan mewn astudiaethau achos sy'n seiliedig ar senarios (er enghraifft drafftio hysbysiadau, sgorio risg)
- awdurdodi erthyglau perthnasol ar gyfer cylchgronau/papurau a adolygir gan gymheiriaid
- ysgrifennu canllawiau ar gyfraith bwyd neu ofynion deddfwriaethol eraill
- ymgymryd â gweithgareddau dysgu o bell neu e-ddysgu perthnasol
- paratoi a chyflwyno cyflwyniadau i gydweithwyr neu fusnesau ar ofynion deddfwriaethol, yn enwedig newidiadau newydd i ddeddfwriaeth
- trafodaethau priodol gyda chydweithwyr a/neu FBOs ar ofynion cyfreithiol/camau gorfodi sy'n cynnwys elfen o ddysgu.

### 3.6.4 Tystiolaeth a chofnodi DPP

Mae'r rhan fwyaf o DPP yn debygol o gael ei ddangos gan yr ymarfer sefydledig o ardystio gan ddarparwr hyfforddiant. Fodd bynnag, gall dulliau eraill o dystiolaeth gefnogol ei ddangos, er enghraifft, cyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.

Dylai Awdurdodau Bwyd gadw cofnod o DPP eu swyddogion awdurdodedig y dylid eu defnyddio fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o anghenion hyfforddiant a DPP. Gellid cyfuno adolygiadau o'r fath ag arfarniadau staff blynyddol lle y bo'n briodol.

Dylai'r cofnod, a all fod yn electronig, gynnwys yr wybodaeth ganlynol fel isafswm:

- dyddiad(au) gweithgarwch
- math o weithgaredd/disgrifiad o'r gweithgaredd
- oriau a dreulir ar weithgaredd
- copi o ardystiad neu gydlofnodi gan swyddog awdurdodedig sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y gweithgaredd datganedig a gynhaliwyd.

# Pennod 4 Darparu ymyriadau

## 4.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 4 yn ymdrin â chyflawni rheolaethau bwyd swyddogol (eu dulliau a'u technegau[44]), gweithgareddau swyddogol eraill, a strategaethau gorfodi amgen.

## 4.2 Ymyriadau

Wrth ddewis y math o ymyriad i'w ddefnyddio, rhaid i'r swyddog awdurdodedig roi sylw i'r cyfyngiadau a nodir yn y Cod a pholisi gorfodi'r Awdurdod Bwyd ei hun. Rhaid i'r swyddog ddewis yr ymyriad a fydd yn fwyaf effeithiol o ran cynnal neu wella cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Os yw'r un swyddog yn gyfrifol am orfodi materion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliad, neu hylendid bwyd anifeiliaid, dylai'r swyddog benderfynu a yw'n briodol ymdrin ag un neu fwy o faterion mewn un ymweliad, er efallai na fydd yn bryd cynnal ymyriad o dan un o raglenni ymyrraeth arfaethedig yr Awdurdodau Bwyd.

### 4.2.1 Mathau o ymyriadau

Yn gyffredinol, rhaid i dasgau sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd swyddogol gael eu cyflawni gan ddefnyddio dulliau a thechnegau rheoli priodol, megis monitro, goruchwylio, dilysu, archwilio, arolygu a samplu ar gyfer dadansoddi (a all gynnwys cyfuniad o ddulliau a thechnegau rheoli o'r fath), a elwir yn fathau o ymyrraeth. Er mwyn i ymyriad fod yn ddull rheoli swyddogol, rhaid i'r swyddog fod yn fodlon y bydd un dull rheoli, neu gyfuniad o ddulliau a thechnegau rheoli, yn cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Manylir ar enghreifftiau o ddulliau a thechnegau rheoli bwyd swyddogol, rheolaethau bwyd nad ydynt yn swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn y tabl isod.

| Dulliau a thechnegau rheoli bwyd swyddogol | Rheolaethau bwyd nad ydynt yn swyddogol | Gweithgareddau swyddogol eraill |
|---|---|---|
| • Arolygu<br>• Archwilio<br>• Samplu ar gyfer dadansoddi<br>• Monitro<br>• Gwyliadwriaeth<br>• Gwirio | • Addysg<br>• Cyngor<br>• Hyfforddiant<br>• Casglu gwybodaeth | • Mesurau gorfodi a/neu gamau adferol yn dilyn diffyg cydymffurfio<br>• Rheoli rhestri o Weithredwyr Busnesau Bwyd (FBOs) cofrestredig/cymeradwy<br>• Y weithred o gyhoeddi tystysgrifau swyddogol neu ardystiadau swyddogol |

[44] Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625

### 4.2.2 Arolygiadau ac archwiliadau

Dylai arolygiadau fod yn seiliedig ar y ffurflen arolygu berthnasol, lle mae un wedi'i datblygu, ar gyfer y busnes dan sylw.

Bwriad y ffurflen arolygu yw cynorthwyo swyddogion a busnesau drwy gyflwyno dull strwythuredig o ymdrin â'r broses arolygu sy'n gyson ag arferion sicrhau ansawdd. Nid oes angen arolygu pob agwedd ar fusnes bwyd ym mhob arolygiad, er enghraifft efallai na fydd angen arolygu becws neu fwyty mewn siop archfarchnad a weithredir gan yr archfarchnad honno bob tro yn ystod arolygiad o archfarchnad.

Dylai'r broses arolygu ddechrau gydag adolygiad o'r wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â'r sefydliad busnes bwyd sydd i'w arolygu.

Ar ddechrau'r arolygiad, dylai'r swyddog drafod gyda'r FBO neu gynrychiolydd:

- ddiben a chwmpas yr arolygiad
- a fu unrhyw newidiadau mewn gweithgareddau ers yr ymweliad diwethaf
- yr hyn y mae'r swyddog yn bwriadu ei wneud

Dylai arolygiad gynnwys:

- asesu'r system rheoli diogelwch bwyd, fel y bo'n berthnasol
- nodi'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a gyflawnir gan y busnes
- ardaloedd y sefydliad a ddefnyddir ar gyfer paratoi, cynhyrchu, storio a chludo bwydydd
- unrhyw brosesau a ddefnyddir a'r staff dan sylw

Lle mae ffurflen arolygu wedi'i datblygu, dylai swyddogion:

- ei chwblhau'n llawn, er mwyn sicrhau bod ganddynt gofnod digonol i ddangos sut mae'r busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd berthnasol
- cofnodi'n glir ar y ffurflenni arolygu unrhyw feysydd na chafodd eu harolygu na'u hasesu
- cofnodi unrhyw wybodaeth y seiliwyd penderfyniadau arni wrth bennu'r sgôr risg

Gellir holi staff busnesau bwyd sydd wedi cael cyfrifoldebau penodol dros sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn deall eu dyletswyddau ac yn eu cyflawni'n effeithiol.

Dylai asesiad o ba un ai i gymryd samplau, ac os felly beth i'w samplu, fod yn rhan annatod o arolygiad, ond yn enwedig mewn busnesau gweithgynhyrchu bwyd, pacio ac arlwyo.

Gall arolygiadau fod at ddibenion sy'n gysylltiedig â Phrif Awdurdod hefyd, er enghraifft, cynghori FBOs ar y gyfraith a ffyrdd y gallant gydymffurfio â hi.

Dylai swyddogion gynnig cyngor lle mae'n briodol neu os gofynnir amdano a dylent annog FBOs drwy ddull addysgol i fabwysiadu arferion da.

Ar ddiwedd pob arolygiad, dylai'r swyddog drafod unrhyw dramgwydd o ran cyfraith bwyd a ddarganfuwyd ac esbonio:

- unrhyw gamau unioni sy'n angenrheidiol

- yr amserlen ar gyfer camau unioni
- unrhyw gamau pellach y mae'r swyddog yn bwriadu eu cymryd ac unrhyw argymhellion o ran arferion da y mae'r swyddog o'r farn eu bod yn briodol

Yn y drafodaeth gloi hon, ac mewn adroddiadau neu ohebiaeth ddilynol, dylai swyddogion wahaniaethu'n glir rhwng y camau sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac argymhellion o ran arferion da.

Dylai'r swyddog, ar gais, gynghori a thrafod gyda'r FBO, yr ymyriad a/neu'r sgôr risg a gymhwysir i'r busnes.

Efallai yr hoffai'r swyddog ystyried a allai strategaethau ymyrraeth bellach fod yn briodol, er enghraifft addysg neu hyfforddiant.

### 4.2.3 Llongau ffatri a physgota – arolygiadau hylendid

Yn ogystal â'r rhaglen ymyrraeth arfaethedig ar gyfer sefydliadau tir, bydd angen i Awdurdodau Bwyd ystyried arolygu llongau ffatri, rhewgell a physgota. Bydd arolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal tra bo llongau yn y porthladd fel arfer.

Fel arfer, ni ddylai swyddogion Awdurdodau Bwyd gynnal arolygiadau o longau ffatri, rhewgell neu bysgota tra byddant ar y môr. Yn achos llongau ffatri, efallai y bydd amgylchiadau pan mai dim ond pan fydd llongau ffatri wedi'u hangori ar y môr y gellir cynnal arolygiadau.

Er y gall Awdurdod Bwyd arall gymeradwyo llong, nid oes dim i atal unrhyw swyddog awdurdodedig o unrhyw Awdurdod Bwyd arall rhag arolygu'r llong, cyn belled â'i fod yn fodlon bod ganddo'r awdurdod cyfreithiol priodol i arolygu a'i fod wedi cysylltu â'r Awdurdod Bwyd sydd wedi cymeradwyo'r llong a bod yr awdurdod hwnnw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Pan nodir, yn ystod arolygiad, bod y Rheoliadau wedi'u torri, rhaid i'r swyddog awdurdodedig hysbysu'r Awdurdod Bwyd, lle mae'r llong wedi'i lleoli fel arfer, am y tramgwydd. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd sy'n derbyn manylion am dramgwydd gysylltu â'r Awdurdod Bwyd sy'n hysbysu a chymryd pa bynnag gamau dilynol sy'n angenrheidiol.

### 4.2.4 Dilysu

Mae'r amgylchiadau isod yn enghreifftiau o, ond heb fod yn gyfyngedig i, pryd y dylid cofnodi ymyriad fel ymweliad dilysu.

Maent yn cynnwys:

- ymweliad i gadarnhau cydymffurfiaeth â mater(ion) penodol a nodwyd mewn ymyriad cynharach, ymchwilio i gŵyn a/neu gyflwyno hysbysiadau
- asesiad o bell o ddigonolrwydd rhagofynion a chynllun HACCP (nid yn golygu o reidrwydd bod angen ymweliad corfforol gwirioneddol â'r sefydliad)
- dilysu labelu bwyd (gan gynnwys deunyddiau hysbysebu a gwefannau) gyda rheolau marchnata a defnyddio labelu bwyd. Gwirio, drwy archwilio ac ystyried tystiolaeth wrthrychol, a yw gofynion penodol cyfraith bwyd wedi'u cyflawni
- ymchwiliad mewn sefydliad bwyd mewn ymateb i ddigwyddiad gwenwyn bwyd lle mae angen gwirio agweddau allweddol ar weithrediad y busnes bwyd

- ymweliadau dilysu i gadarnhau bod y gweithdrefnau ar gyfer HACCP wedi'u rhoi ar waith
- ymweliad dilynol un-i-un i gadarnhau cydymffurfiaeth ar ôl i fusnes bwyd gymryd rhan mewn seminar hyfforddi neu gwblhau arolwg busnes

### 4.2.5 Monitro a goruchwylio

Mae'r amgylchiadau isod yn enghreifftiau o, ond heb fod yn gyfyngedig i, pryd y dylid cofnodi ymyriad fel monitro neu oruchwylio. Maent yn cynnwys:

- casglu gwybodaeth os yw'n cynnwys gwirio gwybodaeth a gasglwyd ar y safle gan swyddog â chymwysterau priodol
- ymweliad i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o strategaeth orfodi amgen

### 4.2.6 Ymweliadau samplu

Nid yw ymweliad â sefydliad i gael sampl yn gyfystyr ag ymyriad cynlluniedig oni bai bod y gweithgaredd samplu'n rhan annatod o reolaeth swyddogol ehangach sy'n darparu digon o wybodaeth yn gyffredinol i ganiatáu i'r swyddog bennu lefel y cydymffurfio.

Mae'r amgylchiadau isod yn enghreifftiau o pryd y dylid cofnodi ymyriad fel samplu ar gyfer yr ymweliad hwnnw â'r sefydliad bwyd. Maent yn cynnwys ymweliadau:

- i gymryd sampl/samplau ffurfiol i'w dadansoddi/archwilio mewn labordy swyddogol yn unig (Cofiwch, os cymerir samplau yn ystod math arall o ymyriad er enghraifft, arolygiad, yna rhaid cofnodi'r ymweliad fel arolygiad nid ymweliad samplu)
- Gellir cynnwys cymryd samplau fel rhan o raglen samplu genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y categori hwn, cyn belled â bod y samplau'n cael eu dadansoddi/archwilio gan labordy swyddogol

### 4.2.7 Gwaith addysg a chynghori

Gall darparu addysg, cyngor a hyfforddiant a ddarperir yn y sefydliad busnes, neu o bell fod yn rhan allweddol o strategaeth Awdurdod Bwyd i newid ymddygiad a chynyddu cydymffurfiaeth mewn busnesau bwyd a dylid ei annog pryd bynnag y bydd adnoddau'n caniatáu hynny.

Mae'r amgylchiadau isod yn enghreifftiau o pryd y dylid cofnodi'r ymyriad fel cyngor ac addysg ar gyfer yr ymweliad hwnnw â'r sefydliad bwyd. Maent yn cynnwys ymweliad â:

- safle i roi cyngor a/neu hyfforddiant
- rhoi cyngor ar Becyn Arlwyo Diogel neu Becyn Bwyd Mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) neu gynlluniau cyfatebol
- rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio/ceisiadau rheoli adeiladu

Gellir darparu gwaith addysgol a chynghori i ffwrdd o'r sefydliadau bwyd hefyd, er enghraifft, drwy fforwm neu seminar busnes. Gellir ei dargedu at fathau penodol o fusnesau bwyd neu o amgylch pynciau diogelwch bwyd penodol. Dylid cofnodi manylion gwaith addysg a chynghori o'r fath yn y blwch testun rhydd ar y ffurflen fonitro flynyddol a anfonir at yr ASB.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n cynnal ymweliadau cynghori â busnesau bwyd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ar gyfer hylendid a safonau sicrhau nad yw'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ymyrraeth reoli swyddogol yn cael ei beryglu ac yn achos hylendid bwyd nid yw'r ymweliadau cynghori hyn yn tanseilio'r broses o gyflawni'r CSHB.

Diben ymweliadau cynghori yw rhoi arweiniad i fusnesau ar gydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd.

Os nodir diffyg cydymffurfio sylweddol yn ystod ymweliad cynghori â busnes sy'n masnachu, sy'n peri risg i iechyd y cyhoedd, dylid cynnal arolygiad llawn, a chymryd camau gorfodi priodol yn unol â Pholisi Gorfodi'r Awdurdod Bwyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen defnyddio pwerau gorfodi ffurfiol.

Ni ddylid cynnal ymweliadau cynghori ar draul y rhaglen ymyrraeth arfaethedig, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud â sefydliadau risg uwch.

#### 4.2.8 Casglu gwybodaeth

Ymweliadau yw'r rhain i gadarnhau gwybodaeth allweddol sy'n ymwneud â'r sefydliad bwyd. Gellid eu cynnal o dan gynllun rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol asiantaethau rheoleiddio. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei hadolygu gan swyddog awdurdodedig cymwys a fydd yn asesu a yw camau pellach yn briodol.

Mae'r amgylchiadau isod yn enghreifftiau o, ond heb fod yn gyfyngedig i, pryd y dylid cofnodi'r ymyriad fel casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymweliad hwnnw â'r sefydliad bwyd. Maent yn cynnwys ymweliad:

- i gymryd sampl/samplau na fyddant yn cael eu dadansoddi/archwilio mewn labordy swyddogol ond sy'n darparu gwybodaeth am ryw agwedd ar y busnes bwyd
- gan reoleiddiwr heblaw'r Awdurdod Bwyd i gasglu gwybodaeth am sefydliad bwyd

#### 4.2.9 Ailymweliadau

Gall ailymweld ganolbwyntio ar y gofynion statudol sylweddol y canfuwyd eu bod wedi'u torri yn ystod yr ymyriad blaenorol.

## 4.3 Cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol

#### 4.3.1 Hysbysiad o reolaethau bwyd swyddogol

Rhaid i hysbysiad ymlaen llaw fod yn eithriad[45].

Dyma enghreifftiau lle gallai hysbysiad fod yn briodol, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- pan mai diben ymyriad yw gweld proses benodol ar waith
- archwilio cofnodion sydd ond ar gael os yw perchennog y busnes bwyd yn bresennol

[45] Gofyniad yn unol ag Erthygl 9(4) o Reoliad (UE) 2017/625

Rhaid i swyddogion awdurdodedig arfer disgresiwn yn y maes hwn wedi'u llywio gan y prif nod o sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

### 4.3.2 Arolygiad cychwynnol o sefydliadau newydd

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad bwyd gael arolygiad cychwynnol. Dylai hyn ddigwydd fel rheol o fewn 28 diwrnod i gofrestru neu'r adeg y daw'r Awdurdod Bwyd yn ymwybodol bod y sefydliad ar waith. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau bwyd newydd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd. Mae hyn yn berthnasol i arolygiadau hylendid a safonau.

Rhaid i'r broses o flaenoriaethu arolygiadau cychwynnol o fewn rhaglen ymyrraeth yr Awdurdod Bwyd fod yn seiliedig ar risg.

#### 4.3.2.1 Penderfynu pryd i gynnal yr arolygiad cychwynnol

Dylai'r Awdurdod Bwyd ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol:

- lle credir bod y sefydliad newydd yn ymgymryd â gweithgareddau bwyd risg uchel dylai'r Awdurdod Bwyd gynnal arolygiad cychwynnol o fewn 28 diwrnod i ddechrau'r gwaith
- lle credir bod y sefydliad yn risg isel o'r wybodaeth sydd ar gael, gellir ystyried gohirio'r arolygiad cychwynnol mewn amgylchiadau lle byddai ei gynnal yn oedi ymyriadau arfaethedig i safleoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau risg uchel, neu y credir eu bod yn cymryd rhan ynddynt, fel y'u diffinnir ym Mhennod 4 o'r Cod
- pan fo sefydliad wedi cofrestru 28 diwrnod cyn dechrau'r gweithrediadau, gellir gohirio'r arolygiad hyd nes y bydd gweithrediadau o fewn y sefydliad wedi dechrau

Os penderfynwyd gohirio arolygiad cychwynnol, dylid cofnodi hyn ar gofnod priodol y ffeil safle.

### 4.3.3 Cynnal arolygiadau ac archwiliadau

#### 4.3.3.1 Arolygiadau hylendid bwyd

Yn gyffredinol, dylai swyddog sy'n cynnal arolygiad hylendid bwyd:

- sefydlu a yw bwyd yn cael ei drin a'i drafod a'i gynhyrchu'n hylan, a'i fod yn ddiogel i'w fwyta, gan ystyried unrhyw brosesu dilynol; asesu'r peryglon a achosir gan weithgareddau'r busnes a dealltwriaeth yr FBO o'r peryglon hynny
- cadarnhau bod yr FBO yn cyflawni ei reolaethau a'i wiriadau ei hun, yn seiliedig ar egwyddorion HACCP (ac eithrio yn achos cynhyrchu cynradd) a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod camau unioni priodol yn cael eu cymryd lle bo angen
- asesu effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risg o groeshalogi rhwng bwydydd parod i'w bwyta a bwydydd y mae angen eu prosesu ymhellach
- asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion hylendid bwyd; mewn perthynas â chynhyrchu cynradd, sefydlu bod gan FBOs a'u gweithwyr ddealltwriaeth o'r peryglon a achosir gan weithgareddau'r busnes, ac asesu a

gwirio bod camau ataliol/unioni sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch bwyd sy'n dod i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol yn digwydd

- argymell arferion hylendid bwyd da yn unol â Chanllawiau Arferion Da perthnasol a Chanllawiau cydnabyddedig Diwydiant y DU, codau ymarfer cyhoeddedig eraill y diwydiant, codau perthnasol sy'n benodol i'r sector, a safonau technegol perthnasol eraill, a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau hylendid drwy fabwysiadu arferion da. Efallai y bydd swyddogion am dynnu sylw FBOs at ganllawiau o'r fath mewn amgylchiadau priodol
- gwirio ffynhonnell ac unrhyw farciau iechyd neu adnabod deunyddiau crai, a marciau adnabod a chyrchfan cynhyrchion gorffenedig. Lle nodir diffygion mewn marciau iechyd neu adnabod
- gwirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n benodol i gynnyrch, er enghraifft mewn perthynas â busnesau manwerthu ac arlwyo sy'n gwerthu neu'n defnyddio molysgiaid dwygragennog byw, sicrhau lle rhennir parseli o folysgiaid dwygragennog byw cyn eu gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, bod gwybodaeth am farciau adnabod yn cael ei chadw am o leiaf 60 diwrnod

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol a nodir uchod, dylai arolygiad hylendid bwyd gynnwys, os yw'n briodol:

- trafodaeth gydag unrhyw staff sy'n gyfrifol am fonitro a chamau unioni mewn mannau rheoli critigol i gadarnhau bod rheolaeth yn effeithiol
- arolygiad ffisegol i benderfynu a oes rheolaethau critigol wedi'u nodi ac a yw'r rheolaethau ar waith, ac i asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol
- asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion olrhain Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002
- trafodaeth ynghylch unrhyw beryglon a nodwyd gan y swyddog nad ydynt wedi'u cwmpasu gan systemau'r busnes
- trafodaeth ynghylch unrhyw fethiant i weithredu neu fonitro unrhyw reolaethau critigol a nodwyd gan y busnes

#### 4.3.3.2 System sgorio hylendid bwyd a sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Diben y system sgorio hylendid bwyd ym Mhennod 4 y Cod yw pennu amlderau ymyrryd arfaethedig ym mhob sefydliad bwyd ar sail asesu cydymffurfiaeth â chyfraith hylendid bwyd. Mae'r system yn sail i'r CSHB, a weithredir gan bob Awdurdod Bwyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am hylendid bwyd. Mae'r CSHB yn helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta neu siopa am fwyd drwy roi gwybodaeth iddynt am y safonau hylendid mewn bwytai, siopau tecawê, mannau eraill rydych chi'n bwyta oddi cartref a siopau bwyd, yn seiliedig ar gynllun sgorio o 0-5. Mae'r ASB wedi cynhyrchu Canllawiau i Awdurdodau Bwyd. Mae Rheoliad 5 ar alergenau yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn ymwneud â labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd felly ni ddylai fod yn rhan o'r asesiad hwn gan fod y rhain yn ofynion safonau bwyd.

#### 4.3.3.3 Arolygiadau safonau bwyd

Dylai swyddog sy'n cynnal arolygiad safonau bwyd:

- ystyried bodolaeth ac effeithiolrwydd systemau rheoli a gynlluniwyd i sicrhau bod gofynion safonau bwyd yn cael eu bodloni a, lle maent yn bodoli, profi eu heffeithiolrwydd
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiad, cyflwyniad a labelu drwy archwilio hysbysebion, labeli, disgrifiadau, bwydlenni, hawliadau, ryseitiau a chofnodion eraill
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion olrhain Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 fel y'i darllenir gyda Rheoliad (UE) Rhif 931/2011 ar y gofynion olrhain a bennir gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002 ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid
- asesu cydymffurfiaeth â manylebau cyflenwyr
- asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion safonau bwyd
- argymell arferion da yn unol â chodau perthnasol y diwydiant a safonau technegol perthnasol eraill

Manylir ar gwmpas llawn yr arolygiad safonau bwyd yn y ffurflen arolygu berthnasol lle mae un wedi'i datblygu, ar gyfer y busnes dan sylw.

### 4.3.4 Adroddiadau'n dilyn rheolaethau bwyd swyddogol

Dyma'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr adroddiad:

- disgrifiad o ddiben y rheolaethau bwyd swyddogol
- y dulliau rheoli a ddefnyddiwyd
- canlyniad y rheolaethau bwyd swyddogol a'r diffyg cydymffurfio a nodwyd
- lle bo'n briodol, camau y mae'r Awdurdod Bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr o dan sylw eu cymryd
- gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion
- amserlenni ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio
- enw a chyfeiriad masnachu'r busnes, a chyfeiriad cofrestredig os yw'n wahanol
- enw gweithredwr y busnes bwyd/perchennog y busnes bwyd
- math o fusnes
- enw(au) y person(au) a welwyd a/neu a gyfwelwyd
- amser a dyddiad yr arolygiad
- y gyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd ymyriad oddi tani
- meysydd a arolygwyd/archwiliwyd (i'w nodi)
- dogfennau a/neu gofnodion eraill a archwiliwyd (i'w nodi)
- samplau a gymerwyd (i'w nodi)
- pwyntiau allweddol a drafodwyd yn ystod yr ymweliad (i'w nodi)
- camau i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (i'w nodi)
- llofnod y swyddog
- enw'r swyddog
- dynodiad y swyddog arolygu
- manylion cyswllt y swyddog arolygu
- manylion cyswllt uwch swyddog rhag ofn y bydd anghydfod
- dyddiad
- enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd

Dylai cyfathrebu rhwng Awdurdodau Bwyd a busnesau bwyd aml-safle fod yn unol â gofynion y Prif Awdurdod a, neu Egwyddor yr Awdurdod Cartref. Efallai y bydd angen adborth gan Awdurdodau Bwyd ar y cynllun arolygu a gyhoeddir gan brif awdurdod a rhaid rhoi hwn, pan ofynnir amdano.

Dylai cyfathrebu uniongyrchol rhwng Awdurdodau Bwyd a busnesau bwyd aml-safle fod gyda phrif swyddfa'r busnes dan sylw fel arfer, oni bai bod y busnes wedi rhoi cyfeiriad gwahanol ar gyfer anfon cyfathrebiadau.

Dylai dogfennau sy'n cael eu gadael gyda phersonél ar y safle a'r rhai a anfonir drwy ddulliau electronig gael eu copïo i'r brif swyddfa berthnasol neu gyfeiriad arall hefyd, oni bai bod y brif swyddfa'n nodi fel arall.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu systemau gwybodaeth reoli (cronfeydd data) yn cael eu diweddaru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## 4.4 Gofyniad am weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP

Mae Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes bwyd (ac eithrio cynhyrchwyr cynradd, a sefydliadau a gymeradwywyd ar gyfer egino hadau) ddatblygu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae Cronicliad 15 o'r Rheoliad yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn a gweithredu gweithdrefnau o'r fath, yn enwedig mewn busnesau bach, lle gallai fod yn anodd cymhwyso HACCP traddodiadol.

Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd roi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith, eu gweithredu a'u cynnal yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae'r ASB wedi cynhyrchu'r Pecyn Arlwyo Diogel a'r pecyn Bwyd Mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) i helpu busnesau i gydymffurfio â Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, sydd ar gael drwy wefan yr ASB.

Dylai sefydliadau bwyd sy'n cyflwyno amodau risg iechyd sylweddol neu risg sydd ar fin digwydd o anaf i iechyd y cyhoedd fod yn destun camau gorfodi ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth a diogelu iechyd y cyhoedd.

Lle nad yw sefydliadau bwyd yn cyflwyno risgiau sylweddol i iechyd y cyhoedd, rhaid ceisio helpu'r busnes i wella safonau diogelwch a hylendid bwyd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod peryglon sylweddol yn cael eu deall a'u rheoli, a lle mae diffyg dealltwriaeth a rheolaeth – rhoi cyngor ac arweiniad fel bod FBOs yn mabwysiadu arferion da i wella cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Wrth ddilyn dull addysgol, dylai swyddogion awdurdodedig ganolbwyntio ar beryglon sylweddol i iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn deall y peryglon hyn ac yn gwybod sut i'w rheoli a'u cadw dan reolaeth.

Dylai dull graddedig fod yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd busnesau'n gwella eu safonau dros amser, gan ystyried y ddealltwriaeth a gânt gan y swyddog awdurdodedig a ffynonellau eraill. Lle nad yw busnes yn gwella – o gael amser rhesymol, ar ôl cael cynnig cyfarwyddyd, gellir defnyddio hysbysiadau gwella hylendid a mesurau gorfodi ffurfiol eraill.

### 4.4.1 Hyblygrwydd HACCP

Mae Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn rhoi hyblygrwydd, gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sefydlu gweithdrefnau yn y busnes sy'n rheoli peryglon diogelwch bwyd ac yn integreiddio'r gweithdrefnau hyn â dogfennaeth a chadw cofnodion sy'n briodol i faint a natur y busnes. Yn benodol, mae angen cydnabod, mewn rhai busnesau bwyd, nad yw'n bosibl nodi pwyntiau rheoli critigol ac, mewn rhai achosion, y gall arferion hylan da ddisodli'r broses o fonitro pwyntiau rheoli critigol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi Hysbysiad gan y Comisiwn ar HACCP a hyblygrwydd ac sy'n cysylltu HACCP â rhaglenni Rhagofynnol. Mae canllawiau'r Comisiwn ar hyblygrwydd, yn enwedig ar gyfer cynhyrchion/dulliau traddodiadol a dulliau gweithgynhyrchu penodol eraill ar gael i FBOs ac i Awdurdodau Bwyd.

Er y gall busnesau mwy, a mwy cymhleth a busnesau sydd â lefel uchel o ddealltwriaeth o reoli diogelwch bwyd ddewis dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth drwy sefydlu system HACCP 'draddodiadol', gall eraill wneud hynny gyda dulliau symlach sy'n ystyried yr hyblygrwydd i roi gweithdrefnau ar waith yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae'r adran hon yn disgrifio'r hyblygrwydd hwn i fusnesau bach.

O ran gorfodi, yn ymarferol, mae cydymffurfiaeth yn golygu:

- cael sicrwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn deall peryglon sylweddol a'u bod o dan reolaeth er enghraifft drwy gwestiynu
- gweld bod gweithdrefnau ysgrifenedig lle bo angen sy'n dangos sut mae'r busnes yn rheoli'r peryglon hyn bob amser
- gweld tystiolaeth bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru

Y pwyntiau allweddol yw:

- mae hyblygrwydd yn berthnasol i bob busnes bwyd
- dylai fod gan yr FBO neu reolwr busnes y sgiliau angenrheidiol i gynnal system rheoli diogelwch bwyd sy'n gymesur â'i fusnes, ac nid dim ond cael ei hyfforddi ynghylch egwyddorion HACCP. Gellir ennill y sgiliau hyn mewn sawl ffordd; nid hyfforddiant ffurfiol yw'r unig lwybr
- dylai staff mewn busnes:
  - feddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â'u dyletswyddau
  - ddilyn y gweithdrefnau diogelwch bwyd yn y busnes
  - cael hyfforddiant cymesur (efallai na fydd angen hyfforddiant ffurfiol i gyflawni'r cymwyseddau gofynnol)
  - cael hyfforddiant yn y swydd lle bo'n briodol
- nid oes angen i fonitro gweithgareddau allweddol yn y busnes (pwyntiau rheoli critigol) fod yn rhifyddol a gellir ei seilio ar arsylwi synhwyraidd, sgiliau crefft a goruchwyliaeth.
- mae cofnodi digwyddiadau yn fath priodol a chymesur o gadw cofnodion mewn llawer o fusnesau

- rhaid i gamau unioni ategu'r broses cofnodi digwyddiadau

Er mwyn helpu busnesau i ddatblygu gweithdrefnau priodol a mabwysiadu dull graddedig i orfodi, mae'n bwysig deall sut i farnu cynnydd. Mae'r tabl isod yn disgrifio cydrannau'r ddeddfwriaeth a sut y gallai swyddog awdurdodedig farnu cynnydd tuag at gydymffurfio â hi mewn busnesau bach.

Mae'r tabl isod yn rhannu cydrannau'r ddeddfwriaeth yn saith egwyddor safonol HACCP, nodir rhywfaint o'r hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth. Er y gall deunyddiau cyfarwyddyd ddefnyddio'r fframwaith saith egwyddor, nid oes angen defnyddio'r dull hwn. Cyn belled â bod yr un canlyniad yn cael ei gyflawni a bod bwyd diogel yn cael ei gynhyrchu. Eglurir hyn yn Atodiad III o Ganllawiau'r Comisiwn ar hyblygrwydd.

Yn yr un modd, nid oes angen defnyddio terminoleg neu 'jargon' HACCP a gall fod yn ddryslyd i rai busnesau.

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddull yr ASB o ymdrin â 'Bwyd mwy diogel busnes gwell' ond dylai fod yn hawdd ei ddefnyddio i nodi cydymffurfiaeth mewn busnes gan ddefnyddio offer eraill yr un mor hyblyg, neu lle mae'r busnes wedi dyfeisio ei weithdrefnau ei hun.

#### 4.4.1.1 Tabl saith egwyddor HACCP

1) **Nodi unrhyw beryglon y mae'n rhaid eu hatal, eu dileu neu eu lleihau.**

Efallai na fydd mapio Dadansoddi Peryglon gydag offer fel siartiau llif yn addas ar gyfer pob busnes. Byddai'n ddigon bod y busnes wedi meddwl am ei weithgareddau mewn ffordd strwythuredig. Effaith y dadansoddiad a'r gweithdrefnau a gynhyrchir ddylai fod gwneud yn siŵr bod bwyd diogel yn cael ei gynhyrchu bob amser.

Efallai na fydd y dull HACCP traddodiadol o reoli rhai peryglon drwy raglenni rhagofynnol o Arferion Hylan Da ac eraill drwy'r system HACCP yn briodol, yn enwedig mewn busnesau bach lle nad yw'n hawdd ei ddeall. Beth bynnag fo fformat y canllawiau, rhaid i'r busnes fod yn rheoli pob perygl sylweddol gan gynnwys y rhai a reolir yn draddodiadol drwy Arferion Hylan Da.

O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

Cael digon o dystiolaeth bod y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd wedi meddwl am ei fusnes ac wedi nodi peryglon sylweddol ac yn gwybod sut i'w rheoli – i rai busnesau efallai y byddai'n briodol dilyn cyngor safonol.

2) **Nodi'r pwyntiau rheoli critigol (CCPs) ar y camau lle mae rheolaeth yn hanfodol**

Efallai na fydd pwyntiau rheoli critigol a'u terfynau'n ffyrdd defnyddiol o feddwl am ddiogelwch bwyd i fusnesau bach bob amser ac yn hytrach gallant nodi rheolaethau generig - fel coginio trylwyr, ynghyd â'r ffyrdd o sicrhau eu bod yn gwybod bod hyn wedi digwydd.

3) **Sefydlu terfynau critigol ar CCPs;**

Mae'r ddeddfwriaeth yn hyblyg o ran nodi'r gofyniad nad yw sefydlu terfyn critigol yn awgrymu bod yn rhaid pennu gwerth rhifiadol bob amser. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae gweithdrefnau monitro'n seiliedig ar arsylwi gweledol, er enghraifft gallai busnes ddibynnu ar wybodaeth synhwyraidd fel newid lliw, sudd yn rhedeg yn glir, swigod mewn stiwiau ac ati. Rhaid i fusnesau ddeall sut mae'r dulliau hyn yn rheoli peryglon a bod yn siŵr eu bod yn effeithiol. Gall y busnes ei hun wneud y dilysiad hwn (yn seiliedig ar brofiad), neu gallai fod yn briodol defnyddio gweithdrefnau wedi'u dilysu ymlaen llaw, sy'n dilyn arferion gorau sefydledig, a gynhyrchir gan yr ASB, cyrff masnach neu eraill.

**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**

Cael digon o dystiolaeth bod y busnes yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynnwys camau lle mae'r peryglon sylweddol yn cael eu rheoli – i lawer o fusnesau efallai y byddai'n briodol dilyn cyngor safonol.

4) **Sefydlu gweithdrefnau i fonitro'r CCPs;**

Bydd angen dangos bod diogelwch bwyd yn cael ei reoli drwy'r gweithdrefnau a nodir uchod. Gellir dangos hyn mewn llawer o ffyrdd. Mewn rhai busnesau mwy, gellir cyflawni hyn drwy fonitro protocolau a chadw cofnodion. Mewn busnesau eraill – yn enwedig lle mae'r person cyfrifol yn treulio cryn amser yn yr ardaloedd paratoi bwyd, gellir dangos hyn yn ôl ei allu i oruchwylio eu gweithrediad – bod eu

gweithdrefnau'n cael eu dilyn. Bydd yn bwysig sefydlu, os dilynir y gweithdrefnau, y bydd bwyd diogel yn deillio o hynny.

Gallai monitro fod yn ymarfer synhwyraidd yn unig mewn llawer o achosion, er enghraifft gwiriad gweledol rheolaidd o dymheredd bwyd wedi'i goginio drwy newid lliw.

**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**

Cael digon o dystiolaeth bod y busnes yn monitro ei weithdrefnau, naill ai drwy ddefnyddio gwiriadau ffisegol fel nodi tymheredd neu drwy wiriadau synhwyraidd megis nodi bod swigod mewn stiw neu saws. Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd allu esbonio'r dull monitro a ddewiswyd.

5) **Sefydlu camau unioni i'w cymryd os nad yw pwynt rheoli critigol (CCP) dan reolaeth;**

Mae'n bwysig hefyd fod y busnes yn gwybod beth i'w wneud pan fydd pethau'n mynd o chwith – y camau unioni y mae angen eu cymryd.

**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**

Mae gwirio bod y sawl sy'n gyfrifol am reoli diogelwch bwyd yn sicrhau bod staff a chyfarpar yn cael eu goruchwylio'n ddigonol er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn a bod bwyd diogel yn cael ei gynhyrchu, a hefyd holi staff sy'n gweithio yn yr ardal lle mae'r CCP yn bodoli, i roi sicrwydd bod rheolaethau sy'n seiliedig ar HACCP yn cael eu deall a'u gweithredu a phan fydd pethau'n mynd o chwith, bod camau priodol yn cael eu cymryd.

6) **Sefydlu gweithdrefnau i gadarnhau a yw'r gweithdrefnau uchod yn gweithio'n effeithiol;**

Bydd angen i'r busnes ddangos bod ei weithdrefnau'n cael eu dilysu a'u hadolygu a'u diweddaru, a bod newidiadau i fwydlenni, mathau o fwydydd a dulliau coginio, ac offer newydd yn cael eu hadlewyrchu. Mewn busnesau mwy, gall trydydd partïon wirio, ond i fusnesau llai mae'n ddigon bod y busnes yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'i weithdrefnau a'i ddulliau ac yn ystyried arferion da a dulliau diogel.

**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**

Gweld digon o dystiolaeth bod y gweithdrefnau mewn busnes yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes.

7) **Sefydlu dogfennau a chofnodion i ddangos bod y mesurau uchod yn cael eu cymhwyso'n effeithiol;**

Mae dogfennaeth a chadw cofnodion yn arbennig o feichus i fusnesau llai ac mae'r ddeddfwriaeth yn glir y dylai hyn fod yn gytbwys ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n hanfodol o ran diogelwch bwyd.

**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**

- Gweld dogfennau sy'n gyfoes ac sy'n disgrifio'r prif weithdrefnau neu ddulliau a ddefnyddir yn y busnes i reoli'r peryglon pwysicaf;

- Gweld cofnodion cyfnodol sy'n cynrychioli tystiolaeth bod y gweithdrefnau hyn wedi'u dilyn, a bod camau unioni wedi'u cymryd. Nid oes rhaid i hyn gofnodi pob gweithgaredd monitro a goruchwylio mewn arlwywyr bach, a bydd adrodd eithriadau yn dderbyniol.

Fodd bynnag, ar gyfer busnesau bach syml yn dilyn arferion hylan da, efallai na fydd angen canllawiau, dogfennau a chadw cofnodion.

#### 4.4.1.2 Rôl yr Awdurdod Bwyd

Gall busnesau a gweithgynhyrchwyr mwy barhau i ddatblygu a defnyddio systemau HACCP traddodiadol. Mae'r dulliau a ddatblygwyd gan yr ASB, y Pecyn Arlwyo Diogel a'r pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) yn ddulliau a ystyrir yn addas i'w defnyddio gan arlwywyr.

Mae gweithgynhyrchwyr bwyd bach yn cynrychioli band penodol o fusnesau sy'n syrthio rhwng y busnesau hynny lle mae dull SFBB yn addas a busnesau gweithgynhyrchu mwy sydd â chymhwysedd technegol yn y dull HACCP saith egwyddor traddodiadol.

Er mwyn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu bwyd bach, mae'r ASB wedi datblygu MyHACCP, adnodd rhyngweithiol am ddim ar y we, sy'n arwain busnesau bwyd drwy'r broses o nodi peryglon a rheolaethau diogelwch bwyd a chynhyrchu system rheoli diogelwch bwyd ddogfennol yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae canllawiau ar-lein ar gael i swyddogion awdurdodedig.

Mae gweithredu'r model cymorth priodol mewn modd priodol yn golygu cydymffurfio â gofynion HACCP yn Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Dylai busnesau naill ai fod wedi sefydlu neu gael eu gweld yn gwneud cynnydd tuag at gael systemau rheoli diogelwch bwyd effeithiol. Ar gyfer busnesau nad ydynt yn fygythiad i iechyd y cyhoedd, disgwylir mai dim ond pan fydd y busnes wedi:

- cael cyfle rhesymol i weithredu dulliau rheoli diogelwch bwyd
- cael ei atgyfeirio at hyfforddiant priodol, os oes angen
- cael cyfarwyddyd priodol

y dylid cymryd camau gorfodi ffurfiol. Dylai'r dull graddedig geisio addysgu busnesau a gwella eu safonau mewn camau y gellir eu cyflawni. Dylid rhannu deunydd cyfarwyddyd yn gamau llai yn y fath fodd fel y gall y swyddog gorfodi a'r busnes gytuno, erbyn eu hymweliad nesaf, faint o gynnydd a ddylai wedi'i wneud. Mae cyngor yr ASB, SFBB, wedi'i rannu'n:

- goginio
- glanhau
- oeri
- atal croeshalogi

Efallai y byddai'n briodol gosod busnes yn un o'r categorïau hyn ar y tro. Gellir rhannu deunydd cyfarwyddyd arall yn ddarnau llai fel hyn hefyd. Lle mae sgiliau sylfaenol ar goll, dylai swyddogion gorfodi gyfeirio busnesau at ffynonellau'r cymwyseddau – deunyddiau canllaw, llyfrau a chyrsiau.

### 4.4.2 Cynlluniau Sicrwydd Cymeradwy'r ASB

Mae manylion y cynlluniau sicrwydd hynny sydd â statws cymeradwy'r ASB ar hyn o bryd, ynghyd â dolen i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth perthnasol, i'w gweld ar wefan yr ASB.

Ceir manylion am y meini prawf, y broses ar gyfer cymeradwyo cynlluniau, trefniadau llywodraethu, a chyfnewid gwybodaeth gydag awdurdodau gorfodi yn y canllawiau ar gynlluniau sicrwydd cymeradwy yn yr adran ar hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd.

### 4.4.3 Ffurflenni enghreifftiol

Gellir defnyddio'r ffurflenni enghreifftiol canlynol, sydd ar gael ar yr Hwb Gwybodaeth, i gofnodi rheolaethau bwyd swyddogol a gyflawnir mewn sefydliadau busnes bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd:

- Adroddiad arolygu hylendid bwyd cynhyrchu cynradd ffrwythau a llysiau ffres (Parod i Fwyta) – ffurflen hir
- Cynhyrchwyr cynradd: cnydau a dyfir ar gyfer bwyd neu fwyd anifeiliaid – ffurflen hir

## 4.5 Rheolaethau mewnforio

### 4.5.1 Canllawiau i Awdurdodau Bwyd ar fwyd a fewnforir o'r tu allan i'r DU

Caiff llawer iawn o fwyd ei fewnforio i'r DU fel mater o drefn ac mae'n bwysig bod trefniadau effeithiol ar waith mewn Awdurdodau Bwyd i wirio bwyd a fewnforir yn y Man Rheoli ar y Ffin (BCP) ac yn fewndirol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i'r canllawiau cyffredinol ar orfodi a geir yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â'u trefniadau rheoli gorfodaeth ar gyfer bwyd a fewnforir.

Mae gan bob Awdurdod Bwyd gyfrifoldebau am reolaethau bwyd a fewnforir. Diben y Canllawiau Ymarfer yw egluro a chynorthwyo Awdurdodau Bwyd ar y lefel a'r math o weithgarwch i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chyson ar fwyd a fewnforir.

Mae'r canllawiau'n canolbwyntio hefyd ar y prif ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mewnforio bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO). Roedd rheolaethau mewnforio FNAO yn cael eu cysoni ar lefel yr UE gan Reoliad (UE) 2017/625 a ddaeth yn Gyfraith yr UE a Ddargedwir, a Rheoliad (UE) 2019/1793 sy'n nodi cynhyrchion FNAO sy'n destun lefelau uwch o reolaethau bwyd swyddogol. Mae darpariaethau'r Rheoliad hwn yn uniongyrchol gymwys ond rhoddir effaith iddynt ar lefel genedlaethol gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a deddfwriaeth gyfochrog yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

#### 4.5.1.1 Cwmpas

Mae cwmpas y Canllawiau Ymarfer yn ymestyn i FNAO wedi'i fewnforio a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon ond nid yw'n cwmpasu gweithgareddau rheoli ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn BCPs.

Cofiwch: Gall BCPs fod wedi'u lleoli mewn porthladdoedd môr, meysydd awyr neu gysylltiadau rheilffordd rhyngwladol, ac maent ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid o'r tu allan i'r DU.

Ac eithrio pan wahaniaethir yn benodol, mae'r Canllawiau Ymarfer yn berthnasol i bob Awdurdod Bwyd, mewndirol ac mewn mannau cyrraedd, gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (PHAs). At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, ystyr 'bwyd a fewnforir' yw bwyd a fewnforir i'r DU o'r tu allan i'r DU; ac ystyr 'man cyrraedd' yw porthladd môr, maes awyr neu gyswllt rheilffordd rhyngwladol lle caiff bwyd a fewnforir ei gyflwyno i'r DU.

Awdurdodau Bwyd (gan gynnwys PHAs) gyda man cyrraedd sy'n darparu'r llinell reoli gyntaf ar fwyd a fewnforir i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion y DU. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod rheolaethau ar waith hefyd mewn Cyfleusterau Storio Dros Dro Allanol (ETSF), cyflenwyr llongau, terfynellau rheilffordd rhyngwladol, a safleoedd mewndirol eraill, gan nad yw'n ofynnol i symiau sylweddol o FNAO gael eu gwirio mewn mannau cyrraedd (FNAO heb gyfyngiad yn benodol gan y byddai pob FNAO cyfyngedig yn ddarostyngedig i reolaethau) ac mae posibilrwydd hefyd y gallai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) fod wedi dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon.

Cofiwch: Cyfleusterau Storio Dros Dro Allanol (ETSFs) yw cyfleusterau warws a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Tollau lle cedwir nwyddau a fewnforiwyd mewn storfeydd dros dro o dan reolaeth y Gwasanaeth Tollau. Bwriedir iddynt hwyluso mynediad i nwyddau at ddibenion y Gwasanaeth Tollau a gallant fod gryn bellter o'r porthladd/maes awyr, ac felly gallant ddod o dan awdurdodaeth Awdurdod Bwyd arall.

I gael rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Iechyd Cyhoeddus, Awdurdodau Bwyd ac Asiantaethau ac Adrannau eraill y Llywodraeth, argymhellir bod swyddogion yn edrych ar Becyn Adnoddau'r ASB ar Orfodi Rheolaethau Bwyd a Fewnforir yn Fewndirol, sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer Awdurdodau Cymwys yn Lloegr.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn rhoi arweiniad i awdurdodau mewndirol hefyd ar fonitro bwyd a fewnforir yn effeithiol.

Dylai Awdurdodau Bwyd roi trefniadau wedi'u cynllunio ar sail risg ar waith ac adolygu a dadansoddi'r wybodaeth a gesglir, gan weithredu lle bo angen. Argymhellir y dylai Awdurdodau Bwyd gynnal gwiriadau chwarterol mewn mannau cyrraedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn aml. Gallai hyn gynnwys ymweliad neu holiadur yn cael ei anfon, cysylltu â gweithredwyr porthladdoedd a gwiriadau maniffest.

Mae canllawiau ar gael hefyd i'r awdurdodau hynny sydd â mannau cyrraedd y derbynnir lefelau achlysurol a/neu isel o fewnforion o fwyd anifeiliaid a bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid drwyddynt.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) a fewnforir gyfeirio at ganllawiau canolog a gynhyrchir gan Adran yr Amgylchedd,

Bwyd a Materion Gwledig (Defra), sydd ar gael yn y Llawlyfr Mannau Rheoli ar y Ffin.

### 4.5.2 Deddfwriaeth bwyd wedi'i fewnforio – Bwyd nad yw'n dod o Anifeiliaid (FNAO)

#### 4.5.2.1 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn gweithredu darpariaethau mewnforio Rheoliad (UE) 2017/625 yng Nghymru yn unig.

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009[46] hefyd yn cynnwys mecanwaith (Rheoliad 35) ar gyfer sicrhau, lle mae risg ddifrifol i iechyd anifeiliaid neu'r cyhoedd, y gellir rhoi mesurau rheoli ar waith. Mae'n gwneud hynny trwy roi pwerau i'r ASB wneud datganiadau ynghylch amodau mewnforio ar gyfer cynhyrchion penodol. Gall yr amodau hyn fod yn berthnasol ar unwaith.

#### 4.5.2.2 Deddfwriaeth arall

Ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft, halogion, mae gofynion penodol ar gyfer bwydydd y gellir eu cymhwyso wrth bwyntiau mynediad yn ogystal ag yn fewndirol. Gweithredir y gofynion hyn yn y DU gan ddeddfwriaeth ar wahân ond y pwerau i ddelio â bwyd nad yw'n cydymffurfio i'w fewnforio yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009. Mae Canllawiau ar gael ar ddeddfwriaeth halogion.

#### 4.5.2.3 Bwyd o 'risg hysbys neu sy'n dod i'r amlwg'

Gall Gweinidogion Cymru yn rhinwedd Erthygl 47(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625[47] gyhoeddi rhestr o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO) wedi'i fewnforio o 'risg hysbys neu sy'n dod i'r amlwg' o ran lefel gynyddol y rheolaethau bwyd swyddogol.

Mae erthygl 47(1)(d) yn darparu ar gyfer y mathau o anifeiliaid a nwyddau y mae'n ofynnol gweithredu rheolaethau bwyd swyddogol arnynt wrth iddynt ddod i mewn i'r DU mewn Man Rheoli ar y Ffin.

Mae amlder a natur gwiriadau o'r fath yn cael eu nodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol pan fydd cynhyrchion sy'n peri risg o wledydd penodol y tu allan i'r DU yn cael eu nodi.

Fel rheol, mae angen rhoi gwybod am gynhyrchion o'r fath ymlaen llaw trwy Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin (CHED), rhaid eu mewnforio trwy Fannau Rheoli ar y Ffin (sydd â chyfleusterau penodol ar gael ac wedi'u cymeradwyo gan yr ASB), a byddant yn destun gwiriadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol.

Mae gan y DU System Rhybuddio Cynnar (EWS) ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â FNAO wedi'i fewnforio. Adnodd canfod risg sy'n dod i'r amlwg yw hwn sy'n ceisio

---

46 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009
47 Erthygl 47(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

diogelu defnyddwyr y DU rhag y risgiau a allai fod yn gysylltiedig â bwydydd a fewnforir. Mae'n gwneud hyn mewn dwy brif ffordd:

- trwy ragweld peryglon gan gynnwys *Salmonela*, mycotocsinau, gweddillion plaladdwyr, sylffitau, ac ati) ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid penodol o drydydd gwledydd penodol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, er enghraifft Atodiad I o Reoliad (UE) 2019/1793 neu fesurau diogelu eraill
- rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd ac Awdurdodau Bwyd mewndirol am faterion bwyd a fewnforir sydd newydd eu nodi, yn bennaf FNAO (bwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid) ond yn gynyddol cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid (POAO).

Mae gwybodaeth o'r EWS yn cael ei lledaenu'n fisol i hwyluso gwaith gorfodi wedi'i dargedu'n lleol ac argymhellir bod swyddogion awdurdodedig sy'n delio â bwyd wedi'i fewnforio yn nodi cynnwys yr wybodaeth hon.

#### 4.5.2.4 Mesurau diogelu'r DU

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu'r broses o fewnforio rhai FNAO o wledydd penodol y tu allan i'r DU lle mae peryglon penodol yn peri risg i ddiogelwch bwyd. Gall yr amodau arbennig hyn fod yn wahanol yn dibynnu ar y mesur, ond gallant gynnwys y ffaith bod modd i gynhyrchion penodedig ddod i mewn i'r DU dim ond trwy borthladdoedd neu feysydd awyr penodol (Mannau Rheoli ar y Ffin neu Ganolfannau Mewnforio fel arfer) ar ôl cael eu hysbysu ymlaen llaw ac efallai y bydd angen tystysgrif iechyd a chanlyniadau samplu a dadansoddi arnynt.

#### 4.5.2.5 Gwiriadau cyn-allforio i wlad y tu allan i'r DU

Mae Erthyglau 73(1), 73(2) a 74 Rheoliad (UE) 2017/625 yn cynnwys darpariaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu i lai o wiriadau mewnforio gael eu cynnal ar nwyddau a fewnforir o du allan i'r DU. Cyfyngir trefniadau o'r fath i'r gwledydd hynny lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod rheolaethau bwyd swyddogol effeithiol ar waith i gynnal y gwiriadau cyn-allforio priodol yn syth cyn eu hallforio i'r DU. Rhoddir gwybod i Awdurdodau Bwyd am fanylion cynhyrchion a gwledydd perthnasol y tu allan i'r DU, fel sy'n briodol.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu'r statws hwn yng ngoleuni gwybodaeth neu brofiad newydd. Pan fydd trefniadau o'r fath ar waith, dylai Awdurdodau Bwyd mewn pwyntiau mynediad wirio ardystiad perthnasol i ddilysu sicrwydd o'r fath. Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i lwythi gydag ardystiad gan labordai heb eu hachredu. Pan fydd gan Awdurdodau Bwyd bryderon am unrhyw drefniadau o'r fath yn seiliedig ar wiriadau a gynhaliwyd, rhaid iddynt hysbysu'r ASB cyn gynted â phosibl.

### 4.5.3 Gwybodaeth

Dylai Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad yn eu hardal gadw'r wybodaeth ddiweddaraf am:

- weithredwr y porthladd

- rhanddeiliaid, gan gynnwys mewnforwyr ac asiantau mewnforio yn ogystal â chwmnïau hedfan/gweithredwyr llongau
- Cyfleusterau Storio Dros Dro Mewnol (ITSF) a Chyfleusterau Storio Dros Dro Allanol (ETSF)
- math o fasnach (cyfaint, natur, amlder a llwybrau masnach)
- gofynion iechyd a diogelwch y porthladd
- gofynion diogelwch gan gynnwys mynediad i borthladdoedd/ardaloedd Tollau

Dylai pwyntiau mynediad sydd wedi'u dynodi'n Fannau Rheoli ar y Ffin 'awdurdodedig' ar gyfer rhai nwyddau risg uwch hefyd:

- gael mynediad at gyfleusterau lle gellir arolygu bwyd wedi'i fewnforio a chynnal trefniadau ar gyfer storio nwyddau sy'n cael eu cadw/atafael (*seized*) Mae Defra wedi cyhoeddi cyngor penodol pellach ar weithdrefnau gweithredu ar gyfer rhannu cyfleusterau mewn Mannau Rheoli ar y Ffin yn eu Llawlyfr ar Fannau Rheoli ar y Ffin
- cynnal a chadw offer ar gyfer cynnal arolygiadau a samplu bwyd wedi'i fewnforio
- cadw manylion labordai penodedig ac arbenigol ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio samplau sy'n gallu darparu gwasanaeth priodol yn benodol, mewn perthynas ag amserlen y dadansoddiad/archwiliad a chyhoeddi'r canlyniadau

Gweler Pennod 2 o'r Cod i gael gwybodaeth am y cyfathrebu rhwng Awdurdodau Bwyd mewn Pwyntiau Mynediad, ETSF neu derfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol.

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau adrannau llywodraeth ganolog perthnasol a sefydliadau eraill ym Mhecyn Adnoddau'r ASB ar gyfer Gorfodi Rheolaethau Bwyd a Fewnforir yn Fewndirol.

Lle bo hynny'n berthnasol, dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod gan eu swyddogion fynediad i fannau diogel o dan Ddeddf Diogelwch Hedfan a'r Môr 1990. Gellir cael gwybodaeth am hyn gan weithredwr y porthladd.

### 4.5.4 Cofnodion

#### 4.5.4.1 Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd

Dylai pob Awdurdod Bwyd sicrhau bod safleoedd bwyd a masnachwyr yn eu hardal sy'n mewnforio bwyd yn cael eu nodi a'u cofnodi mewn cronfeydd data safleoedd/masnachwyr a'u cynnwys mewn rhaglenni arolygu fel sy'n briodol.

Gellir defnyddio ffurflenni cofrestru safleoedd bwyd i nodi safleoedd bwyd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mewnforion.

At ddibenion nodi a chofnodi busnesau a systemau bwyd sy'n dod o dan y rheolaethau bwyd swyddogol, dylai Awdurdodau Bwyd gyfeirio at gwmpas Erthyglau 44, 45 a 47 yn Rheoliad (UE) 2017/625. Dylid nodi gweithgareddau perthnasol ar y ffeiliau priodol ynghyd ag arwydd o fath a tharddiad y bwydydd sy'n cael eu mewnforio.

Er mwyn helpu i nodi mewnforwyr bwyd, gall Awdurdodau Bwyd gynnal ymarferion bwrdd gwaith (*desktop*) gan ddefnyddio ffynonellau fel gwybodaeth leol, cyfeirlyfrau

ffôn neu chwiliadau rhyngrwyd. Gallai gwybodaeth gan Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd gynorthwyo'r broses hon hefyd. Gellir mireinio cofnodion ymhellach ar ôl ymweld â safleoedd bwyd a/neu gyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd ac adrannau llywodraeth leol eraill fel rhan o weithgareddau wedi'u rhaglennu.

#### 4.5.4.2 Cofnodion llwythi ac archwiliadau

Dylai Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer a math y llwythi bwyd, lle bo ar gael, yn cael ei chynnal ynghyd â gwybodaeth berthnasol ar y gwiriadau a wneir i bennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Pan fo gwybodaeth yn cael ei chofnodi, dylai lefel yr wybodaeth am archwiliadau bwyd (gan gynnwys archwiliadau a gynhelir mewn ETSFs neu derfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol) ac archwiliadau gohiriedig ddarparu modd o olrhain llwyth a chaniatáu monitro mewnol effeithiol. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys unrhyw gyfeiriad sy'n adnabod y llwyth a archwiliwyd, y wlad tarddiad, gwybodaeth am natur y bwyd a'r gwiriadau a gynhaliwyd, a lle bu unrhyw gamau gorfodi neu samplu, manylion yr asiant a/neu'r sawl sy'n trosglwyddo/traddodi. Dylid cadw cofnodion o wiriadau samplu a chofnodion sy'n ymwneud â rheolaethau brys am hyd at dair blynedd.

Cofiwch nodi: Mae 'llwyth' yn swm o fwyd neu fwyd anifeiliaid o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad sy'n cael ei gwmpasu gan yr un ddogfen/dogfennau, a gludir gan yr un dull cludo ac sy'n dod o du allan i'r DU.

#### 4.5.4.3 Trefniadau ar gyfer pwyntiau mynediad heb bresenoldeb parhaol Awdurdod Bwyd

Mae'r Canllawiau ar reolaethau mewnforio mewn porthladdoedd a meysydd awyr llai yn cynnwys cyngor pellach ar fesurau rheoli bwyd wedi'i fewnforio ar bwyntiau mynediad lle daw llwythau achlysurol a/neu lefelau isel o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO) i mewn.

### 4.5.5 Adrodd, hysbysu a gwahardd

#### 4.5.5.1 Swyddog enwebedig ar gyfer rheolaethau bwyd wedi'i fewnforio

Dylid hysbysu'r ASB am fanylion y swyddog enwebedig neu newidiadau i'r swyddog enwebedig drwy anfon e-bost at lasupportwales@food.gov.uk.

#### 4.5.5.2 Monitro gwybodaeth

Dylai pob Awdurdod Bwyd ddarparu data ar weithgarwch gorfodi bwyd wedi'i fewnforio trwy'r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Mae hyn yn cynnwys y ddau bwynt mynediad, boed yn Awdurdod Iechyd Porthladd ffurfiol ai peidio, a phob Awdurdod Bwyd mewndirol. Pan gymerir samplau o fwyd wedi'i fewnforio, hyd yn oed ar lefel arlwyo neu fanwerthu, dylid gwneud cofnod yn adran samplau rhan bwyd a fewnforir LAEMS. Mae canllawiau ar lenwi ffurflenni bwyd a fewnforir ar LAEMS ar gael ar lwyfan hwyluso cyfathrebu'r ASB.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd gyflenwi unrhyw wybodaeth arall y mae'r ASB yn gofyn amdani yn rhesymol. Gall hyn ymwneud â gwybodaeth am fewnforio bwyd neu gynhyrchion bwyd penodol o rai gwledydd. Fe allai ymwneud â gwybodaeth sy'n

ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â materion iechyd anifeiliaid/y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg neu i'w chynnwys yn y Cynllun Rheoli Cenedlaethol Aml-Flwydd (MANCP) neu adroddiadau blynyddol y mae Prydain Fawr yn eu llunio yn unol â gofynion Erthyglau 110 a 111 o Reoliad (UE) 2017/625.

#### 4.5.5.3 Rhoi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau bwyd

Gellir cysylltu â Thîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB trwy anfon e-bost at: wales.foodincidents@food.gov.uk neu drwy ffonio 029 2067 8961 yn ystod oriau swyddfa ac 07789 926 573 y tu allan i oriau.

Dylai pob Awdurdod Bwyd roi gwybod i'r ASB am ddigwyddiad lleol difrifol neu broblem ehangach o dan y System Rhybuddio Bwyd cyn gynted ag y pennir bod un wedi digwydd. Rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a thrwy'r modd cyflymaf sydd ar gael gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a'r trefniadau adrodd priodol a nodir ym Mhennod 5 o'r Cod ac unrhyw ddogfennau dilynol.

#### 4.5.5.4 Rhoi gwybod am fewnforion anghyfreithlon o gynnyrch POAO

Dylai'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Defra pryd bynnag y caiff cynnyrch POAO a fewnforir yn anghyfreithlon ei atafael o dan Reoliad 19 o Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Dylai Awdurdodau Bwyd adrodd yr achosion o atafael i Defra gan ddefnyddio'r ffurflen IIT1. Er mwyn i Awdurdodau Bwyd/Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd roi gwybod am gynhyrchion sydd wedi'u hatafael mae'n ofynnol iddynt lenwi (yn electronig yn ddelfrydol) ffurflen gyffredin (IIT 1 (4/08)), a anfonir wedyn dros e-bost er mwyn i Defra gofnodi'r wybodaeth briodol sy'n ofynnol. Fodd bynnag, mae hefyd opsiwn i'r ffurflen gael ei llenwi yn ysgrifenedig, os mai dyna a ddymunir, a'i hanfon at Defra trwy ffacs/y post. Mae manylion ble i anfon y ffurflen dros e-bost/ffacs/y post wedi'u cynnwys ar y ffurflen. Mae'r ffurflen ar gael ar rannau diogel y gwefannau canlynol. Cofiwch y bydd angen i Awdurdodau Bwyd gael y caniatâd cyfrinair angenrheidiol er mwyn cael mynediad i'r rhannau hyn.

- Y Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd
- CIEH

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon hefyd yn cael ei rhannu gydag Uned Troseddau Bwyd yr ASB. Anfonwch e-bost at: foodcrime@food.gov.uk.

Cofiwch nodi: Yr Awdurdod Bwyd fydd yn delio â chynnyrch POAO a fewnforiwyd yn anghyfreithlon a ganfyddir mewn pwynt mynediad. Os bydd cynnyrch POAO a fewnforiwyd yn anghyfreithlon yn cael ei ganfod y tu allan i'r Man Rheoli ar y Ffin, bydd yn cael ei gyfeirio at Lu'r Ffiniau iddynt gymryd camau a dylid ei adrodd i'r ASB hefyd.

#### 4.5.5.5 Gwaharddiad

Mae'n drosedd[48] i unrhyw berson fewnforio cynnyrch nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd fel y nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 neu â gofynion Erthyglau 3 i 6 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio yn uniongyrchol o'r tu allan i'r DU.

### 4.5.6 Cyswllt/atgyfeiriadau

Pryd bynnag y daw Awdurdodau Bwyd mewndirol ar draws problemau gyda bwyd wedi'i fewnforio, lle gellir canfod pwynt mynediad y nwyddau a bod problemau tebyg yn debygol o gael eu canfod mewn llwythi eraill a fewnforiwyd, dylid hysbysu'r Awdurdod Bwyd ar y pwynt mynediad cyn gynted â phosibl, i helpu i dargedu eu gweithgareddau gwyliadwriaeth yn y dyfodol.

- Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i Awdurdodau Bwyd sy'n cwmpasu pwyntiau mynediad gyfeirio materion bwyd a fewnforir at Awdurdodau Bwyd mewndirol. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae angen goruchwylio llwythi yn fewndirol a lle mae gwiriadau yn y pwynt mynediad yn datgelu pryderon am ddiogelwch bwyd neu safonau bwyd y mae'n fwyaf priodol i'r Awdurdod Bwyd mewndirol ddelio â nhw. Mae enghreifftiau'n cynnwys: lle mae llwyth o gynnyrch FNAO, sy'n ddarostyngedig i reolaethau brys neu gyfyngiadau eraill, wedi'i fewnforio yn anghyfreithlon er enghraifft heb gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Bwyd ar y pwynt mynediad er mwyn i'r gwiriadau gofynnol gael eu cynnal.
- lle mae'r Awdurdod Bwyd ar y pwynt mynediad yn ymwybodol y gallai mewnforion anghyfreithlon o gynnyrch POAO fod wedi'u dosbarthu
- lle mae gwiriadau ar fwyd wedi'i fewnforio yn datgelu materion labelu na ellir eu gorfodi adeg ei fewnforio
- lle mae archwiliad o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009 wedi'u gohirio
- lle derbynnir canlyniadau profion anfoddhaol ar gyfer samplau a gymerwyd ar gyfer gwyliadwriaeth arferol ond yn y cyfamser mae'r llwyth wedi'i ryddhau o'r porthladd
- lle mae dadansoddiad yn dangos, er enghraifft, nad yw cnau yn addas i'w bwyta gan bobl ond eu bod yn cael eu cyfeirio i'w defnyddio fel bwyd anifeiliaid
- Cynnyrch FNAO 'risg uwch' dan gadw yn cael ei drosglwyddo i gyfleuster ETSF mewndirol i'w oruchwylio hyd nes y bydd canlyniad profion labordy yn dod i law.

Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylai Awdurdodau Bwyd mewndirol gytuno i gynorthwyo gyda'r atgyfeiriadau hyn ac ymateb fel y bo'n briodol heb oedi gormodol a rhoi adborth i'r Awdurdod Bwyd ar y pwynt mynediad o ran y canlyniad. Dylai'r holl

[48] Rheoliad 28 fel y'i darllenwyd gyda Rheoliad 41 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009

Awdurdodau Bwyd dan sylw gadw cofnodion o atgyfeiriadau o'r fath a manylion unrhyw gamau a gymerwyd.

Efallai y bydd angen i'r ASB hefyd gyfeirio materion sy'n ymwneud â chynnyrch POAO a fewnforiwyd yn anghyfreithlon at Awdurdodau Bwyd mewndirol. Fel rheol, daw'r wybodaeth hon i law gan Lu'r Ffiniau lle maent wedi atal mewnforion anghyfreithlon a fwriadwyd ar gyfer safleoedd masnachol. Dylai Awdurdodau Bwyd ymateb i'r atgyfeiriadau hyn cyn gynted â phosibl a phan ofynnir iddynt, dylent roi adborth yn uniongyrchol i Lu'r Ffiniau. Dylai Awdurdodau Bwyd gadw cofnodion o'r camau a gymerwyd.

### 4.5.7 Arolygiad mewndirol o fwyd a fewnforir

Wrth ystyried rhaglenni arolygu bwyd a fewnforir ni ddylai Awdurdodau Bwyd ganolbwyntio ar fusnesau bwyd sy'n arbenigo mewn cyflenwi bwyd i grwpiau lleiafrifol penodol yn unig. Dylent ystyried busnesau bwyd yn eu hardal sy'n mewnforio neu'n gwerthu bwyd o'r tu allan i'r DU fel mater o drefn, yn benodol y safleoedd hynny sy'n gyrchfan cyntaf i'r cynhyrchion ar ôl eu mewnforio. Mae safleoedd o'r fath yn debygol o gynnwys:

- archfarchnadoedd/manwerthwyr arbenigol
- gweithgynhyrchwyr
- warysau

Dylai unrhyw raglen arolygu hefyd gael ei llywio gan rybuddion bwyd a hanes cydymffurfio'r safle.

Yn ogystal ag asesu addasrwydd i'w fwyta, dylid cymryd camau rhesymol i wirio cyfreithlondeb mewnforio unrhyw gynnyrch POAO a FNAO o wlad y tu allan i'r DU. Mae Pecyn Adnoddau'r ASB ar gyfer Gorfodi Rheolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Mewnforir yn Fewndirol yn rhoi cyngor manwl ar bwyntiau i'w hystyried wrth ymchwilio i gyfreithlondeb mewnforion bwyd. I gael rhagor o wybodaeth am reolaethau bwyd a fewnforir a'r mathau o fewnforion bwyd a gwledydd tarddiad lle mae gwaharddiadau a chyfyngiadau, ewch i wefan yr ASB.

#### 4.5.7.1 Archwiliad gohiriedig o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid – Rheolaethau mewndirol

Mae Rheoliad 27 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu (mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae gan yr awdurdod iechyd porthladd/awdurdod bwyd resymau dilys) ar gyfer gohirio rheolaethau mewnforio wrth archwilio llwythi bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid ac iddynt gael eu cynnal gan yr Awdurdod Bwyd mewndirol sy'n ymdrin â'r ETSF neu derfynfa drenau ryngwladol neu mewn unrhyw le arall yn y DU.

### 4.5.8 Samplu bwyd wedi'i fewnforio

#### 4.5.8.1 Ystyriaethau ar gyfer samplu

Dylai ystyriaethau samplu rheolaidd o fwyd a fewnforir at ddibenion gwyliadwriaeth a gorfodi'r Awdurdod Bwyd roi sylw i:

- unrhyw ofynion statudol ar gyfer samplu a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau rheoli brys (fel arfer bydd hyn yn digwydd wrth bwynt mynediad)
- unrhyw raglenni samplu y cytunwyd arnynt rhwng WLGA/ASB
- unrhyw samplu sy'n ofynnol yn dilyn Rhybudd Bwyd, hysbysiad EWS neu RASFF
- gwybodaeth o unrhyw arolwg samplu'r UE, WLGA, grŵp cyswllt rhanbarthol, lleol neu arolwg samplu arall
- unrhyw fwyd a fewnforir lle nad oes hanes na gwybodaeth hysbys am y cynnyrch

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd ystyried blaenoriaethau lleol, gan gynnwys cwynion defnyddwyr yn ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio, a'u proffil busnes lleol wrth ystyried blaenoriaethau samplu, a chynnwys y rhain yn eu rhaglenni samplu. Dylid adolygu polisïau a rhaglenni samplu o bryd i'w gilydd i asesu'r angen i gynnwys blaenoriaethau/arolygon bwyd a fewnforir yn genedlaethol neu'n rhanbarthol a Chynllun Rheoli Cenedlaethol y DU.

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried unrhyw ganllawiau canolog penodol ar samplu neu faterion eraill a nodwyd gan yr ASB neu WLGA.

### 4.5.9 Rheolaethau Swyddogol ar gynnyrch FNAO

Mae'r adran hon yn berthnasol i Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad, gwiriadau a gynhelir mewn ETSF neu derfynfeydd rheilffordd rhyngwladol, ac archwiliadau gohiriedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009.

Mae'r cyngor yn yr adran hon hefyd yn berthnasol i gynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys ychydig bach o gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid ac sydd y tu allan i'r drefn Gwiriadau Milfeddygol a gwmpesir gan Erthygl 49 o Reoliad (EU) 2017/625.

#### 4.5.9.1 Adnabod

Mae'n bwysig bod Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad yn ymwybodol o gyfaint a natur y bwydydd sy'n dod i mewn i'r porthladd. Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n goruchwylio porthladdoedd môr lle mae ymholiadau gyda gweithredwr y porthladd yn nodi bod bwyd yn cael ei fewnforio, wirio 100% o bapurau llongau (dogfen/ffeil gyfrifiadurol sy'n disgrifio'r holl gargo sy'n cael ei gario ar long, trên cargo neu awyren) ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio. Dylai gwiriadau 100% barhau nes bod ymholiadau gyda gweithredwr y porthladd yn datgelu dim mewnforion bwyd am gyfnod parhaus o dri mis, ac nes ei bod yn rhesymol rhagweld nad oes mewnforion bwyd pellach. Wedi hynny, dylid cysylltu â gweithredwr y porthladd o leiaf unwaith bob tri mis i wirio statws mewnforion bwyd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n goruchwylio meysydd awyr, cyfleusterau ETSF a therfynfeydd rheilffordd rhyngwladol sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar y trefniadau sydd ar waith i nodi bwyd wedi'i fewnforio. Lle bo hynny'n briodol, dylid rhoi trefniadau ar waith i gael mynediad at ddogfennau cwmnïau hedfan y dylid eu gwirio'n aml.

Gellir cyflawni hyn trwy:

- cyswllt â Chyllid a Thollau EM ynghylch bwyd sy'n cael ei fewnforio yn uniongyrchol o'r tu allan i'r DU neu borthladdoedd o dan drefniadau T1 (datganiad cludo wedi'i wneud i Gyllid a Thollau EM. Mae T1 yn dynodi'r nwyddau hynny nad ydynt mewn cylchrediad rhydd, hynny yw, yn dal i fod yn destun rheolaeth Tollau)
- cyswllt â gweithredwyr Cyfleusterau Storio Dros Dro Mewnol (a elwid gynt yn 'siediau cludo') (ITSF) i gael copïau o ddogfennau cargo.
- gwiriadau ar hap o siediau cludo ITSF/ETSF neu ERTS sy'n trin bwyd wedi'i fewnforio gyda'r bwriad o wirio'r trefniadau gwybodaeth sydd ar waith
- systemau hysbysu anffurfiol mewn cydweithrediad â mewnforwyr, eu hasiantau neu gwmnïau hedfan a gweithredwyr ITSF.

#### 4.5.9.2 Archwilio

Dylai bwyd a fewnforir fod yn ddarostyngedig i wiriadau seiliedig ar risg. Mae Erthygl 44(1) a (2) o Reoliad (UE) 2017/625 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gwiriadau dogfennol, gwiriadau hunaniaeth ar hap a gwiriadau ffisegol lle bo hynny'n briodol. Bydd y gwiriadau a gynhelir yn amrywio ychydig yn dibynnu ar b'un a yw'r rhain yn cael eu cynnal wrth y pwynt mynediad neu a yw'r rhain yn fewndirol.

Dylai gwiriadau ar fwyd wedi'i fewnforio ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr ASB. Gallai canllawiau o'r fath gwmpasu bwydydd y mae cyfundrefnau gwirio dogfennol penodol wedi'u gosod ar eu cyfer neu fwydydd â phwyntiau mynediad cyfyngedig a/neu gyfundrefnau profi wedi'u gosod yng nghyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) . Rhaid i Awdurdodau Bwyd sydd â phwyntiau mynediad nad ydynt wedi'u dynodi i drin rhai cynhyrchion FNAO 'risg uwch' sy'n ddarostyngedig i fesurau diogelu sicrhau bod gweithredwyr porthladdoedd perthnasol, swyddogion Cyllid a Thollau EM lleol, neu asiantau/mewnforwyr yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau. Rhaid i drefniadau fod ar waith hefyd i ddelio ag unrhyw lwythi o'r fath sy'n cyrraedd y pwynt mynediad.

Nid yw gwiriad dogfennol systematig yn awgrymu gwirio dogfennau 100% ond rhaid bod trefniadau wedi'u cynllunio sy'n seiliedig ar risg ar waith. Fodd bynnag, mae dogfennau sy'n ofynnol i gyd-fynd ag unrhyw lwyth yn ôl cyfraith bwyd, megis o dan fesurau diogelu, yn ddarostyngedig i wiriad 100%. Yn y Man Rheoli ar y Ffin byddai'r ddogfennaeth a fyddai'n cael ei gwirio yn cynnwys, er enghraifft, ardystiad iechyd a chanlyniadau samplu a dadansoddi gwledydd y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, gall gwiriadau dogfennol mewndirol gynnwys, er enghraifft, gwirio'r CHED a chadarnhad bod y llwyth wedi'i fewnforio yn y modd cywir.

Mae gwiriad hunaniaeth yn cynnwys gwirio bod y llwyth yn cyfateb i'r ddogfennaeth a ddarperir. Yn y Man Rheoli ar y Ffin, byddai'r gwiriadau'n sicrhau bod y cynnyrch yn cyd-fynd â'r holl ddogfennaeth a ddarperir, er enghraifft, gwirio codau swp/llwyth ar gyfer y cynhyrchion yn erbyn yr ardystiad iechyd cysylltiedig. Byddai gwiriad hunaniaeth a gynhelir yn fewndirol wedi'i gysylltu'n agos â'r gwiriad dogfennol ond gallai gynnwys gwirio bod y CHED yn cyfateb â'r cynnyrch. Gall hyn hefyd gynorthwyo i nodi a gwirio a yw'r cynnyrch wedi'i fewnforio yn gyfreithiol.

Gallai gwiriadau ffisgeol gynnwys: gwiriadau ar y bwyd ei hun, gwiriadau ar y dull cludo, gwiriadau ar y deunydd pecynnu a chyflwr y cynnyrch, gwiriadau tymheredd, profion organoleptig, ac archwiliad cemegol neu ficrobiolegol, neu unrhyw wiriad arall sy'n angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch bwyd y DU. Gall gwiriadau o'r fath hefyd ystyried unrhyw warantau y mae Awdurdod Bwyd y wlad y tu allan i'r DU wedi'u rhoi. Dylai'r trefniadau a'r camau dilynol gael eu nodi mewn polisïau a gweithdrefnau gwasanaeth perthnasol.

Ar gyfer gwiriadau ffisegol a gynhelir wrth y pwynt mynediad ac yn fewndirol, dylid cynnal y rhain o dan amodau priodol gan gynnwys safonau hylendid ac mewn man sydd â mynediad at gyfleusterau rheoli priodol sy'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal yn iawn. Dylid trin samplau mewn modd sy'n gwarantu eu dilysrwydd cyfreithiol a dadansoddol.

Pan fo swyddog awdurdodedig yn rhesymol angen cyfleusterau a chymorth i gynnal gwiriadau ar gynnyrch, gellir gofyn i'r mewnforiwr ddarparu'r rhain. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 hefyd yn caniatáu i swyddog awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i wiriadau ffisegol a gwiriadau hunaniaeth gael eu cynnal mewn man penodol, lle bo angen er mwyn archwilio'n iawn.

Dylai gwiriadau gael eu llywio gan:

- ofynion statudol ar gyfer gwiriadau dogfennol a samplu cysylltiedig a nodir yn y ddeddfwriaeth ddiogelu berthnasol
- y risg sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o faterion diogelwch bwyd
- gwybodaeth leol am y cynnyrch, er enghraifft os yw’n newydd neu’n anarferol
- unrhyw ofynion yn dilyn Rhybudd Bwyd, hysbysiad EWS neu RASFF
- hanes cydymffurfio’r cynnyrch, y wlad tarddiad a’r allforiwr/mewnforiwr
- y rheolaethau y mae gweithredwr y busnes bwyd sy'n mewnforio'r bwyd wedi'u cynnal
- unrhyw warantau y mae Awdurdod Bwyd y wlad tarddiad y tu allan i'r DU wedi'u rhoi o dan ddarpariaethau gwiriadau cyn-allforio gwlad y tu allan i'r DU yn Rheoliad (UE) 2017/625
- unrhyw raglenni cydgysylltiedig presennol, er enghraifft ar gais neu o dan gyfarwyddyd cyrff rheoli/cynghori bwyd eraill
- dogfennaeth ddigonol, er enghraifft anghysondebau y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt
- amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio

Efallai y bydd gwiriadau hefyd yn cael eu dylanwadu gan wybodaeth a ddaw i law gan Awdurdodau Bwyd mewndirol am fwyd nad yw'n cydymffurfio neu gan awdurdodau rheoli eraill neu'r gweithredwr porthladdoedd a allai fod â phryderon am lwyth.

Yn ogystal â'r sampl gyfeirio sy'n ofynnol gan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, dylai swyddogion roi derbynneb i'r perchennog, y mewnforiwr neu asiant y mewnforiwr am, neu gofnod o'r holl samplau a gymerwyd a chopi o'r canlyniadau pe bai achos o ddiffyg cydymffurfio.

Dylai Awdurdodau Bwyd sydd â phwyntiau mynediad, ETSF neu derfynfeydd rheilffordd rhyngwladol, anelu at sefydlu trefniadau cadw/dal effeithiol mewn cysylltiad â rhanddeiliaid lleol fel gweithredwyr ETSF neu gwmnïau dociau, er mwyn sicrhau na ellir tynnu llwythi y maent yn ceisio gwybodaeth ychwanegol amdanynt o’r porthladd neu'r ETSF.

#### 4.5.9.3 Archwiliadau gohiriedig o gynnyrch FNAO

Gellir ystyried archwiliadau gohiriedig lle mae gan yr Awdurdod Bwyd yn y Man Rheoli ar y Ffin reswm dilys i ohirio archwiliad, ond rhagwelir y bydd hyn yn debygol o fod mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Gall naill ai’r Awdurdod Bwyd sy’n gyfrifol am y pwynt mynediad neu’r mewnforiwr ofyn am archwiliad gohiriedig. Fodd bynnag, yr Awdurdod Bwyd sy'n penderfynu’n derfynol a ddylid gohirio archwiliad ai peidio. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, dylid cysylltu â'r Awdurdod Bwyd lle caiff y cynnyrch ei fewnforio i sicrhau y bydd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ac felly dylid gohirio yn seiliedig ar gydweithrediad llawn a chytundeb rhwng y ddau Awdurdod Bwyd.

Pan fydd cynhyrchion yn destun mesur diogelu sy'n gofyn am fynediad trwy Fan Rheoli ar y Ffin, mae'n annhebygol y bydd archwiliad gohiriedig yn briodol ond gallai fod amgylchiadau eithriadol lle mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn mynnu hynny. Mewn achosion o'r fath, dylid hysbysu'r ASB. Ym mhob achos lle mae risg hysbys neu risg sy'n dod i'r amlwg, dylai bwyd fod yn destun gwiriadau dogfennol a hunaniaeth perthnasol cyn cael ei ohirio am wiriadau ffisegol.

Pan fydd unrhyw archwiliad yn cael ei ohirio, mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009 yn mynnu bod yn rhaid i'r mewnforiwr ddarparu ymrwymiad ysgrifenedig bod y llwyth wedi'i selio ac na fydd yn cael ei agor nes iddo gyrraedd ei gyrchfan benodol a bod agor y cynhwysydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd lle caiff y cynnyrch ei fewnforio. Dylai'r broses hon gael ei goruchwylio gan yr awdurdodau dan sylw. Dylai'r Awdurdod Bwyd ar y pwynt mynediad hysbysu'r Awdurdod Bwyd lle caiff y cynnyrch ei fewnforio ar unwaith ac yn ysgrifenedig nad yw'r bwyd wedi'i archwilio ac anfon copi o unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a roddwyd gan y mewnforiwr i'r Awdurdod Bwyd.

Dylid cynnal archwiliadau gohiriedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn unol â Rheoliad 27 o'r Rheoliadau – dim ond amlinelliad sydd wedi'i ddarparu yn y Canllawiau Ymarfer. Cofiwch: nid yw'r trefniadau hyn yn arfer cyffredin.

### 4.5.10 Cludo ymlaen

Mae Erthygl 51 o Reoliad (UE) 2017/625 a rhai mesurau diogelu eraill yn caniatáu i'r Awdurdod Bwyd awdurdodi mewn Man Rheoli ar y Ffin i gludo llwyth(i) o fwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid a allai fod wedi'i samplu yn y Man Rheoli ar y Ffin hyd nes y daw canlyniadau’r profion/dadansoddiad i law. Gall yr Awdurdod Bwyd yn y Man Rheoli ar y Ffin awdurdodi'r trefniadau hyn; fodd bynnag, pan roddir awdurdodiad, rhaid ymgynghori â'r Awdurdod Bwyd yn y cyrchfan. Rhaid rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y llwyth yn parhau i fod o dan reolaeth

barhaus yr Awdurdodau Bwyd hyn (fel na ellir ymyrryd ag ef mewn unrhyw ffordd tra’n disgwyl am ganlyniadau'r profion/dadansoddiad).

Cofiwch: gall y trefniant cludo ymlaen fod yn berthnasol ar gyfer llwythi o gynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid, sy'n symud yn fewndirol o fewn y DU (hynny yw, o Fan Rheoli ar y Ffin i gylch gwaith awdurdod mewndirol).

### 4.5.11 Ffioedd

Mae Erthygl 79(2) o Reoliad (UE) 2017/625 a'r mesurau diogelu eraill yn darparu bod ffioedd gorfodol ar gyfer mewnforion FNAO o 'risg hysbys neu sy'n dod i'r amlwg' yn cael eu penderfynu a'u cyfrifo yn unol â'r meini prawf a nodir yn Erthyglau 81 ac 82 Rheoliad (UE) 2017/625.

### 4.5.12 Cadw dogfennau mewnforio

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer a math y llwythi bwyd, lle bo ar gael, yn cael ei chynnal ynghyd â gwybodaeth berthnasol ar y gwiriadau a wneir i bennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Pan fo gwybodaeth yn cael ei chofnodi, rhaid i lefel yr wybodaeth am archwiliadau bwyd (gan gynnwys archwiliadau a gynhelir mewn Cyfleusterau Storio Dros Dro Allanol (ETSFs) neu derfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol) ac archwiliadau gohiriedig ddarparu modd o olrhain llwyth a chaniatáu monitro mewnol effeithiol.

Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys unrhyw gyfeiriad sy’n adnabod y llwyth a archwiliwyd, y wlad tarddiad, gwybodaeth am natur y bwyd a'r gwiriadau a gynhaliwyd, a lle bu unrhyw gamau gorfodi neu samplu, manylion yr asiant a/neu'r sawl sy'n trosglwyddo/traddodi. Rhaid cadw cofnodion o wiriadau samplu a chofnodion sy'n ymwneud â rheolaethau brys am dair blynedd.

Mae 'llwyth' yn swm o fwyd neu fwyd anifeiliaid o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad sy'n cael ei gwmpasu gan yr un ddogfen/dogfennau, a gludir gan yr un dull cludo ac sy'n dod o'r un wlad y tu allan i’r DU.

Dylid cadw copïau o'r wybodaeth ganlynol:

- y Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin (CHED) am gyfnod o dair blynedd
- tystysgrif iechyd wreiddiol pob gwlad y tu allan i’r DU neu unrhyw ddogfen sy'n cyd-fynd â llwyth a allai gael ei gwirio, er enghraifft canlyniadau dadansoddi, am gyfnod o dair blynedd
- pob ffurflen gyflwyno ar gyfer anfon samplau at labordai i'w harchwilio/dadansoddi a chofnod o ganlyniadau pob archwiliad o'r fath, am gyfnod o flwyddyn.

### 4.5.13 Gorfodi ar bwyntiau mynediad ac yn fewndirol

Lle nad oes tystiolaeth i awgrymu bod ymgais fwriadol wedi'i gwneud i fewnforio nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio, a bod trefniadau rheoli digonol ar waith, gallai porthladdoedd ystyried ildio gwirfoddol fel opsiwn ar gyfer delio â llwythi o'r fath. Yn unol â'r Cod, lle mae bwyd yn cael ei ildio’n wirfoddol i'w ddinistrio, dylid rhoi derbynneb, a dylai'r disgrifiad o'r bwyd gynnwys yr ymadrodd 'wedi’i ildio’n wirfoddol

i'w ddinistrio' gyda'r person sy'n ildio'r bwyd neu ei gynrychiolydd yn llofnodi'r dderbynneb.

### 4.5.14 Gorfodi Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (POAO)

#### 4.5.14.1 Deddfwriaeth bwyd wedi'i fewnforio – POAO

Defra yw Adran y Llywodraeth sydd wedi'i dynodi'n Awdurdod Cymwys Canolog ar gyfer rheolaethau mewn Mannau Rheoli ar y Ffin ar gyfer cynnyrch POAO (ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragennog, y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt) a mewnforion anifeiliaid byw yng Nghymru.

Mae gan adrannau amaethyddol yn y gweinyddiaethau datganoledig gymhwysedd yn y gwledydd hyn. Mae Defra fel yr Awdurdod Cymwys Canolog wedi darparu canllawiau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid byw neu gynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r ASB hefyd wedi darparu pecyn adnoddau (gweler tudalennau 29-31) ar gyfer Awdurdodau Bwyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am orfodi bwyd a fewnforir yn fewndirol i egluro elfennau allweddol Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 a sut mae'r rheoliadau hynny yn cael eu gweithredu ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth ddomestig arall sy'n bodoli.

O dan Reoliad 19 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, rhaid i'r Awdurdod Bwyd atafael (*seize*) unrhyw lwyth sydd naill ai: wedi'i fewnforio i Gymru heblaw trwy Fan Rheoli ar y Ffin sydd wedi’i gymeradwyo ar ei gyfer yr anifail neu'r cynnyrch hwnnw, wedi'i dynnu o Fan Rheoli ar y Ffin heb Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin (CHED) neu awdurdod y Milfeddyg Swyddogol (OVS) (neu'r arolygydd pysgod swyddogol (OFI) mewn perthynas â physgod a chynhyrchion pysgodfeydd) yn y Man Rheoli ar y Ffin, neu ei gludo o’r Man Rheoli ar y Ffin i gyrchfan heblaw'r un a bennir ar y CHED. Os atafaelir llwyth y tu allan i Fan Rheoli ar y Ffin o dan Reoliad 19, rhaid i'r Awdurdod Bwyd waredu'r llwyth fel deunydd Categori 1 yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 (Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid), neu weithredu yn unol â Rheoliad 20(1)(b) neu 20(1)(c).

#### 4.5.14.2 Cynnyrch POAO a gyflwynir yn anghyfreithlon

Rhaid mewnforio cynnyrch POAO yn unol â darpariaethau perthnasol Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn mynnu bod cynnyrch POAO yn cael ei fewnforio trwy Fan Rheoli ar y Ffin dynodedig ac yn ddarostyngedig i wiriadau milfeddygol[49]. Rhaid rhoi CHED ar gyfer llwythi sy'n pasio'r gwiriadau milfeddygol, a dylai hyn fynd gyda'r llwyth i'r safle cyntaf ar ôl ei fewnforio, lle dylid ei gadw am gyfnod o flwyddyn. Ystyrir bod cynnyrch POAO wedi’i fewnforio (ei smyglo) yn anghyfreithlon lle na chafodd ei gyflwyno yn y Man Rheoli ar y Ffin mynediad, i'w glirio neu heb gael CHED wedi'i gwblhau'n gywir gan y Man Rheoli ar y Ffin.

Llu’r Ffiniau sy’n gyfrifol am ganfod cynnyrch POAO sydd wedi'i smyglo mewn ardaloedd a reolir gan y gwasanaeth Tollau gan gynnwys ETSF. Fodd bynnag, mae

[49] Rheoliadau 13 ac 15 Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

gan Awdurdodau Bwyd gyfrifoldebau sy'n ymwneud â nwyddau a gyflwynir mewn Mannau Rheoli ar y Ffin a hefyd yn fewndirol lle mae swyddogion yn dod ar draws cynnyrch POAO anghyfreithlon yn ystod eu gweithgareddau gorfodi arferol.

Mae Grŵp Gweithrediadau'r ASB yn gyfrifol am gynnyrch POAO anghyfreithlon a geir mewn safle sydd o dan ei reolaeth. Pan fydd staff Gweithrediadau'r ASB yn darganfod cig mewn ffatrïoedd torri cymeradwy y maent yn amau ei fod yn cael ei fewnforio yn anghyfreithlon, nhw sydd â'r prif gyfrifoldeb a'r pwerau gorfodi i ddelio â hynny.

Dylai pob Awdurdod Bwyd sefydlu, gweithredu a chynnal trefniadau i ddelio'n effeithiol â chynnyrch POAO a gyflwynwyd yn anghyfreithlon. Oherwydd natur y gweithgarwch gorfodi a allai olygu bod angen gweithredu ar unwaith, rhaid i swyddogion gael eu hawdurdodi'n iawn, dylai hysbysiadau templed fod ar gael, a dylai mecanweithiau effeithiol ar gyfer unrhyw samplu neu archwilio tebygol fod ar waith. Dylid ystyried y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cludo, storio, cyfleusterau a'r trefniant rheoli angenrheidiol ar gyfer dinistrio cynnyrch POAO trwy losgi ar dymheredd uchel.

Pan ddaw swyddog awdurdodedig, yn ystod ei ddyletswyddau, ar draws cynnyrch POAO mewn safle sydd o dan reolaeth y gwasanaeth Tollau, hynny yw, mewn ardal porthladd neu ETSF, y mae ganddo reswm i gredu iddo gael ei gyflwyno'n anghyfreithlon, dylai hysbysu Cyllid a Thollau EM (yn absenoldeb unrhyw drefniadau adrodd lleol, dylai gysylltu ag Uned Gydlynu Genedlaethol Cyllid a Thollau EM ar 0845 600 4374) ac os oes angen i gael rheolaeth dros dro ddigonol ar y llwyth, dylai roi rhybudd cadw o dan Reoliad 32(6) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

#### 4.5.14.3 Adrodd

Dylid hysbysu Defra pan gaiff cynnyrch POAO a fewnforir yn anghyfreithlon ei atafael o dan Reoliad 19 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

Mae adrodd achosion o atafael yn gofyn am lenwi ffurflen IIT 1 (04/08) (yn electronig yn ddelfrydol), sydd wedi'i lleoli ar rannau diogel gwefannau APHA a CIEH.

## 4.6 Samplu a dadansoddi

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pan gaffaelir samplau bwyd o dan Reoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, a gofynion cysylltiedig y Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013. Mae canllawiau i sicrhau bod gwaith samplu Awdurdodau Bwyd yn cael ei gynnal yn effeithiol ac yn gyson wedi'u nodi isod ac yng nghyngor WLGA sydd ar gael ar yr Hwb Gwybodaeth. Cofiwch fod cynnwys y canllawiau yn dal i fod yn berthnasol, ond mae'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth wedi dyddio.

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu i samplau gael eu caffael naill ai trwy 'brynu' neu 'gymryd'. Mae'r dewis yn ôl disgresiwn y swyddog awdurdodedig, gan ystyried polisi'r Awdurdod Bwyd. Pan

fydd maint neu amlder y samplu yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol i berchennog y bwyd, gallai'r Awdurdod Bwyd gynnig taliad *ex-gratia* os na phrynir y samplau. Rhaid i'r swyddog roi derbynneb i'r perchennog am, neu gofnod o'r holl samplau y mae'r swyddog wedi'u cymryd. Os rhagwelir camau gorfodi yn dilyn archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol, dylai'r swyddog samplu brynu'r sampl.

Mae deddfwriaeth yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith samplu Awdurdodau Bwyd, a gynhelir gyda'r bwriad o gymryd camau gorfodi ffurfiol os yw'r canlyniadau'n anfoddhaol.

Mae'r holl samplau a gymerir gan swyddogion awdurdodedig sy'n cael eu hanfon i Labordy Swyddogol yn samplau rheoli swyddogol.

Nid yw ymweliad â sefydliad er mwyn cael sampl yn cyfrif fel ymyriad wedi'i gynllunio oni bai bod y gweithgarwch samplu yn rhan o reolaeth swyddogol ehangach sy'n rhoi digon o wybodaeth i ganiatáu i'r swyddog bennu'r lefel o gydymffurfiaeth.

Nid yw’r darpariaethau samplu yn yr adran hon yn berthnasol i samplau bwyd:

- sy’n destun cwyn ac sy’n dod i sylw’r Awdurdod Bwyd drwy ddefnyddwyr neu asiantaethau eraill
- a gyflwynir i’r Dadansoddwr Cyhoeddus at ddibenion monitro neu wyliadwriaeth yn unig, hynny yw nid oes bwriad adeg y samplu y bydd unrhyw gamau gorfodi yn dilyn o’r canlyniad
- a gafwyd yn unol â chyfraith bwyd na chânt eu cymryd i’w dadansoddi neu eu harchwilio, er enghraifft samplau a gyflwynwyd i gael barn arbenigwyr eraill er enghraifft nodi plâu ac ati
- a gymerir fel tystiolaeth, er enghraifft dyddiadau defnyddio erbyn

### 4.6.1 Tystysgrif a ddyfernir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd

Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd roi tystysgrif i'r swyddog a gyflwynodd y sampl, yn nodi'r canlyniad. Rhaid i Awdurdodau Bwyd drafod gyda'r Dadansoddwr Cyhoeddus neu'r Archwiliwr Bwyd sut y dylid bodloni’r gofynion hyn, gan gynnwys y modd y gellir hysbysu heb oedi ganlyniadau sy'n dynodi risg sylweddol i iechyd y cyhoedd, neu lle mae terfynau amser deddfwriaethol yn berthnasol, fel dŵr mewn dofednod.

Mae'r Tystysgrifau Dadansoddi neu Archwilio (fel y nodir yn Atodlen 3 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 ar gael ar gyfer samplau ffurfiol ar gais naill ai gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd. Rhaid i'r labordy sy'n rhoi adroddiad y prawf a'r Dystysgrif Dadansoddi neu Archwilio ddefnyddio dulliau profi sydd wedi'u hachredu i safon ISO/IEC 17025:2017 (Gofynion cyffredinol ar gyfer cymhwysedd labordai profi a graddnodi) sy'n ofyniad hanfodol i labordai swyddogol sy'n profi bwydydd ar gyfer rheoli bwyd o dan Reoliad (UE) 2017/625. Adroddiad y prawf a'r Dystysgrif Dadansoddi neu Archwilio yw'r unig fersiynau awdurdodol o ganlyniadau'r profion, ac mae ffynonellau gwybodaeth eraill

(megis canlyniadau ar UKFSS) y tu hwnt i reolaeth y Dadansoddwr Cyhoeddus neu'r Archwiliwr Bwyd a dylid eu defnyddio (a'u dehongli) gan wybod y gall hynny beri risg i'r defnyddwyr terfynol.

#### 4.6.2 Rhannu samplau i'w dadansoddi

Rhaid i'r sampl, cyn gynted â phosibl, gael ei rhannu'n dair rhan gynrychioliadol. Oni bai bod y sampl yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyflwyno i'w dadansoddi heb ei rhannu.

Cyfeirir at y rhannau canlyniadol o'r samplau yn y Cod fel rhannau terfynol. Lle bo'n ymarferol, dylid rhannu'r sampl yn sefydliad y gweithredwr busnes bwyd a ddylai, os yw'n bresennol, gael cyfle i arsylwi ar y samplu a'r rhannu cyn cael ei wahodd i ddewis rhan i'w chadw.

Gall samplu bwydydd sy'n cael eu mewnforio yn y porthladd mynediad beri anawsterau. O dan yr amgylchiadau arbennig y mae Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yn eu canfod, nid oes angen rhannu sampl ar y safle neu ym mhresenoldeb unrhyw gynrychiolydd ar ran y gwerthwr/perchennog neu'r mewnforiwr, oni bai bod y ddeddfwriaeth y mae'r sampl yn cael ei gymryd fel rhan ohoni yn cynnwys gofyniad penodol i'r gwrthwyneb.

Nid oes angen rhannu'r samplau bwyd a gaiff eu caffael trwy werthu o bell fel archebu ar-lein neu drwy'r post ym mhresenoldeb gweithredwr y busnes bwyd neu unrhyw gynrychiolydd ar ran gweithredwr y busnes bwyd, oni bai bod y ddeddfwriaeth y mae'r sampl yn cael ei gymryd fel rhan ohoni yn nodi fel arall yn benodol.

#### 4.6.3 Samplau i'w dadansoddi – Maint

Rhaid i natur a maint unrhyw sampl fod yn ddigonol er mwyn galluogi gwneud y dadansoddiad gofynnol, a dylai hynny fod yn wir ar ôl ei rannu'n dair rhan. Bydd natur y samplau sy'n briodol yn dibynnu at ba bwrpas y mae'r dadansoddiad yn cael ei gynnal. Bydd y maint yn amrywio yn ôl y cynnyrch a'r math o ddadansoddiad sydd i'w gynnal. Rhaid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus os oes unrhyw amheuaeth.

Rhaid ystyried protocolau samplu cenedlaethol, lle maent yn bodoli. Efallai y bydd angen rhywfaint o addasiad i'r protocolau yn achos llwythi mawr o fwydydd a fewnforir.

Dylid cyflwyno'r holl samplau i'w dadansoddi, a gymerir o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn unol â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 a gofynion y Cod i'r Dadansoddwr Cyhoeddus penodedig mewn labordy sydd wedi'i achredu at ddiben dadansoddi ac sy'n ymddangos ar y rhestr o labordai rheoli bwyd swyddogol.

Gall samplau a geir o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fod yn destun archwiliad os ystyrir yn briodol.

### 4.6.4 Samplau i'w dadansoddi – Cynwysyddion ar gyfer samplau

Yn gyntaf rhaid rhoi samplau o fwyd sydd heb ei becynnu ymlaen llaw neu ganiau neu becynnau wedi’u hagor mewn cynwysyddion glân, sych sy'n atal gollyngiadau fel gwydr â cheg llydan neu jariau plastig o ansawdd bwyd, caniau metel gwrthstaen neu fagiau plastig tafladwy o ansawdd bwyd. Rhaid selio bagiau plastig tafladwy o ansawdd bwyd yn ddiogel ar ôl eu llenwi, fel na allant ollwng na chael eu halogi wrth eu trin fel yr arfer. Rhaid rhoi samplau o ddiodydd alcoholig mewn poteli gwydr.

Rhaid sicrhau bod y rhannau olaf wedi'u diogelu â sêl sy’n dangos os oes unrhyw un wedi ymyrryd â nhw a'u labelu, gan nodi enw'r bwyd, enw'r swyddog, enw'r Awdurdod Bwyd, lleoliad, dyddiad ac amser y samplu a rhif adnabod. Lle bo angen, rhaid eu rhoi wedyn mewn ail gynhwysydd, fel bag plastig, y mae'n rhaid ei selio mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â'r sampl. Rhaid cyflwyno copi o'r label bwyd os yw ar gael ac unrhyw fanylion perthnasol eraill i'r Dadansoddwr Cyhoeddus gyda rhan derfynol.

### 4.6.5 Samplau i'w dadansoddi – Cludo samplau

Rhaid cadw rhannau olaf bwyd sy'n ddarfodus (*perishable*) yn yr oergell neu wedi'u rewi, yn ôl yr angen. Bydd y dull storio a ddefnyddir yn wahanol, yn dibynnu a yw'r rhan olaf i'w chyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus, neu ei chadw i'w chyflwyno o bosibl i Labordy Cemegydd y Llywodraeth yn unol â Rheoliad 8(2) o Reoliad Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

Rhaid trosglwyddo'r rhan olaf i'w chyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl samplu, yn enwedig lle mae profion i'w cynnal ar gyfer sylweddau a allai ddirywio neu newid gydag amser (er enghraifft rhai plaladdwyr, sylffwr deuocsid, ac ati). Mewn unrhyw achos, lle mae amheuaeth yn bodoli ynghylch trefniadau storio neu gludo addas ar gyfer samplau i'w dadansoddi, rhaid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus. Gan y gallai fod angen storio rhannau olaf a gedwir am sawl mis cyn eu cyflwyno i Labordy Cemegydd y Llywodraeth, mae'n bwysig eu bod yn cael eu storio'n briodol.

### 4.6.6 Samplau i'w dadansoddi – Samplau sy'n peri anawsterau wrth eu rhannu

Mae eithriad i’r gofyniad i rannu sampl yn dair rhan yn berthnasol pan fo'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw rhannu'r sampl naill ai'n rhesymol ymarferol neu'n debygol o rwystro dadansoddiad cywir. Mae Rheoliad 7(4) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn caniatáu i'r sampl gael ei chyflwyno i'w dadansoddi heb ei rhannu'n dair rhan. Nid oes unrhyw ran olaf ar gyfer y gwerthwr/perchennog, ac nid oes rhan olaf i'w chadw chwaith. Felly mae'n rhaid defnyddio'r weithdrefn hon yn ofalus. Bydd sefyllfaoedd lle gellir defnyddio'r weithdrefn hon yn dibynnu ar y profion sydd i'w cynnal ond gallent gynnwys y canlynol:

- lle nad oes digon o gynnyrch ar gael i gydymffurfio â'r gweithdrefnau yn Rheoliadau 7(1) neu 7(2) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

- nid oes unrhyw ffordd o storio rhan olaf i'w dadansoddi ymhellach fel gyda phrofion ar gyfer cig wedi'i rewi yn flaenorol

Gallai'r sefyllfa hon godi hefyd lle nad yw bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw ac nad ydynt yn homogenaidd ac mae'n anodd rhannu'r bwyd yn dair rhan, fel bod pob rhan yn cynnwys yr un gyfran o bob cynhwysyn, er enghraifft cynhyrchion cig â lympiau o gig, pasteiod lle mae'n anodd rhannu'r crwst a'r llenwad yn dri, coctel ffrwythau/iogwrt gyda ffrwythau lle mae cynhwysyn i'w feintioli.

Mewn unrhyw achos, pan gymerir un sampl yn unol â Rheoliad 7(4) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid hysbysu'r perchennog o'i gyflwyniad i'w ddadansoddi.

Mae Rheoliad 7(2) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn nodi eithriad o'r gweithdrefnau cyffredinol lle mae'r sampl yn cynnwys cynwysyddion heb eu hagor a byddai eu hagor, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn rhwystro dadansoddiad priodol. Yn yr amgylchiadau hyn rhaid i'r swyddog awdurdodedig rannu'r sampl yn rhannau trwy neilltuo cynwysyddion yn dair lot a rhaid trin pob lot fel rhan derfynol.

Os oes unrhyw amheuaeth yn bodoli, rhaid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus.

### 4.6.7 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (dadansoddi)

Dylid hysbysu perchennog y bwyd am unrhyw weithgarwch samplu ffurfiol.

Dylai’r hysbysiad gael ei roi cyn gynted ag y mae’n ymarferol wedi cynnal y gwaith samplu a dylai gynnwys enw’r bwyd.

Os yw hunaniaeth partïon eraill â diddordeb fel y gweithgynhyrchwr, y pecynnwr neu’r mewnforiwr, yr asiant, ac ati ar gael ar ddeunydd pecynnu'r sampl, gyda chyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, dylai'r swyddog hysbysu'r unigolyn hwnnw bod y bwyd wedi’i gaffael yn ysgrifenedig.

### 4.6.8 Tystysgrifau dadansoddi

Rhaid i dystysgrifau dadansoddi fod yn y fformat a nodir yn Atodlen 3 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymhwyster) (Cymru) 2013 ond gallant fod yn destun addasiad fel sy’n rhesymol ofynnol yn ôl yr amgylchiadau.

### 4.6.9 Hysbysu am ganlyniadau (dadansoddi)

Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid darparu copi o'r dystysgrif dadansoddi, ar gais, i berchennog y bwyd a ddadansoddwyd.

Os credir bod y tramgwydd honedig yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, dylid ei hysbysu cyn gynted â phosibl drwy'r dulliau cyflymaf posibl (er enghraifft dros y ffôn, a’i gadarnhau’n ysgrifenedig wedyn), ynghyd â'r Awdurdod Bwyd perthnasol.

Rhaid hefyd hysbysu’r pecynnwr, neu yn achos bwyd sydd wedi’i fewnforio, y mewnforiwr, neu eu hasiant.

Fodd bynnag, os yw’r Awdurdod Bwyd yn cynnal ymchwiliad, gellir gohirio rhyddhau’r dystysgrif pe bai ei rhyddhau’n gynnar yn peryglu’r ymchwiliad.

### 4.6.10 Samplau i'w harchwilio

Dylai’r holl samplau i’w harchwilio, a gymerwyd yn unol â Rheoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a gofynion y Cod gael eu cyflwyno i’r Archwiliwr Bwyd mewn labordy a achredwyd at ddibenion archwilio ac sy’n ymddangos ar y rhestr o labordai rheolaethau bwyd swyddogol.

Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn gymwys mewn perthynas â samplau a gafwyd gan swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd o dan Reoliad 13 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, fel petai’n sampl a gafwyd gan swyddog awdurdodedig o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 4.6.11 Samplau i'w harchwilio – Osgoi halogi

Rhaid cymryd gofal i atal halogi samplau ac offerynnau, a rhaid i'r cynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer samplau fod yn lân ac yn sych. Mae'n bwysig osgoi defnyddio dulliau glanhau a sterileiddio a allai adael gweddillion ar offerynnau neu gynwysyddion a allai, yn eu tro, effeithio ar ganlyniadau'r dadansoddiad neu'r archwiliad (er enghraifft alcohol).

### 4.6.12 Samplau i'w harchwilio – Parhad tystiolaeth/olrhain

Fel rheol, ymdrinnir â samplau bwyd mewn labordy bwyd a sbesimenau ysgarthol mewn labordy clinigol, sy'n gweithredu'n annibynnol o’r Awdurdod Bwyd. Felly, efallai y bydd angen atgoffa personél labordy o'r posibilrwydd o gamau cyfreithiol, yr angen i drin samplau bwyd a sbesimenau eraill fel tystiolaeth, a sicrhau parhad tystiolaeth o'r fath.

Felly mae'n rhaid cadw cofnodion o bob cam o'r cludo, gan gynnwys:

- dyddiadau ac amseroedd cludo
- hunaniaeth ceidwaid (*custodians*)
- dyddiad ac amser ei dderbyn yn y labordy
- hunaniaeth y person sy'n derbyn y sampl
- manylion y sampl (er enghraifft tymheredd, rhif swp)

Ar gyfer samplau bwyd, rhaid monitro’r tymheredd cludo, a'i gofnodi wrth eu derbyn yn y labordy. Os yw'r sampl wedi'i phostio, rhaid cadw prawf postio neu gofnod o'r dull anfon i'r Archwiliwr Bwyd neu'r Microbiolegydd Clinigol. Rhaid gwneud yr Archwiliwr Bwyd neu'r Microbiolegydd Clinigol yn ymwybodol y gellir defnyddio canlyniadau eu harchwiliad o'r sbesimen(au) bwyd neu ysgarthol fel tystiolaeth yn y Llys, a thrwy archwilio’r sampl/sbesimen, y gallai fod yn ofynnol iddynt ddangos tystysgrif archwilio, rhoi datganiad ysgrifenedig ar lw, a/neu roi tystiolaeth ar lw yn y llys.

Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i bersonél labordy eraill roi tystiolaeth ynghylch trin samplau bwyd a sbesimenau ysgarthol, a'u profi a'u harchwilio, mewn erlyniad troseddol.

Felly mae angen sicrhau gwybodaeth olrhain lawn yn y labordy, gan gynnwys cofnodi hunaniaeth pawb sydd wedi bod yn ymwneud â thrin ac archwilio'r sampl neu'r sbesimen, a'r camau a gymerwyd ganddynt. Yn benodol, rhaid bod system yn y labordy ar gyfer cofnodi pan fydd y sampl neu'r sbesimen yn cyrraedd, a chofnodi lle caiff ei storio, sy'n gorfod bod yn ddiogel. Ar gyfer samplau bwyd, rhaid i'r tymheredd storio fod yn briodol er mwyn lleihau newid microbaidd a rhaid ei fonitro gan ddefnyddio thermomedr wedi'i raddnodi neu ddyfais debyg arall. Mae sicrhau parhad yn y labordy yn hanfodol fel bod sicrwydd bod y canlyniad yn ymwneud â'r sampl/sbesimen a gyflwynwyd. Rhaid i unigolyn yn y labordy allu gwneud datganiad ar lw a darparu tystiolaeth lafar ar y pwyntiau hyn.

### 4.6.13 Samplau i'w harchwilio – Trefnu

Nid oes angen rhannu samplau i'w harchwilio yn dair rhan, gan fod dosbarthiad an-homogenaidd halogion bacteriol yn golygu na fydd unrhyw ddwy sampl yr un peth. Nid yw'n briodol cadw rhan i'w harchwilio yn ddiweddarach os bydd anghydfod, oherwydd efallai na fydd bacteria'n goroesi cael eu storio am gyfnod hir neu i'r gwrthwyneb, gallent luosi llawer.

### 4.6.14 Samplau i'w harchwilio – Maint y samplau

Rhaid i faint unrhyw sampl a gaffaelir fod yn ddigon er mwyn galluogi cynnal archwiliad boddhaol. Bydd y maint yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau ond fel rheol rhaid iddo fod o leiaf 100 gram. Mewn unrhyw achos o amheuaeth, rhaid ymgynghori â'r Archwiliwr Bwyd.

### 4.6.15 Samplau i'w harchwilio – Trin

Rhaid rhoi samplau o fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, neu o ganiau wedi'u hagor neu becynnau bwyd, mewn cynwysyddion di-haint, nad ydynt yn gollwng neu mewn bagiau plastig di-haint tafladwy. Rhaid selio bagiau samplu plastig di-haint tafladwy yn ddiogel ar ôl eu llenwi, fel na allant ollwng na chael eu halogi wrth eu trin fel yr arfer. Rhaid ceisio cyngor gan yr Archwiliwr Bwyd os bydd unrhyw amheuaeth. Mewn unrhyw achos, bydd cysylltu â'r Archwiliwr Bwyd cyn cyflwyno samplau i'r labordy yn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn.

Rhaid sicrhau'r samplau, sydd wedi'u pecynnu, gyda sêl sy'n dangos os bydd rhywun yn ymyrryd â nhw a'u labelu, gan nodi:

- math o sampl bwyd
- enw'r Swyddog
- rhif adnabod i'w arddangos (er enghraifft RG/1)
- dyddiad, lleoliad ac amser y samplu

O ran cynwysyddion a allai gael eu difrodi'n hawdd, neu na ellir eu haddasu i wybod os bydd rhywun yn ymyrryd â nhw, mae'n rhaid eu rhoi wedyn mewn ail gynhwysydd, fel bag plastig, y mae'n rhaid ei selio mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â'r sampl. Rhaid rhoi copi o'r label bwyd, os yw ar gael ac unrhyw fanylion perthnasol eraill i'r Archwiliwr Bwyd, er enghraifft technegau trin bwyd/dulliau storio a arsylwyd mewn perthynas â'r bwyd a samplwyd.

Rhaid i swyddogion gymryd camau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod samplau i'w harchwilio yn cyrraedd y labordy mewn cyflwr heb ei newid yn ficrobiolegol o'r adeg pan gymerwyd y sampl. Wrth samplu mae'n hanfodol nad yw'r sampl yn cael ei halogi gan y swyddog samplu. Rhaid cymryd camau priodol i osgoi halogi'r sampl ac osgoi achosi twf neu farwolaeth microbaidd yn ystod samplu, cludo a storio. Rhaid monitro a chofnodi tymheredd wrth gludo.

### 4.6.16 Samplau i'w harchwilio – Trin, cludo a storio sbesimenau ysgarthol

Pan fydd gofyn i swyddogion ymchwilio i achosion a adroddir neu a amheuir o salwch a gludir gan fwyd a chael sbesimenau ysgarthol, rhaid bod ganddynt gyflenwad o gynwysyddion priodol sy'n atal gollyngiadau.

Rhaid casglu sbesimenau o'r fath cyn gynted â phosibl ar ôl i'r symptomau ddechrau a'u cyflwyno i'r labordy gyda manylion yr unigolyn perthnasol wedi'u cynnwys ar y cynhwysydd ac ar unrhyw ddogfennaeth sy'n cyd-fynd ag ef.

Mae'n bwysig bod sbesimenau ysgarthol yn cael eu cludo i'r labordy cyn gynted â phosibl; efallai na fydd rhai pathogenau pwysig yn goroesi'r newidiadau pH sy'n digwydd mewn sbesimenau ysgarthol nad ydyn nhw'n cael eu danfon i'r labordy yn brydlon, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu cludo ar dymheredd oergell. Bydd cyswllt â'r labordy yn helpu i sicrhau bod y sbesimenau'n cael sylw prydlon ar ôl cyrraedd.

### 4.6.17 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (archwilio)

Dylid hysbysu perchennog y bwyd am unrhyw weithgarwch samplu ffurfiol. Dylai'r hysbysiad gael ei roi cyn gynted ag y mae'n ymarferol wedi cynnal y gwaith samplu a dylai gynnwys enw'r bwyd.

Os yw enw unrhyw barti arall sydd â diddordeb, fel gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr, neu ei asiant ef/ei hasiant hi ac ati, o fwyd a gafwyd gan swyddog i'w ddadansoddi ar gael ar ddeunydd pecynnu'r bwyd a bod y cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, dylai'r swyddog hysbysu'r person hwnnw bod y bwyd wedi'i gaffael yn ysgrifenedig.

### 4.6.18 Tystysgrifau archwilio

Rhaid i dystysgrifau archwilio fod yn y fformat a osodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

### 4.6.19 Hysbysu am ganlyniadau

Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid darparu copi o'r dystysgrif archwilio, ar gais, i berchennog y bwyd a archwiliwyd.

Os credir bod y tramgwydd honedig yn gysylltiedig â'r gwneuthurwr, dylid eu hysbysu cyn gynted â phosibl drwy'r dulliau cyflymaf posibl (er enghraifft dros y ffôn, a chadarnhau yn ysgrifenedig wedyn), ynghyd â'r Awdurdod Bwyd perthnasol.

Rhaid hefyd hysbysu'r pecynnwr, neu yn achos bwyd sydd wedi'i fewnforio, y mewnforiwr, neu eu hasiant.

Fodd bynnag, os yw'r Awdurdod Bwyd yn cynnal ymchwiliad, gellir gohirio rhyddhau'r dystysgrif pe bai ei rhyddhau'n gynnar yn peryglu'r ymchwiliad.

#### 4.6.20 Samplau i'w harchwilio – cais am archwiliad

Rhaid i'r swyddog sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r Archwiliwr Bwyd gyda'r sampl i sicrhau bod y sampl yn destun yr archwiliad mwyaf priodol ac i alluogi'r Archwiliwr i ddehongli'r canlyniadau.

#### 4.6.21 Ceisiadau am wybodaeth oddi wrth weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr

Dylai Awdurdodau Bwyd fodloni pob cais rhesymol am wybodaeth am ddewis y sampl, y dull samplu a'r dull o archwilio microbiolegol neu ddadansoddi cemegol i alluogi gweithgynhyrchwr neu fewnforiwr y bwyd i asesu canlyniad neu i ailadrodd yr archwiliad neu'r dadansoddiad.

#### 4.6.22 Samplu nwyddau sy'n cyrraedd trwy gyfathrebu o bell

Gellir defnyddio samplu nwyddau a archebir trwy gyfathrebu o bell[50] (hynny yw, ar-lein) gan yr Awdurdod Cymwys mewn modd dilys heb ddatgelu manylion adnabod at ddibenion rheolaeth swyddogol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i weithredwr y busnes bwyd neu fwyd anifeiliaid fod sampl o'r fath wedi'i chymryd a, lle bo'n briodol, ei bod yn cael ei dadansoddi yng nghyd-destun rheolaeth swyddogol.

#### 4.6.23 Hawl i ail farn

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod gan weithredwyr, y mae eu hanifeiliaid neu eu nwyddau yn destun samplu, dadansoddi, profi neu ddiagnosis yng nghyd-destun rheolaethau bwyd swyddogol, yr hawl i gael ail farn arbenigol, ar draul y gweithredwr ei hun.[51]

Gellir gweld canllawiau ar sut i gyflwyno cais am ail farn arbenigol yma.

Gellir gweld canllawiau ar sut i gyflwyno sampl canolwr i Gemegydd y Llywodraeth yma.

### 4.7 Arolygu llongau ac awyrennau

#### 4.7.1 Cyflwyniad

Swyddogion i ystyried agweddau ychwanegol yn ymwneud ag archwilio llongau ac awyrennau. Gellir gweld templed arolygu ar gyfer cwmnïau hedfan o'r enw 'Holiadur Diogelwch Bwyd Cwmnïau Hedfan', y gellir ei addasu, lle bo hynny'n briodol, ar yr amod nad yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod yn cael eu hanwybyddu, yn y Grŵp Iechyd Porthladdoedd mewn Meysydd Awyr (y byddai angen i chi ymuno ag ef) ar yr Hwb Gwybodaeth.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i'r canlynol:

- Mae'r diffiniad o safle yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn cynnwys unrhyw long neu awyren.

[50] Erthygl 36 o Reoliad (UE) 2017/625
[51] Erthygl 35(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- Nid yw Atodlen 4 i’r Rheoliadau hyn sy’n nodi gofynion rheoli tymheredd penodol yn gymwys i’r dulliau trafnidiaeth hyn
- Nodir y gofynion tymheredd perthnasol ar gyfer y dulliau hyn ym Mhennod IV o Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004

### 4.7.2 Cyffredinol

Gall y mathau o beryglon a allai fod yn bresennol ar fwrdd llongau/ar awyrennau fod yn sylweddol wahanol i'r rhai a allai fod mewn safle sefydlog.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- peryglon sy'n deillio o'r gwahanol ffynonellau dŵr a'r ffordd y caiff ei storio mewn tanciau ar y llong/awyren
- natur gweithrediadau bob awr o’r dydd a’r nos ar fwrdd llongau ac ar awyrennau
- darpariaethau dim ond ar gael pan fydd y llong/awyren yn y porthladd/maes awyr
- y lle storio cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer darpariaethau (sych, wedi’i oeri ac wedi'i rewi)
- oedran a'r amodau ar fwrdd y llong/ar yr awyren
- cynllun sefydlog cyfleusterau cynhyrchu bwyd na ellir ei ehangu na'i newid oherwydd materion strwythurol a diogelwch

Yn y bôn, mae'r amgylchedd ar fwrdd llongau yn gymuned gaeedig, weithiau am gyfnodau hir yn ystod mordeithiau, sy'n cyflwyno problemau penodol mewn perthynas â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd a chanlyniadau posibl halogiad. Ar longau teithwyr mawr, er enghraifft, gallai presenoldeb bwyd sydd wedi'i halogi gan facteria neu docsinau gwenwyn bwyd fod yn ddinistriol, ymhlith teithwyr a’r criw. Hyd yn oed ar longau llai, neu longau â chriwiau llai, gallai achos o wenwyn bwyd gael effaith sylweddol ar y gallu i hwylio'r llong yn ddiogel oherwydd gall aelodau hanfodol o'r criw fod yn rhy sâl i weithredu.

Mae graddfa cynhyrchu bwyd ar fwrdd llongau yn amrywio'n fawr, o longau teithwyr mawr a llongau cargo gyda nifer fawr o griw a theithwyr (er enghraifft, mae gan rai llongau mordeithio dros 3,000 o deithwyr a 1,200 o griw) i longau llai â chriw o 10 i 15.

Yn ystod unrhyw arolygiad o long neu awyren, rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain a rhoi sylw i unrhyw ofynion gan yr Awdurdod Porthladd a'r gweithredwr llongau neu'r cwmni hedfan.

Mewn llawer o achosion ni fyddai angen archwilio awyrennau'n rheolaidd, os cafwyd digon o wybodaeth gan y cwmni hedfan a/neu'r Prif Awdurdod perthnasol a'i bod wedi'i gwirio.

Pan ystyrir cyflwyno hysbysiadau, dylid cofio, drwy gyfraith achos, nad yw 'perchennog' (*proprietor*) o reidrwydd yn golygu 'perchennog' (*owner*), gan mai ef yw'r person sy'n cynnal y busnes bwyd. Fe allai fod y cwmni sy'n rhedeg gweithredwr llongau neu gallai fod yn gwmni sy'n cael ei gyflogi i weithredu'r busnes bwyd. Bydd

angen i swyddogion awdurdodedig sefydlu pwy yw gweithredwr y busnes bwyd/perchennog y busnes bwyd ym mhob achos.

Dylid copïo adroddiadau arolygu i unrhyw gynghorwyr diogelwch bwyd a gyflogir gan y gweithredwr llongau neu'r cwmni hedfan.

### 4.7.3 Gwastraff arlwyo

Mae gofynion ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ym Mhennod VI o Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd a chynhyrchion na ellir eu bwyta. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau nad oes gwastraff yn cronni, bod gwastraff yn cael ei storio mewn cynwysyddion addas ac yn rhydd o blâu, ac ati (mae cyngor pellach ynghylch yr arolygiad ar gael yn 8.10.2). Rhaid cael gwared ar wastraff mewn modd hylan ac mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn unol â deddfwriaeth arall.

Ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu o sefydliadau y mae rheolau Pennod III o Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, (er enghraifft, busnesau Gwely a Brecwast, stondinau a safleoedd dros dro) yn berthnasol iddynt, mae pwynt 2(f) o Bennod III yn gofyn am drefniadau neu gyfleusterau digonol er mwyn storio neu waredu gwastraff mewn modd hylan.

### 4.7.4 Gwastraff arlwyo rhyngwladol

Mae gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol i'w dirlenwi yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014. Mae angen mesurau penodol i sicrhau nad yw afiechyd yn cael ei gyflwyno i'r DU o safleoedd tirlenwi, sy'n derbyn y gwastraff hwn. Mae mecanwaith ar gyfer atal neu newid amodau safle tirlenwi a gymeradwywyd i ddelio â gwastraff o'r fath ar waith, os na chydymffurfir â'r amodau cymeradwyo.

### 4.7.5 Arolygiadau a gorfodi

Dylai swyddogion awdurdodedig gadw mewn cof bod rhannau eraill o’r Cod a’r Canllawiau Ymarfer wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer arolygiadau o safleoedd sefydlog, a bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhain a llongau ac awyrennau.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn cael cliriad diogelwch priodol cyn yr arolygiad
- eu bod yn ystyried yr amrywiaeth o longau fel ffactor pwysig wrth gynllunio gweithgareddau arolygu llongau. Yn achos awyrennau, tarddiad y bwyd sydd arnynt, gan gynnwys dŵr a diodydd eraill, yw’r brif ystyriaeth, ynghyd â’r modd y cânt eu cludo i’r awyren a’u llwytho arni.
- eu bod o'r farn bod safonau hylendid bwyd ar longau ac awyrennau yn bodloni gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004
- bod unrhyw weithdrefnau yn gymesur â maint a math y llong a natur y gweithgareddau dan sylw
- bod camau gorfodi yn cael eu gweithredu yn unol â pholisi gorfodi ysgrifenedig

- wrth gyflwyno hysbysiad, bod y swyddog awdurdodedig yn cysylltu â'r Cwmni Rheoli neu'r Asiant Ymdrin/Cludo. Os ystyrir bod angen, mewn perthynas â llongau, dylai'r swyddog hefyd gysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- bod strategaeth ar gyfer amlder arolygiadau, yn seiliedig ar wybodaeth am wahanol fathau o longau/awyrennau, eu tarddiad a'u hanes, yn cael ei mabwysiadu
- cyn iddynt ystyried arolygiad llong neu awyren, gwneud yn siŵr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol gan yr awdurdodau perthnasol eraill, y gweithredwr llongau, y cwmni hedfan neu'r asiant llongau fel sy'n briodol yn ôl penodau perthnasol y Cytundeb Fframwaith.

Mae erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.

Gall swyddog gyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid, Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid neu Hysbysiad Camau Unioni mewn perthynas ag unrhyw long neu awyren. Mae'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cyflwyno hysbysiad o'r fath yr un fath â'r amodau sy'n berthnasol i safleoedd sefydlog.

### 4.7.6 Llong wedi'i chofrestru y tu allan i'r DU

Yr ASB fydd yn cyfathrebu â gwledydd eraill y tu allan i'r DU ynghylch digwyddiadau. Os yw'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru mewn gwlad y tu allan i'r DU, dylai'r ASB gael y manylion llawn er mwyn gallu codi'r mater(ion) gyda'r Awdurdodau Bwyd yn y wlad berthnasol.

### 4.7.7 Llongau ac awyrennau milwrol y DU

Dylai swyddogion awdurdodedig gysylltu â Chyngor Dinas Portsmouth, Prif Awdurdod y Llynges Frenhinol i gael cyngor ar weithdrefnau cyn unrhyw ymweliad arfaethedig â llong neu long danfor y Llynges Frenhinol. Dylid cysylltu â Chyngor Dosbarth Wycombe, Awdurdod Sylfaenol y Llu Awyr Brenhinol, i gael canllawiau cyn unrhyw ymweliad arfaethedig ag un o awyrennau y Llu Awyr Brenhinol. Yn yr un modd, dylid cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Rushmoor, Awdurdod Cartref y Fyddin, cyn unrhyw ymweliad arfaethedig â gorsaf y fyddin.

Dim ond awyrennau milwrol a ddefnyddir i symud personél anhactegol ('Air Trooping') y dylid eu cynnwys mewn rhaglenni arolygu. Nid oes unrhyw weithgareddau busnes bwyd yn digwydd ar gychod hwylio'r lluoedd arfog.

Dylai swyddogion awdurdodedig:

- gyfeirio at Bennod 6 (Categorïau Safleoedd y Goron) o ran ystyriaethau diogelwch pan fyddant yn ymweld â llongau ac awyrennau milwrol y DU y mae'n rhaid eu hystyried yn safleoedd Grŵp 3
- rhoi gwybod ymlaen llaw am ymweliad arfaethedig
- adrodd materion diogelwch a ddarganfyddir wrth arolygu, sy'n ymwneud â llongau ac awyrennau milwrol y DU i arweinwyr Iechyd yr Amgylchedd y Gwasanaeth unigol a'r Awdurdod Cartref neu'r Prif Awdurdod perthnasol

- cofio diben llongau ac awyrennau milwrol yn y pen draw. Gall cynllun y gegin fod yn gyfyngedig am resymau gweithredol
- rhoi ystyriaeth ddyledus i bolisi, gweithdrefnau ac arferion milwrol
- ystyried rhannau perthnasol o 'JSP 456 – Defence Catering Manual Vol. 3'

| | Prif Awdurdod | Arweinydd Iechyd yr Amgylchedd |
|---|---|---|
| Y Llynges Frenhinol | Cyngor Dinas Portsmouth<br>☎: (02392) 834253 | SO2 Polisi Iechyd yr Amgylchedd<br>☎: (02392) 625554 |
| Y Llu Awyr Brenhinol (RAF) | Cyngor Dosbarth Wycombe<br>☎: (01494) 421710 | Swyddog Cadlywyddol Iechyd yr Amgylchedd<br>☎: (01494 494334) |
| Y Fyddin | Cyngor Bwrdeistref Rushmoor<br>☎: (01252) 398398 | SO1 Polisi Iechyd yr Amgylchedd<br>☎: (01276) 412931 |

### 4.7.8 Arolygiadau diogelwch bwyd ar longau

#### 4.7.8.1 Paratoi

Yn yr un modd â safleoedd mewndirol, mae llongau neu gychod eraill yn cwmpasu nifer fawr o wahanol fathau gydag amrywiaeth eang o weithrediadau bwyd o ganlyniad. Mae rhai llongau yn gwasanaethu aelodau'r cyhoedd (er enghraifft Fferïau a Mordeithiau) tra bod eraill yn gweithredu gyda chriw parhaol neu led-barhaol ar fwrdd y llong ac mae bwyd yn cael ei drin iddyn nhw ei fwyta yn unig. Mae gofyn i longau sy'n cynnal teithiau rhyngwladol gael Tystysgrif Glanweithdra Llong o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, a ddyfernir gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae'r arolygiad ar gyfer y tystysgrifau hyn yn cynnwys arolygu'r gweithrediadau bwyd yn erbyn set o safonau technegol sy'n berthnasol yn fyd-eang (WHO Technical Handbook), ond prif ddiben y rhain yw diogelu rhag clefydau ac amodau sy'n peri pryder i iechyd y cyhoedd. Felly mae'n bosibl y gellir archwilio llongau at ddibenion deuol.

Cyn dechrau arolygiad at ddibenion diogelwch bwyd, dylai swyddogion awdurdodedig ganfod a yw'n briodol arolygu'r llong yn seiliedig ar y meini prawf a awgrymir ym mharagraff 4.7.8.7.

Er eglurder, mae'r arolygiadau y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn at ddibenion diogelwch bwyd yn hytrach na dibenion glanweithdra llongau. Fodd bynnag, lle mae gorgyffwrdd posibl rhwng y ddau, cyfeirir at yr arfer gorau o dan y ddau fath o arolygiad.

Dylai'r swyddog sicrhau:

- bod Meistr y llong (neu'r swyddog rheoli priodol) yn ymwybodol o bwrpas yr arolygiad
- eu bod yn pennu cwmpas gweithgareddau'r busnes bwyd sy'n cael eu cynnal ar y llong

Dylai trafodaethau cychwynnol gyda Meistr neu gynrychiolydd y llong gynnwys ystyriaeth o unrhyw ddogfennau sydd ar gael a nodi'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a diod a gynhelir ar y llong.

Pan fo trefniadau ar waith, dylai'r Awdurdod Iechyd Porthladd perthnasol sicrhau bod gweithredwyr llongau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â darparu gwybodaeth i’r Awdurdodau Bwyd.

#### 4.7.8.2 Penderfyniad i arolygu ac amlder arolygiadau

Dylai'r penderfyniad i arolygu llongau at ddibenion diogelwch bwyd fod yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- p’un a yw'r gweithrediad bwyd yn gwasanaethu'r cyhoedd (p'un a ydynt yn talu ai peidio)
- p'un a oes gan y llong ei borthladd cartref yn y DU

Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn yn gadarnhaol, dylai'r llong gael ei harolygu mewn modd sydd gymesur â safleoedd bwyd mewndirol. Dylai amlder yr arolygu fod yn seiliedig ar y sgoriau ymyrraeth a nodir ym Mhennod 4 o'r Cod. Dylid cofnodi arolygiad diogelwch bwyd y llong ar system gwybodaeth reoli yr Awdurdod Iechyd Porthladd a ffurfio rhan o wybodaeth LAEMS.

Os mai 'Na' yw'r ateb i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, penderfyniad pob Awdurdod Iechyd Porthladd unigol fydd p'un a ydynt yn ystyried arolygiad diogelwch bwyd yn briodol ar unrhyw adeg penodol yn seiliedig ar y meini prawf yn 4.7.8.7. Gellir cofnodi arolygiadau trwy LAEMS yn y sefyllfa hon.

Os mai 'Na' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn hyn, ni fydd fel rheol yn briodol cynnal arolygiadau diogelwch bwyd. Gellir ac fe ddylid parhau i gynnal arolygiadau yn unol â'r tri senario a nodir yn Atodiad 2 o Lawlyfr Technegol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Bydd hwn yn arolygiad at ddibenion Glanweithdra Llongau ac ni ddylid ei gofnodi dan LAEMS.

Mae'n ddigon posibl y gallai arolygiadau at ddibenion diogelwch bwyd a glanweithdra llongau gael eu cynnal ar yr un pryd. Yn y senario hon, mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn glir ynghylch pan fydd gofynion ar wahân yn dechrau ac yn dod i ben a rhaid iddynt wahaniaethu'r canfyddiadau gwahanol o bob arolygiad yn glir i feistr y llong.

Dylid hefyd ystyried unrhyw gyfleuster rhannu data sydd ar gael gan gyfeirio at dystiolaeth hanesyddol o ddiffyg cydymffurfio. Yna dylid cynnal ymyriadau sy'n angenrheidiol at ddibenion diogelwch bwyd yn unol â hynny, a rhoi gwybod i Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd eraill y DU beth yw'r canlyniad yn syth trwy unrhyw ddull priodol.

#### 4.7.8.3 Arolygu llongau:

Pan fo tystiolaeth neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio, efallai y bydd angen i swyddogion archwilio rhannau perthnasol y llong.

Mae eitemau i’w hystyried yn cynnwys:

- manylebau a ffynonellau bwyd a dŵr
- cludiant i'r llong, llwytho a storio dilynol
- y math o long, y cyfleusterau, gan gynnwys cyfarpar, ar gyfer paratoi/cynhyrchu/storio bwyd a storio dŵr, dosbarthu dŵr ac ansawdd dŵr a ddefnyddir yn y mannau bwyd neu sydd ar gael i'w yfed
- pa mor ddigonol yw'r gweithdrefnau seiliedig ar egwyddorion HACCP (dadansoddi peryglon a phwyntiau rheoli critigol), a fydd yn dibynnu ar y math o long
- gofynion tymheredd bwyd yn Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004
- eu gweithgareddau trin bwyd, yr hyn y mae'r sawl sy'n trin y bwyd yn ei wybod am statws hylendid bwyd/statws eu hiechyd eu hunain
- samplu bwyd a dŵr
- trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol
- gweithdrefnau rheoli pla
- unrhyw adroddiadau anffafriol neu achosion o salwch gastrig, ac ati, sy'n hysbys

Dylid penderfynu ar ymweliadau â llongau eraill, fel cychod hwylio hyfforddi, sydd wedi'u lleoli mewn porthladdoedd penodol ar sail nifer y llongau, yr amodau lleol a gwybodaeth a gafwyd drwy arolygiadau blaenorol.

#### 4.7.8.4 Camau ar ddiwedd yr arolygiad

Ar ôl cwblhau'r arolygiad, dylai'r swyddog:

- drafod y canfyddiadau gyda Meistr y llong neu gynrychiolydd dirprwyedig
- rhoi syniad o amserlen ddisgwyliedig unrhyw gamau unioni y canfyddir eu bod yn angenrheidiol
- paratoi tystysgrif arolygu a'i rhoi i'r Capten cyn gadael y llong. Dylid anfon dogfennau ymlaen os nad yw hyn yn bosibl cyn i'r llong adael. Dylai perchennog y llong hefyd gael copi
- anfon copi o'r dystysgrif arolygu i'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau a'r Awdurdod Iechyd Porthladd yn y porthladd arfaethedig nesaf, os yw'n y DU ac, os caiff ei ddynodi, yr Awdurdod Iechyd Porthladd cartref perthnasol lle darganfyddir unrhyw broblemau difrifol. Dylai hyn fod cyn yr ymweliad nesaf posibl â'r llong

#### 4.7.8.3 Cydgysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (AMGG)

Dylid cadw mewn cysylltiad ag AMGG yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (y Memorandwm) rhwng y Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (APHA) ac AMGG sy'n ymdrin â llongau anfilwrol. Dylid cyfnewid copïau adroddiadau archwilio perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch bwyd ar longau rhwng Awdurdodau Bwyd/Awdurdodau Iechyd Porthladd ac AMGG, yn unol â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.

Pe bai anawsterau gyda diffygion difrifol yn ymwneud â bodolaeth cyflwr risg iechyd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 7(2) a Rheoliad 8(4) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 hynny yw, bod risg o niwed i iechyd ar fin digwydd) sy'n ymwneud â diogelwch

bwyd a dŵr tra bod llong mewn porthladd, dylid ystyried cysylltu ag AMGG er mwyn annog camau i gadw'r llong yn ôl yn unol â gweithdrefnau yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth. Dylid hefyd rhoi gwybod am ddiffygion o'r fath i Awdurdod Bwyd y wladwriaeth sy'n cofrestru'r llong.

Bydd llongau fel Fferïau Teithwyr sy'n gweithredu o Borthladdoedd y DU neu sydd wedi'u lleoli ym Mhorthladdoedd y DU ac sy'n fusnes bwyd cofrestredig yng Nghymru, yn dod o dan ofynion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliadau cysylltiedig.

Er mwyn gwneud hyn, byddai angen cofrestru llongau gyda'r Awdurdod Iechyd Porthladd/Awdurdod Bwyd perthnasol fel busnes bwyd a chael sgôr ymyrraeth yn unol â Phennod 4 o'r Cod.

#### 4.7.8.4 Materion eraill – llongau

Os oes un wedi'i benodi, dylai'r Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref ar gyfer y gweithredwr llongau sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar gael iddo (gweler isod am enghreifftiau o ddogfennaeth berthnasol), ar gyfer cysylltu ag Awdurdodau Bwyd perthnasol eraill a chadw gwybodaeth amdanynt. Ar gyfer llongau milwrol gweler paragraff 4.7.7 yn y canllawiau hyn.

Dylai Awdurdodau Bwyd y mae llongau'n hwylio iddynt ddefnyddio'r adroddiad arolygu blaenorol i sicrhau: (a) os oes angen, bod arolygiadau dilynol yn cael eu cynnal ar yr adeg honno a/neu (b) nad yw arolygiadau yn cael eu cynnal ar amlder fwy na bob blwyddyn, oni bai bod cyfiawnhad clir dros wneud hynny.

Mae hefyd yn arfer da anfon copi o'r adroddiad at Awdurdod Bwyd y DU a oedd wedi cynnal unrhyw arolygiad blaenorol, er mwyn iddynt weld pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd o ganlyniad i'w harolygiad blaenorol o'r llong.

Gellir arolygu llongau at ddibenion hyfforddi cyhyd â bod pwrpas yr arolygiad yn cael ei egluro i'r Meistr a'u bod yn cytuno i arolygiad o'r fath gael ei gynnal.

Enghreifftiau o ddogfennaeth berthnasol:

- manylebau/cyflenwyr bwyd
- canlyniadau samplu dŵr
- dadansoddi peryglon (HACCP)
- cofnodion tymheredd bwyd
- cofnodion hyfforddi y sawl sy'n trin y bwyd

#### 4.7.8.5 Meini prawf risg eraill

Gallai hefyd fod yn briodol ystyried y meini prawf canlynol wrth benderfynu a ddylid archwilio llong at ddibenion diogelwch bwyd:

- y math o long a'i maint, er enghraifft llongau cargo/teithwyr cyffredinol, llongau teithwyr, llongau mordeithio
- porthladd cofrestru
- oedran/cyflwr/hanes y llong
- criw a nifer y teithwyr/proffil/'trosiant'

- patrwm masnachu'r llong/amserlen/porthladdoedd blaenorol
- hyder mewn systemau rheoli diogelwch bwyd a dŵr
- y ddogfennaeth sydd ar gael
- adroddiadau arwyddocaol diweddar am broblemau cysylltiedig â bwyd ar y llong
- tystysgrifau arolygiadau blaenorol – y lefel gydymffurfio (gallai’r rhain gynnwys tystysgrifau arolygu a gyflwynwyd gan Awdurdodau Bwyd o du allan i’r DU)

#### 4.7.8.6 Cymhwyso Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005 (IHR)

Nid oes dim yn y Cod Ymarfer sy'n bwysicach nac yn cyfaddawdu dyletswyddau Awdurdodau Iechyd Porthladd i arolygu a sicrhau bod llongau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, eu safonau technegol cysylltiedig a Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Llongau) 1979.

### 4.7.9 Arolygu awyrennau

#### 4.7.9.1 Paratoi

Dylai swyddogion awdurdodedig fodloni eu hunain yn y lle cyntaf bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan ynglŷn â’i gyflenwyr a’i gyflenwadau bwyd a dŵr yn foddhaol. Cyfrifoldeb y cwmni hedfan yw rhoi unrhyw dystiolaeth o gyflenwyr bwyd ag enw da i’r swyddog awdurdodedig.

Dylai'r penderfyniad i fynd ar awyren fod yn seiliedig i raddau helaeth ar:

- unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan
- cadarnhad o ddilysrwydd yr wybodaeth
- unrhyw gwynion a ddaw i law yn ymwneud â bwyd neu hylendid bwyd gan deithwyr neu griw

Os yw gwybodaeth o'r fath yn foddhaol, efallai na fydd angen mynd ar yr awyren, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn dangos bod mathau penodol o awyrennau ac arferion diogelwch bwyd yn bodloni'r gofynion.

Fodd bynnag, mae’n hanfodol cadarnhau amodau ac arferion ar yr awyren yn rheolaidd drwy gyfrwng arolygiad. Dylid gwneud gwiriadau blynyddol fel isafswm gan ddefnyddio’r wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan am faterion hylendid bwyd, naill ai trwy:

- y prif awdurdod
- swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Bwyd gorfodi perthnasol yn absenoldeb yr uchod

Dylai gwiriadau o’r fath gadarnhau, er enghraifft, na wnaed unrhyw newidiadau i’r arlwywyr ar deithiau hedfan, ffynhonnell y cyflenwad dŵr, ac ati. Dylai gwiriadau o'r fath hefyd wirio bod cynllun HACCP yr arlwywyr yn cael ei weithredu ar yr awyren a bod systemau ar waith ar ôl i fwyd a diod adael y sefydliad arlwyo i ganfod a yw peryglon halogiad (yn cynnwys halogi microbiolegol, ffisegol, cemegol ac alergenaidd) yn cael eu rheoli hyd nes gweini i'r teithiwr.

Lle mae trefniadau ar waith, dylai Awdurdodau Cartref sicrhau bod cwmnïau hedfan yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau o ran darparu gwybodaeth. Dylai Prif Awdurdodau ddarparu gwybodaeth berthnasol i Awdurdodau Bwyd eraill, pan ofynnir iddynt wneud hynny, a phan fo hyn yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau hedfan cyffredinol, rhoddir cyfrinachedd priodol iddynt.

#### 4.7.9.2 Gwybodaeth i’w chasglu i gynorthwyo gweithdrefnau arolygu

Os nad oes trefniant â'r Prif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, mae'n hanfodol cysylltu â chwmnïau hedfan er mwyn deall sut y maent yn gweithredu rheolaethau diogelwch bwyd ar eu hawyren, ac er mwyn i swyddogion awdurdodedig allu gwirio systemau diogelwch bwyd.

Mae'r nifer fawr o gwmnïau hedfan ac, mewn rhai achosion, maint eu llyngesau, yn mynnu bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chadw ac ar gael cyn penderfynu a ddylid arolygu:

- enw a manylion cyswllt cwmni hedfan i ymdrin ag ymholiadau (gallai hwn fod yn gynghorydd diogelwch bwyd a gyflogir gan y cwmni hedfan)
- nifer yr awyrennau, eu math a’u rhifau cofrestru, lle y bo’n briodol
- y llwybrau hedfan – teithiau hir, teithiau byr a’r gwledydd
- dogfennau neu lawlyfr polisi/gweithdrefnau diogelwch bwyd y cwmni hedfan
- y mathau o fwydlenni arlwyo a gweini bwydydd risg uchel
- gwybodaeth am y sawl sy’n trin bwyd (staff y caban) – nodiadau canllaw/taflenni esboniadol diweddaraf a/neu hyfforddiant sy'n gymesur â'r gweithgarwch trin bwyd sy'n ymwneud â hylendid personol; trin bwyd; materion croeshalogi sy'n codi o ddyletswyddau eraill; ymwybyddiaeth o blâu; rheoli tymheredd bwyd (fel sy'n ofynnol yn Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004), os yw'n briodol, a monitro; statws iechyd eich hun a’r polisi gwahardd o’r gwaith
- cofnodion hyfforddi, safon yr hyfforddiant, gan gynnwys ailhyfforddi pan fo’n briodol
- arlwywyr teithiau, a/neu gwmnïau enwebedig sy’n rhoi prydau at ei gilydd a/neu’n cludo prydau i’r awyren, a ddefnyddir gan bob cwmni hedfan. Dylai bwydlenni ar gyfer teithiau gynorthwyo wrth asesu a yw bwydydd risg uchel yn cael eu trin a/neu eu paratoi ar yr awyren. Cyfrifoldeb y cwmni hedfan yw rhoi tystiolaeth bod y bwyd yn deillio o ffynhonnell gyfrifol
- y manylebau ar waith gyda’r arlwywr ar gyfer cyflenwi bwyd i awyren a thymheredd derbyniol ei drosglwyddo, gan gynnwys ar gyfer bwydydd risg uchel
- manylion am drefniadau diogelwch bwyd a dŵr pan gânt eu cyflenwi i awyren dramor
- cyflenwad dŵr yfed – ffynhonnell, y defnydd o danceri, glanhau/diheintio tanciau storio – amlder/effeithiolrwydd. I’w gwirio cyn neu ar ôl yr arolygiad
- teithiau neu lwybrau sydd â gwasanaeth arlwyo wrth ddychwelyd gan gynnwys arlwyo amlsector, ac o ba feysydd awyr
- contract rheoli a monitro plâu

- y contractiwr glanhau, gyda manylion cytundebau, er enghraifft amserlenni glanhau, a monitro effeithiolrwydd y drefn lanhau
- adroddiadau ar ddadansoddiad/archwiliad o fwyd a dŵr yfed ar awyren gan y cwmni hedfan, a ddylai fod yn gysylltiedig â threfn samplu'r Awdurdod Bwyd ei hun
- p'un a yw'r cwmni hedfan yn ymgymryd â hunanarchwiliadau ac a oes unrhyw adroddiadau ar gael

Dylai'r wybodaeth uchod gynorthwyo swyddog i asesu'r angen i arolygu awyren. Yn ymarferol, o ystyried adran 4.5 y Cod, ac wedi cael yr wybodaeth briodol oddi wrth y cwmni hedfan a/neu'r Prif Awdurdod perthnasol, gallai ymweliadau unwaith bob deunaw mis i ddwy flynedd â mathau penodol o awyrennau, sy'n gweini prydau risg uchel, ddeillio o hyn, oni bai bod rhesymau cadarn dros ymgymryd ag ymweliadau o'r fath yn amlach na hynny.

#### 4.7.9.3 Arolygu awyrennau

O bryd i'w gilydd, bydd criw'r awyren yn paratoi bwyd ar yr awyren ac felly, drwy eu hyfforddiant, dylent fod yn ymwybodol o faterion croeshalogi posibl sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau eraill ar yr awyren, fel trin a thrafod bagiau chwydu a glanhau toiledau yn ystod taith. Dylid cynnal arolygiadau fel arfer cyn y daw teithwyr ar yr awyren, wedi i'r awyren gael ei glanhau yn ddelfrydol, pan fydd bwyd arni, a phan fydd staff y cwmni hedfan yn gallu rhoi cymorth a gwybodaeth. Dylid arfer barn broffesiynol a gellid cynnal arolygiadau ar adegau eraill yn ôl yr angen. Pe bai unrhyw ansicrwydd am yr wybodaeth a ddarperir gan staff yr awyren, dylid cysylltu â'r pencadlys (neu'r Prif Awdurdod) perthnasol am eglurhad.

#### 4.7.9.4 Eitemau i'w hystyried mewn perthynas â diogelwch bwyd ar awyrennau

Ar ôl edrych ar ddogfennau, dylid ystyried/cadarnhau'r materion canlynol, fel y'u rhestrir yn adran 4.7.9.2, pan fo'n briodol:

- arlwywyr teithiau – cadarnhau'r wybodaeth a gafwyd ynglŷn â ffynhonnell prydau ac ati
- cludiant a llwytho'r awyren, gan gynnwys y dull o reoli tymheredd y bwyd yn y cerbyd dosbarthu
- cyfleusterau storio bwyd ar yr awyren, gan gynnwys y ddarpariaeth o gynwysyddion wedi'u hinswleiddio a/neu becynnau iâ a'r cyfnod hiraf o amser a nodir nes gweini a/neu ailgynhesu, gan ystyried y math o awyren, er enghraifft teithiau hir neu fyr, a'r bwyd a weinir
- a yw bwyd yn cael ei baratoi ar yr awyren a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau o'r fath, er enghraifft hylendid personol; osgoi croeshalogi; darparu menig tafladwy ar gyfer rhai dyletswyddau a wipes diheintio
- prydau ar gyfer y daith yn ôl gan ystyried am faint o amser y bydd y bwyd yn para
- rheoli tymheredd (yn unol â gofyniad Pennod IV Atodiad II i Reoliad (CE) 852/2004) a monitro yn ystod teithiau

- ailgynhesu/coginio
- rheoli plâu
- cyflenwad dŵr – ffynhonnell a'r gallu i yfed dŵr/glendid tanciau
- gweithdrefnau ar gyfer glanhau mannau trin bwyd, troliau/cartiau
- samplu bwyd a dŵr

#### 4.7.9.5 Materion eraill – Awyrennau

Dylid annog cwmnïau hedfan i fabwysiadu, lle bo angen, codau ymarfer cymeradwy, er enghraifft, Canllawiau Diogelwch Bwyd y Byd y Gymdeithas Arlwyo Teithio Ryngwladol (ITCA)/Cymdeithas Gwasanaethau Hedfan Rhyngwladol (IFSA), i ddatblygu archwiliadau cyflenwyr mewnol, archwiliadau awyrennau a sicrhau bod unrhyw adroddiadau ar gael i'r swyddog awdurdodedig.

Dylai adroddiadau o'r fath, pan fyddant ar gael, fod yn rhan o wiriadau cychwynnol y swyddog awdurdodedig. Dylai swyddogion awdurdodedig hefyd ystyried, lle bo hynny'n briodol, y Canllawiau hyn.

Mae prydau awyrennau yn cael eu paratoi yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, cyn gadael, a gallai rhai ohonynt fod ar gyfer hedfan yn ôl. Dylid gofyn i arlwywyr hedfan neu gyflenwyr bwyd eilaidd sicrhau bod manylion cynhwysion prydau bwyd ar gael i'w cwsmeriaid. Dylai criw caban perthnasol gael mynediad at yr wybodaeth hon a gallu ei throsglwyddo er budd teithwyr sydd ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

Dylai swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol am achosion a adroddir o salwch a gludir gan fwyd sy'n effeithio ar griw awyrennau, a gallai polisïau cwmnïau hedfan gynnwys y gofyniad i aelodau'r criw fwyta ar wahanol adegau i'r teithwyr ac o wahanol fwydlenni.

Gellir arolygu awyrennau yn y ganolfan cynnal a chadw, gan ystyried unrhyw ddogfennaeth ar, er enghraifft, fanylebau cyflenwi bwyd, hyfforddiant criw caban a rheoli tymheredd bwyd a gyflenwir gan y cwmni hedfan neu'r awdurdod iechyd.

Pan fydd angen i swyddog awdurdodedig fynd ar awyren, dylai'r amser a dreulir arni fod mor fyr â phosibl, gan y dylai'r rhan fwyaf o'r materion uchod fod yn weithdrefnau gweithredu safonol sydd wedi'u cynnwys yn nogfennaeth y cwmni hedfan. Fodd bynnag, os oes unrhyw achosion pryder yn ymwneud â'r uchod, dylai'r swyddog awdurdodedig hysbysu'r cwmni perthnasol a'r awdurdod iechyd, os caiff ei ddynodi, y gellir cynyddu mesurau gwyliadwriaeth, er enghraifft asesiad o lendid y gali, rhagor o samplu dŵr i'w ddadansoddi/archwilio, ac ati.

Mae oedi awyrennau'n gostus. Felly ni ddylid ymyrryd â gweithrediadau awyrennau oni bai bod risg ar fin digwydd i iechyd teithwyr neu'r criw. Os yw awyren wedi cychwyn teithio, dylid cynnal arolygiadau dim ond os yw'n hollol angenrheidiol, yn seiliedig ar wybodaeth gefndirol sy'n ymwneud â'r math penodol o awyren, polisi'r cwmni, yr arlwywr, rheoli tymheredd, ac ati. Dylai swyddogion awdurdodedig hefyd ystyried ymarferoldeb eu hamserlen arolygu ac ymdrechu i weithio gyda'r criw/staff maes awyr perthnasol i osgoi anawsterau diangen, a chofio mai prif amcan cwmni hedfan yw diogelwch yr awyren, y teithwyr a'r criw.

Mae'r Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd wedi cyhoeddi 'Canllawiau Arlwyo Cwmnïau Hedfan i Arolygwyr'

#### 4.7.9.6 Camau ar ddiwedd yr arolygiad

Yn dilyn arolygiad, dylid anfon adroddiad:

- i'r cwmni hedfan
- i'r Prif Awdurdod perthnasol (lle mae trefniant o'r fath yn bodoli)

Pan gaiff awyrennau o gwmni hedfan penodol eu gwirio a phan ganfyddir eu bod yn torri'r gyfraith berthnasol, dylid darparu manylion llawn i ganiatáu camau dilynol digonol, er enghraifft:

- y math o awyren
- rhif y daith
- gwybodaeth annigonol am faterion hylendid bwyd ymhlith criw'r awyren

# Pennod 5 Digwyddiadau, rhybyddion a throseddau bwyd

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ymdrin â'r canlynol:

- digwyddiadau, peryglon a rhybuddion bwyd
- sut y disgwylir i Awdurdodau Bwyd ymateb a chysylltu ag Awdurdodau Bwyd eraill, adrannau'r llywodraeth, cyrff dirprwyedig, gweithredwyr busnesau bwyd, yr ASB, asiantaethau perthnasol eraill (a allai gynnwys Prif Awdurdodau, Awdurdodau Gwreiddiol a Chymdogol, Arbenigwyr Meddygol, Archwilwyr Bwyd, Dadansoddwyr Cyhoeddus a Microbiolegwyr) a gwledydd y tu allan i'r DU
- rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) a mynd i'r afael â throseddoldeb bwyd

## 5.2 Rheoli digwyddiadau a rhybuddion bwyd

### 5.2.1 Cysylltiadau digwyddiadau bwyd

Mae canllawiau ar adrodd digwyddiadau ar gael i Awdurdodau Bwyd. Dylai digwyddiadau bwyd, lle bo hynny'n briodol, gael eu hadrodd:

- Gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd digwyddiad ar-lein neu drwy anfon Ffurflen Adrodd Digwyddiad dros e-bost i wales.foodincidents@food.gov.uk
- Ffôn: 029 2067 8961 (neu 07789 926 573 tu allan i oriau swyddfa)

### 5.2.2 Gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd – ymatebion i gyswllt cyn y digwyddiad gan yr ASB

Efallai y bydd digwyddiadau diogelwch bwyd posibl yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB gynnal gwaith cwmpasu ac asesu trwy gysylltu ag Awdurdodau Bwyd. Ar y cam hwn o'r broses, nid yw'r materion hyn yn cael eu dosbarthu fel digwyddiadau diogelwch bwyd: yn lle hynny, maent yn ddigwyddiadau diogelwch bwyd *posibl.* Dylai'r cyswllt hwn sefydlu a yw busnes wedi derbyn unrhyw gynnyrch/cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt.

Dylai Awdurdodau Bwyd, lle bo hynny'n bosibl, ymateb o fewn dwy awr, fel y gellir gweithredu ar faterion diogelwch bwyd posibl yn brydlon. Os na cheir ymateb o fewn yr amser hwn, bydd yr ASB yn cysylltu â'r busnes bwyd, gan anfon copi o'r neges e-bost at yr Awdurdod Bwyd perthnasol.

### 5.2.3 Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau Bwyd i'r ASB

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu Tîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB cyn gynted ag y dônt yn ymwybodol o:

- berygl bwyd lleol difrifol
- perygl bwyd difrifol nad yw'n lleol
- gweithredwr busnes bwyd yn tynnu neu alw bwyd yn ôl gan nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd Erthygl 19 o Reoliad (CE) 178/2002

- amheuon o dwyll bwyd/troseddau bwyd
- digwyddiadau bwyd arwyddocaol 'nad ydynt yn beryglus'
- achosion lleol/heb fod yn lleol o salwch difrifol a gludir gan fwyd ar y cyd â hysbysu Canolfan Gwyliadwriaeth Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW CDSC)

Ar ôl cael hysbysiad o berygl lleol difrifol, gall yr ASB ofyn am wybodaeth ychwanegol i alluogi a llywio asesiad risg gwyddonol ar gyfer datblygu cyngor rheoli risg neu i gyhoeddi hysbysiad rhybudd amserol gan yr ASB. Dylai'r Awdurdod Bwyd, lle bo hynny'n bosibl, ymateb i'r ASB o fewn dwy awr i'r cais hwn.

Efallai y bydd ceisiadau'r ASB am wybodaeth mewn perthynas ag ymchwiliad i achos yn gofyn am drefnu ymweliad â safle. Dylai'r Awdurdod Bwyd ymateb i'r ASB, lle bo hynny'n bosibl cyn pen 48 awr ar ôl y cais. Os na all Awdurdod Bwyd gyflawni'r terfyn amser hwn, dylai amcangyfrif yr amser sy'n angenrheidiol i ddarparu ymateb gwybodus.

### 5.2.4 Gwybodaeth a geir yn lleol a allai ddynodi problem ehangach

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am ymchwilio ac ymdrin â bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd yn eu hardaloedd. Gall Awdurdodau Bwyd nodi problemau posibl mewn sawl ffordd fel:

- yn dilyn archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol o samplau a gyflwynwyd i Archwiliwr Bwyd neu Ddadansoddwr Cyhoeddus yn y drefn honno
- o ganlyniad i gwynion gan aelodau'r cyhoedd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drydydd parti, er enghraifft, yr heddlu, Cyngor ar Bopeth ac ati.
- trwy hysbysiadau gan gwmni gweithgynhyrchu, cymdeithas fasnach, cyfanwerthwr, manwerthwr, mewnforiwr neu arlwywr
- gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi mewn gwledydd eraill
- o ganlyniad i hysbysiad gan feddyg teulu am un neu fwy o achosion o glefydau trosglwyddadwy, gan gynnwys salwch a gludir gan fwyd, neu gan yr Ymgynghorydd ar Reoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC), neu Iechyd Cyhoeddus Cymru – Canolfan Clefydau Trosglwyddadwy, Gwyliadwriaeth a Rheoli (PHW – CIDSC)

Ar ôl ymgynghori â'r Archwiliwr Bwyd a/neu'r Dadansoddwr Cyhoeddus, dylid cael samplau o fwydydd neu gynhwysion perthnasol a samplau priodol (chŵyd/vomit, ysgarthion) gan unrhyw bersonau yr effeithir arnynt lle bo hynny'n bosibl a'u hanfon i'w harchwilio/dadansoddi. Gall yr eitemau hyn fod yn hollbwysig wrth nodi achos y salwch a gallant hyd yn oed arbed bywydau.

### 5.2.5 Dadansoddi Gwraidd y Broblem

Pan ddaw Awdurdod Bwyd yn ymwybodol bod gweithredwr busnes bwyd wedi tynnu neu alw bwyd yn ôl o'r farchnad yn unol ag Erthygl 19 o Reoliad (CE) 178/2002, oherwydd diffyg cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd y rheoliad hwnnw, dylent:

- ofyn i weithredwr y busnes bwyd gynnal dadansoddiad o wraidd y broblem i bennu'r rheswm/rhesymau dros dynnu neu alw'r bwyd yn ôl

- nodi camau cywiro a fydd yn lleihau’r risg o ddigwyddiad arall tebyg yn y dyfodol
- lle caniateir, anfon canlyniadau asesiad y busnes bwyd i'r ASB i'w dadansoddi ymhellach, er mwyn gallu nodi camau ataliol tymor hir ac i gymhwyso arfer gorau ar draws y diwydiant bwyd

Dylai'r dadansoddiad i wraidd y broblem nodi'r achos cychwynnol, mewn cadwyn achosol, sy'n arwain at dynnu neu alw’r bwyd yn ôl; a hefyd, y cam y gellid yn rhesymol weithredu ymyriad i liniaru risg ac atal y diffyg cydymffurfio rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Mae ffurflen adrodd dadansoddi gwraidd y broblem a chwrs e-ddysgu ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ar gael ar wefan yr ASB.

## 5.3 Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

### 5.3.1 Rôl yr Uned

Mae'r Uned yn defnyddio methodoleg gorfodi cyfraith ddatblygedig yn seiliedig ar egwyddorion Ymlid (*Pursue*), Amddiffyn (*Protect*), Paratoi (*Prepare*) ac Atal (*Prevent*) (elfennau 4P yn Saesneg). Mae timau wedi'u neilltuo i bob un o'r meysydd hynny yn briodol.

Mae gan yr Uned y cylch gwaith i ymchwilio i dwyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Gall hyn gynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn dull cynlluniedig a chydlynol, ac yn nodweddiadol lle mae maint y deunydd a gesglir mewn ymchwiliad o'r fath, neu ei ledaeniad daearyddol, a cholled neu enillion ariannol, neu niwed arall yn gymaint fel y bydd ymchwiliad yn mynnu ymrwymiad adnoddau am gyfnodau sylweddol o amser.

Bydd yr Uned yn arwain, yn cefnogi neu’n cydlynu gweithgarwch ar lefelau tactegol a strategol o amgylch holl elfennau’r 4P. Cyflawnir hynny trwy ddatblygu ac asesu gwybodaeth (*intelligence*), trefniadau partneriaeth datblygiedig a chynyddu capasiti a gallu i nodi arwyddion troseddau bwyd ar bob lefel.

Mae rhagor o fanylion am yr Uned ar gael ar wefan yr ASB.

### 5.3.2 Rhoi gwybod am amheuon o drosedd bwyd i'r Uned

Dylid rhannu amheuon neu wybodaeth sy'n ymwneud â thwyll bwyd neu droseddau bwyd gyda'r Uned trwy:

- anfon e-bost at foodcrime@food.gov.uk
- cysylltu â'r Uned ar 0207 276 8787
- defnyddio'r ffurflen ar-lein ar gyfer adrodd gwybodaeth

Yn ddelfrydol dylid darparu'r wybodaeth ar Adroddiad Gwybodaeth wedi'i raddio a'i asesu (y cyfeirir ato weithiau fel 3x5x2). Os na ellir cwblhau 3x5x2, dylid dal i rannu gwybodaeth o'r fath â’r Uned yn y modd mwyaf priodol a thrwy'r dulliau cyfathrebu a restrir uchod.

Lle bo angen, gall yr Uned ddarparu hyfforddiant i staff mewn Awdurdodau Bwyd ar nodi a chofnodi gwybodaeth.

## 5.4 Cyswllt â gwledydd eraill y tu allan i'r DU

### 5.4.1 System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Rhwydwaith sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Ewropeaidd yw'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) i hwyluso cyfathrebu rhwng aelodau'r rhwydwaith wrth ymateb yn gyflym i risgiau uniongyrchol neu anuniongyrchol difrifol i iechyd dynol sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae'r rhan hon o'r canllawiau'n cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddaru, yn ôl yr angen.

### 5.4.2 Rhoi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau bwyd mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio

Mae'r rhan hon o'r canllawiau'n cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddaru, yn ôl yr angen.

### 5.4.3 Materion trawsffiniol

Mae'r rhan hon o'r canllawiau'n cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddaru, yn ôl yr angen.

### 5.4.4 Cyfathrebu â gwledydd eraill y tu allan i'r DU

Bydd pob cyfathrebiad â gwledydd eraill y tu allan i'r DU am ddigwyddiadau yn cael eu gwneud trwy'r ASB.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sydd ag Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu Fan Rheoli ar y Ffin hysbysu Tîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB os ydynt yn nodi digwyddiad sy'n ymwneud â chynnyrch/cynhyrchion wedi'u mewnforio ar y pwynt mynediad.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd Mewndirol hysbysu Tîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB os ydynt yn nodi digwyddiad yn ymwneud â chynnyrch/cynhyrchion wedi'u mewnforio yn eu hardal, sydd wedi'u rhyddhau gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu'r Man Rheoli ar y Ffin.

Dylai mewnforion sydd â materion diffyg cydymffurfio a ryddhawyd yn fewndirol gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu'r Man Rheoli ar y Ffin barhau i gael eu rheoli trwy'r busnes sy'n trin y nwyddau a'r mewnforwyr cysylltiedig fel rhan o weithgareddau gorfodi arferol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Bwyd hysbysu Tîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB lle mae diffyg cydymffurfio parhaus, diffyg cydymffurfio eang neu ddiffyg cydymffurfio sy'n peri risg diogelwch.

Dylid anfon cyfathrebiadau dilynol mewn perthynas ag ymholiadau o wledydd y tu allan i'r DU i'r ASB gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost priodol:

- Mewnforion: imported.food@food.gov.uk
- Allforion: thirdcountryexports@food.gov.uk
- Digwyddiadau: wales.foodincidents@food.gov.uk

Mae canllawiau pellach ar ymatebion Awdurdodau Bwyd i ymholiadau gan wledydd eraill y tu allan i'r DU wrthi'n cael eu hadolygu a byddant yn cael eu diweddaru, yn ôl yr angen.

### 5.4.5 Datgelu gwybodaeth i wledydd y tu allan i'r DU

Os bydd amgylchiadau'n codi lle mae angen gwneud hyn, bydd angen ystyried materion cyfrinachedd, diogelu data a hawliau dynol. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd ystyried cynnwys ei gynllun cyhoeddi ei hun o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rhaid iddo gymhwyso'r gyfraith a'r egwyddorion cyffredinol a nodir mewn deddfwriaeth berthnasol a chyfraith achosion i'r ffeithiau penodol y mae'n ymdrin â nhw. Gwneir hyn orau ar lefel leol, a rhaid i weinyddwyr lleol ymgynghori â'u hadrannau cyfreithiol eu hunain. Gweler y Canllawiau Ymarfer i gael rhagor o wybodaeth am ddatgelu gwybodaeth i wledydd y tu allan i'r DU.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ryddheir yn cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol gan gynnwys deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

### 5.4.6 Defnyddio tystiolaeth dramor mewn achos troseddol

Gellir cael tystiolaeth gan wledydd eraill i'w defnyddio mewn achos troseddol yn y DU. Y prif ddull o gael tystiolaeth dramor i'w defnyddio mewn ymchwiliad/achos troseddol yn y DU yw trwy Gymorth Cyfreithiol Cydfuddiannol (MLA).

Mae'r DU wedi ymrwymo i nifer o gytundebau dwyochrog rhyngwladol mewn perthynas ag MLA[52]. Mae'r DU hefyd wedi cadarnhau Confensiwn 1959 ar Gymorth Cyfreithiol Cydfuddiannol mewn Materion Troseddol[53]. Yn ogystal, mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU (TCA) yn cynnwys darpariaethau ynghylch MLA, sy'n ehangu ar ddarpariaethau Confensiwn 1959.

Pan fo'r DU wedi gwneud cytundeb dwyochrog â gwlad arall mewn perthynas ag MLA rhaid dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y cytundeb hwnnw. Fodd bynnag, dylid nodi y gall y DU ddarparu MLA i unrhyw wlad yn y byd, p'un a oes cytundeb o'r fath ar waith ai peidio.

Gelwir ceisiadau am dystiolaeth o wlad arall yn 'Llythyrau Cais Rhyngwladol' (ILOR) a gwneir ceisiadau yn y DU yn unol â Deddf Trosedd (Cydweithredu Rhyngwladol) 2003 (CICA 2003). O dan ddeddfwriaeth ddomestig mae angen i geisiadau o'r fath gael eu gwneud naill ai gan awdurdod barnwrol neu, mewn rhai amgylchiadau, gan awdurdod erlyn dynodedig. Dynodwyd nifer o awdurdodau yn rhinwedd Gorchmynion Dynodi o dan CICA 2003, er enghraifft Erlynwyr y Goron. Yn gyffredinol, gellir anfon ceisiadau yn uniongyrchol at yr awdurdod tramor priodol, fodd bynnag, mae yna amgylchiadau lle bydd angen trosglwyddo'r cais trwy awdurdod canolog. Y prif awdurdod canolog sy'n delio ag MLA ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw Awdurdod Canolog y DU (UKCA).

Cyfeiriad Awdurdod Canolog y DU yw:

Cyfarwyddiaeth Ryngwladol Awdurdod Canolog y DU

52 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/516418/Treaty_List.pdf

53 https://www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/030

Y Swyddfa Gartref
Llawr 2 , Adeilad Peel,
2 Marsham Street,
Llundain
SW1P 4DF
Ffôn: 0207 035 4040
E-bost: UKCA-ILOR@homeoffice.gov.uk

Dim ond at y dibenion a ddarparwyd y gellir defnyddio tystiolaeth a gafwyd trwy MLA. Felly, pe bai awdurdod yn y DU yn dymuno defnyddio gwybodaeth a gafwyd eisoes at bwrpas gwahanol, byddai angen ceisio caniatâd pellach y wlad a anfonodd yr wybodaeth. Yn yr un modd, os yw'r DU wedi cael gwybodaeth gan wlad arall y tu allan i'r broses MLA y mae bellach yn dymuno ei defnyddio fel tystiolaeth mewn achos, bydd angen caniatâd penodol y wladwriaeth a anfonodd yr wybodaeth i'w defnyddio yn y modd hwn ac efallai y bydd angen cyhoeddi ILOR.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ynghylch MLA ar GOV.UK. neu os oes ymholiadau penodol dylid cysylltu ag UKCA.

# Pennod 6 Gorfodi

## 6.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn trafod sut y mae Awdurdodau Bwyd yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hunioni'n effeithiol ac yn brydlon.

## 6.2 Pwerau i gyflawni rheolaethau swyddogol

### 6.2.1 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Mae Rheoliad 14 o'r rheoliadau hyn yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i safle i ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol.

Mae'r un Rheoliad yn caniatáu i'r swyddog:

- archwilio cofnodion, gan gynnwys cofnodion electronig
- atafael a chadw cofnodion, gan gynnwys cofnodion electronig
- cael gwarant mynediad

Mae pwerau pellach yn ymwneud â chadw, archwilio ac atafael bwyd, gwahardd rhai gweithgareddau a chaffael samplau hefyd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau hyn.

### 6.2.2 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Mae Rheoliad 18 o'r rheoliadau hyn yn cynnwys rhagor o bwerau mynediad sy'n berthnasol i'r rheolaethau swyddogol ar fwyd. Mae'r pwerau hyn ar wahân ac yn ychwanegol at y rhai a roddir uchod. Maent yn ymwneud yn bennaf â monitro cyrff rheoli swyddogol a rhaid eu darllen ar y cyd â Rheoliad 17(1).

Mae Rheoliad 31 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r pwerau a nodir yn Erthyglau 46, 65 i 69, 71 a 72 o Reoliad (UE) 2017/625 gymryd y camau canlynol mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio:

- cadw swyddogol
- dinistrio
- ail-ddosbarthu
- triniaeth arbennig

Mae mesurau a gymerir gan Awdurdodau Bwyd o dan Erthygl 69(4) o Reoliad (UE) 2017/625 i'w cymryd ar draul y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth.

Gall Rheoliad 39 o'r rheoliadau hefyd gael ei ddefnyddio gan swyddogion awdurdodedig i fynd i mewn i safle er mwyn pennu a fu unrhyw achos o fynd yn groes i ddarpariaethau mewnforio y rheoliadau hyn mewn perthynas â bwyd.

### 6.2.3 Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011

Mae Rheoliad 33 o'r rheoliadau hyn yn darparu pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig at ddibenion gorfodi darpariaethau'r rheoliadau, gan gynnwys gofynion ar fewnforio cynnyrch POAO.

### 6.2.4 Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae Adran 32 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i safle i ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol.

Mae'r un Ddeddf yn caniatáu:

- archwilio cofnodion, gan gynnwys cofnodion electronig
- atafael a chadw cofnodion, gan gynnwys cofnodion electronig
- i swyddog awdurdodedig gael gwarant mynediad

Mae pwerau pellach sy'n ymwneud â chadw ac atafael bwyd, gwahardd rhai gweithgareddau a chaffael samplau hefyd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf hon.

## 6.3 Cwynion am fwyd

### 6.3.1 Gofynion cyffredinol

Fel rheol, rhaid hysbysu unrhyw un a all gael ei erlyn oherwydd cwyn fod y gŵyn wedi'i gwneud cyn gynted â phosibl.

Mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd sicrhau:

- ei fod yn hysbysu unrhyw un sydd â diddordeb, cyn gynted ag y bydd ymchwiliadau rhagarweiniol yn nodi y gallai'r gŵyn fod yn ddilys, a bod darpar ddiffynyddion eraill yn cael eu hysbysu wrth iddynt ddod i'r amlwg
- pan ddarperir hysbysiad ac eithrio yn ysgrifenedig, y darperir cadarnhad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl, y mae'n rhaid iddo gynnwys dyddiad a natur y gŵyn

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle gallai hysbysiad rwystro ymchwiliad, rhaid i'r hysbysiad ddigwydd unwaith na fyddai bellach yn rhagfarnu ymchwiliad(au) pellach.

### 6.3.2 Cynnwys Awdurdodau Bwyd eraill

Os bydd ymchwiliad i gŵyn yn amlygu problem neu broblem bosibl y tu allan i ardal yr Awdurdod Bwyd sy'n gorfodi, dylid hysbysu'r Awdurdodau Bwyd eraill yr effeithir arnynt cyn gynted â phosibl ac, os yw'n briodol, y prif awdurdod neu'r awdurdod cartref.

### 6.3.3 Ymchwiliad gwyddonol i samplau cwynion bwyd

Bydd angen i'r swyddog awdurdodedig ystyried a oes angen ymchwilio yn wyddonol i fwyd sy'n destun cwyn. Dylid ceisio cyngor gan y Dadansoddwr Cyhoeddus a/neu'r Archwiliwr Bwyd a fydd yn gallu rhoi cyngor ar ffurf yr ymchwiliad gwyddonol, yn enwedig lle mae angen cyfuniad o ddadansoddi ac archwilio.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod angen dadansoddi sampl cwynion bwyd, rhaid ei anfon at y Dadansoddwr Cyhoeddus. Os oes angen archwiliad microbiolegol arno, rhaid ei anfon at Archwiliwr Bwyd. Os oes angen unrhyw ymchwiliad arall, dylid anfon y bwyd at arbenigwr â chymwysterau addas sy'n gallu rhoi tystiolaeth os bydd yn cael ei erlyn.

Efallai y bydd gwrthrych cwyn neu bartïon eraill â diddordeb yn gofyn i sampl cwynion bwyd fod ar gael i gynorthwyo mewn ymchwiliad(au) mewnol. Dylai'r

Awdurdod Bwyd geisio cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol ar yr amod nad yw'n peryglu storio, dadansoddi, archwilio na gwerth tystiolaethol priodol y sampl.

## 6.4 Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio

### 6.4.1 Y dull gorfodi

Rhaid i brif amcan unrhyw gamau gorfodi fod i sicrhau cydymffurfiaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol a rhaid i'r dull fod yn unol â'r 'hierarchaeth orfodi'.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y camau gorfodi a gymerir gan eu swyddogion awdurdodedig yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arfer da.

Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried yr holl opsiynau gorfodi sydd ar gael gan gynnwys, er enghraifft:

- addysgu a rhoi cyngor i weithredwyr busnesau bwyd
- camau anffurfiol
- samplu
- cadw ac atafael
- Hysbysiadau Gwella Hylendid/Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Camau Unioni
- Hysbysiadau Cosb Benodedig
- Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid/Hysbysiadau Gwahardd Brys
- erlyniad

Mae'r arfer o roi cyngor, a chyfathrebu trwy lythyr am faterion gorfodi, yn ddulliau sefydledig o orfodi y mae busnesau bwyd yn eu deall. Felly anogir gweithdrefnau o'r fath pryd bynnag y maent yn debygol o sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd o fewn amser sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Wrth benderfynu ar y camau gorfodi priodol, dylid ystyried:

- lefel y risgiau i ddiogelwch defnyddwyr sy'n deillio o ddiffyg cydymffurfio
- sensitifrwydd mater, a allai arwain at:
  - golli hyder defnyddwyr
  - colled economaidd i'r diwydiant
- y potensial i fwydydd nad ydynt yn cydymffurfio gael eu dosbarthu'n eang gyda nifer fawr o ddefnyddwyr yn cael eu heffeithio
- hanes cydymffurfio
- asesiad o barodrwydd gweithredwr y busnes bwyd i ymgymryd â'r gwaith a nodwyd gan y swyddog
- Unrhyw Gyngor Prif Awdurdod a gyhoeddir ganddo
- cydweithredu â'r Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref, os yw'n berthnasol

#### 6.4.2 Gwybodaeth am orfodi

Er mwyn sicrhau bod cyfraith bwyd yn cael ei dehongli a'i gweithredu yn gyson, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod gan swyddogion awdurdodedig wybodaeth gyfoes ar gael yn rhwydd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn gymwys.

Er enghraifft:

- deddfwriaeth berthnasol
- y Cod a'r Canllawiau Ymarfer
- Dogfennau canllaw yr UE
- Canllawiau'r DU ar Arfer Da, lle y bo'n briodol
- canllawiau/gohebiaeth berthnasol a gyhoeddir gan, ar y cyd â, neu ar ran yr ASB a/neu WLGA
- Rhybuddion bwyd yr ASB er enghraifft Rhybuddion Bwyd ar gyfer Gweithredu
- codau ymarfer perthnasol y diwydiant
- Canllawiau Statudol Prif Awdurdodau BEIS a mynediad i'r Gofrestr Prif Awdurdodau
- llenyddiaeth dechnegol briodol

#### 6.4.3 Cronfa ddata canlyniadau erlyn yr ASB

Mae'r ASB wedi creu ystorfa ganolog o wybodaeth am erlyniadau llwyddiannus gan Awdurdodau Bwyd a'r ASB. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys achosion erlyn sy'n gysylltiedig â safonau bwyd, diogelwch bwyd a hylendid bwyd. Bydd Awdurdodau Bwyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu gweithgareddau gorfodi eu hunain. Gellir dod o hyd i'r ystorfa hon ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

Er mwyn helpu'r ASB i gynnal y gronfa ddata, dylai Awdurdodau Bwyd adrodd erlyniadau llwyddiannus 28 diwrnod ar ôl cael euogfarn, oni bai bod y diffynnydd wedi cyflwyno apêl. Dylid rhoi gwybod am achosion gan ddefnyddio taenlen Canlyniadau Erlyn sydd i'w gweld ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

Dylid anfon taenlenni wedi'u cwblhau at y Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol drwy prosecutionsuccess@food.gov.uk.

Bydd yr ASB hefyd yn cofnodi a yw diffynnydd wedi'i ychwanegu at y Gofrestr Personau Gwaharddedig, sydd hefyd i'w gweld ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

### 6.5 Ymchwilio i droseddau

#### 6.5.1 Pwerau Mynediad, Arolygu ac Atafaelu a Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r hawl i breifatrwydd a pharch at eiddo personol yn egwyddorion allweddol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi effaith bellach iddo.

Rhaid cyfiawnhau pwerau mynediad, arolygu ac atafael yn llawn ac yn glir cyn eu defnyddio oherwydd fe allant ymyrryd yn sylweddol â phreifatrwydd y meddiannydd. Rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried a oes modd cyflawni'r amcanion angenrheidiol drwy ddulliau llai ymwthiol.

Mae Adran 32(4) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 14(5) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd â'r fath bersonau eraill, y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol, gydag ef. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw swyddog sy'n cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig, neu berson â chymwysterau neu sgiliau addas. Gallai hyn hefyd gynnwys arbenigwr mewn maes penodol y mae angen ei bresenoldeb i helpu i nodi'r deunydd y chwilir amdano'n gywir neu i gynghori ymhle y mae'r man mwyaf tebygol i ddod o hyd i dystiolaeth benodol a sut mae'n rhaid ymdrin â hi. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw un o bwerau'r swyddog awdurdodedig i'r person sy'n cyd-fynd ag ef, ond maen nhw'n rhoi hawl i'r person hwnnw fod ar y safle yn ystod arolygiad y swyddog awdurdodedig heb ganiatâd y meddiannydd.

Mae Adran 32(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 14(7) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn darparu y caiff swyddog awdurdodedig 'atafael a chadw unrhyw gofnodion y mae ganddo reswm i gredu y gallai fod eu hangen fel tystiolaeth mewn achos'.

Ym mhob achos mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig:

- arfer eu pwerau'n gwrtais gan barchu unigolion ac eiddo
- mewn amgylchiadau lle cafwyd gwarant a lle mae'n briodol, defnyddio grym rhesymol dim ond pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r amgylchiadau

### 6.5.2 Pwerau mewn perthynas â cherbydau

Mae gan swyddogion awdurdodedig bwerau y gellid eu defnyddio i stopio cerbyd.

Pan fo deddfwriaeth yn darparu pwerau mynediad i safle (sy'n cynnwys cerbydau) ac yn ei gwneud yn drosedd rhwystro swyddog awdurdodedig, yna gallai methu â stopio cerbyd pan ofynnir gael ei ystyried yn rhwystr. Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth y byddai hyn yn berthnasol iddi yn cynnwys:

- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau, pan fydd swyddogion awdurdodedig yn defnyddio'r pŵer hwn, eu bod yn:

- dilyn asesiad risg iechyd a diogelwch sydd wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod Bwyd

### 6.5.3 Hysbysiadau Cod B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE)

Nid oes rhwymedigaeth ar swyddogion awdurdodedig i gyhoeddi Hysbysiad Cod B PACE yn rheolaidd wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol mewn sefydliad bwyd i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Rhaid i Hysbysiad Cod B PACE, sy'n nodi pwerau swyddogion awdurdodedig a hawliau deiliaid, gael ei ddefnyddio o dan yr amgylchiadau hynny lle mae swyddogion awdurdodedig yn cynnal chwiliad dan gyfarwyddyd.

Gellir diffinio chwiliad dan gyfarwyddyd fel un sy'n chwilio am rywbeth a bennwyd ymlaen llaw sy'n berthnasol i drosedd a amheuir neu a honnir, a gall fod yn briodol fel rhan o ymchwiliad parhaus er enghraifft mewn ymateb i gŵyn lle gallai tystiolaeth o droseddau a amheuir fodoli eisoes.

Yn y pen draw, bydd penderfyniad i gyflwyno Hysbysiad Cod B PACE yn dibynnu ar amgylchiad unigol y mater dan sylw. Dylai swyddogion awdurdodedig ofyn am arweiniad pellach gan gynghorwyr cyfreithiol eu Hawdurdodau Bwyd eu hunain os oes angen eglurhad pellach.

Gellir gweld Codau Ymarfer PACE gan gynnwys Cod Ymarfer B PACE ar wefan y Swyddfa Gartref.

### 6.5.4 Hysbysiadau Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Mae'n ofynnol cyhoeddi hysbysiadau o dan y Deddfau hyn lle mae Awdurdodau Bwyd yn mynd i mewn ac yn arolygu busnesau mewn perthynas â meysydd heblaw am fwyd, megis masnachu teg, diogelwch cynnyrch a phwysau a mesurau. Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol i gyfraith bwyd.

## 6.6 Hysbysiadau hylendid bwyd a safonau bwyd

### 6.6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn trafod y defnydd o:

- Hysbysiadau Gwella Hylendid
- Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Cydymffurfiaeth
- Hysbysiadau Cosb Ariannol Benodedig
- Hysbysiadau Rhybuddio
- Hysbysiadau Gorfodi
- Hysbysiadau Gwahardd (a gyflwynir o dan y Reoliadau Gwin 2011)
- Hysbysiadau Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio
- Hysbysiadau Adfer Costau Gorfodi

### 6.6.2 Cyhoeddi Hysbysiadau a chyflawni gwaith gorfodi mewn modd cymesur

Rhaid defnyddio Hysbysiadau Gwella yn unol â pholisi gorfodi’r Awdurdod Bwyd a rhaid eu hystyried fel rhan o gynyddu'r camau gorfodi yn unol â'r hierarchaeth orfodi.

Os oes gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd dull anffurfiol yn arwain at ganlyniad llwyddiannus, dylid ystyried dull mwy ffurfiol.

Wrth gyhoeddi hysbysiad, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- y dilynwyd gweithdrefnau perthnasol
- ceir tystiolaeth o'r diffyg cydymffurfio
- bod parhad tystiolaeth yn cael ei gynnal

Oherwydd yr amrywiaeth o hysbysiadau sydd ar gael, rhaid i swyddogion awdurdodedig sicrhau eu bod yn defnyddio'r hysbysiad cywir ar gyfer y diffyg cydymffurfio cywir, a'u bod yn dilyn gofynion pob hysbysiad fel y'u nodir mewn deddfwriaeth cyn cyhoeddi'r hysbysiad.

### 6.6.3 Pryd i ddefnyddio hysbysiad

Mae'r adran hon yn berthnasol i'r hysbysiadau hynny a restrir yn adran 6.6.1.

Dim ond ar gyfer y darpariaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth y gellir defnyddio hysbysiadau, a gallant fod yn briodol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn neu gyfuniad ohonynt:

- lle bydd camau ffurfiol yn gymesur â’r perygl i iechyd y cyhoedd
- lle ceir cofnod o ddiffyg cydymffurfiaeth, gyda throseddau yn erbyn y ddeddfwriaeth bwyd
- lle bydd gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd dull anffurfiol yn llwyddiannus

### 6.6.4 Pryd i beidio â defnyddio hysbysiad

Mae'r adran hon yn berthnasol i'r hysbysiadau hynny a restrir yn adran 6.6.1.

Efallai na fydd hysbysiadau yn briodol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- lle gall y drosedd fod yn un barhaus a dim ond ar un adeg yn unig y byddai hysbysiad yn sicrhau gwelliant, er enghraifft, hylendid personol staff
- lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio yn bodoli mewn perthynas â diogelwch bwyd, sy'n peri risg bosibl ac uniongyrchol o niwed i iechyd ac ystyrir bod angen cymryd camau gorfodi cyflym fel mewn sefyllfaoedd dros dro lle mae angen cymryd camau gorfodi cyflym, er enghraifft, gŵyl undydd neu ddigwyddiad chwaraeon (gall Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid fod yn fwy priodol i gael effaith ar unwaith)
- lle mae achos o ddiffyg cydymffurfio ag arfer da ond nid o ran rheoliad priodol
- nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer hysbysiad yn y sefyllfa benodol honno

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod yn delio ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth trwy ddefnyddio'r pwerau a'r hysbysiadau yn y ddeddfwriaeth orfodi berthnasol. Er enghraifft, ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, dylid cyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid o dan Reoliad 6. Fodd bynnag, lle mae'r ddeddfwriaeth dan sylw yn cael ei gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013, dylid cyhoeddi Hysbysiad Gwella o dan adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 6.6.5 Drafftio hysbysiadau

Dylai'r hysbysiad nodi'n glir y seiliau dros fethu â chydymffurfio â darpariaeth berthnasol o gyfraith bwyd, y materion sy'n ffurfio'r methiant i gydymffurfio, a'r mesurau (neu'r mesurau cyfatebol) y mae'n ofynnol i'r derbynnydd eu rhoi ar waith. Rhaid i hysbysiadau fod yn glir ac yn hawdd eu deall. Mae methu â chydymffurfio â

gofynion hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig naill ai'n drosedd neu'n caniatáu i gamau gael eu cymryd yn erbyn yr achos o ddiffyg cydymffurfio gwreiddiol. Dylai swyddog awdurdodedig sydd wedi penderfynu cyflwyno hysbysiad ystyried a yw un hysbysiad gydag un terfyn amser yn briodol.

Efallai y bydd yn bosibl crybwyll mwy nag un achos o ddiffyg cydymffurfio mewn hysbysiad ar yr amod:

- bod materion o'r un thema
- gall y camau sy'n ofynnol gan weithredwr y busnes bwyd unioni'r holl fethiannau a nodwyd ar yr hysbysiad
- bod yr amserlenni ar gyfer cydymffurfio i gyd yr un peth

Byddai methu â chydymffurfio ag un neu fwy o eitemau hysbysiad o'r fath yn fethiant i gydymffurfio â'r hysbysiad cyfan ac yn gyfystyr ag un drosedd.

Mae symlrwydd yn aml yn well. Sicrhewch bob amser fod yr hysbysiad yn ddealladwy i weithredwr y busnes bwyd a bod unrhyw amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn cyd-fynd ag unrhyw gamau uwchgyfeirio ar gyfer pob mater.

Efallai y bydd defnyddio nifer o hysbysiadau, pob un â therfyn amser gwahanol, yn fwy priodol lle mae sawl achos o ddiffyg cydymffurfio. Efallai y bydd yn haws trin hysbysiadau ar wahân sydd â therfynau amser ar wahân os oes apêl.

Byddai apêl yn erbyn un hysbysiad yn ymwneud â nifer o droseddau yn arwain at atal yr hysbysiad cyfan nes bod yr apêl wedi cael ei datrys. Yn ogystal, os cydymffurfir ag un achos o ddiffyg cydymffurfio ar yr hysbysiad tra bo eraill yn parhau i fod heb eu datrys, bydd amheuaeth o ran p’un a gydymffurfiwyd â'r hysbysiad ai peidio.

Cyn rhoi hysbysiad sy'n gofyn am waith strwythurol, dylai'r swyddog awdurdodedig drafod a chytuno ar fanylion unrhyw waith o'r fath gyda gweithredwr y busnes bwyd, neu berson sy'n gweithredu ar ran gweithredwr y busnes bwyd sydd mewn sefyllfa i awdurdodi'r gwaith. Fodd bynnag, ni ddylid gohirio rhoi hysbysiad yn ormodol os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

Cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw cael caniatâd cynllunio i wneud unrhyw waith adeiladu i wella strwythur y sefydliad.

#### 6.6.6 Mesurau o'r un effaith

Pan fydd hysbysiadau yn caniatáu i weithredwr busnes bwyd gyflawni mesurau cyfwerth â'r rhai a nodir yn yr hysbysiad (er enghraifft, Hysbysiadau Gwella), argymhellir trafod unrhyw fesurau cyfatebol yn gyntaf gyda'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad cyn dechrau gweithio er mwyn osgoi gwariant diangen neu waith amhriodol.

Dylai'r Awdurdod Bwyd ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw gais gan weithredwr y busnes bwyd i amrywio'r gwaith, a dylid cadarnhau unrhyw fesurau amgen y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig. Yn y pen draw, mater i weithredwr y busnes bwyd yw penderfynu sut y bydd yn cydymffurfio ag amcanion y ddeddfwriaeth.

Dylai anghydfodau gael eu hystyried gan brif swyddog bwyd yr Awdurdod Bwyd, neu gan bennaeth y gwasanaeth neu uwch reolwr priodol arall.

Lle nad yw hysbysiadau'n nodi y gellir cyflawni gwaith o'r un effaith, dylai Awdurdodau Bwyd barhau i ystyried unrhyw fesurau amgen a awgrymwyd gan weithredwr y busnes bwyd i unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio.

### 6.6.7 Terfynau amser

Rhaid i hysbysiad nodi'n glir y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r mesurau gofynnol neu i dalu'r gosb. Gall y terfyn amser amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad sy'n cael ei gyflwyno. Efallai y bydd hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol:

- cyflwyno isafswm cyfnod amser, er enghraifft mae hysbysiad gwella hylendid o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i roi isafswm cyfnod o 14 diwrnod
- i'r amser fod yn ddim llai na'r amser ar gyfer apelio, er enghraifft mae hysbysiadau cydymffurfio o dan Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r terfyn amser beidio â dod i ben o fewn y cyfnod apelio o 28 diwrnod
- peidio â chyflwyno isafswm cyfnod amser, er enghraifft hysbysiadau gwella o dan Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, sydd, os yw'n rhesymol, yn caniatáu ar gyfer cywiro'r achos o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith

Gan y gellir cyflwyno apêl yn erbyn y terfyn amser, rhaid iddynt fod yn realistig, bod modd eu cyfiawnhau, a rhoi ystyriaeth i raddfa a chymhlethdod y mesurau sy'n ofynnol.

Mae'n arfer da trafod a chytuno ar y terfyn amser gyda gweithredwr y busnes bwyd neu gydag unigolyn sy'n gweithredu ar ran gweithredwr y busnes bwyd sydd mewn sefyllfa i gytuno ar derfyn amser, cyn i hysbysiad gael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, gall y swyddog awdurdodedig osod terfyn amser heb gytundeb o'r fath os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu terfyn amser:

- risg i iechyd y cyhoedd
- natur y broblem
- yr atebion sydd ar gael

### 6.6.8 Ymestyn terfynau amser

Dylid cydymffurfio â hysbysiadau yn ôl y terfyn amser penodedig. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Bwyd roi sylw dyledus i unrhyw anawsterau gwirioneddol a allai ddigwydd wrth sicrhau cydymffurfiaeth erbyn y dyddiad cau hwnnw.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y rheoliadau i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad. Efallai y bydd yn rhesymol caniatáu estyniad os yw gweithredwr y busnes bwyd wedi darparu rheswm dilys am yr angen i gael rhagor o amser. Os bydd gweithredwr y busnes bwyd yn gofyn am estyniad i'r terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac fe ddylai ddod i law cyn i'r hysbysiad ddod i ben.

Cyn cyhoeddi hysbysiad newydd, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ystyried a yw'r amodau sy'n bodoli yn y safle yn dal i gyfiawnhau cyhoeddi hysbysiad arall. Os yw'r swyddog awdurdodedig yn fodlon bod rheswm dilys dros estyniad, dylai wneud nodyn o'r rhesymau dros ei benderfyniad ar ffeil y sefydliad perthnasol. Yna, bydd rhaid tynnu'r hysbysiad presennol yn ôl, a chyhoeddi hysbysiad newydd yn adlewyrchu'r terfyn amser newydd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth.

Ni ddylai'r swyddog awdurdodedig fyth gyhoeddi hysbysiad o'r fath yn awtomatig. Wrth drafod cais am estyniad, dylai'r swyddog awdurdodedig bob amser ystyried a yw'r ffeithiau'n cyfiawnhau estyniad o'r fath, gan ystyried:

- y rheswm dros y cais
- y camau unioni dan sylw
- y risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r broblem pe bai estyniad yn cael ei ganiatáu
- cofnod blaenorol o gydweithrediad gweithredwr y busnes bwyd
- unrhyw gamau gweithredu dros dro y mae gweithredwr y busnes bwyd yn bwriadu eu cymryd i unioni'r diffyg cydymffurfio
- tystiolaeth amlwg o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gofynion a gynhwysir yn yr hysbysiad

Mae'r darpariaethau yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau pellach sy'n diwygio'r hysbysiad gwreiddiol:

- Hysbysiadau Rhybuddio, Hysbysiadau Gorfodi a Hysbysiadau Gwahardd o dan Reoliadau Gwin 2011
- Hysbysiadau Cydymffurfio, Hysbysiadau Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio a Hysbysiadau Adfer Costau Gorfodi o dan Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018

### 6.6.9 Cyflwyno hysbysiadau

Rhaid i bob hysbysiad a gyhoeddir gan Awdurdodau Bwyd gael ei gyflwyno i'r person y maent yn ymwneud ag ef a dylent gael eu cyflwyno gan y swyddog awdurdodedig a arsylwodd yr achos o ddiffyg cydymffurfio.

#### 6.6.9.1 Dulliau o gyflwyno hysbysiad

Rhaid cyflwyno hysbysiadau yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth benodol. Er enghraifft, rhaid cyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, tra bod yn rhaid cyflwyno Hysbysiadau Gwella a wneir o dan Adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn unol ag Adran 50 o'r Ddeddf.

Yn gyffredinol, gellir cyflwyno hysbysiad naill ai:

- trwy ei gyflwyno i'r person hwnnw
- yn achos cwmni neu gorff corfforedig, trwy ei ddanfon at eu hysgrifennydd neu glerc yn eu swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa, neu trwy ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio atynt yn y swyddfa honno

- yn achos unrhyw berson arall, trwy ei adael, neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio atynt, yn eu preswylfa arferol neu hysbys ddiwethaf.

Mae'n bwysig adnabod y person (gweithredwr y busnes bwyd) lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, o dan ambell ddeddfwriaeth (hynny yw, Adran 50 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 28 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006), os nad yw'n ymarferol ar ôl ymchwiliad rhesymol i nodi’r person i gyflwyno'r hysbysiad iddo, caiff yr hysbysiad ei gyfeirio at y 'perchennog' neu'r 'meddiannydd' a'i adael yn y safle a enwir.

Dylai'r swyddog awdurdodedig sy'n cyflwyno hysbysiad sicrhau bod y person sy'n gyfrifol am gymryd camau gweithredu hefyd yn cael copi, yn enwedig lle nad gweithredwr y busnes bwyd yw’r rheolwr lleol.

Gellir cyflwyno hysbysiad i berson y tu allan i ardal yr Awdurdod Bwyd ar yr amod bod achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn ardal yr Awdurdod Bwyd.

Rhaid i hysbysiadau gael eu llofnodi gan y swyddog awdurdodedig a arsylwodd y diffyg cydymffurfio a dylent hefyd gael eu cyflwyno i weithredwr y busnes bwyd gan y swyddog awdurdodedig hwnnw. Gall hefyd gael ei gyflwyno gan swyddog awdurdodedig gwahanol sy'n gymwys i egluro pwrpas yr hysbysiad ac unrhyw gamau i'w cymryd ac sy'n gallu delio ag unrhyw rwystrau.

Gellir ffacsio'r ddogfen a/neu ei hanfon dros e-bost at y gweithredwr/perchennog er gwybodaeth cyn ei chyhoeddi’n ffurfiol. Rhaid wedyn anfon copi caled er mwyn iddo gael ei weini'n iawn. Mae'n ddefnyddiol cofnodi amser y gwasanaeth, hyd yn oed pan ddefnyddir y gwasanaeth post, a dylid cadw tystiolaeth postio.

### 6.6.10 Apelio

Mae'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer hysbysiadau yn cynnwys mecanweithiau apelio, fel y gall rhywun sydd wedi’i effeithio arno’n negyddol gan yr hysbysiad a gyflwynwyd, apelio yn ei erbyn.

Rhaid i bob hysbysiad nodi'n glir bod hawl i apelio, gan nodi sut y gellir cyflwyno’r apêl honno gan gynnwys enw a chyfeiriad y llys neu'r corff lleol perthnasol y gellir cyflwyno’r apêl iddo.

Dylid gofyn i'r derbynnydd hysbysu'r Awdurdod Bwyd os cyflwynir apêl.

Er y gellir apelio yn erbyn pob hysbysiad, mae'r mecanweithiau ar gyfer apelio yn wahanol, a rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o'r gwahanol fecanweithiau apelio. Gellir gweld trosolwg o'r mecanweithiau hyn yn Nhabl 1 isod.

Bydd y weithdrefn ar apêl i lys ynadon yn cael ei llywodraethu gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980.

O dan Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018, clywir apeliadau gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) a bydd y rhain yn cael eu llywodraethu gan Reolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009.

Gwybodaeth bellach am [apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.](#)

**Tabl 1 – Apeliadau**

| **Math o hysbysiad** | **Deddfwriaeth** | **Apêl wedi'i chyflwyno ger bron** | **Amser i apelio** | **Hysbysiad wedi'i ohirio nes i'r apêl gael ei chlywed?** |
|---|---|---|---|---|
| Hysbysiadau Gwella Hylendid | Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 | Llys Ynadon | 1 mis neu'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sydd fyrraf | Ydy |
| Hysbysiadau Gwella | Deddf Diogelwch Bwyd 1990 | Llys Ynadon | 1 mis neu'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sydd fyrraf | Ydy |
| Hysbysiadau Gwella a wneir o dan ddeddfwriaeth benodol | Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008<br><br>Rheoliadau Wisgi Scotch 2009 | Llys Ynadon | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y Llys yn cyfarwyddo fel arall |
| Hysbysiadau Cydymffurfiaeth | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y Tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall |

| **Math o hysbysiad** | **Deddfwriaeth** | **Apêl wedi’i chyflwyno ger bron** | **Amser i apelio** | **Hysbysiad wedi'i ohirio nes i'r apêl gael ei chlywed?** |
|---|---|---|---|---|
| Hysbysiad Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Ydy |
| Hysbysiad Adfer Costau Gorfodi | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Ydy |
| Hysbysiadau Rhybuddio | Rheoliadau Gwin 2011 | Person wedi'i enwebu gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |
| Hysbysiadau Gorfodi | Rheoliadau Gwin 2011 | Person wedi'i enwebu gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |
| Hysbysiadau Gwahardd | Rheoliadau Gwin 2011 | Person wedi'i enwebu gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |

### 6.6.11 Trafodaethau eraill gyda'r Awdurdod Bwyd

Er bod gan weithredwr busnes bwyd hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiadau a restrir yn 6.6.1, dylai'r Awdurdod Bwyd fod yn barod i drafod:

- yr hysbysiad a'i ofynion yn anffurfiol gyda'r gweithredwr os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- gofynion unrhyw lythyr neu gamau gorfodi eraill

Os yw gweithredwr busnes bwyd yn codi bod gofynion hysbysiad yn anghyson â dehongliad neu arfer Awdurdodau Bwyd eraill, dylai'r Awdurdod Bwyd ystyried y safbwyntiau hyn. Mewn partneriaeth Prif Awdurdod, rhaid i'r Awdurdod Bwyd gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad gorfodi.

Dylai fod gan Awdurdodau Bwyd brosesau mewnol i ystyried ceisiadau am drafodaethau pellach a rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd am y trefniadau hyn.

Dylid cyfeirio unrhyw anghydfodau at y swyddog bwyd arweiniol, neu at uwch reolwr priodol a enwir gan y swyddog bwyd arweiniol i ddod i benderfyniad.

### 6.6.12 Iawndal

Yn gyffredinol, nid oes darpariaeth ar gyfer iawndal mewn perthynas â'r hysbysiadau a gyhoeddir gan Awdurdodau Bwyd. Os yw busnes bwyd yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i hysbysiad a gyflwynwyd trwy gamgymeriad, gallant fynd ar drywydd iawndal trwy hawliad esgeulustod sifil yn erbyn yr Awdurdod Bwyd. Er enghraifft, gweithredwr busnes bwyd nad yw'n gallu gwerthu bwyd darfodus (*perishable*).

### 6.6.13 Cydymffurfiaeth

Dylai'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad:

- drafod â gweithredwr y busnes bwyd a monitro'r gwaith sy'n cael ei gynnal
- annog y gweithredwr i roi gwybod i’r swyddog awdurdodedig pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau
- gwirio’r gwaith cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cael gwybod ei fod wedi'i gwblhau neu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r hysbysiad ddod i ben
- cadarnhau i weithredwr y busnes bwyd yn ysgrifenedig bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol

Dylai swyddog awdurdodedig arall fonitro'r gwaith os nad yw'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad yn gallu gwneud hynny.

### 6.6.14 Gorfodi

Gall methu â chydymffurfio â hysbysiadau arwain at achos troseddol yn cael ei gyflwyno gan Awdurdodau Bwyd.

Mae peidio â chydymffurfio â'r hysbysiadau canlynol yn droseddau:

- Hysbysiadau Gwella Hylendid
- Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Gorfodi

- Hysbysiadau Gwahardd

Nid yw methu â chydymffurfio â'r hysbysiadau canlynol yn droseddau, ond mae'n golygu y gall Awdurdod Bwyd ddwyn achos troseddol am y mater a bennir yn yr hysbysiad:

- Hysbysiad Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio
- Hysbysiad Rhybuddio

Cyn cychwyn achos troseddol am y troseddau hyn, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i bolisi gorfodi ei hun a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Nid yw Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd) 2018 yn darparu unrhyw droseddau am beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gyflwynir oddi tanynt. Fodd bynnag, os na chydymffurfir â'r hysbysiad yna gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb am Cydymffurfiaeth sy'n gosod cosb o hyd at £40,000 ar yr unigolyn sydd wedi methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth. Os na thelir y gosb hon gellir ei hadennill fel dyled sifil neu ar orchymyn y llys.

Gall rheoliadau hefyd ddarparu cosbau troseddol am dorri amodau lle gellid defnyddio hysbysiad. Er enghraifft, mae rheoliad 10 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn darparu troseddau mewn perthynas â rhai gofynion labelu/gwybodaeth am alergenau. Bydd swyddogion awdurdodedig yn gallu dewis rhwng erlyniad troseddol mewn perthynas â'r tramgwydd neu gyflwyno hysbysiad, neu'r ddau.

Dylai penderfyniadau ar gyflwyno hysbysiad, dechrau erlyniad troseddol neu'r ddau, ystyried:

- y risg i iechyd y cyhoedd
- y dystiolaeth sydd ar gael
- amgylchiadau'r tramgwydd
- y strategaeth orfodi fwyaf effeithiol yn eu barn nhw

### 6.6.15 Cyhoeddi hysbysiadau

Mae Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008 a Rheoliadau Wisgi Scotch 2009 yn darparu, pan gyhoeddir Hysbysiad Gwella o dan y rheoliadau hyn, bod yn rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi'i roi.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad yn y ffordd y mae'n ei hystyried orau. Ni ddylid cyhoeddi'r hysbysiad, nes bod y cyfnod apelio wedi mynd heibio neu nes i apêl yn erbyn yr hysbysiad gael ei chlywed. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad pe bai'n amhriodol gwneud hynny. Os bydd Awdurdod Bwyd yn penderfynu yn erbyn rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad, dylent gadw cofnodion o pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

### 6.6.16 Hysbysiadau templed

Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwella a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991 yn darparu Hysbysiadau Gwella rhagnodedig i'w defnyddio wrth gyhoeddi Hysbysiadau Gwella o dan Adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Gellir dod o hyd i hysbysiadau templed eraill ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

### 6.6.17 Canllawiau eraill

Mae canllawiau pellach ar ddrafftio a defnyddio Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi'u cyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac maent ar gael trwy'r Hwb Gwybodaeth.

Efallai y bydd yr Awdurdod Bwyd yn dymuno trafod materion gorfodi ar lefel ranbarthol neu trwy'r Hwb Gwybodaeth gydag Awdurdodau Bwyd eraill i weld a oes arfer sefydledig arall y dylid ei ystyried. Gellir ceisio barn gan y Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol neu'r Grŵp Ffocws Safonau Bwyd a Gwybodaeth gydag achosion yn cael eu cyflwyno trwy weithdrefnau gwahardd y Grwpiau Cyswllt Rhanbarthol.

## 6.7 Hysbysiad Camau Unioni

Mae'r adran hon yn trafod defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni (RANs) mewn perthynas ag unrhyw sefydliad busnes bwyd o dan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig geisio datrys achos o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau trwy ddull gorfodi graddedig. Pan fo angen, rhaid ystyried y darpariaethau Hysbysiad Gwella Hylendid yn Rheoliad 6. Rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried yr opsiynau hyn cyn cychwyn unrhyw gamau gorfodi eraill. Fodd bynnag, gellir defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni fel y darperir ar eu cyfer gan Reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, pan fo hynny'n briodol.

Os yw swyddog awdurdodedig o'r farn ei bod yn angenrheidiol rhoi RAN oherwydd yr amodau neu'r arferion a ganfyddir, rhaid i'r swyddog awdurdodedig hefyd ystyried a ddylid cadw bwyd yn y sefydliad at ddibenion ei archwilio neu ei atafael (*seize*). Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag atafael a chadw bwyd i'w gweld isod.

### 6.7.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Camau Unioni

Mae Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn darparu ar gyfer swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni lle mae'n ymddangos bod gofynion y "Rheoliadau Hylendid", fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau 2006 yn cael eu torri, neu mae arolygiad o dan y "Rheoliadau Hylendid" yn cael ei rwystro. Yn fwy penodol, mae'r ddarpariaeth hon, trwy gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni, yn darparu ar gyfer:

- gwahardd y defnydd o unrhyw offer neu unrhyw ran o'r gweithle
- gosod amodau ar, neu wahardd, unrhyw broses a
- lleihau cyfradd gweithrediadau neu dod â nhw i ben yn gyfan gwbl.

Mae amgylchiadau sy’n gallu arwain at gyhoeddi Hysbysiad Camau Unioni o ran sefydliad yn cynnwys:

- unrhyw offer neu unrhyw ran o sefydliad nad yw'n cydymffurfio â gofynion y “Rheoliadau Hylendid” fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006;
- yr angen i osod amodau ar unrhyw brosesau, neu i wahardd unrhyw brosesau sy’n mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau neu sy’n llesteirio arolygiad iechyd digonol yn unol â’r Rheoliadau; a
- lle bydd cyfradd gweithrediad y busnes yn niweidiol i’w allu i gydymffurfio â’r Rheoliadau.

Rhaid i'r camau hyn fod yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a lle mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch bwyd. Gellir defnyddio Hysbysiad Camau Unioni os yw trosedd barhaus yn gofyn am weithredu ar frys oherwydd risg i ddiogelwch bwyd.

### 6.7.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Camau Unioni

Efallai na fydd Hysbysiadau Camau Unioni yn briodol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Yn achos problemau cynnal a chadw/strwythurol y gellir eu cywiro fel mater nad yw'n un brys lle byddai gweithredu anffurfiol neu Hysbysiad Gwella Hylendid yn fwy priodol
- Mae angen gwahardd gweithrediadau sefydliad cyfan a'r dull gweithredu mwyaf priodol yw rhoi Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid
- Mae angen atal cymeradwyaeth ar sefydliad sydd wedi’i gymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

### 6.7.3 Drafftio Hysbysiadau Camau Unioni

Rhaid cyflwyno Hysbysiad Camau Unioni cyn gynted ag sy'n ymarferol a nodi pam ei fod yn cael ei gyflwyno – hynny yw nad yw gofynion y Rheoliadau Hylendid yn cael eu bodloni a/neu fod arolygiad o dan y Rheoliadau Hylendid yn cael ei rwystro.

Rhaid iddo fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall o'r hysbysiad:

- y seiliau dros gyflwyno'r rhybudd
- y mesurau (neu fesurau cyfatebol) y mae'n ofynnol i'r derbynnydd eu cymryd a’r
- camau sydd eu hangen i unioni'r sefyllfa.

Os cyflwynir y RAN o dan Reoliad 9(1)(a) – hynny yw, pan eir yn groes i ofynion y Rheoliadau Hylendid, rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi sut aethpwyd yn groes i’r gofynion.

### 6.7.4 Tynnu Hysbysiad Camau Unioni yn ôl

Cyn gynted ag y bydd y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr Hysbysiad Camau Unioni yn fodlon bod y camau a bennir mewn Hysbysiad Camau Unioni wedi'u cymryd, rhaid tynnu'r hysbysiad yn ôl trwy hysbysiad ysgrifenedig pellach.

#### 6.7.5 Apelio

Mae Rheoliad 20(1)(c) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu i unrhyw berson sy'n cael ei dramgwyddo gan benderfyniad swyddog awdurdodedig i wasanaethu RAN, apelio i'r Llys Ynadon. Y terfyn amser ar gyfer apêl o'r fath yw 1 mis o'r adeg y cyflwynodd y swyddog awdurdodedig yr hysbysiad. Mae'r hysbysiad yn parhau mewn grym nes i'r penderfyniad apelio gael ei bennu. Gall y llys ganslo neu gadarnhau'r hysbysiad. Os yw’r llys yn ei gadarnhau, caiff wneud hynny naill ai yn ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau.

#### 6.7.6 Ffurflenni Templed

Mae’r templedi canlynol ar gael ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu:

- Hysbysiad Camau Unioni
- Hysbysiad bod Hysbysiad Camau Unioni yn cael ei dynnu’n ôl

#### 6.7.7 Gweithdrefnau Gwahardd

##### 6.7.7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn trafod defnyddio:

- Gorchmynion Gwahardd Hylendid a Gweithdrefnau Gwahardd Brys o ran Hylendid, o dan Reoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- Gorchmynion Gwahardd a Gweithdrefnau Gwahardd Brys o dan Adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

##### 6.7.7.2 Gweithdrefnau gwahardd o ran hylendid a gweithdrefnau gwahardd

Caiff Gorchmynion Gwahardd Hylendid[54] (HPOs) a Gorchmynion Gwahardd[55] (POs) eu gwneud gan Lysoedd Ynadon ar ôl i weithredwr busnes bwyd gael ei ganfod yn euog o drosedd naill ai o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar gyfer HPO neu Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ar gyfer POs, i wahardd y defnydd o:

- broses neu driniaeth at ddibenion y busnes
- y safle neu'r offer at ddibenion y busnes bwyd neu unrhyw fusnes bwyd tebyg
- y safle neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd

Gall y swyddog awdurdodedig ddwyn i sylw’r llys Reoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11 o'r Ddeddf fel y gellir ystyried HPO/PO yn erbyn gweithredwr busnes bwyd.

Bydd y Llys yn gwneud gorchymyn os yw'n fodlon bod y safle, yr offer, y driniaeth a/neu'r broses yn bygwth y cyflwr risg iechyd.

Gall y Llys hefyd wneud gorchymyn yn gwahardd gweithredwr busnes bwyd rhag rheoli unrhyw fusnes bwyd, neu fath penodol o fusnes bwyd ar yr amod bod

[54] Rheoliad 7 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

[55] Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

gweithredwr y busnes bwyd wedi'i gael yn euog o drosedd a bod y Llys o'r farn ei fod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos.

Mae'r canllawiau dedfrydu sy'n ymwneud â throseddau diogelwch bwyd a hylendid yn cynnwys ystyried y gwaharddiad hwn fel rhan o'r broses ddedfrydu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan y Cyngor Dedfrydu](https://www.sentencingcouncil.org.uk/).

#### 6.7.7.3 Gweithdrefnau Gwahardd Brys o ran Hylendid a Gweithdrefnau Gwahardd Brys

Os yw'r cyflwr risg iechyd yn cael ei fygwth mewn perthynas â busnes bwyd a bod risg o niweidio iechyd ar fin digwydd, gall swyddog awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid[56] (HEPN) neu Hysbysiad Gwahardd Brys[57] (EPN) ar weithredwr y busnes bwyd. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol fod yn fwy priodol.

Os deuir o hyd i'r dystiolaeth briodol, gellir cyflwyno HEPN/EPN ar weithredwr busnes bwyd, wedi'i ddilyn gan gais i Lys Ynadon am Orchymyn Gwahardd Brys o ran Hylendid (HEPO)/Gorchymyn Gwahardd Brys (EPO).

Mae'r hysbysiad yn galluogi ar gyfer cau'r safle ar unwaith, neu atal defnyddio offer, proses neu driniaeth.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig wneud cais i Lys Ynadon am HEPO/EPO cyn pen tridiau ar ôl cyflwyno HEPN/EPN – diwrnod cyflwyno'r hysbysiad yw Diwrnod 1.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd o leiaf un diwrnod cyfan (24 awr) cyn y diwrnod y mae'r swyddog awdurdodedig yn bwriadu gwneud y cais i'r Llys.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol bod y Llys yn gwrando ar y cais o fewn y tridiau, ond dylid gofyn i'r Llys restru'r cais am wrandawiad cyn gynted â phosibl. Efallai y bydd iawndal yn daladwy i weithredwr y busnes bwyd am golli busnes os bydd y Llys yn gwrthod caniatáu'r gorchymyn.

Yr Awdurdod Bwyd a wnaeth y cais sy'n gyfrifol am y baich profi. Dylai swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu a yw safle, proses, triniaeth, darn o offer neu'r defnydd ohono yn cynnwys risg ar fin digwydd o niweidio iechyd.

Unwaith y caiff HEPO/EPO ei wneud, mae'n disodli HEPN/EPN.

### 6.7.8 'Cyflwr Risg Iechyd' / 'Risg (ar Fin Digwydd) o Niwed i Iechyd'

Dim ond os y caiff y 'cyflwr risg iechyd' ei fygwth y gellir defnyddio gweithdrefnau gwahardd a gweithdrefnau gwahardd brys o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

[56] Rheoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

[57] Adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Er mwyn gallu defnyddio gweithdrefnau gwahardd, rhaid bod risg o niwed i iechyd, ond mewn perthynas â gweithdrefnau gwahardd brys, mae'n rhaid bod risg ar fin digwydd o niwed i iechyd.

Rhaid bod risg ar fin digwydd o niwed i iechyd bob tro cyn y gellir rhoi HEPN neu EPN. Efallai y bydd y niwed ei hun yn digwydd rywbryd yn y dyfodol, ond mae'n hanfodol dangos y gallai ddigwydd er mwyn i'r weithred lwyddo. Ni fyddai angen i bawb sy'n agored i'r risg o niwed ddioddef y niwed er mwyn iddo fod yn risg sydd ar fin digwydd. Yr amlygiad i'r risg o niwed sy'n caniatáu ar gyfer cymryd camau.

### 6.7.8.1 'Cyflwr Risg Iechyd – Hylendid bwyd

Mewn perthynas â hylendid bwyd, gall y cyflwr risg iechyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fodoli os, er enghraifft:

- oes risg uchel o achosi haint a gludir gan fwyd mewn amodau sy'n bodoli mewn safle, neu broses neu driniaeth ddiffygiol
- yw'r safle mewn cyflwr strwythurol gwael iawn
- arweiniodd offer gwael a/neu gynnal a chadw gwael neu lanhau rheolaidd gwael a/neu grynhoad difrifol o wastraff, bryntni neu fater allanol arall, at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff bwyd ei halogi

Cofiwch: nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhagnodol ac maent at ddibenion esbonio yn unig.

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau niweidiol posibl o ficro-organebau pathogenaidd yn cynrychioli risg sydd ar fin digwydd a dylid eu hatafael neu eu cadw o dan Reoliad 23 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Dylid gwneud hyn trwy ddefnyddio'r pwerau yn Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (gweler hefyd Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â hyn).

Dylid ymdrin â'r broses neu'r driniaeth a amlygodd y bwyd i'r halogiad microbiolegol hwn o dan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

### 6.7.8.2 'Cyflwr Risg Iechyd' – Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae'r 'cyflwr risg iechyd' yn berthnasol yn benodol yng nghyd-destun ceisio naill ai Gorchymyn Gwahardd o dan Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu EPN/EPO at ddibenion Adran 12 o'r Ddeddf.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau a allai olygu bod risg ar fin digwydd i iechyd lle byddai swyddog awdurdodedig yn ystyried defnyddio pwerau gwahardd. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhagnodol nac yn gyflawn mewn unrhyw ffordd, ac maent at ddibenion esbonio yn unig.

- Proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemeg teratogenig (un sy'n niweidio ffetws sy'n datblygu yn y groth) i fwyd, a allai achosi niwed i'r ffetws sy'n datblygu, ond na fydd y difrod yn amlwg hyd nes y caiff y babi ei eni
- Proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemegyn genotocsig (un sy'n niweidio genynnau neu gromosomau) i fwyd, lle mae'n bosibl na fydd yr effeithiau yn dod i'r amlwg hyd nes y bydd plentyn, sydd heb ei eni eto, i fam sydd wedi

bwyta'r bwyd dan sylw, yn datblygu tiwmor malaen (*malignant*) rhywbryd yn y dyfodol.

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau a allai fod yn niweidiol o gemegion o'r fath yn cynrychioli risg sydd ar fin digwydd a dylid eu hatafael neu eu cadw o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Dylid ymdrin â'r broses neu'r driniaeth a amlygodd y bwyd i'r halogiad cemegol hwn o dan Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 6.7.9 Meini prawf ar gyfer gweithredu – gweithdrefnau gwahardd hylendid/gweithdrefnau gwahardd

Mae'r paragraffau a ganlyn yn enghreifftiau o'r amgylchiadau sy'n gallu dangos bod yr amod risg i iechyd yn bodoli fel a ddiffinnir yn Rheoliad 7(2) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, hynny yw, mae risg ar fin digwydd o niweidio iechyd, a phryd y gall swyddog awdurdodedig ystyried defnyddio pwerau gwahardd. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhagnodol nac yn gyflawn mewn unrhyw ffordd, ac maent at ddibenion esbonio yn unig. Dim ond y llysoedd all wneud Gorchmynion Gwahardd.

#### 6.7.9.1 Amodau risg iechyd lle y gall fod yn briodol gwahardd defnyddio safle

- pla o lygod mawr, llygod, chwilod duon, adar neu fermin eraill, sy'n ddigon difrifol i arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff ei halogi
- cyflwr strwythurol gwael iawn ac offer gwael a/neu gynnal a chadw gwael neu lanhau rheolaidd gwael a/neu grynhoad difrifol o wastraff, bryntni neu fater allanol arall sy'n arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff bwyd ei halogiad
- diffygion o ran draenio neu orlifo'r sefydliad, sy'n ddigon difrifol i arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff ei halogi
- safleoedd neu arferion sy'n troseddu'n ddifrifol yn erbyn cyfraith bwyd ac sydd wedi'u cysylltu ag achos o wenwyn bwyd neu sydd yn ymhlyg ag achos
- unrhyw gyfuniad o'r uchod, neu effaith gronnus troseddau sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn golygu bod yr amod risg i iechyd yn bodoli.

#### 6.7.9.2 Amodau risg iechyd lle gall fod yn briodol gwahardd offer

- defnyddio offer ar gyfer prosesu bwydydd risg uchel nad yw wedi'i lanhau neu ei ddiheintio'n ddigonol neu sydd wedi'i halogi'n ddifrifol ac na ellir ei lanhau yn iawn mwyach
- defnyddio offer cymhleth at ddau ddiben, fel defnyddio peiriannau pecynnu dan wactod (*vacuum packers*) ar gyfer bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta. Fodd bynnag, gallai defnyddio offer llai cymhleth at ddau ddiben, fel clorian bwyso, fod yn briodol ar yr amod bod y busnes yn gallu dangos y bydd offer o'r fath yn cael ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol rhwng ei ddefnyddio ar gyfer bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta
- defnyddio cyfleusterau storio neu gerbydau cludo ar gyfer cynnyrch cynradd lle nad yw'r cyfleusterau storio neu'r cerbydau cludo wedi cael eu glanhau neu eu diheintio yn ddigonol.

#### 6.7.9.3 Amodau risg iechyd lle y gall fod yn briodol gwahardd proses

- risg ddifrifol o groeshalogi
- methu â chyrraedd tymheredd prosesu digon uchel
- gweithredu y tu allan i'r meini prawf rheoli critigol, er enghraifft, pH anghywir i gynnyrch a allai ganiatáu i Clostridium botulinum luosi
- defnyddio proses ar gyfer cynnyrch sy'n amhriodol ar ei gyfer

### 6.7.10 Ceisio cyngor ychwanegol

Dylai swyddogion awdurdodedig ofyn am gyngor meddygol arbenigol neu gyngor proffesiynol arall os yw proses neu driniaeth yn cynhyrchu bwyd yr ymddengys ei fod yn cynnwys cemegion neu sylweddau eraill a allai beri risg o niwed i iechyd ar fin digwydd, neu lle mae'r broses neu'r driniaeth dan sylw ei hun yn gofyn am wybodaeth arbenigol arall neu arbenigedd[58].

Gall swyddog awdurdodedig sy'n arfer hawl mynediad o dan Reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ddod gydag unrhyw bersonau angenrheidiol eraill, gan gynnwys arbenigwyr.

Y swyddog awdurdodedig sy'n gorfod bod yn fodlon bod y cyflwr risg iechyd yn bodoli mewn perthynas â'r busnes bwyd.

### 6.7.11 Gohirio gweithredu ar unwaith

Efallai y bydd amgylchiadau lle nad oes angen cau busnes ar unwaith, er y gallai fod risg ar fin digwydd i iechyd. Er enghraifft, cyflwr safle manwerthu bwyd a allai beri risg sydd ar fin digwydd, ond na fyddai o reidrwydd yn gwarantu cau ar unwaith pe bai'r cyflwr ond yn cael ei ddarganfod ar ddiwedd yr oriau masnachu.

Mewn achos o'r fath, gallai'r swyddog awdurdodedig benderfynu peidio â gosod gwaharddiad brys pe bai gweithredwr y busnes bwyd yn cymryd y mesurau angenrheidiol i lanhau'r safle dros nos.

Gallai'r risg mewn amgylchiadau o'r fath fod yn fach iawn, gan na fyddai'r safle ar agor i'r cyhoedd. Byddai'r swyddog awdurdodedig yn rhydd i benderfynu y bore canlynol a yw'r angen i weithredu ar y risg sydd ar fin digwydd yn parhau.

### 6.7.12 Gwahardd person

Pan fydd gweithredwr busnes bwyd wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol, gall y swyddog awdurdodedig deimlo ei bod yn briodol gofyn i'r Llys ystyried gwneud Gorchymyn Gwahardd yn ei erbyn.

Gall amgylchiadau pan fo camau o'r fath fod yn briodol gynnwys troseddau ailadroddus fel methiant i lanhau, methu â chynnal a chadw offer, dim ystyriaeth o risgiau iechyd, neu roi iechyd mewn perygl trwy ddefnyddio bwyd anniogel yn fwriadol.

---

[58] Mae'r Sefydliad Gwyddor Bwyd a Thechnoleg yn cadw rhestr o arbenigwyr mewn meysydd penodol.

#### 6.7.12.1 Hysbysiad o orchymyn gwahardd yn erbyn person

Dim ond os rhoddir gwybod i Awdurdodau Bwyd eraill y gall gorchymyn gwahardd[59] a roddir gan Lys fod yn gwbl effeithiol, gan y gall yr unigolyn perthnasol geisio cychwyn busnes mewn ardal arall.

Dylai'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) cyn gynted ag y bo modd ar ôl rhoi'r gorchymyn gwahardd yn erbyn person sydd wedi'i wahardd rhag gweithredu busnes bwyd, ar yr amod nad yw'r gorchymyn yn destun apêl, a bod y cyfnod a ganiateir i apelio wedi dod i ben. Dylai'r Awdurdod Bwyd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- rhif yr achos
- manylion y llys
- dyddiad y Gorchymyn Gwahardd
- dyddiad neu ddyddiadau'r drosedd
- natur y drosedd/troseddau
- rhif y rheoliad/adran y cyflawnwyd y drosedd oddi tani
- cosbau
- enw'r person sydd wedi'i wahardd
- enw'r busnes
- cyfeiriad y sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys cod post
- math o fusnes/prif weithgarwch (er enghraifft, arlwyo, manwerthu ac ati)
- manylion ffugenwau

Pan fo apêl a bod y gorchymyn yn cael ei gadarnhau, rhaid darparu'r wybodaeth bryd hynny.

Dylai Awdurdodau Bwyd rannu'r wybodaeth hon yn y daenlen a geir ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

Dylid anfon taenlenni at Dîm Rheoli'r Berthynas drwy prosecutionsuccess@food.gov.uk.

### 6.7.13 Achos llys

#### 6.7.13.1 Tystiolaeth sydd ei hangen

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gasglu digon o dystiolaeth dderbyniadwy i gadarnhau unrhyw achos yn y llys.

Mae'n bwysig bod nodiadau cyfoes, gan gynnwys brasluniau a ffotograffau, yn cael eu cymryd yn ystod arolygiad oherwydd gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn y Llys. Gall samplau o bryfed, baw neu halogion eraill fod yn ddefnyddiol hefyd.

Er nad oes angen i swyddogion awdurdodedig fod yng nghwmni tyst, gall fod adegau pan fydd adroddiadau gweledol yn arbennig o berthnasol. Rhaid i nodiadau swyddog

[59] Rheoliad 7(4) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

awdurdodedig a wneir yn ystod neu ar ddiwedd ymweliad â sefydliad fod yn gywir ac yn ffeithiol, fel y gallant ddibynnu arnynt yn y Llys.

### 6.7.13.2 Cais i'r Llys

Mae rhai Awdurdodau Bwyd yn awdurdodi swyddogion o dan Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gynrychioli'r Awdurdod Bwyd mewn achos gerbron y Llys Ynadon fel erlynwyr.

Lle nad oes trefniadau o'r fath yn bodoli, dylai'r Awdurdod Bwyd geisio cytuno ar weithdrefnau. Dylai'r Awdurdod Bwyd drafod rhaglen fanwl o gamau ffurfiol gyda'i gyfreithiwr ymgyfreitha a chlerc y Llys Ynadon lleol. Dylent egluro manylion practis y Llys lleol i geisio datrys anawsterau posibl o gael amser Llys ar fyr rybudd. Gellir cychwyn hyn trwy gysylltu’n anffurfiol â Swyddfa Clerc yr Ynadon i sicrhau bod ceisiadau am EPOs a HEPOs yn cael eu cyflymu.

Rhaid rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd os yw swyddog awdurdodedig yn bwriadu gwneud cais am HEPO neu EPO. Rhaid cyflwyno hysbysiad o gais am y gorchymyn i'r gweithredwr ar y diwrnod cyn dyddiad y cais, fan bellaf, gan roi manylion yr ymddangosiad Llys.

### 6.7.13.3 Camau i'w cymryd cyn y gwrandawiad

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig drefnu i fonitro'r safle rhwng cyflwyno'r rhybudd a'r gwrandawiad Llys. Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad o reidrwydd gynnal y gwaith monitro ond rhaid iddo friffio'r cydweithiwr perthnasol yn llawn o'r risgiau a'r dystiolaeth a gasglwyd.

Dylai’r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad ail-arolygu’r safle ychydig cyn y gwrandawiad (y diwrnod cyn neu ar ddiwrnod y gwrandawiad ei hun yn ddelfrydol).

Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i swyddog awdurdodedig sydd â phrofiad perthnasol gynnal yr ail-arolygiad. Mae'r un peth yn wir os canfuwyd unrhyw dramgwydd yn ystod y monitro.

Pwrpas yr ail-arolygiad yw casglu tystiolaeth ar gyflwr presennol y safle neu'r offer ar gyfer y gwrandawiad Llys. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig nodi unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r hysbysiad. Er enghraifft, gallai'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r hysbysiad fod wedi gwaethygu, neu gall amgylchiadau newydd eraill hefyd beri risg i iechyd.

Os yw HPO neu Orchymyn Gwahardd[60] yn erbyn gweithredwr busnes bwyd i'w ystyried, mae'n bwysig bod tystiolaeth addas yn cael ei chasglu i'w chyflwyno i'r Llys.

Mae'n bwysig bod y swyddogion awdurdodedig yn briffio eu cynghorwyr cyfreithiol yn llawn ar agwedd iechyd y cyhoedd yr achos dan sylw. Dylai hyn gynnwys sail iechyd

---

[60] Rheoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

y cyhoedd ar gyfer y gofynion cyfreithiol y mae’r busnes wedi mynd yn groes iddynt. Mae hyn yn caniatáu iddynt gynghori'r Llys ar ddifrifoldeb y cyhuddiadau.

#### 6.7.13.4 Gwybodaeth i'w rhoi i'r Llys

Mae'r wybodaeth y gall fod ei hangen ar y Llys yn cynnwys:

- cyflwr y safle neu'r offer, a hynny adeg y drosedd a phan ail-arolygwyd y safle cyn y gwrandawiad
- unrhyw dystiolaeth bod gweithredwr y busnes bwyd wedi bod yn rhan o droseddau mewn mannau eraill, a oedd yn tueddu i ddangos gwendidau mewn rheolaeth

Mae'n arferol i'r rhai sy'n erlyn bennu a fu unrhyw gollfarnau neu rybuddion blaenorol. Os felly, dylent sicrhau’r manylion i'w cyflwyno i'r Llys pe bai'r erlyniad yn llwyddiannus. Gellir eu defnyddio hefyd mewn tystiolaeth os yw gofynion Adran 101 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ynghylch cymeriad drwg y diffynnydd yn cael eu bodloni.

## 6.8 Cyflwyno hysbysiadau a gorchmynion gwahardd

### 6.8.1 Dulliau o gyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn

Dylid gwneud pob ymdrech i gyflwyno Hysbysiadau a Gorchmynion Gwahardd a wneir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 trwy eu danfon â llaw i weithredwr y busnes bwyd, neu i bob un o'r gweithredwyr/perchnogion yn achos partneriaeth ac ati.

Nid oes angen i'r hysbysiadau a'r gorchmynion hyn gael eu cyflwyno gan y swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y weithred. Rhaid iddynt gael eu dyfarnu gan swyddog awdurdodedig sy'n gymwys i egluro pwrpas y gorchymyn neu'r hysbysiadau, fel y gall gweithredwr y busnes bwyd gymryd y camau angenrheidiol a gallu delio ag unrhyw rwystrau.

Os na ellir rhoi hysbysiad neu orchymyn i weithredwr busnes bwyd yn bersonol, dylid rhoi copi o'r ddogfen i bwy bynnag sy'n gyfrifol am gydymffurfio â gweithredoedd cau neu wahardd ar unwaith, er enghraifft y rheolwr.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig sicrhau bod gweithredwr y busnes bwyd yn ymwybodol o'r rhesymau dros y risg sydd ar fin digwydd. Er bod hyn wedi'i gynnwys yn yr HEPN model a'r EPN rhagnodedig, efallai na fydd gweithredwr y busnes bwyd yn deall pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i ddileu’r risg sydd ar fin digwydd ac efallai y bydd angen esboniad pellach.

Os yw'r gweithredwr/perchennog yn bresennol yn y Llys, gall y swyddog awdurdodedig ymgynghori â Chlerc yr Ynadon i wirio a yw'n bosibl cyflwyno gorchymyn cyn i'r gweithredwr/perchennog adael y Llys.

Weithiau gall cyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn i nifer o bartneriaid beri anawsterau, yn enwedig lle nad yw partner yn y Deyrnas Unedig ar y pryd. Cyn gynted ag y bydd yr hysbysiad neu'r gorchymyn yn cael ei gyflwyno'n briodol i unrhyw un o'r partneriaid, mae’n dod i rym.

Os nad yw'n bosibl cyflwyno'r ddogfen â llaw, mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno'r ddogfen trwy'r post gyda phrawf postio ac, yn ddelfrydol, prawf bod y ddogfen wedi'i danfon. Mae'n ddefnyddiol cofnodi'r amser y cafodd y ddogfen ei gwasanaethu, hyd yn oed pan ddefnyddir y gwasanaeth post.

Gellir ffacsio'r ddogfen a/neu ei hanfon mewn e-bost at y gweithredwr/perchennog er gwybodaeth cyn ei gwasanaethu'n ffurfiol, ond rhaid dilyn hyn â chopi caled er mwyn iddi gael ei chyflwyno'n iawn.

Pan fydd y ddogfen wedi'i chyflwyno'n gyfreithiol[61], fe ddaw'r gwaharddiad i rym yn syth. Gall hyn ymwneud â defnyddio'r safle neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd, neu fath penodol o fusnes, proses neu driniaeth bwyd. Ar y pwynt hwn, nid yw'r HEPN neu'r EPN bellach mewn grym.

### 6.8.2 Gosod yr hysbysiad neu'r gorchymyn ar y safle

Ar ôl gwneud gorchymyn neu gyflwyno hysbysiad, rhaid i gopi gael ei arddangos yn glir yn y safle gan yr Awdurdod Bwyd. Mae hyn yn berthnasol o dan Reoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Pwrpas hyn yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ac unrhyw un sy'n defnyddio'r safle ei fod wedi'i gau. Gall hyn hefyd ymwneud â phroses neu ddarn o offer sydd wedi'i wahardd rhag cael ei ddefnyddio.

Rhaid i swyddog awdurdodedig, sy'n gymwys i egluro ystyr a phwysigrwydd yr hysbysiad, gymryd y camau hyn. Dim ond yw'n ofynnol gan yr Awdurdod Bwyd y mae gofyn i dyst fynd gyda'r swyddog awdurdodedig. Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y weithred fod yn rhan o'r broses.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig osod y ddogfen y tu mewn i'r safle yn gadarn, ond mewn man lle gellir ei gweld a'i darllen yn glir o'r tu allan, yn ddelfrydol ar du mewn ffenestr blaen.

Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio'i farn broffesiynol am y lleoliad gorau. Os oes angen, gellir gosod ail gopi o'r ddogfen y tu allan i'r safle gan sicrhau ei bod yn cael ei diogelu rhag y tywydd a fandaliaeth. Dylai'r Awdurdod Bwyd drefnu gwiriadau cyson i sicrhau ei bod yn aros yn ei lle.

### 6.8.3 Tynnu neu ddifrodi hysbysiadau neu orchmynion heb awdurdod

Nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 na Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cyfeirio at ddifrodi neu ddileu HPO, HEPN, HEPO, Gorchymyn Gwahardd, EPN, neu EPO. Gellid ystyried gweithredu o'r fath fel rhwystr o dan Reoliad 15 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, oherwydd gellir ystyried dileu neu ddifrodi hysbysiad neu orchymyn yn weithred sy'n 'rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu wrth gyflawni'r Rheoliadau Hylendid yn fwriadol' (wedi'i gyfieithu). Yn yr un modd, mae

[61] Rheoliad 28 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 50 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Adran 33 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn ei gwneud yn drosedd rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu wrth gyflawni'r Ddeddf hon yn fwriadol.

## 6.9 Mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn gwahardd

Pan fydd sefydliad yn mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn, gall y troseddau canlynol fod yn berthnasol:

- mae person sy'n mynd yn groes i HPO neu Orchymyn Gwahardd yn fwriadol yn euog o drosedd o dan Reoliad 7(5) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(5) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno
- mae person sy'n mynd yn groes i HEPN neu HEPO neu EPN neu EPO yn euog o drosedd o dan Reoliad 8(5) neu (6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 12(5) neu (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno

Pan fydd sefydliad yn mynd yn groes i hysbysiad, mae'n bosibl bod sawl trosedd gan gynnwys mynd yn groes i’r:

- rheoliadau
- hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol mynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio

Mae'r ddau yn droseddau a dylid, o ystyried polisi gorfodi’r Awdurdodau Bwyd, eu cyfeirio i'w herlyn.

Dylai'r swyddog awdurdodedig gychwyn achos am y drosedd o dan y ddeddfwriaeth briodol trwy osod gwŷs (*summons*) ddrafft gerbron y Llys Ynadon a gyflwynir wedi hynny i'r diffynnydd, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i wrandawiad cyntaf i gyflwyno eu ple.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn credu bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y perchennog yn annhebygol o ymateb i wŷs, dylid gwneud cais am warant yn hytrach na gwŷs. Bydd y Llys yn penderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau'r weithred hon ac yn gallu gofyn i'r swyddog awdurdodedig a yw’n credu y dylid cymeradwyo'r warant gyda mechnïaeth. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio ei farn broffesiynol ac ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol yn ei benderfyniad.

Dylai'r Awdurdod Bwyd wneud trefniadau wrth gefn gyda'i adran gyfreithiol, fel na fydd unrhyw oedi cyn gwneud cais gerbron y Llys os bydd sefydliad yn mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn. Rhaid i Awdurdodau Bwyd gyfeirio at eu polisi gorfodi wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd o ran mynd yn groes i reoliadau a/neu hysbysiadau.

## 6.10 Codi hysbysiad neu orchymyn

### 6.10.1 Codi hysbysiadau a gorchmynion gwahardd

Rhaid i weithredwr y busnes bwyd wneud cais ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd am dystysgrif sy'n codi HPO, HEPN neu HEPO, Gorchymyn Gwahardd neu EPN neu EPO. Ar ôl cael cais o'r fath, dylai'r swyddog awdurdodedig ail-arolygu’r safle a

phenderfynu a ellir codi'r hysbysiad neu'r gorchymyn. Rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosibl neu cyn pen 14 diwrnod ar ôl gwneud y cais.

Dylai'r swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y weithred benderfynu a ddylid rhoi'r dystysgrif ai peidio. Os nad yw'r swyddog hwn ar gael, gall swyddog awdurdodedig arall sydd â'r cymwysterau a'r profiad perthnasol wneud y penderfyniad.

Os yw'r Awdurdod Bwyd o'r farn bod y risg iechyd wedi'i ddileu, dylid gwneud trefniadau i roi'r dystysgrif[62] cyn gynted â phosibl, neu cyn pen tridiau. Gellir anfon y dystysgrif trwy ffacs neu ei chyfathrebu ar lafar, gan ganiatáu i'r safle ailagor ar unwaith.

Os yw'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw'r risg iechyd wedi'i dileu, dylid gwneud trefniadau i'r Awdurdod Bwyd roi hysbysiad[63] o risg barhaus i iechyd cyn gynted â phosibl, neu cyn pen tridiau. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi rhesymau pam nad yw'n fodlon bod y cyflwr risg iechyd wedi'i ddileu.

Os bydd swyddog awdurdodedig yn cynnal 'arolygiad/archwiliad pellach cyn y gwrandawiad Llys a'i fod yn fodlon nad yw'r cyflwr risg iechyd yn bodoli mwyach, efallai y bydd y swyddog awdurdodedig yn dal i ddymuno parhau â'r cais i ofyn am yr HEPO/EPO. Y rheswm am hyn yw y gall y gwrandawiad i ofyn am yr HEPO/EPO leihau'r tebygolrwydd y bydd y gweithredwr yn gwneud cais am iawndal.

Gellir dyfarnu tystysgrif sy'n codi HEPN neu EPN cyn y gellir clywed y cais am HEPO neu EPO, ond gellir parhau i erlyn y gweithredwr/perchennog am y drosedd neu droseddau yn erbyn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y bo'n briodol.

Dylai'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y Llys yn cael ei hysbysu yn y sefyllfa hon.

#### 6.10.2 Codi Gorchmynion Gwahardd yn erbyn Personau

Dim ond trwy gyfarwyddyd y Llys, ar gais gan weithredwr neu berchennog busnes bwyd, y gall Gorchmynion Gwahardd Hylendid neu Orchmynion Gwahardd yn erbyn personau a wnaed gan Lys beidio â bod mewn grym[64]. Dylid nodi na fydd unrhyw gais yn cael ei ystyried o fewn chwe mis i ddyddiad y gorchymyn gwreiddiol.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r ASB ar y cyfle cyntaf ar ôl dod i wybod nad yw Gorchymyn Gwahardd Hylendid neu Orchymyn Gwahardd yn erbyn person ar waith bellach.

---

[62] O dan Reoliad 7(7) neu 8(8) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(6) neu 12(8) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel sy'n briodol

[63] O dan Reoliad 7(7) (b) neu 8(9) (b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(7) (b) neu Adran 12(9) (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y bo'n briodol

[64] Rheoliad 7(6)(b) a 7(8) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(6)(b) ac 11(8) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

### 6.10.3 Apeliadau – gwrthod codi gorchymyn gwahardd

Mae Rheoliad 20(1)(b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 37(1)(b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu i unrhyw un apelio yn erbyn penderfyniad Awdurdod Bwyd i wrthod dyfarnu tystysgrif sy'n nodi nad oes risg i iechyd bellach, a hynny trwy gŵyn i'r Llys Ynadon. Y terfyn amser ar gyfer apêl o'r fath yw mis o'r dyddiad pan gyflwynodd yr Awdurdod Bwyd yr hysbysiad yn nodi eu bod yn gwrthod codi'r gwaharddiad.

Dylai'r sawl sy'n cael hysbysiad o'r fath ddeall eu hawl i apelio yn glir. Dylai'r hysbysiad felly gynnwys manylion yr hawl i apelio ac enw a chyfeiriad y Llys Ynadon perthnasol, neu dylai'r manylion hyn gyd-fynd â'r hysbysiad.

## 6.11 Iawndal

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd ddigolledu gweithredwr y busnes bwyd mewn perthynas ag 'unrhyw golled' y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gyflwyno'r hysbysiad ar gam[65]. Mae unrhyw gwestiwn dadleuol am yr hawl i unrhyw iawndal, neu swm y iawndal sy'n daladwy, i'w benderfynu trwy gymrodeddu (*arbitration*).

Gall yr Awdurdod Bwyd asesu swm yr iawndal sy'n ddyledus gan ystyried yr agweddau canlynol, lle bo hynny'n berthnasol:

- am ba hyd y cafodd y broses neu'r driniaeth ei hatal, neu waharddwyd defnyddio safle neu offer ac at ba bwrpas
- colli masnach
- gwerth bwyd sydd wedi difetha
- colli ewyllys da
- colli cyflog
- faint o'r difrod i fasnach y gellir ei drwsio?
- rhwymedigaeth y gweithredwr/perchennog i liniaru eu colled eu hunain

Fel arall, os yw gweithredwr/perchennog y busnes yn gytûn, gellir galw aseswr colled i mewn.

## 6.12 Cadw ac atafael

### 6.12.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ymwneud â defnyddio'r pwerau cadw/arolygu ac atafael o dan Reoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

[65] Rheoliad 8(10) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 12(10) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

### 6.12.2 Bwyd nad yw’n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd

Os nad yw bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd am resymau ac eithrio hylendid, dylid defnyddio Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae adran 9 o'r Ddeddf yn caniatáu cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd i atal defnyddio'r bwyd i'w fwyta gan bobl a'i atal rhag cael ei symud neu ei symud i rywle fel y nodir yn yr Hysbysiad.

Mae Adran 8 o'r Ddeddf yn darparu bod bwyd sy'n anniogel o fewn ystyr Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, yn methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990 wrth ddefnyddio pwerau o dan Adran 9 o'r Ddeddf.

#### 6.12.2.1 Hylendid bwyd

Pan na fydd bwyd wedi cael ei gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â'r ‘Rheoliadau Hylendid’[66], gall swyddog awdurdodedig ddefnyddio Rheoliad 27 (gweler Rheoliad 23 hefyd mewn cysylltiad â hyn) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i atafael y bwyd o dan Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Yn dilyn yr ardystiad sy'n ofynnol gan Reoliad 27 rhaid trin y bwyd at ddibenion Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel un nad yw’n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Gellir gweld tystysgrif enghreifftiol at y diben hwn ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

#### 6.12.2.2 Safonau bwyd

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn rhoi pwerau penodol i atafael a chadw i Awdurdodau Bwyd sy'n cynnal rheolaethau safonau bwyd.

- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010
- Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
- Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005
- Rheoliadau Wisgi Scotch 2009
- Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Bwyd Newydd (Cymru) 2017

#### 6.12.2.3 Rhagdybiaeth ei fod yn fwyd

Tybir o dan gyfraith bwyd bod yr holl fwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl nes ei fod yn cael ei brofi i'r gwrthwyneb.

Ni ddylid defnyddio pwerau cadw mewn perthynas â bwyd sydd eisoes wedi'i nodi'n glir gan fusnes bwyd fel rhywbeth nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl.

---

[66] Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Gall swyddog awdurdodedig gynorthwyo neu gynghori'r person sy'n gyfrifol am y bwyd fel sy'n briodol. Os oes unrhyw amheuaeth p’un a yw’r bwyd yn cael ei ddefnyddio i'w fwyta gan bobl, rhaid tybio ei fod. Pe bai gweithredwr busnes bwyd yn dymuno dadlau dros fwriad i'r gwrthwyneb, rhaid i’r gweithredwr hwnnw brofi hynny.

#### 6.12.3 Ymdrin â sypiau (*batches*), lotiau neu lwythi (*consignments*) bwyd

Mae Erthygl 14(6) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yn pennu lle bydd ‘unrhyw fwyd sy'n anniogel yn rhan o swp, y lot neu’r llwyth bwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad, rhagdybir bod yr holl fwyd yn y swp, y lot neu’r llwyth hwnnw'n anniogel hefyd, oni bai bod asesiad manwl yn dangos nad oes unrhyw dystiolaeth fod gweddill y swp, y lot neu’r llwyth yn anniogel’.

Os yw swm o fwyd o wahanol fathau neu sypiau yn cael ei gadw, rhaid i'r swyddog awdurdodedig gyhoeddi Hysbysiad Cadw Bwyd ar wahân mewn perthynas â phob math neu swp.

Wrth ystyried p'un a ddylid atafael neu gadw/arolygu swp, lot neu lwyth, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol:

- y dystiolaeth sydd ar gael
- natur yr halogiad
- natur a chyflwr unrhyw gynhwysydd sy'n dal y bwyd
- y risg i iechyd
- swm y bwyd o dan sylw o ran unrhyw samplu sydd wedi'i gynnal

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu a ddylid cadw neu atafael y swp, y lot neu'r llwyth cyfan. Dylid ceisio cyngor arbenigol priodol os oes angen.

Os caiff swp, lot neu lwyth cyfan ei atafael ac yna daw'n amlwg mai dim ond rhan o'r bwyd sy'n cael ei gadw yr effeithir arno a sydd gofyn ei atafael, gellir rhyddhau gweddill y swp ac ati. Dylid cadw mewn cof y darpariaethau iawndal o dan Adran 9(7) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y'i diwygiwyd, bob amser os cymerir y camau hyn.

#### 6.12.3.1 Cymryd camau heb arolygu

Mae darpariaethau Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 hefyd yn berthnasol i fwyd nad yw wedi'i arolygu.

Gallai hyn fod yn berthnasol pan fydd gan y swyddog awdurdodedig sail resymol i amau y byddai bwyta'r bwyd yn debygol o achosi clefyd a gludir gan fwyd neu glefyd trosglwyddadwy arall, neu ei fod wedi'i halogi fel arall fel na fyddai'n rhesymol iddo gael ei fwyta yn y cyflwr hwnnw.

Gall gwybodaeth o ffynhonnell ddibynadwy arall, er enghraifft Awdurdod Bwyd arall, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y CCDC, neu'r ASB, fod yn ddigonol i alluogi swyddog awdurdodedig i weithredu heb arolygu.

Nid oes angen arolygu'r bwyd yn gyfreithiol mewn sefyllfaoedd o'r fath, serch hynny, gallai fod yn synhwyrol gwneud hynny, hyd yn oed os yw at ddibenion adnabod yn unig.

### 6.12.4 Cadw bwyd yn ôl

Oni bai fod yr amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol gweithredu ar unwaith, fel arfer dylid ond gwneud penderfyniad i gadw bwyd ar ôl trafod hynny gyda'r perchennog neu'r person sydd â gofal am y bwyd ac, os yw'n briodol, gyda'r gweithgynhyrchwr.

Mae angen i swyddogion awdurdodedig arfer barn ofalus, ac efallai y bydd angen iddynt ofyn am gyngor arbenigol, cyn defnyddio eu pwerau i gadw bwyd hyd nes y cynhelir ymchwiliad pellach.

Yn aml gellir adnabod bwyd yr amheuir ei fod yn achosi gwenwyn bwyd yn rhwydd, ac felly gellir gwneud y penderfyniad i gadw’r bwyd yn gymharol hawdd.

#### 6.12.4.1 Lleoliad cadw’r bwyd

Lle bydd y swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd, dylid defnyddio barn broffesiynol i bennu a ddylid cadw bwyd yn y fan lle mae’r bwyd, neu ei symud i rywle arall.

Os oes gan y swyddog awdurdodedig unrhyw amheuon am ddiogelwch neu ofal ffisegol y bwyd, rhaid i'r Hysbysiad Cadw Bwyd bennu i ble y dylid symud y bwyd.

Os yw bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Bwyd arall, rhaid i'r swyddog hysbysu'r Awdurdod Bwyd hwnnw a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer gwirio'r bwyd tra'i fod yn cael ei gadw.

Ym mhob achos, ond yn enwedig gyda bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym, rhaid i'r swyddog weithredu'n gyflym ar bob cam a rhoi gwybodaeth lawn i'r rheiny sy'n gorfod dadansoddi neu archwilio samplau o'r bwyd.

Efallai y bydd angen symud bwyd sydd angen amodau storio arbennig, fel bwyd sydd angen ei oeri, rywle arall, ac os felly dylid trafod y penderfyniad i orfodi ar gyfer symud y bwyd gyda pherchennog y bwyd.

Os yw bwyd i'w gadw yn y man mae'n cael ei ganfod, rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn fodlon y gellir gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei fod yn ddiogel.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig drefnu bod y bwyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy gydol y cyfnod cadw.

Cyn gwneud trefniadau o'r fath, dylid ystyried natur y bwyd, faint o’r bwyd sy’n bodoli, unrhyw berygl sy'n cael ei beri i iechyd, a phwy sy'n berchen ar y sefydliad lle cedwir y bwyd. Yn gyffredinol, rhaid i'r swyddog osgoi ei adael yng ngofal, neu mewn sefydliad sy'n eiddo i, unrhyw berson a allai gael ei erlyn am drosedd o dan gyfraith bwyd.

Mae angen ystyried yn ofalus y penderfyniad i gadw swp, lot neu lwyth cyfan cyn cyflwyno hysbysiad.

#### 6.12.4.2 Hysbysiad Cadw Bwyd

Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig sy'n gwneud y penderfyniad lofnodi Hysbysiad Cadw Bwyd er mwyn cadw'r bwyd o dan Reoliad 9(5) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r Hysbysiad Cadw Bwyd a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

#### 6.12.4.3 Tynnu Hysbysiad Cadw Bwyd yn ôl

Dylai'r swyddog awdurdodedig weithredu mor gyflym â phosibl pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn dangos y gellir rhyddhau bwyd sydd wedi'i gadw. Rhaid cyflwyno Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl o fewn 21 diwrnod wedi cadw'r bwyd.

Rhaid i'r penderfyniad i gyhoeddi Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl naill ai gael ei wneud gan y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad neu'r camau gweithredu yn wreiddiol, neu gan swyddog awdurdodedig arall sydd â'r profiad a'r cymhwysedd perthnasol.

Rhaid cyflwyno Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl cyn gynted â phosibl i atal y bwyd rhag dirywio ac i leihau'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod Bwyd yn agored i iawndal o dan Adran 9(7) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Nid oes gofyn i'r swyddog awdurdodedig a wnaeth y penderfyniad gyflwyno'r hysbysiad, gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei gyflwyno.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

### 6.12.5 Atafael (*seize*) bwyd

#### 6.12.5.1 Trefniadau ar gyfer trin neu brosesu

Wrth ystyried a ddylid atafael bwyd, rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried a ellir trin neu brosesu'r bwyd dan sylw cyn ei fwyta. Os felly, dylid ystyried p'un a fyddai'r bwyd, ar ôl ei drin neu ei brosesu, yn bodloni gofynion diogelwch bwyd. Rhaid nodi na chaniateir cymysgu bwyd i leihau lefelau uchel o halogion gan Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 1881/2006.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gytuno ar y trefniadau ar gyfer trin neu brosesu bwyd dan yr amgylchiadau hyn, yn ogystal â'r perchennog neu'r person sy'n rheoli'r bwyd, ac yn destun ymgymeriad ysgrifenedig wedi'i lofnodi.

Rhaid i unrhyw drefniant sy'n cynnwys bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Bwyd arall i'w drin neu ei brosesu gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Bwyd sy'n cael y bwyd cyn llunio'r cytundeb.

Rhaid gwneud trefniadau i'r Awdurdod Bwyd hwnnw gymryd camau i sicrhau bod y prosesu neu'r driniaeth yn digwydd, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd yn ôl os yw'n briodol.

Os na all yr Awdurdod Bwyd sy'n cael y bwyd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod y bwyd yn cael ei brosesu neu ei drin yn iawn, ni ddylid parhau â'r trefniant, oni bai nad oes unrhyw ffordd arall o unioni'r broblem gyda'r cynnyrch bwyd.

### 6.12.5.2 Atafael bwyd – Proses

Oni bai bod paragraffau blaenorol yr Adran hon yn berthnasol, neu fod y defnydd o Weithdrefnau Gwirfoddol yn fwy priodol, rhaid atafael bwyd os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd.

Os yw tystiolaeth yn dangos bod rhaid atafael bwyd sydd eisoes wedi'i gadw (*seized*), dylai'r swyddog awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Condemnio Bwyd yn rhoi rhybudd o'r bwriad i fynd â'r bwyd gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i'w gondemnio.

Rhaid i Ynad Heddwch ddelio â bwyd sydd wedi'i atafael cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, fel arfer o fewn deuddydd. Os oes angen, gall yr amserlen hon fod yn hirach i sicrhau bod partïon yn gallu bod yn bresennol a chael eu cynrychioli pe baent yn dewis gwneud hynny. Rhaid i Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym cyn gynted ag y bo modd.

Rhaid rhoi cyfle i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd neu'r perchennog fod yn bresennol a chael ei gynrychioli pe bai'n dewis gwneud hynny pan fydd yr Ynad Heddwch yn delio â'r bwyd. Rhaid peidio ag oedi cyn gweithredu os na ellir olrhain na chysylltu â'r perchennog. Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod gan unrhyw un a allai gael eu herlyn yr hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Rhaid dogfennu bod yr hysbysiad am y gwrandawiad wedi'i roi yn iawn a chadw'r dystiolaeth er mwyn dangos i'r Llys.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig sicrhau parhad tystiolaeth. Rhaid gwneud hyn p'un a oes erlyniad dilynol ai peidio. Rhaid peidio â gadael y bwyd heb ei ddiogelu ar ôl iddo gael ei atafael, oherwydd efallai y bydd yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig brofi mai'r bwyd a gynhyrchir gerbron yr Ynad Heddwch yw'r bwyd a gafodd ei atafael.

Dim ond os yw'r swyddog awdurdodedig yn hyderus na fydd yn cael ei symud, ei ddefnyddio i'w fwyta gan bobl, ac na fydd y dystiolaeth yn cael ei dinistrio y dylid gadael y bwyd.

Byddai'r ffaith bod bwyd wedi'i gondemnio gan Ynad Heddwch yn dwyn perswâd mewn unrhyw erlyniad. Fodd bynnag, ni fyddai hyn ar ei ben ei hun o reidrwydd yn sefydlu trosedd. Mae'n dal yn angenrheidiol i achos gael ei brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol. Yn hyn o beth mae tystysgrifau dadansoddi neu archwilio o werth arbennig.

### 6.12.5.3 Rhybudd condemnio bwyd

Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd gael hysbysiad condemnio bwyd ar ôl i'r penderfyniad i gadw'r bwyd gael ei wneud. Rhaid i'r hysbysiad hwn roi manylion amser a lleoliad yr ymddangosiad gerbron Ynad Heddwch. Mae'r hysbysiad hwn yn weinyddol yn unig ac felly gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei lofnodi.

Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig sy'n cyflwyno'r hysbysiad feddu ar yr un cymwysterau â'r swyddog awdurdodedig a benderfynodd gadw neu atafael y bwyd.

Fodd bynnag, rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn ddigon cymwys i egluro pwrpas yr hysbysiad ac i ddelio ag unrhyw rwystr.

Gellir rhoi gwybod i berchennog y bwyd trwy ddosbarthu'r hysbysiad yn bersonol, dros ffacs, dros y ffôn, mewn e-bost, neu drwy ddulliau cyfathrebu cyflym eraill.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o atafael, oherwydd yr hawl a roddir gan Adran 9(5) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae hyn yn rhoi hawl i unrhyw berson a allai gael ei erlyn am werthu neu gynhyrchu bwyd anniogel ddod gerbron Ynad Heddwch, i gael gwrandawiad ac i alw tystion.

#### 6.12.5.4 Hysbysiadau atafael

Pan gaiff bwyd ei atafael, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r broses atafael cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys manylion y math o fwyd a swm y bwyd sy'n cael ei atafael, gan gynnwys unrhyw farciau, codau, dyddiadau ac ati.

Pan fydd y swyddog awdurdodedig yn bwriadu i Ynad Heddwch ymdrin â'r bwyd, rhaid rhoi Hysbysiad Condemnio Bwyd i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd. Lle bo'n bosibl, rhaid rhoi'r hysbysiad i berchennog y bwyd hefyd os yw'n wahanol i'r person wrth y llyw.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r Hysbysiad Rhybuddio am Gondemnio Bwyd a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

### 6.12.6 Dinistrio neu gael gwared ar fwyd

Mae'r Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd sydd wedi'i gondemnio o dan Adran 9(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu a ildiwyd yn wirfoddol yn cael ei ddinistrio neu ei waredu'n briodol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r bwyd gael ei oruchwylio nes y gellir delio ag ef yn y modd priodol. Os yw'n debygol y bydd rhywfaint o oedi cyn ei ddinistrio neu ei waredu, rhaid difetha'r bwyd er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd ei fod yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd.

O ran dinistrio bwyd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y bwyd yn cael ei ddinistrio'n llwyr trwy ei losgi neu ryw ddull priodol arall, gan ystyried gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol ar waredu gwastraff. Os nad yw'n bosibl dinistrio'n llwyr, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau ei fod yn cael ei ddifetha cymaint na allai'r bwyd fyth gael ei ddefnyddio eto yn y gadwyn fwyd, er enghraifft trwy wasgu tuniau i'w gwaredu mewn safle tirlenwi trwyddedig addas.

Rhaid cadw copi o'r hysbysiad trosglwyddo gwastraff a'i gadw ar ffeil ar gyfer unrhyw fwyd a waredwyd gan gontractiwr gwaredu gwastraff trwyddedig o dan y trefniadau hyn.

## 6.13 Gweithdrefnau gwirfoddol

### 6.13.1 Gofynion cyffredinol

Gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol fel dewis arall yn lle camau gweithredu ffurfiol a gall naill ai swyddog awdurdodedig neu weithredwr busnes bwyd eu hawgrymu.

Pan ddefnyddir gweithdrefnau gwirfoddol, dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn cael eu defnyddio yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdodau Bwyd
- eu bod yn ystyried y risgiau na fydd y busnes yn cydymffurfio â'r cytundeb gwirfoddol, gan nad oes cosb gyfreithiol yn erbyn gweithredwr am beidio â chadw ato, er y gallai camau gorfodi ffurfiol ar gyfer diffyg cydymffurfio barhau i fod yn opsiwn
- byddai'r amgylchiadau wedi caniatáu i'r swyddog awdurdodedig gymryd camau gorfodi ffurfiol pe na chytunwyd ar y trefniant gwirfoddol
- bod gweithredwr y busnes bwyd yn cytuno bod achos o ddiffyg cydymffurfio
- rhoddir y cytundeb gwirfoddol yn ysgrifenedig a chaiff ei lofnodi gan y swyddog awdurdodedig a gweithredwr y busnes bwyd. Os nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn bresennol, mae gan unrhyw reolwr sy'n cytuno i'r trefniadau gwirfoddol awdurdod y gweithredwr i gytuno i gamau gweithredu o'r fath
- bod y ddogfen yn nodi'n glir ei fod yn gytundeb gwirfoddol, gan sicrhau nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn cael ei gamarwain i gredu ei fod yn hysbysiad ffurfiol
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'r achos o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys cyfeiriadau deddfwriaethol
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'n glir yr hyn y mae'r gweithredwr yn cytuno iddo, er enghraifft, yn gwahardd defnyddio safle
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'n glir nad oes apêl ffurfiol na hawl i iawndal

### 6.13.2 Gwaharddiadau gwirfoddol

Mae gwaharddiadau gwirfoddol yn golygu bod gweithredwr y busnes bwyd yn ymrwymo i beidio â defnyddio safle, offer, proses neu driniaeth a nodir yn y cytundeb gwirfoddol, fel y bo'n briodol, i gael gwared ar gyflwr risg iechyd.

Gellir defnyddio gwaharddiadau gwirfoddol pan:

- fo gweithredwr busnes bwyd yn cytuno bod cyflwr risg iechyd yn bodoli (hynny yw, mae risg o niwed i iechyd ar fin digwydd)
- byddai'r swyddog awdurdodedig wedi gallu defnyddio Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid neu Hysbysiad Gwahardd Brys, pe na chytunwyd ar y gwaharddiad gwirfoddol.

Wrth ddechrau gweithdrefn wirfoddol, dylai'r swyddog awdurdodedig ystyried a oes risg y bydd defnydd o safle, offer, proses neu driniaeth yn parhau, heb yn wybod i'r swyddog awdurdodedig a/neu heb gytundeb. Pe bai gweithredu parhaus yn achosi digwyddiad bwyd, gellid beirniadu'r Awdurdod Bwyd am beidio â defnyddio pwerau statudol.

Pan fydd gweithredwr busnes bwyd yn cytuno ar waharddiad gwirfoddol, dylai'r ddogfennaeth ysgrifenedig gynnwys ymrwymiad gan y gweithredwr i beidio ag ailagor heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog awdurdodedig.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud ar y sefydliad i sicrhau eu bod yn cadw at y gwaharddiad gwirfoddol hwn.

### 6.13.3 Ildio/dinistrio gwirfoddol

Gellir defnyddio ildio/dinistrio gwirfoddol i gael gwared ar fwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl o'r gadwyn fwyd.

Gellir ei ddefnyddio pan fydd perchennog y bwyd yn cytuno nad yw'r bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl.

Rhaid rhoi derbynneb ar gyfer bwyd sy'n cael ei ildio yn wirfoddol i'r Awdurdod Bwyd i'w ddinistrio. Rhaid i'r dderbynneb:

- nodi bod y bwyd wedi'i ildio'n wirfoddol i'r Awdurdod Bwyd i'w ddinistrio (gyda'r rhesymau dros hyn)
- cael ei llofnodi a'i chydlofnodi gan y swyddog awdurdodedig a'r person sy'n ildio'r bwyd
- cynnwys gofod ar gyfer cofnodi amser, lle a dull dinistrio'r bwyd, a rhaid cofnodi'r manylion hyn ar gopi'r swyddfa gan y swyddog awdurdodedig maes o law
- cael ei chadw gan yr Awdurdod Bwyd

Fel rhan o'r ildiad gwirfoddol, dylai'r Awdurdod Bwyd sicrhau cytundeb gan y perchennog i dalu treuliau rhesymol am y dinistrio neu'r gwaredu. Os na wneir hyn bydd yr Awdurdod Bwyd yn ysgwyddo'r treuliau ei hun.

Gall defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol hefyd gyfrannu at amddiffyniad mewn unrhyw erlyniad dilynol. Gellid dadlau, er enghraifft, nad oedd y bwyd wedi'i halogi cymaint nes bod yn rhaid ei atafael.

Gall y ffaith bod Ynad Heddwch wedi condemnio bwyd ddwyn perswâd mewn unrhyw erlyniad, ond ni fyddai o reidrwydd yn sefydlu trosedd. Byddai dal angen profi achos y tu hwnt i amheuaeth resymol.

## 6.14 Gorfodi mewn sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth

### 6.14.1 Cyflwyniad

Yn ogystal â'r pwerau gorfodi y manylir arnynt uchod, mae pwerau eraill ar gael i swyddogion awdurdodedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 mewn perthynas â sefydliadau y mae'n rhaid eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004.

Darperir pwerau i dynnu'n ôl, neu atal, cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 gan Erthygl 138(2)(j) o Reoliad (UE) 2017/625.

Effaith uniongyrchol atal neu dynnu cymeradwyaeth sefydliad yn ôl yw na ellir defnyddio'r sefydliad ar gyfer unrhyw weithgareddau a fyddai'n golygu bod rhaid ei gymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, neu i roi POAO ar farchnad y DU**.**

Wrth ganfod achos o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau y mae'n rhaid eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, dylai'r Awdurdod Bwyd archwilio opsiynau gorfodi eraill i reoli'r peryglon bwyd a cyn ystyried atal neu dynnu'n ôl.

Nid yw diffyg cydymffurfio o reidrwydd yn rheswm digonol i gyfiawnhau atal neu ddileu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn syth. Lle bo'n briodol, dylid rhoi cyfle rhesymol i weithredwr y busnes bwyd sicrhau cydymffurfiaeth.

### 6.14.2 Atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

Dim ond o dan yr amodau canlynol y dylai Awdurdodau Bwyd gychwyn gweithdrefnau i atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad:

- mae achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'u pennu[67]
- mae dewisiadau gorfodi eraill wedi'u hystyried
- mae'r weithred yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Bwyd

Ar ôl i'r achos o ddiffyg cydymffurfio gael ei ddatrys, rhaid i'r Awdurdod Bwyd godi’r atal cymeradwyaeth yn ysgrifenedig.

Gall Awdurdodau Bwyd ofyn am unrhyw warant a ddarperir gan weithredwyr busnesau bwyd am gynhyrchu yn y dyfodol yn ysgrifenedig. Ni all Awdurdodau Bwyd fynnu hyn gan nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddarparu gwarantau yn ysgrifenedig.

### 6.14.3 Tynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl

Dim ond o dan yr amodau canlynol y dylai Awdurdodau Bwyd gychwyn gweithdrefnau i dynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl:

- mae achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'u pennu[68]
- mae dewisiadau gorfodi eraill wedi'u hystyried
- mae'r weithred yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Bwyd

Dylid ond tynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn ôl mewn amgylchiadau lle nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn gallu bodloni’r Awdurdod Bwyd bod disgwyliad rhesymol y bydd y diffygion a nodwyd yn cael eu hunioni, ac y caiff safon dderbyniol ei chynnal yn y dyfodol. Rhaid cyfathrebu’r penderfyniad dros dro i ddirymu'r gymeradwyaeth yn ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd.

### 6.14.4 Hysbysiadau bod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi’i hatal neu ei thynnu’n ôl

O dan Erthygl 138(3) o Reoliad (UE) 2017/625, rhaid i’r Awdurdod Bwyd hysbysu gweithredwr y busnes bwyd yn ysgrifenedig o’i benderfyniad i atal neu dynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn ôl.

Rhaid i'r hysbysiad hwn:

- nodi’r rhesymau dros yr atal neu'r tynnu'n ôl
- nodi’r materion sy’n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliad
- ei gwneud yn glir na ellir ymgymryd â gweithgareddau sydd gofyn eu cymeradwyo

[67] Erthygl 138(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[68] Erthygl 138(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, gan gynnwys gwybodaeth am y terfyn amser[69], a darparu cyfeiriad y Llys Ynadon lle gellir gwneud apêl o'r fath

Rhaid i Awdurdod Bwyd gadw copi o'r hysbysiadau ar eu ffeiliau. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd hysbysu'r ASB pan fydd cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad wedi cael ei hatal neu ei thynnu'n ôl (cymerwch gip ar Bennod 2).

### 6.14.5 Apeliadau yn erbyn atal neu dynnu gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl

Mae gan weithredwyr busnesau bwyd yr hawl i apelio i Lys perthnasol yn erbyn penderfyniad i dynnu neu atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl. Mae hawliau apelio yn ddarostyngedig i Reoliad 12 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Ni all y sefydliad barhau i weithredu tra bo apêl yn cael ei phenderfynu. Mae'r cyfnod amser hwn yn weithredol o'r dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad i'r person perthnasol, waeth a yw'n atal neu'n tynnu cymeradwyaeth yn ôl.

#### 6.14.5.1 Hysbysiadau Cadw

Darperir pwerau i gyhoeddi Hysbysiadau Cadw mewn perthynas â sefydliadau y mae gofyn eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 gan reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Mae Rheoliad 9 o'r Rheoliadau Hylendid yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw unrhyw fwyd, gan gynnwys cymryd samplau at ddibenion archwilio, trwy gyflwyno Hysbysiad Cadw.

Mae amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd yn cynnwys lle mae arwyddion neu amheuon bod bwyd mewn sefydliad yn anniogel ac felly mae angen archwilio, gan gynnwys cymryd samplau.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn fodlon nad oes angen cadw'r bwyd mwyach caiff, rhaid tynnu'r hysbysiad perthnasol yn ôl drwy gyfrwng hysbysiad ysgrifenedig pellach.

### 6.14.6 Ffurflenni templed

Gellir gweld y templedi canlynol ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu (*Smarter Comms*):

- Hysbysiad Camau Unioni
- Hysbysiad Cadw
- Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl

[69] Rheoliad 12(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## 6.15 Gorfodi mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio

### 6.15.1 Pwerau gorfodi ar gyfer Bwyd nad yw'n Dod o Anifeiliaid (FNAO)

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn rhoi pwerau gorfodi i Awdurdodau Bwyd wrth gyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO) o du allan i'r DU, naill ai ar y pwynt mynediad neu'n fewndirol.

#### 6.15.1.1 Cadw

Pan fydd gan swyddog awdurdodedig, at ddibenion archwilio mewn mannau mynediad, neu archwiliad gohiriedig mewn Cyfleuster Storio Dros Dro Allanol (ETSF), terfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol neu fan cyrraedd arall, amheuon am gydymffurfiaeth, hunaniaeth neu gyrchfan benodol llwyth, mae Erthygl 65 o Reoliad (UE) 2017/625 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu i'r cynnyrch gael ei gadw hyd nes y ceir canlyniadau unrhyw archwiliad sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau bwyd swyddogol.

Pan fo swyddog awdurdodedig wedi cadw llwyth bwyd yn ddibynnol ar unrhyw ganlyniadau archwilio, rhaid iddynt hysbysu'r person/mewnforiwr sy'n gyfrifol amdano yn ysgrifenedig, gan gyflwyno hysbysiad o dan Reoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Rhaid i'r hysbysiad nodi na ddylid symud y bwyd o'r lle a nodir, hyd nes bod y swyddog awdurdodedig wedi ystyried canlyniadau'r archwiliad yn iawn.

Nid yw Erthygl 65 o Reoliad (UE) 2017/625 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn pennu terfyn amser ar gyfer archwilio ac ymchwilio i lwythi. Fodd bynnag, rhaid cyflymu archwiliadau a/neu gyfnodau cadw o'r fath cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn osgoi amharu'n afresymol ar y masnachu.

Pan gyflwynir samplau i'w dadansoddi neu eu harchwilio, a bod y llwyth yn cael ei gadw gan ddibynnu ar y canlyniadau, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r dadansoddwr neu'r archwiliwr o'r ffaith honno a sicrhau bod y llwyth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel. Rhaid hysbysu'r mewnforiwr neu asiant y mewnforiwr o'r canlyniadau dadansoddi/archwilio cyn gynted ag y bo modd, a dylid rhoi copi o'r dystysgrif dadansoddi/archwilio iddynt.

Rhaid bod trefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei gadw yn cael ei storio'n briodol, yn enwedig er mwyn osgoi croeshalogi nwyddau eraill.

#### 6.15.1.2 Llwythi bwyd sy'n niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu sydd yn anniogel

Mae Erthygl 67 o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo rheolaethau bwyd swyddogol yn nodi bod llwyth yn niweidiol i iechyd pobl neu'n anniogel, rhaid ei ynysu neu ei roi mewn cwarantîn hyd nes y ceir unrhyw benderfyniad pellach.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd gadw'r llwyth dan fesurau swyddogol hyd nes iddo gael ei ddinistrio, neu hyd nes iddo fod yn destun triniaeth arbennig yn unol ag Erthygl 71(1) a 71(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

Rhaid ymdrin â bwyd sydd i'w ddinistrio neu ei waredu i sicrhau nad oes posibilrwydd y bydd yn ailymuno â'r gadwyn fwyd. Rhaid cadw copïau o nodiadau gwaredu gwastraff ar ffeil.

#### 6.15.1.3 Llwythi bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd

Os yw'n ymddangos i swyddog awdurdodedig wrth arolygu neu archwilio bwyd, nad yw swp, lot neu lwyth yn cydymffurfio â chyfraith bwyd, mae Rheoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu, ar ôl clywed gan y mewnforiwr, i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- i ddinistrio'r swp, y lot neu'r llwyth perthnasol yn unol ag Erthygl 67(a) o Reoliad (UE) 2017/625
- bod y bwyd yn destun triniaeth arbennig yn unol ag Erthygl 71(1) a (2) o Reoliad (UE) 2017/625
- ailddosbarthu'r bwyd y tu allan i'r DU yn unol ag Erthygl 72 (1) a (2) o Reoliad (UE) 2017/625
- bod y bwyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol i'r dibenion gwreiddiol.

Yn ymarferol, rhaid llunio'r opsiynau a bennir yn yr hysbysiad ar ôl ymgynghori'n briodol gyda'r person sy'n mewnforio'r bwyd, neu ei gynrychiolydd.

Dylid gwneud unrhyw benderfyniad ar gymeradwyo defnydd amgen o nwyddau a wrthodwyd yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr ASB ar briodoldeb defnydd amgen neu ail-allforio.

#### 6.15.1.4 Triniaethau arbennig

Gall triniaeth arbennig gynnwys:

- triniaeth neu brosesu i sicrhau bod bwyd yn unol â gofynion:
  - cyfraith y DU
  - y wlad y tu allan i'r DU lle caiff y bwyd ei ailddosbarthu iddi
- prosesu mewn unrhyw fodd addas arall at ddibenion ac eithrio bwyta gan bobl neu anifeiliaid

Pan ganiateir triniaeth arbennig, rhaid trafod ag unrhyw awdurdod gorfodi neu sefydliad perthnasol arall i sicrhau bod y prosesu angenrheidiol wedi'i gynnal. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd lle mae cynnyrch nad yw'n cydymffurfio yn cael ei fewnforio'n benodol er mwyn cael ei drin i gydymffurfio â chyfraith y DU.

Gall triniaeth arbennig gynnwys dadhalogi, lle bo hynny'n briodol, ond nid ei wanhau.

#### 6.15.1.5 Ailddosbarthu llwythi

Dim ond o dan yr amodau canlynol y gellir ailddosbarthu llwyth y tu allan i'r DU:

- Y cytunwyd ar gyrchfan gyda gweithredwr y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y llwyth
- Mae’r gweithredwr wedi hysbysu Awdurdod Bwyd y gyrchwlad y tu allan i'r DU pam y cafodd ei wrthod i'w fewnforio i'r DU
- Mae’r Awdurdod Bwyd hwnnw (os nad yw’r un peth â’r wlad tarddiad y tu allan i’r DU) wedi hysbysu Awdurdod Bwyd perthnasol y DU o'i barodrwydd i dderbyn y llwyth

Rhaid cadw'r llwyth yn swyddogol hyd nes y caiff ei ailddosbarthu.

Mae Erthygl 69 o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol i’r ailddosbarthu ddigwydd cyn pen 60 diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r gweithredwr o gyrchfan y llwyth. Fodd bynnag, gellir ymestyn y cyfnod hwn i gael canlyniadau ail farn arbenigol, cyn belled â nad oes unrhyw effaith andwyol ar iechyd pobl. Fel arall, bydd y llwyth yn cael ei ddinistrio.

Pan fydd cynnyrch yn cael ei ailddosbarthu, rhaid rhoi hysbysiadau sy'n nodi'r cynnyrch a'i gyrchfan terfynol i'r ASB, a fydd wedyn yn hysbysu Cyllid a Thollau EM, y Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau.

#### 6.15.1.6 Apeliadau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan Reoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Rhaid rhoi gwybod i’r mewnforiwr am benderfyniad yr Awdurdod Bwyd trwy hysbysiad ysgrifenedig. Rhaid i'r penderfyniad ymwneud â'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â'r cynnyrch ac ni ddylid ei ddefnyddio fel mesur cosbi.

Mae hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd a ddarperir gan Reoliad 33 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Rhaid apelio yn erbyn yr hysbysiad cyn pen mis ar ôl cyhoeddi’r hysbysiad.

#### 6.15.1.7 Darpariaethau eraill

Gall mewnforio bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd hefyd fod yn destun darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Mae darpariaethau o'r fath yn cynnwys pwerau cadw ac atafael, a roddir ar waith yn unol â'r Cod a’r Canllawiau Ymarfer.

Wrth benderfynu ar y camau i'w cymryd rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried:

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013
- unrhyw Reoliadau Rheoli Brys perthnasol, a allai ddarparu pwerau cadw penodol a darpariaethau hysbysu mewn perthynas â rhai bwydydd.

### 6.15.2 Pwerau gorfodi ar gyfer Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (POAO) a gaiff eu mewnforio

Pan ddarganfyddir mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion POAO yn fewndirol mewn ardal/safle y tu allan i reolaeth Tollau, yr Awdurdodau Bwyd lleol ar gyfer yr ardal honno sy'n gyfrifol am gamau gorfodi.

Pan fo swyddog awdurdodedig yn dymuno cadw unrhyw gynhyrchion POAO sydd wedi'u darganfod yn fewndirol er mwyn ymchwilio ymhellach i bennu a ydynt yn ddiogel neu'n cydymffurfio, gellir ceisio cydweithrediad gwirfoddol yn y lle cyntaf.

Mewn sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosibl, darperir darpariaethau gorfodi o dan Reoliad 34 o Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011.

#### 6.15.3 Canllawiau pellach

Mae canllawiau pellach ar y darpariaethau gorfodi sy'n ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

## 6.16 Sefydliadau'r Goron

#### 6.16.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ymwneud â'r dull o orfodi'r gyfraith bwyd ar safleoedd y Goron a safleoedd sydd ym meddiant yr heddlu. Nid yw'n berthnasol i safleoedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) nac Ymddiriedolaethau'r GIG, gan nad yw'r rhain yn safleoedd y Goron.

#### 6.16.2 Pwerau mynediad ac ymyriadau

#### 6.16.2.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Gellir defnyddio'r pwerau mynediad o dan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 o ran materion safonau bwyd, mewn perthynas â safleoedd yr heddlu a'r rhan fwyaf o safleoedd y Goron (mae rhai eithriadau i rai aelodau o'r Teulu Brenhinol a rhai preswylfeydd Brenhinol) i ymchwilio i gwynion ac i gynnal ymyriadau yn yr un modd ag y maent mewn unrhyw fusnes bwyd arall. Felly mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i gael mynediad i safleoedd yr heddlu a'r rhan fwyaf o safleoedd y Goron.

Fodd bynnag, nid yw darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn berthnasol i'w Mawrhydi y Frenhines na'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn bersonol, nac i safleoedd a feddiannir ganddynt yn rhinwedd eu swyddi preifat fel eu preswylfeydd preifat yn Sandringham neu Highgrove.

Yn ogystal, gall Ysgrifennydd Gwladol fod wedi rhoi tystysgrif diogelwch cenedlaethol i ardystio na ellir arfer pwerau mynediad o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Os yw swyddog awdurdodedig yn ceisio mynediad i safleoedd y Goron ac yn cael ei hysbysu bod tystysgrif o'r fath wedi'i dyfarnu, mae gan y swyddog yr hawl i weld y dystysgrif neu gopi ohoni.

#### 6.16.2.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Mae cwmpas Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ymestyn i safleoedd yr heddlu, safleoedd y Goron ac i bobl yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron. Felly mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i fynd i mewn i safle'r heddlu a safle'r Goron i ymchwilio i gwynion ac i gynnal Ymyriadau yn yr un modd ag y maent mewn unrhyw fusnes bwyd arall.

Gellir defnyddio'r pwerau mynediad o dan Reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron, gan nad yw'r Rheoliadau'n cynnwys yr eithriadau penodol ar gyfer rhai aelodau o'r Teulu Brenhinol neu rai preswylfeydd Brenhinol a roddir gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas â safleoedd y Goron, ac yn ymarferol dylent fabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron ag y maent mewn perthynas â Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

#### 6.16.2.3 Ymddygiad ac amlder ymyriadau

Dylai busnesau bwyd yn safleoedd y Goron a'r heddlu, ac eithrio cyfleusterau arlwyo dros dro neu mewn caeau mewn gwersylloedd hyfforddi milwrol, gael eu cynnwys yn rhaglen yr Awdurdod Bwyd o ymyriadau rheolaidd yn unol â'r Cod Ymarfer.

Dylai ceginau parhaol sy'n gwasanaethu gwersylloedd hyfforddi milwrol fod yn destun ymyriadau ar adegau y maent yn cael eu defnyddio, o fewn ffiniau cyfyngiadau diogelwch a fydd yn dibynnu ar y sefydliad sy'n defnyddio'r cyfleuster ar y pryd.

Ni ddylai ceginau maes symudol fod yn destun ymyriadau gan yr Awdurdod Bwyd.

### 6.16.3 Categorïau o safleoedd y Goron

At ddibenion cael mynediad, mae safleoedd y Goron yn perthyn yn fras i dri chategori, er y gall safleoedd symud o un categori i'r llall rhwng arolygiadau.

**Grŵp 1** – mae’n cynnwys safleoedd a leolir ar dir y Goron lle na cheir unrhyw oblygiadau diogelwch (*security*) fel arfer, er enghraifft bwytai mewn amgueddfeydd neu Barciau Brenhinol. Dylid ymdrin â’r safleoedd hyn fel unrhyw fusnes bwyd arall.

Fel arfer, dylid ymweld â safleoedd Grŵp 1 heb drefnu ymlaen llaw.

**Grŵp 2** – mae’n cynnwys safleoedd â mynediad sy'n cael ei reoli ond lle nad oes llawer o oblygiadau diogelwch fel arfer. Mae’r rhan fwyaf o safleoedd y llywodraeth a’r heddlu’n perthyn i’r categori hwn. Maent yn debyg i lawer o fusnesau preifat a chanddynt systemau diogelwch.

Dylid trefnu ymweliadau cyntaf â safleoedd Grŵp 2 ymlaen llaw. Gellir cynnal ymweliadau yn y dyfodol heb roi gwybod ymlaen llaw, ond dylid cytuno ar drefniadau ar gyfer ymweliadau dilynol yn ystod yr arolygiad cyntaf a’u cadarnhau’n ysgrifenedig.

**Grŵp 3** – mae'n cynnwys safleoedd lle nad yw'n bosibl cael mynediad dirybudd oherwydd goblygiadau diogelwch a/neu ddiogelwch personol y swyddog awdurdodedig, er enghraifft Lluoedd Arfog EM, sefydliadau amddiffyn a diogelwch cenedlaethol, carchardai a chanolfannau remánd, a rhannau o safleoedd yr heddlu sy'n darparu ar gyfer carcharorion.

Dylid ymweld â safleoedd Grŵp 3 trwy drefnu hynny ymlaen llaw bob tro gyda’r cysylltiad priodol yn y sefydliad perthnasol, er enghraifft swyddog diogelwch y sefydliad amddiffyn, y prif swyddog neu gynrychiolwr enwebedig yn un o sefydliadau

Lluoedd Arfog EM, Llywodraethwr sefydliad gwasanaeth carchar, neu’r swyddog â gofal am safleoedd yr heddlu. Bydd hyn yn golygu y gall y swyddog awdurdodedig gael mynediad heb oedi gormodol. Gellir atgoffa’r person cyswllt o’r pŵer i gael mynediad os yw swyddog awdurdodedig o’r farn fod yr apwyntiad a gynigir yn rhy bell ymlaen llaw.

Bydd swyddogion awdurdodedig sydd heb dderbyn cliriad diogelwch yn destun gweithdrefnau rheoli ymwelwyr ac yn cael eu hebrwng drwy’r amser. Dylai fod gan swyddogion awdurdodedig gerdyn adnabod sy’n cynnwys llun ohonynt.

Gall fod adegau pan na fydd yn bosibl cynnal arolygiad neu barhau ag arolygiad mewn safleoedd Grŵp 3. Ni ddylid ystyried unrhyw gyfyngiad rhesymol o'r fath fel rhwystr.

Os yw’n ofynnol, dylid rhoi enw, dyddiad geni, a rhif cerdyn neu bas (os oes un) y swyddog a rhif cofrestru cerbyd y swyddog ymlaen llaw cyn ymweld â safle Grŵp 3.

Os nad yw Awdurdod Bwyd yn siŵr sut i ddosbarthu safle penodol sy'n dod o dan yr adran hon, rhaid ei drin fel safle Grŵp 3 a'i adolygu yn ddiweddarach, os oes angen.

Os bydd digwyddiad fel achos o wenwyn bwyd yn codi, gall fod yn ofynnol i swyddog ymweld â safle ar fyr rybudd, er ei bod fel arfer yn ofynnol rhoi rhybudd ymlaen llaw. Mae’n hanfodol ffonio safleoedd Grŵp 3 i roi gwybod iddynt fod y swyddog ar y ffordd, a gall arbed amser o ran cael mynediad i safleoedd Grŵp 2. O dan amgylchiadau o’r fath, bydd fel arfer yn dderbyniol rhoi rhybudd byr iawn am ymweliad o’r fath.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd wrth ymweld â'r rhannau hynny o safle lle mae carcharorion yn byw. Gellir trafod y fath faterion pan drefnir yr ymweliad.

Dylid cyfyngu arolygiadau i ardaloedd a ddefnyddir gan y busnes bwyd neu lle cedwir cofnodion sy’n ymwneud ag ef, oni bai fod yr ymweliad yn ymwneud ag ymchwilio i achos o salwch a gludir gan fwyd a’i bod yn ofynnol arolygu mannau eraill fel rhan o’r ymchwiliad.

Ni ddylai ymweliad rwystro nac ymyrryd â gweithgareddau milwrol.

Dylai swyddogion awdurdodedig gydymffurfio â gofynion diogelwch y sefydliad perthnasol, gan gynnwys archwilio bagiau a gwirio hunaniaeth.

### 6.16.3.1 Ffotograffau

Cyn cymryd unrhyw ffotograffau, gwneud unrhyw frasluniau (*sketches*) neu gymryd mesuriadau ar safleoedd Grŵp 3, dylai’r swyddog awdurdodedig drafod y fath faterion â’r swyddog sy’n ei hebrwng a chymryd unrhyw ofynion eraill i ystyriaeth.

Oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn darlunio achos posibl o dorri gofynion y ddeddfwriaeth, ni ddylai ffotograffau ar safleoedd Grŵp 3 gynnwys unigolion. Ni ddylai fod yn bosibl adnabod unrhyw unigolyn o unrhyw ffotograff a dynnwyd mewn carchar neu sefydliad remand.

### 6.16.4 Gorfodi

#### 6.16.4.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae adran 54(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn nodi nad yw'r Goron yn atebol yn droseddol os yw'n torri'r Ddeddf neu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion a wneir oddi tani. Mae hyn yn golygu na ellir erlyn y Goron os yw'n mynd yn groes i'r Ddeddf ac ati.

Fodd bynnag, gall Awdurdod Bwyd wneud cais, yn Is-adran Mainc y Frenhines yn yr Uchel Lys, am ddatganiad bod unrhyw weithred neu anwaith (*omission*) y Goron, sy'n gyfystyr â mynd yn groes i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn anghyfreithlon.

Dylid ystyried hunaniaeth perchennog y busnes bwyd dan sylw yn ofalus os bydd cwestiwn gweithredu o dan gyfraith bwyd yn codi.

Gellir erlyn arlwywyr contract sy'n gweithredu ar safle’r Goron gan nad ydynt yn ddarostyngedig i'r eithriad hwn. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus hefyd i'r cwestiwn ynghylch methiant pwy a achosodd y tramgwydd.

Er y gellir erlyn arlwywyr contract sy'n gweithredu ar safle'r Goron, gallai'r Goron ei hun fod yn gyfrifol am fethiannau strwythurol.

Dylid cyfeirio unrhyw gais o dan Adran 54(2) at yr Ysgrifennydd Gwladol neu Bennaeth Adran a'i anfon at y Cyfreithiwr ar gyfer yr Adran Lywodraeth berthnasol.

Dylid anfon y wŷs at brif swyddog corff Llywodraeth Anadrannol.

#### 6.16.4.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Yn wahanol i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn eithrio'r Goron os yw'n mynd yn groes i'r rheoliadau. Mae hyn yn golygu y gellir erlyn y Goron os yw'n mynd yn groes i'r rheoliadau.

Fel y soniwyd uchod, dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas â safleoedd y Goron ac, yn ymarferol, dylent fabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron ag y maent mewn perthynas Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

#### 6.16.4.3 Sefyllfa gweision sifil neu lywodraeth unigol

Er bod y Goron yn rhydd rhag cael ei herlyn o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gellir erlyn unigolion yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron yn yr un modd ag unrhyw berson arall. Felly gallai methu â chydymffurfio â darpariaethau cyfraith bwyd arwain at y risg o erlyn gwas sifil neu was llywodraeth unigol.

Ni ddylai Awdurdodau Bwyd ystyried erlyn gwas sifil neu lywodraeth unigol yn lle gweithredu yn erbyn y Goron. Dim ond os byddai'r amgylchiadau wedi arwain at erlyn unigolyn yn achos unrhyw fusnes arall y dylid ystyried gweithredu o'r fath.

### 6.16.4.4 Hysbysiadau Statudol

Nid yw cyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys ynddo'i hun yn golygu bod y sawl sy’n ei gael yn atebol yn droseddol. Felly gellir cyflwyno hysbysiadau o'r fath i'r Goron lle mai'r Goron yw gweithredwr y busnes bwyd dan sylw.

Dylid cyflwyno Hysbysiadau Gwahardd Brys i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Pennaeth Adran priodol a'u copïo i'r Cyfreithiwr fel y disgrifir uchod.

Er mwyn gallu gweithredu ar hysbysiadau o'r fath heb oedi gormodol, dylid eu copïo hefyd i'r person sy'n gyfrifol am y safle bwyd dan sylw, er enghraifft Llywodraethwr carchar, neu Brif Swyddog sefydliad milwrol.

Dylai Awdurdodau Bwyd wneud cais yn y ffordd arferol i Lys Ynadon am Orchymyn Gwahardd Brys ar safle cyfan neu ran o safle’r Goron, neu i atal gweithrediad proses neu driniaeth benodol neu ddefnydd o ddarn o offer mewn busnes sy’n cael ei redeg gan y Goron.

Er y gall Llys Ynadon roi Gorchymyn Gwahardd Brys, ni all roi Gorchymyn Gwahardd. Dim ond mewn achosion lle ceir euogfarn o dan y gyfraith fwyd berthnasol y gellir gwneud Gorchymyn Gwahardd.

Gall gweithredwr y busnes bwyd yn safle’r Goron apelio yn y ffordd arferol i Lys Ynadon yn erbyn Hysbysiad Gwella a gall hefyd ymddangos ei fod yn dadlau yn erbyn gosod Gorchymyn Gwahardd Brys.

Gall y Goron hefyd apelio yn erbyn gwrthod rhoi tystysgrif sy’n codi Gorchymyn Gwahardd Brys.

Gall Awdurdod Bwyd wneud cais am ddatganiad yn yr Uchel Lys os yw busnes sy'n cael ei redeg gan y Goron yn methu â chydymffurfio â Gorchymyn Gwahardd Brys.

### 6.16.4.5 Cyswllt â'r Prif Awdurdod/yr ASB

Dylai Awdurdodau Bwyd roi gwybod am unrhyw anawsterau a wynebir wrth orfodi cyfraith bwyd yn safleoedd y Goron i'r prif awdurdod, neu, os nad oes prif awdurdod neu os nad yw’n gallu helpu, i'r ASB.

# Pennod 7 Canllawiau pwnc-benodol

## 7.1 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw

### 7.1.1 Cyflwyniad

Mae'r Adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar reolaethau bwyd swyddogol a gorfodi agweddau ar Reoliadau (CE) Rhif 852/2004, (CE) Rhif 853/2004, (ECE) Rhif 2073/2005, Rheoliad (UE) 2017/625, 2019/624 a 2019/627 yn ymwneud â Molysgiaid Dwygragennog Byw (LBMs). Mae'r darpariaethau hyn sy'n ymwneud ag LBMs hefyd yn berthnasol i echinodermau byw, tiwnigogion a gastropodau morol, ac eithrio'r darpariaethau ar buro. Nid yw'r gofynion dosbarthu yn berthnasol i gastropodau morol nad ydynt yn bwydo trwy hidlo.

O dan Reoliad (UE) 2017/625, rhaid i'r Awdurdod Bwyd ddosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod y mae'n awdurdodi cynaeafu LBMs ohonynt. Gall ardaloedd cynhyrchu ac ailosod fod yn un o dri chategori dosbarthu yn ôl lefel yr halogiad ysgarthol mewn cnawd pysgod cregyn (gan ddefnyddio *E.coli* fel yr organeb ddangosol). Mae ardaloedd dosbarthedig yn cael eu monitro fel mater o drefn ar gyfer ansawdd microbiolegol, biotocsinau morol, ffytoplancton a halogiad cemegol.

### 7.1.2 Eithriad y Farchnad Leol (Meintiau Bach)

Nid yw Rheoliad (CE) 853/2004 yn berthnasol i gyflenwi symiau bach o gynnyrch cynradd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol. Ar gyfer LBMs, mae swm bach yn cyfateb i gyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell a gynaeafir mewn blwyddyn galendr. Gall yr uchafswm a gynaeafir mewn blwyddyn gynnwys gwahanol rywogaethau cyn belled â nad yw’r cyfanswm ar gyfer pob rhywogaeth na'r cyfanswm cyffredinol yn uwch. Manylir ar y lwfansau isod.

#### 7.1.2.1 Lwfansau ar gyfer symiau bach o Folysgiaid Dwygragennog Byw

| **Rhywogaeth** | **Uchafswm Blynyddol** |
|---|---|
| Cocos – *Cerastoderma edule* | 25.0 tunnell |
| Wystrys – *Ostrea edulis* a *Crassostrea gigas* | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Brenin – *Pecten maximus* | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Frenhines – *Aequipecten opercularis* | 10.0 tunnell |
| Cregyn gleision – *Mytilus spp.* | 20.0 tunnell |
| Molysgiaid dwygragennog byw eraill | 10.0 tunnell |
| Gastropodau morol | 20.0 tunnell |

Er eu bod wedi'u heithrio o ofynion manwl Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, mae'n ofynnol i gynaeafwyr sy'n cyflenwi meintiau bach gydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd ac olrhain a nodir yn Erthyglau 14 a 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002. Mae'r gofynion olrhain cyffredinol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) yn Rheoliad (UE) Rhif 931/2011 hefyd yn berthnasol.

Er mwyn i gynaeafwyr meintiau bach fodloni gofynion diogelwch bwyd Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, dylai gweithredwyr busnesau bwyd ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag LBMs fel halogiad microbiolegol, halogiad feirysol, biotocsinau morol a halogiad cemegol a sicrhau bod risgiau o'r fath dan reolaeth.

Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol i folysgiaid dwygragennog byw a gesglir at ddefnydd domestig preifat a gall Awdurdodau Bwyd ystyried ei bod yn rhesymol tybio, oni bai bod arwydd i'r gwrthwyneb, bod unigolion sy'n casglu symiau bach sy'n dod i gyfanswm o lai na 5kg mewn diwrnod yn casglu at ddefnydd domestig preifat. Mae'r lefelau hyn ar gyfer LBMs 'cyfan' ac yn cynnwys pwysau'r gragen. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal Awdurdodau Bwyd rhag mynd ar drywydd achosion lle mae amheuaeth o weithgarwch twyllodrus neu lle gallai iechyd y cyhoedd fod mewn perygl.

#### 7.1.3 Pectinidae (cregyn bylchog neu *scallops*) a gastropodau sy'n bwydo trwy hidlo sy'n cael eu cynaeafu o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig

Gellir cynaeafu cregyn bylchog ('pectinidae') a gastropodau sy'n bwydo trwy hidlo o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion Atodiad III, Adran VII, a Phennod IX o Reoliad (CE) Rhif 853/2004. Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod y cynnyrch a roddir ar y farchnad yn bodloni'r gofynion diogelwch bwyd a dylent fod â'u 'system eu hunain o wiriadau' i sicrhau hyn. Dylai Awdurdodau Bwyd gynnal gwiriadau dilysu o gydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd yn unol ag Erthygl 11 o Reoliad (UE) 2019/624.

#### 7.1.4 Dulliau trin a ganiateir

Mae LBMs sy'n destun triniaeth a ganiateir neu brosesu arall, er enghraifft rhewi, yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n ymwneud ag LBMs hyd at y pwynt lle mae prosesu yn dechrau mewn sefydliad cymeradwy. Ar ôl y pwynt hwnnw, cânt eu hystyried i fod yn gynhyrchion pysgodfeydd (gweler yr adran ar gynhyrchion pysgodfeydd).

Nodir y dulliau trin a ganiateir ar gyfer molysgiaid dwygragennog o ardaloedd Dosbarth B neu Ddosbarth C yn Atodiad III, Adran VII, Pennod II (5) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac, os yw'n briodol, Atodiad III, Pennod IX o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

#### 7.1.5 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn

Swyddog cyswllt pysgod cregyn yr Awdurdod Bwyd fydd pwynt cyswllt cyntaf yr ASB mewn perthynas â materion nad ydynt yn rhai arferol yn ymwneud â gorfodi'r Rheoliadau a grybwyllir yn 7.1.1.

Mae'n hanfodol ar gyfer gorfodi'r rheoliadau yn effeithiol bod Awdurdodau Bwyd cyfagos, gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yn cynnal trefniadau cyswllt effeithiol.

Dylai pob grŵp cyswllt pysgod cregyn lleol gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, Labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru a labordai Rheolaethau Swyddogol eraill a ddefnyddir i fonitro pysgod cregyn.

Dylai grwpiau cyswllt pysgod cregyn lleol ystyried cynnal cyfarfodydd cyfnodol gydag aelodau o'r diwydiant pysgod cregyn lleol, yn enwedig os oes anawsterau o ran gorfodi neu ddehongli'r rheoliadau.

Dylai swyddogaethau'r grwpiau cyswllt gynnwys:

- nodi ardaloedd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig lleol (os oes rhai) (gan weithio gyda'r diwydiant)
- cynlluniau samplu ar y cyd i fonitro ansawdd LBMs o ardaloedd dosbarthedig
- trefniadau ar gyfer rhoi dogfennau cofrestru
- trefniadau ar gyfer cyhoeddi Hysbysiadau Cau sy'n cynnwys dyfroedd o fwy nag un ardal Awdurdod Bwyd
- trefniadau ar gyfer cadw/galw molysgiaid dwygragennog y mae unrhyw Hysbysiad Cau yn effeithio arnynt yn ôl
- gweithdrefnau hysbysu lleol effeithiol i gynghori partïon â diddordeb am y camau a gymerir o dan y rheoliadau (lle mae angen hysbysiad o’r fath yn unol â'r Rheoliadau)
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng amryw asiantaethau a sefydliadau i gynorthwyo gyda nodi/rhagweld problemau posibl, gollyngiadau ac ati.

### 7.1.6 Gofynion ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig

Mae'r ASB yn dadansoddi canlyniadau monitro microbiolegol rheolaethau swyddogol ar gyfer yr holl feysydd cynhyrchu pysgod cregyn dosbarthedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion dosbarthu yn Rheoliad (UE) 2019/627:

- Dosbarth A (80% o ganlyniadau sy'n llai na neu'n hafal i 230 *E.coli* / 100g, dim canlyniadau sy'n fwy na 700 *E.coli* / 100g) – gellir cynaeafu LBMs i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl
- Dosbarth B (rhaid i 90% o samplau fod yn llai na neu'n hafal i 4,600 *E.coli* / 100g, rhaid i'r holl ganlyniadau fod yn is na 46,000) – gall LBMs gael eu bwyta gan bobl ar ôl iddynt gael eu:
  - puro mewn sefydliad puro cymeradwy
  - ailosod am o leiaf mis mewn ardal ailosod dosbarth A cymeradwy
  - trin â gwres neu eu sterileiddio gan fodloni gofynion Cyfraith y DU mewn sefydliad cymeradwy

- Dosbarth C (≤ 46,000 *E.coli* / 100g) – gall LBMs gael eu bwyta gan bobl dim ond ar ôl iddynt gael eu:
  - hailosod am o leiaf dau fis mewn ardal ailosod dosbarth B cymeradwy cyn cael triniaeth mewn canolfan buro gymeradwy
  - ailosod am o leiaf dau fis mewn ardal ailosod dosbarth A cymeradwy; neu
  - trin â gwres neu eu sterileiddio gan fodloni gofynion cyfraith y DU mewn sefydliad cymeradwy

Ym mhob achos, rhaid bodloni'r safonau iechyd yn Atodiad III Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 a'r meini prawf microbiolegol yn Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005.

Ar gyfer ardaloedd gwaharddedig – ni ddylid cynaeafu LBMs o ardaloedd sydd heb eu dosbarthu neu sydd wedi'u cau.

Mae gwelyau Dosbarth B sy'n cydymffurfio'n ymylol (o fewn 5% i'r gofynion deddfwriaethol) yn cael eu cadw ar restr cydymffurfio ymylol a'u monitro'n agos.

Cynhelir adolygiad blynyddol o'r holl ddosbarthiadau gwelyau pysgod cregyn ym mis Awst i sicrhau bod yr ardaloedd cynhyrchu yn cydymffurfio. Mae dosbarthiadau hefyd yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn fel rhan o system gydymffurfio dreigl a gwneir newidiadau i ddosbarthiadau pan fo angen.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y protocol dosbarthu ar [wefan yr ASB](#).

Cyhoeddir rhestr o feysydd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig ar [wefan yr ASB.](#)

Mae unrhyw newidiadau i ddosbarthiadau pysgod cregyn neu ddosbarthiadau pysgod cregyn newydd sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn yn cael eu hysbysu trwy'r broses ddiweddaru dros dro ac anfonir llythyr at randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys Awdurdodau Bwyd. Gall y newidiadau hyn gynnwys uwchraddio, israddio, dosbarthiadau newydd, ail-ddosbarthu, cysgadrwydd (*dormancy*), dad-ddosbarthu a gwaharddiadau. Dylai Awdurdodau Bwyd anfon y llythyr diweddaru dros dro ar statws dosbarthu ardaloedd cynhyrchu i'r diwydiant pysgod cregyn lleol gan gynnwys cynaeafwyr, trinwyr, gweithredwyr canolfannau anfon a phuro ac unigolion a sefydliadau eraill y mae'r newidiadau yn debygol o effeithio arnynt yn sylweddol. Mae'r brif restr ddosbarthu ar wefan yr ASB yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

### 7.1.7 Monitro dogfennau cofrestru

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal archwiliadau rheolaidd o'r defnydd o ddogfennau cofrestru a'r ffordd y cânt eu llenwi i wirio eu cywirdeb. Dylid archwilio'r dogfennau fel rhan o'r arolygiad dosbarthu, canolfannau puro neu sefydliadau prosesu (gweler Pennod 7 o'r Cod). Fodd bynnag, gellir cynnal gwiriadau ar unrhyw ran o'r gadwyn olrhain.

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sy'n rhoi LBMs ar y farchnad gwblhau dogfen gofrestru (oni bai eu bod yn cael awdurdodiad cludo parhaol) i nodi pob swp (*batch*) sy'n cael ei gynaeafu o ardaloedd cynhyrchu ac ailosod dosbarthedig. Rhaid i'r ddogfen gofrestru gyd-fynd â phob swp hyd at y

pwynt y mae’r pysgod cregyn yn cyrraedd canolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu. Rhaid i'r dyddiad derbyn gael ei gofnodi ar y ddogfen gofrestru gan weithredwr y busnes bwyd yn y ganolfan ddosbarthu, y ganolfan buro, yr ardal ailosod, neu'r sefydliad prosesu pan dderbynnir y swp. Mae'n ofynnol i weithredwyr a chasglwyr/cynaeafwyr gadw dogfennau cofrestru am o leiaf 12 mis[70].

Mae'r un gofynion yn berthnasol i sypiau o gregyn bylchog a gastropodau nad ydynt yn bwydo trwy hidlo a gynaeafir o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig. Er nad yw statws dosbarthu'r ardal gynhyrchu (hynny yw, Dosbarth A, B neu C) yn briodol, rhaid disgrifio lleoliad yr ardal gynhyrchu mor fanwl ag sy'n ymarferol neu gyda rhif cod (er enghraifft cyfesurynnau ICES, grid OS cyfeiriadau ac ati).

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol o fanteision masnachol camddefnyddio gweithdrefn y ddogfen gofrestru, er enghraifft trwy awgrymu bod LBMs wedi'u cymryd o ddyfroedd ag ansawdd microbiolegol uwch.

Un dull o wirio sypiau a ddisgrifir fel rhai o ardaloedd dosbarth A, B ac C yw dadansoddi samplau o bysgod cregyn i asesu'r safon ficrobiolegol yn erbyn safon yr ardal ddosbarthedig y daethant ohoni. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus, a rhaid cydnabod y gallai monitro *E. coli* mewn pysgod cregyn o unrhyw un ardal gynhyrchu ddangos canlyniadau amrywiol iawn, a hynny dros dro ac yn ofodol, oherwydd ffactorau amgylcheddol a ffactorau eraill, er enghraifft gallai ardaloedd dosbarth C esgor ar ganlyniadau unigol o bryd i'w gilydd <230 *E.coli* / 100g (am y rheswm hwn mae dosbarthiadau yn seiliedig ar gyfres amser o ddata yn hytrach na chanlyniadau unigol). Felly, ni ddylid ystyried bod sampl swp sy'n dychwelyd canlyniad unigol sy'n bodloni gofynion categori dosbarthu penodol yn brawf pendant bod y swp yn tarddu o ardal gynhyrchu o'r un dosbarth. Dylai Awdurdodau Bwyd gyfeirio at statws dosbarthu'r ardal gynhyrchu/ailosod berthnasol a'r data monitro rheolaethau swyddogol sydd ar gael ar wefannau'r ASB a Cefas yn y drefn honno.

Nid yw'n bosibl i Awdurdodau Bwyd fonitro pob glaniad yn eu hardal, na chanfod camddefnydd o ddogfennau cofrestru trwy ganolbwyntio adnoddau ar samplu yn unig. Rhaid i Awdurdodau Bwyd ymgyfarwyddo â'r gweithgareddau masnachol mewn porthladdoedd yn eu hardal leol a gweithredu rhywfaint o fonitro ar laniadau LBMs a physgod cregyn eraill (er enghraifft cregyn bylchog). Gellir cyflawni hyn trwy gyswllt effeithiol a chyfnodol ag arolygiaethau statudol eraill, fel Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru. Gallant ddarparu gwybodaeth hanfodol arall er mwyn helpu i wirio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennau cofrestru a gweithgareddau cynaeafwyr, er enghraifft natur dymhorol y cynaeafu, isafswm meintiau glanio, gwiriadau ar b’un a gafodd pysgod cregyn eu cynaeafu o dan y trwyddedau priodol.

Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am sefydliadau sy'n derbyn sypiau o LBMs sicrhau bod sefydliadau ond yn derbyn pysgod cregyn gyda'r dogfennau cofrestru priodol. Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n derbyn pysgod cregyn o'r tu allan i'w hardal Awdurdod Bwyd gysylltu â'r Awdurdod Bwyd dyfarnu wrth archwilio dogfennau

[70] Rheoliad (CE) 853/2004 Atodiad III, Pennod 1 (6).

cofrestru. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd yn y broses ddilysu hon, cynghorir Awdurdodau Bwyd i gadw cofnod o'r holl ddogfennau cofrestru a ddyfarnwyd ganddynt am 12 mis, gan gynnwys manylion y cynaeafwyr y cawsant eu rhoi iddynt a'r ardaloedd cynhyrchu y mae'r cynaeafwr angen y dogfennau cofrestru ar eu cyfer.

Yn ogystal â chyswllt lleol, anogir Awdurdodau Bwyd hefyd i fod â gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo i olrhain a gwirio dilysrwydd dogfennau cofrestru y maent wedi'u cyhoeddi. Er enghraifft, defnyddio un neu gyfuniad o daflenni carbon lliw y gellir eu rhwygo i ffwrdd, stampiau boglynnog (*embossed*) yr Awdurdod Bwyd ar y cyd â chyfeirnodau unigryw ar ddogfennau er mwyn helpu i sicrhau nad yw dogfennau cofrestru yn hawdd eu ffugio. Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn ddoeth cyfyngu ar nifer y dogfennau a roddir i bob cynaeafwr neu ofyn am weld dogfennau sydd wedi'u llenwi'n flaenorol er mwyn helpu i fonitro/tracio cynnyrch yn effeithiol at ddibenion olrhain a gwirio.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol y gall dogfennau cofrestru gael eu cwblhau ar ran y casglwr, er enghraifft, gan 'asiant', ar yr amod bod yr holl wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â'r swp wedi'i chwblhau'n briodol. Rhaid i'r cynaeafwr neu gynaeafwyr cyflenwi allu cefnogi'r datganiad a wneir ar y ddogfen gofrestru gan yr 'asiant'. Efallai yr hoffai Awdurdodau Bwyd ystyried diwygio eu ffurflenni i adlewyrchu hyn.

#### 7.1.8 Samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw (LBMs) gan weithredwyr busnesau bwyd

Rhaid i weithredwyr sefydliadau prosesu cymeradwy, neuaddau ocsiwn a chanolfannau puro/dosbarthu fod â systemau gwirio eu hunain ar waith, gan gynnwys trefniadau profi labordy a masnachol, i sicrhau bod yr LBMs yn cydymffurfio â'r:

- meini prawf diogelwch bwyd microbiolegol a osodwyd ar gyfer LBMs yn Atodiad I, Pennod I o Reoliad (CE) Rhif 2073/2005
- safonau iechyd y cyfeirir atynt yn Atodiad III, Adran VII, Pennod V o Reoliad (CE) Rhif 853/2004
- terfynau halogion cemegol yn Rheoliad (CE) Rhif 1881/2006

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhagnodi pa mor aml y dylai gweithredwyr busnesau bwyd gynnal y profion hyn, ond rhaid iddynt fod yn unol â system rheoli diogelwch bwyd y busnes, er enghraifft HACCP, a dylent adlewyrchu natur a maint y busnes[71].

Wrth benderfynu pa lefel o samplu a phrofi sy'n briodol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi sylw i egwyddorion HACCP ac unrhyw gyngor a gyhoeddir gan yr ASB neu WLGA neu a gynhwysir mewn canllawiau gwirfoddol a gynhyrchir gan gymdeithasau masnach perthnasol neu Seafish.

[71] Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd

### 7.1.9 Labordai a ddefnyddir mewn cysylltiad â sefydliadau dosbarthu, puro a phrosesu

Nid yw'n ofynnol i labordai sy'n cynnal profion ar gyfer busnesau bwyd gael eu hachredu. Fodd bynnag, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod canlyniadau profion yn gadarn er mwyn dilysu a gwirio eu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn gywir. Mae labordai achrededig wedi bod yn destun mesurau rheoli ansawdd cynhwysfawr felly gall defnyddio labordy achrededig gan ddefnyddio dull y mae'r labordy wedi'i achredu ar ei gyfer roi mwy o hyder i weithredwyr busnesau bwyd yng nghanlyniadau'r profion. Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd allu dangos i'r Awdurdod Bwyd sut y maent yn sicrhau bod canlyniadau profion yn ddibynadwy ac yn gadarn, a dylid cofnodi a chynnwys tystiolaeth o hyn yn eu system rheoli diogelwch bwyd. Dylai gweithredwyr busnesau bwyd ac Awdurdodau Bwyd ystyried a yw'r labordy wedi'i achredu ar gyfer y dull(iau) perthnasol ac a yw'n cymryd rhan mewn profion hyfedredd fel rhan o gynllun sicrhau ansawdd allanol cydnabyddedig. Gellir defnyddio dulliau amgen os cânt eu dilysu yn erbyn y dull cyfeirio yn unol â'r meini prawf yn EN/ISO 16140.

### 7.1.10 Profi molysgiaid dwygragennog byw yn ficrobiolegol

Mae'r dull cydnabyddedig cyfredol ar gyfer profi LBMs yn ficrobiolegol wedi'i atodi i'r papur o'r enw ‘Modification of the standard method used in the United Kingdom for counting Escherichia coli in live bivalve molluscs’, a gyhoeddwyd yng Nghyfrol 1 o Communicable Disease and Public Health ar 3 Medi 1998. Y dull cyfeirio cyfredol ar gyfer dadansoddi *E.coli a* bennir yn Rheoliad yr UE (CE) Rhif 2073/2005 yw'r dechneg canfod a'r Rhif Mwyaf Tebygol (MPN) a bennir yn ISO 16649-3. Mae'r dull Rhwystriant (*Impedance*) hefyd yn ddewis arall sy’n cael ei dderbyn ac sydd wedi’i ddilysu yn lle'r dull MPN ar gyfer canfod *E.coli* mewn LBMs.

### 7.1.11 Biotocsinau morol

Mae'r terfynau rheoleiddiol a'r dulliau cydnabyddedig ar gyfer canfod biotocsinau morol wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| **Grŵp Tocsin a Therfyn Rheoleiddio (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004)** | **Dull Cyfeirio (Atodiad V o Reoliad (CE) Rhif 2019/627)** | **Dull Dadansoddi yng Nghymru** |
|---|---|---|
| ASP – 20 mg o asid domoic/kg o gnawd pysgod cregyn | HPLC/UV | HPLC/UV – pob rhywogaeth |
| PSP – 800 µg o saxitoxin eq/kg o gnawd pysgod cregyn | HPLC | HPLC/FLD – pob rhywogaeth |
| Tocsinau lipoffilig (LT)<br>160 µg asid okadaic eq/kg<br>3.75mg yessotoxin eq/kg<br>160 µg azaspiracids eq/kg | LCMS/MS | LCMS/MS – wystrys, cocos, cyllyll môr (*razor clams*), cregyn morwyn mwyaf (*hard clams*), cregyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | gleision a chregyn bylchog |

Mae'r labordy yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i’r Awdurdodau Bwyd perthnasol a'r ASB am ganlyniadau Rheolaethau Swyddogol ar Fiotocsinau a Ffytoplancton ac fe'u cyhoeddir yn bob wythnos ar wefan yr ASB.

### 7.1.12 Profion rheolaethau swyddogol – samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw gan Awdurdodau Bwyd

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Bwyd wirio cynlluniau rheoli diogelwch bwyd mewn sefydliadau dosbarthu, puro a phrosesu. Gall rhan o'r broses ddilysu hon gynnwys cymryd samplau i'w dadansoddi mewn labordy rheolaethau swyddogol achrededig. Dylai gweithredwyr busnesau bwyd ymchwilio i unrhyw ganlyniadau sy'n mynd yn groes i’r gofynion diogelwch bwyd yn y lle cyntaf a chymryd camau unioni a allai gynnwys samplu dilynol, tynnu/galw cynhyrchion yn ôl. Dylai'r Awdurdod Bwyd fynd ar drywydd unrhyw ymchwiliad i wirio bod camau unioni wedi'u cymryd.

Lle bo angen, dylai Awdurdodau Bwyd gyfathrebu canlyniadau profion nad ydynt yn cydymffurfio i Awdurdodau Bwyd cyfagos, gweithredwr y busnes bwyd a'r ASB drwy anfon e-bost at lasupportwales@food.gov.uk

Pwrpas samplu gan Awdurdodau Bwyd yw gwirio cydymffurfiaeth busnesau bwyd â'r gofynion priodol ar bob cam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu. Rhaid dilyn canlyniadau sy'n anghyson â chofnodion y gweithredwr ei hun ag ymchwiliadau a phrofion pellach gan weithredwr y busnes bwyd.

### 7.1.13 Safonau ar gyfer canolfannau puro

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn amlinellu'r gofynion strwythurol a hylendid ar gyfer canolfannau puro. Gellir dod o hyd i wybodaeth am safonau gofynnol systemau puro mewn cyfres o lawlyfrau gweithredu ar gyfer y gwahanol fathau o systemau puro a ddefnyddir yn y DU a dogfen ganllaw ‘Procedures to Minimise Risks to Food Safety in Bivalve Mollusc Purification’ a gyhoeddwyd gan Seafish. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys argymhellion sydd wedi'u cynllunio i helpu proseswyr pysgod cregyn i gyflawni safonau ansawdd uchel, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion y rheoliadau. Mewn rhai achosion, mae'r canllawiau'n gwneud argymhellion ar gyfer arfer da yn y diwydiant, sy'n mynd y tu hwnt i ofynion deddfwriaeth. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Seafish.

Gall Awdurdodau Bwyd gyfeirio at y ddogfen ganllaw i sefydlu dull cyson o ymdrin â gofynion y rheoliadau ond rhaid iddynt osgoi defnyddio, i gefnogi camau gorfodi ffurfiol, y rhannau hynny sydd wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni arfer da yn y diwydiant a safonau o ansawdd uchel. Mae canllaw pellach ar gael i gynorthwyo arolygiadau Awdurdodau Bwyd o sefydliadau puro.

### 7.1.14 Molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill nad ydynt yn bodloni gofynion

Yn unol â Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, dylid trin unrhyw LBM neu bysgod cregyn eraill nad ydynt wedi'u cynhyrchu, eu prosesu na'u

dosbarthu yn unol â'r rheoliadau o dan ddibenion Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Os na fodlonwyd gofynion diogelwch bwyd, gall y swyddog awdurdodedig roi rhybudd i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd, hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl, na ddylid defnyddio'r bwyd i'w fwyta gan bobl na'i symud ac eithrio ei symud i le penodol. Gall y swyddog awdurdodedig hefyd atafael y bwyd a mynd ag ef ymaith, a bydd Ynad Heddwch yn delio ag ef[72].

### 7.1.15 Trosglwyddo grawn (*seed*) molysgiaid dwygragennog byw i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig

Gellir trosglwyddo grawn LBMs o ardaloedd nad ydynt wedi'u dosbarthu fel ardaloedd cynhyrchu i'w 'tyfu ymlaen' o fewn ardal gynhyrchu o unrhyw ddosbarth. Rhaid i LBMs o'r fath fod yn 'bysgod cregyn grawn' go iawn (pysgod cregyn sy'n rhy fach i'w marchnata). Mewn pysgodfeydd a reoleiddir at ddibenion cadwraeth o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967, dim ond ar gymeradwyaeth deiliad y Gorchymyn Rheoleiddio ar gyfer y bysgodfa honno y gellir gwneud trosglwyddiadau ac mewn trafodaeth â'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod o ran bioddiogelwch.

Caniateir trosglwyddo 'grawn pysgod cregyn', ar yr amod eu bod yn aros yn yr ardal gynhyrchu ddosbarthedig am gyfnod o ddim llai na chwe mis cyn iddynt gael eu cynaeafu i'w bwyta gan bobl. Nid yw hyn yn caniatáu symud LBMs llawndwf neu rai sydd wedi datblygu'n rhannol o ardal wedi'i dosbarthu er mwyn eu tyfu ymhellach yn y tymor byr cyn eu marchnata. Fe'i cyfyngir i hadu ardaloedd newydd neu ail-hadu ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig presennol. Os yw ardaloedd newydd yn cael eu hadu, rhaid eu dosbarthu cyn y gellir cynaeafu. Rhaid i gynaeafwyr hysbysu'r Awdurdod Bwyd perthnasol os ystyrir unrhyw symudiadau o'r fath.

### 7.1.16 Hysbysiadau Cau (cau ardaloedd cynaeafu Molysgiaid Dwygragennog Byw dros dro)

Gweler hefyd Bennod 7 o'r Cod. Pan fydd canlyniadau *E.coli* LBMs yn cael eu cofnodi uwchlaw'r lefelau trothwy, bydd Sefyllfa Weithredu yn ei sbarduno ar gyfer pob dosbarthiad. Sefyllfa Weithredu yw lle mae angen i'r Awdurdod Bwyd weithredu ar unwaith i ddarparu system rheoli ymatebo ar gyfer iechyd y cyhoedd. Dylai'r Awdurdod Bwyd weithredu mesurau rheoli tymor byr i amddiffyn iechyd y cyhoedd, trwy gychwyn ei Gynllun Gweithredu Lleol (LAP). Manylir ar enghreifftiau o senarios canlyniad uchel a mesurau rheoli tymor byr yng nghanllawiau'r Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) ar wefan yr ASB, er enghraifft, cyhoeddi Hysbysiad Cau Dros Dro (TCN) neu israddio dosbarthiad dros dro a fyddai'n sicrhau bod LBMs yn destun triniaeth ychwanegol cyn cael eu gwerthu i'w bwyta gan bobl. Nodir gweithdrefnau yn y protocol dosbarthu ac yng nghanllawiau'r LAG ar wefan yr ASB.

Dylid ystyried TCN hefyd lle mae ardal gynhyrchu ddosbarthedig wedi bod yn destun llygredd sydyn neu ddamweiniol, gan gynnwys gollyngiadau carthion heb ganiatâd ac argyfyngus, sy'n debygol o gael effaith andwyol ar LBMs mewn ardal gynhyrchu ddosbarthedig. Os bydd toriad rheoliadol o fiotocsinau morol, ar gyfer canlyniadau sy'n hafal i'r terfynau rheoliadol neu'n uwch na hynny, rhaid i'r Awdurdod Bwyd

[72] Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

weithredu mesurau rheoli tymor byr i amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy gau'r ardal gynhyrchu a chyhoeddi TCN, yn ogystal â sbarduno eu Cynllun Gweithredu Lleol. Nodir gweithdrefnau yng nghanllaw'r LAG ar wefan yr ASB.

Mae dolen i'r Hysbysiad Cau enghreifftiol i'w gweld yn 7.1.19. Dylid copïo hwn i'r ASB trwy lasupportwales@food.gov.uk. Mae unrhyw berson sy'n torri neu'n methu â chydymffurfio â'r cyfnod cau yn cyflawni trosedd gan fynd yn groes i delerau Rheoliad 17(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

### 7.1.17 Adrodd am weithgarwch cynaeafu anghyfreithlon

Mae'n drosedd gosod LBMs ar y farchnad sydd wedi'u cynaeafu o ardaloedd nad ydynt wedi'u dosbarthu, neu sy'n anaddas am resymau diogelwch bwyd. Mae hefyd yn anghyfreithlon i fusnesau bwyd roi cregyn bylchog a gastropodau nad ydynt yn bwydo trwy hidlo a gynaeafir o'r tu allan i ardaloedd dosbarthedig ar y farchnad, oni bai eu bod yn bodloni gofynion diogelwch bwyd ar gyfer halogiad microbiolegol, biotocsinau morol neu gemegol.

Dylai Awdurdodau Bwyd fonitro ardaloedd cynaeafu o fewn eu cylch gwaith, gan gynnwys ardaloedd y mae TCNs yn effeithio arnynt i sicrhau nad yw cynaeafu anghyfreithlon yn digwydd. Pan ddaw awdurdodau yn ymwybodol o'r achosion hyn, mae angen iddynt ystyried gwyliadwriaeth briodol a gorfodi dilynol. Anogir Awdurdodau Bwyd i sefydlu perthnasoedd gwaith agos â sefydliadau eraill a allai gynorthwyo i frwydro yn erbyn yr arfer, er enghraifft trwy wyliadwriaeth, hysbysu am weithgarwch pysgota mewn dyfroedd o dan gyfyngiadau, cymorth i ddilysu gwybodaeth mewn dogfennau cofrestru ac ati.

Rhaid rhoi gwybod i Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB am bob achos o gynaeafu anghyfreithlon. Gellir cysylltu â'r Uned trwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Gall Awdurdodau Bwyd gysylltu ag Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB i gael cyngor pellach ar wyliadwriaeth a gorfodi.

### 7.1.18 Marciau adnabod ar bysgod cregyn

Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r defnydd o farciau adnabod ar bysgod cregyn, rhaid i Awdurdodau Bwyd, o bryd i'w gilydd, ddewis swp neu lwyth o safle manwerthu neu fwyty. Bydd angen i Awdurdodau Bwyd olrhain y swp neu'r llwyth yn ôl trwy neuadd ocsiwn, canolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu, i'r casglwyr gwreiddiol i sefydlu bod cofnodion sy'n ymwneud ag olrhain y swp a'r marc adnabod mewn trefn. Rhaid i Awdurdodau Bwyd gydweithredu ag Awdurdodau Bwyd eraill mewn unrhyw wiriad ar hap trwy'r gadwyn gynhyrchu a dosbarthu.

Cofiwch: bydd manwerthwyr yn cadw'r label/tagiau adnabod sydd ynghlwm wrth ddeunydd pecynnu LBMs nad ydynt mewn pecynnau maint defnyddwyr unigol am o leiaf 60 diwrnod[73] ar ôl rhannu'r cynnwys er mwyn helpu i olrhain cynnyrch pe bai adroddiad o salwch.

[73] Rheoliad (CE) 853/2004 Atodiad III, Adran VII, Pennod 7(03)

Os yw unrhyw wiriadau yn awgrymu nad yw dogfennau cofrestru, marciau adnabod neu gofnodion mewn trefn, rhaid i'r Awdurdod Bwyd gynnal ymchwiliad i sefydlu lle nad yw'r gweithdrefnau wedi'u dilyn yn iawn. Mewn achosion o'r fath rhaid iddynt hefyd ystyried cynyddu amlder gwiriadau ar hap trwy'r gadwyn ddosbarthu nes eu bod yn fodlon bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

### 7.1.19 Ffurflenni templed a nodiadau canllaw ychwanegol

Mae’r ffurflenni templed a’r nodiadau canllaw canlynol ar gael trwy lwyfan cyfathrebu’r ASB:

- Dogfen Gofrestru LBM/Pysgod Cregyn Byw enghreifftiol
- Hysbysiad enghreifftiol o gau ardal(oedd) cynhyrchu dosbarthedig dros dro (molysgiaid dwygragennog byw/pysgod cregyn)
- Dogfen Holi ac Ateb ar gyfer molysgiaid dwygragennog byw

## 7.2 Materion sy’n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd

### 7.2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar weithredu a gorfodi agweddau ar Reoliadau (CE) Rhif 852/2004, Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 a Rheoliad (UE) 2017/625 a 2019/627 sy’n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd.

### 7.2.2 Awdurdod Bwyd

Yr ASB yw Awdurdod Bwyd Canolog y DU sydd â phrif gyfrifoldeb am y rheoliadau hyn. Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodi'r rheoliadau ar eu lefel leol, ac felly'n cymeradwyo sefydliadau cynhyrchion pysgodfeydd, yn cofrestru rhai marchnadoedd a chychod pysgota, ac fel arall yn gorfodi'r rheoliadau.

### 7.2.3 Cwmpas cymeradwyo

Nid yw darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol i fanwerthu oni nodir hynny’n benodol. Felly nid oes angen cymeradwyo sefydliad manwerthu sy'n cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i'r defnyddiwr terfynol. Fodd bynnag, byddai angen cymeradwyaeth pan gynhelir gweithrediadau i gyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i sefydliadau eraill oni bai bod y cyflenwad hwnnw i sefydliadau manwerthu eraill yn unig a'i fod yn weithgarwch ymylol, lleol a chyfyngedig.

Mae'n rhaid i gychod ffatri a rhewi, arwerthiannau a marchnadoedd cyfanwerthu gael eu cymeradwyo a rhaid eu harolygu’n rheolaidd i wirio a ydynt yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, hylendid, rheolyddion tymheredd a gofynion strwythurol a sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i Reoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran VIII, Penodau I a II.

### 7.2.4 Cyflenwad uniongyrchol o feintiau bach o bysgod

Nid yw’r Rheoliadau yn berthnasol i gyflenwi symiau bach o gynhyrchion pysgodfeydd (hynny yw, cynhyrchion cynradd) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr yn uniongyrchol. At y dibenion hyn, mae swm bach yn cael ei ystyried yn gyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell o gynhyrchion pysgodfeydd (heb gynnwys molysgiaid dwygragennog byw)

mewn blwyddyn galendr. Er nad yw'r rheoliadau'n berthnasol i'r lwfans hwn, rhaid i'r cyflenwr sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn bodloni’r gofynion diogelwch bwyd a nodwyd ar gyfer gosod cynhyrchion pysgodfeydd ar y farchnad.

### 7.2.5 Amodau yn ystod ac ar ôl glanio

Mae cyfraith y DU yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygiadau a gwiriadau cyfnodol o addasrwydd cynhyrchion pysgodfeydd i'w bwyta gan bobl adeg eu glanio neu cyn y gwerthiant cyntaf. Pan werthir cynhyrchion pysgodfeydd mewn marchnad sy'n gysylltiedig â'r glaniadau, rhaid i'r arolygiadau hyn gael eu cynnal yn y neuadd ocsiwn neu'r farchnad gyfanwerthu honno. Fel rheol nid oes angen cynnal arolygiadau adeg glanio’r cynhyrchion. Mae archwiliad organoleptig o'r cynhyrchion pysgodfeydd fel arfer yn bodloni'r gofyniad hwn.

Gall Awdurdod Bwyd awdurdodi trosglwyddo cynhyrchion pysgodfeydd o'r man glanio (cei) i gynwysyddion i'w danfon ar unwaith i sefydliad cymeradwy neu ocsiwn neu farchnad gyfanwerthu er mwyn i'r gwiriadau gael eu cynnal yno. Fel rheol, nid yw gohirio'r gwiriadau i'w cynnal yn ddiweddarach mewn marchnad ocsiwn neu gyfanwerthu yn gofyn am unrhyw drefniadau arbennig gyda'r Awdurdod Bwyd sy'n derbyn y cynhyrchion.

Fodd bynnag, rhaid i’r broses o ohirio gwiriadau i sefydliad cymeradwy fod yn destun cyswllt a chytundeb gyda'r Awdurdod Bwyd sy'n derbyn a rhoi sylw i gofnod cydymffurfio'r sefydliad sy'n ei dderbyn a hyder yn ei fesurau rheoli. Rhaid tynnu awdurdodiad gwiriadau gohiriedig o'r fath yn ôl os oes unrhyw amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â gofynion y rheoliadau. Os yw archwiliad organoleptig yn codi amheuaeth am ba mor ffres yw’r cynnyrch, gall yr Awdurdod Bwyd ystyried cyflwyno'r cynnyrch i'w ddadansoddi'n gemegol neu am archwiliad microbiolegol.

Mewn perthynas â glanio pysgod ffres, nid yw'r gwiriadau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau yn rhagfarnu gwiriadau eraill sy'n ofynnol o dan reoliadau safonau marchnata'r DU gan gyrff statudol eraill. Rhaid i swyddogion awdurdodedig, lle bo angen, gysylltu ag arolygwyr statudol eraill, er enghraifft Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), neu Gyfarwyddiaeth Marine Scotland i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn briodol.

### 7.2.6 Gwybodaeth am safonau i'w defnyddio

Mae canllawiau ar ofynion Rheoliadau'r UE sy'n ymwneud â'r diwydiant bwyd môr ar gael gan Seafish. Gall Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r canllawiau fel cyfeiriad wrth sefydlu dull cyson o ymdrin â gofynion y rheoliadau. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ofalus ac osgoi defnyddio, i gefnogi camau gorfodi ffurfiol, y rhannau hynny o ganllawiau Seafish sydd wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni arfer da yn y diwydiant a safonau ansawdd uchel.

### 7.2.7 Rhestrau gwirio a nodiadau canllaw ychwanegol

Gellir gweld y Rhestrau Gwirio a'r nodiadau canllaw ychwanegol canlynol ar lwyfan cyfathrebu'r ASB:

- Rhestr Wirio Cychod Pysgota

- Rhestr Wirio Cychod Rhewi
- Rhestr Wirio Cychod Ffatri
- Dogfen Holi ac Ateb ar Gynhyrchion Pysgodfeydd

Caiff cynnwys y dogfennau hyn ei ystyried fel y lleiafswm sydd ei angen, ond gall Awdurdodau Bwyd eu haddasu fel bo’r angen i fodloni gofynion lleol.

## 7.3 Materion yn ymwneud â chig

### 7.3.1 Cig – Canllawiau

Mae Dyddiadur Rheoli Diogelwch Bwyd ar gyfer cynhyrchwyr cig wedi’i greu at ddefnydd gwirfoddol.

I gael canllawiau ar ofynion bwyd Halal, gweler y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu (*Smarter Communications*).

### 7.3.2 Cig – Cymeradwyo Sefydliadau

Gellir gweld manylion sefydliadau cymeradwy’r ASB, a chanllawiau ar gymeradwyo sefydliadau, ar wefan yr ASB.

Mae'r ASB yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reolaeth filfeddygol (hynny yw, lladd-dai, ffatrïoedd torri sy'n rhoi cig ffres ar y farchnad a sefydliadau trin helgig) yn ogystal ag unrhyw storfeydd oer, ffatrïoedd cynhyrchion cig, briwgig (*minced meat*), paratoadau cig, cig sydd wedi'i wahanu'n fecanyddol a ffatrïoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy sydd wedi'u cydleoli â lladd-dai cymeradwy, ffatrïoedd torri, sefydliadau trin helgig neu farchnadoedd cig cyfanwerthol.

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am gymeradwyo pob safle bwyd arall sy'n trin POAO (ac eithrio’r safleoedd wedi'u cydleoli a ddisgrifir uchod) ac am gofrestru sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cymeradwyo.

### 7.3.3 Gorfodi mewn sefydliadau cig

Mae'r ASB yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau cig sydd angen rheolaeth filfeddygol (gweler uchod).

#### 7.3.3.1 Sefydliadau sydd wedi’u lleoli ar y cyd

Mae'r ASB yn gyfrifol am orfodi hylendid mewn ffatrïoedd cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig, cig sydd wedi'i wahanu'n fecanyddol, storfeydd oer neu ffatrïoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy sydd wedi'u cydleoli â lladd-dy cymeradwy, ffatri dorri neu sefydliad trin helgig. Pan nad oes angen cymeradwyaeth ar sefydliad cig wedi'i gydleoli, er enghraifft cigydd manwerthu, mae gorfodaeth ddeuol yr Awdurdod Bwyd/ASB yn parhau i fod yn berthnasol.

#### 7.3.3.2 Sefydliadau annibynnol

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau annibynnol sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol, ac mewn sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

#### 7.3.3.3 Storfeydd oer

Nid yw storfeydd oer sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol (gweler y diffiniad yn 7.3.4.1) yn gyfan gwbl neu'n cyflenwi sefydliadau eraill (gan gynnwys arlwywyr) ar sail ‘ymylol, lleol a chyfyngedig’ (gweler 7.3.4.2) yn destun cymeradwyaeth a rhaid eu cofrestru o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynghori bod angen cymeradwyaeth ar storfeydd cig oer cyfanwerthol ar y sail eu bod yn cael eu defnyddio mewn perthynas â gweithgareddau y mae Atodiad III o Reoliad (CE) 853/2004 yn gosod gofynion ar eu cyfer. Nid oes unrhyw ofyniad am reolaeth filfeddygol ar storfeydd oer ac felly mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am gymeradwyo storfeydd oer ac am orfodi ynddynt, ac eithrio pan fyddant wedi'u cydleoli â lladd-dai cymeradwy, ffatrïoedd torri neu sefydliadau trin helgig.

Gellir dod o hyd i gyngor ychwanegol ar gymeradwyo storfeydd oer annibynnol nad ydynt wedi'u cydleoli â sefydliadau cymeradwy’r ASB yng Nghanllawiau'r ASB ar gyfer awdurdodau lleol ar gymeradwyo sefydliadau.

#### 7.3.3.4 Cig o anifeiliaid hela gwyllt (*wild game*)

Mae eithriadau o gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer cyflenwi helgig gwyllt gan gynhyrchwyr cynradd neu gan helwyr. Gall cyflenwad o'r fath fod mewn ffwr neu mewn plu, ond rhaid iddo fod yn gyflenwadau o feintiau bach yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i fannau manwerthu sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol – gweler 7.3.4 isod. Yn ogystal, gall helwyr gyflenwi ychydig bach o gig hela. Fodd bynnag, ni ellir cyflenwi helgig a gyflenwir o dan yr eithriad heliwr i safle manwerthu, i safle manwerthu arall o dan yr eithriad manwerthu i fanwerthu. Rhaid i'r eithriad manwerthu i fanwerthu (cyfanwerthol) hefyd fod ar sail ymylol, leol a chyfyngedig.

Mae Cynhyrchwyr Cynradd y mae eu cyflenwad ymlaen wedi'i gyfyngu i symiau bach o gynnyrch cynradd (hynny yw, cig o anifeiliaid hela gwyllt mewn ffwr neu mewn plu) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i fannau manwerthu sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol wedi'u heithrio o gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Fodd bynnag, maent yn gyfrifol am gyflenwi bwyd diogel o dan Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

Rhaid i safle a ddefnyddir i gyflenwi meintiau bach o helgig gwyllt sydd wedi’i baratoi i'r defnyddiwr terfynol neu i safleoedd manwerthu sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol fodloni gofynion hylendid Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ac maent yn ddarostyngedig i fesurau gorfodi gan Awdurdodau Bwyd.

Rhaid i sefydliadau sy'n prosesu helgig gwyllt ac nad ydynt yn gymwys o dan yr eithriadau Helgig Gwyllt i gyflenwi carcasau mewn ffwr/plu neu feintiau bach o gig hela gwyllt i'r defnyddiwr terfynol yn unig, neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol, gael eu cymeradwyo gan yr ASB fel sefydliadau trin helgig cymeradwy (AGHE). Mae AGHEs yn ddarostyngedig i reolaethau milfeddygol swyddogol ac mae angen iddynt gydymffurfio â gofynion hylendid cyffredinol Rheoliad (CE) 852/2004 a darpariaethau penodol ar gyfer trin

helgig mawr/bach yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Rhaid bod ganddyn nhw weithdrefn rheoli diogelwch bwyd seiliedig ar egwyddorion HACCP ar waith a dim ond helgig sydd wedi'i harchwilio gan berson hyfforddedig y gallant ei dderbyn. Mewn rhai amgylchiadau, lle nad yw'r person hyfforddedig ar gael yn annisgwyl, rhaid i ymysgaroedd (*viscera*) penodol fel y pen (ac eithrio cyrn) a'r galon, yr ysgyfaint, a'r iau/afu ond nid stumog na choluddion y ceirw, fynd gyda'r corff ar gyfer arolygiad post-mortem. Rhaid i AGHEs hefyd sicrhau bod sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu trin a'u gwaredu yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009.

#### 7.3.3.5 Cyd-gynhyrchion bwytadwy

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau annibynnol sy'n cynhyrchu cyd-gynhyrchion bwytadwy, hynny yw stumogau, pledrennau a choluddion, brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion *(greaves)*, gelatin a cholagen sydd oll wedi'u trin.

Bydd canllawiau ar wahân ar gyfer y cynhyrchion hyn ar gael ar wefan yr ASB.

### 7.3.4 Eithriadau cymeradwyo

Darllenwch y ddogfen Cymeradwyo Sefydliadau – Canllawiau i Swyddogion Awdurdodedig Awdurdod Lleol.

#### 7.3.4.1 Sefydliadau manwerthu (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Erthygl 1(4)(b) (ii))

Mae'r eithriad hwn ar gyfer sefydliadau manwerthu sy'n cyflenwi POAO i'r defnyddiwr terfynol, neu'n cyflenwi sefydliadau eraill (gan gynnwys arlwywyr) ar sail ymylol, leol a chyfyngedig.

*Diffinnir 'defnyddiwr terfynol' fel y 'defnyddiwr olaf y bwyd na fydd yn defnyddio'r bwyd fel rhan o unrhyw weithrediad neu weithgarwch busnes bwyd', hynny yw, y cyhoedd.*

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau sy'n torri cig sy'n cael ei roi ar y farchnad (hynny yw, yn hytrach na'i gyflenwi i'w brosesu ymhellach) yn cael eu cymeradwyo fel ffatrïoedd torri ac yn ddarostyngedig i reolaeth filfeddygol, oni bai bod y cyflenwad hwnnw ar sail ymylol, leol a chyfyngedig. Felly, bydd cigyddion arlwyo sy'n cyflenwi'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r hyn maent yn ei gynhyrchu i'r fasnach arlwyo yn destun cymeradwyaeth, yn ogystal â chigyddion manwerthu sy'n cyflenwi arlwywyr a/neu sefydliadau eraill ar lefelau uwch na'r trothwy ymylol.

#### 7.3.4.2 Sefydliadau manwerthu – cyflenwad 'ymylol, lleol a chyfyngedig' i sefydliadau manwerthu eraill

Mewn perthynas â chig ffres neu gig wedi'i brosesu, gan gynnwys cynhyrchion cig, dylid dehongli'r termau 'ymylol', 'lleol' a 'cyfyngedig' fel a ganlyn:

- **Ymylol:** Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn dehongli 'ymylol' fel 'rhan fach o fusnes y sefydliad, ond mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu y gellir ei ddehongli hefyd fel 'ychydig bach o fwyd sy'n dod o anifeiliaid mewn termau absoliwt'. Felly:

- i) ystyr ‘rhan fach o fusnes y sefydliad’ yw ‘hyd at chwarter y busnes o ran bwyd’; neu
- ii) ystyr ‘ychydig bach o fwyd sy'n dod o anifeiliaid’ yw, mewn perthynas â chig (ffres neu wedi'i brosesu, ac eithrio anifeiliaid hela gwyllt a’r cig sy’n deillio ohonynt) hyd at ddwy dunnell yr wythnos, (y gellid ei gyfartalu dros unrhyw gyfnod o 12 mis) cyn belled â bod gan y sefydliad elfen fanwerthu wirioneddol i'w weithrediadau gan gyflenwi rhan o'r cig mae’n ei gynhyrchu i'r defnyddiwr terfynol.

Os yw naill ai (i) neu (ii) yn berthnasol, mae'r sefydliad wedi'i eithrio o ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Ar yr amod, mewn perthynas â chig, bod y meini prawf ‘lleol’ isod hefyd yn cael eu bodloni.

- Mae **‘lleol’** o fewn sir y sefydliad cyflenwi ei hun ynghyd â'r rhan **fwyaf** o **naill ai’r** sir neu'r siroedd cyfagos neu 50km/30 milltir o ffin *sir* y sefydliad cyflenwi, ond byth y tu hwnt i'r DU ac eithrio cyflenwad o Ogledd Iwerddon i Weriniaeth Iwerddon. Pan fydd y sefydliad cyflenwi yn ynysoedd yr Alban, dehonglir lleol fel unrhyw le yn yr Alban.

- Mae **‘cyfyngedig’** yn berthnasol i gyflenwi cig o anifeiliaid hela gwyllt yn unig. Mae'r cyflenwad yn amodol ar yr helgig yn cael ei archwilio gan berson hyfforddedig a rhaid i garcasau anifeiliaid hela gwyllt mawr ddod gyda datganiad unigolyn hyfforddedig yn nodi na welwyd unrhyw elfennau annormal naill ai cyn neu ar ôl saethu. Ar gyfer pob cig arall, mae'r cyfyngiadau'n ymwneud â faint o gig sy'n cael ei gyflenwi.

### 7.3.4.3 Canllawiau ar dorri cig i'w werthu'n uniongyrchol gan ffermwyr (er enghraifft mewn marchnadoedd ffermwyr)

Mae'r eithriad ‘ymylol, lleol a chyfyngedig’ yn caniatáu i gigydd dorri cig ar ran ffermwr a'i ddychwelyd i'r ffermwr hwnnw i'w werthu ymlaen; ar yr amod bod hyn yn rhan ymylol o fusnes y cigydd hwnnw a bod y ffermwr sy'n cael ei gyflenwi yn lleol.

### 7.3.4.4 Cig o anifeiliaid hela gwyllt (cynhyrchwyr cynradd/helwyr)

Mae eithriad Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Erthygl 1(3) (e) yn ailadrodd yr un yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Erthygl 1(2) (c) sy'n caniatáu i gynhyrchwyr cynradd gyflenwi meintiau bach o garcasau hela gwyllt (hynn yw, mewn ffwr/plu) naill ai'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol yn uniongyrchol a all wedyn gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol yn unig. Mae cynhyrchwyr cynradd, p'un a ydynt yn helwyr unigol neu'n ystadau saethu, wedi'u heithrio o'r rheoliadau hyn.

Mae eithriad Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Erthygl 1(3) (e) yn berthnasol i helwyr unigol sy'n paratoi cig hela gwyllt o garcasau y maent wedi'u saethu eu hunain yn unig. Dim ond ychydig bach o'r cig hwn y gellir ei werthu naill ai'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i fanwerthwyr lleol yn uniongyrchol a all wedyn gyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn unig. Fodd bynnag, gan nad yw'r cig yn gynnyrch cynradd, mae'r heliwr

wedi'i eithrio rhag Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn unig, nid o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Ar gyfer yr eithriadau hyn, mae'r DU yn dehongli cyflenwad ‘meintiau bach’ fel un hunan-ddiffiniol gan fod y galw am garcasau mewn ffwr/plu gan ddefnyddwyr lleol a manwerthwyr lleol yn gyfyngedig. Yn achos yr heliwr sy'n hawlio eithriad Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Erthygl 1(3) (e), mae hyn ar wahân i'r eithriad cynhyrchydd cynradd gan ei fod yn caniatáu i'r heliwr gyflenwi cig hela gwyllt mewn symiau bach. Byddai'n rhaid i'r cig sy'n cael ei gyflenwi fod yn rhan o'r swm hwn, yn hytrach nag yn ychwanegol ato. Gall cyflenwad yn uniongyrchol i ddefnyddiwr terfynol fod trwy archeb bost neu werthu ar y we yn ogystal â thrwy ddosbarthu/casglu. Mae'r dehongliad o ‘lleol’ (*local*) yr un peth ag ar gyfer 'lleoledig’ (*localised*) (gweler 7.3.4.2).

Mae'r tabl crynhoi yn 7.3.7 isod yn nodi gwybodaeth am ba elfennau o'r gwahanol reoliadau sy'n berthnasol i hela anifeiliaid hela gwyllt a'u rhoi ar y farchnad.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar wahân ar gyflenwi cig o anifeiliaid hela gwyllt y tu allan i safleoedd cymeradwy ar wefan yr ASB.

### 7.3.4.5 Lladd ar y fferm a thorri cyfeintiau bychain o ddofednod a lagomorffiaid

Nid yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol i gyflenwad uniongyrchol, gan y cynhyrchydd, o symiau bach o gig o ddofednod (hynny yw, adar a ffermir ac eithrio ratidau) neu lagomorffiaid (hynny yw, cwningod, ysgyfarnogod a chnofilod) a laddwyd ar y fferm i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig o'r fath yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol (Erthygl 1(3)(d))[74]. Mae Erthygl 1(4) yn mynd ymlaen i ddweud y bydd y rheolau sy'n llywodraethu'r personau a'r gweithgareddau sy'n elwa o'r eithriad hwn (yn ychwanegol at y rhai yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004) yn cael eu nodi mewn cyfraith genedlaethol. Mae'r rheolau cenedlaethol hyn wedi'u nodi yn Atodlen 5 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Pa gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn?**

Mae'r eithriad yn berthnasol i gynhyrchwyr dofednod neu lagomorffiaid sy'n lladd eu hanifeiliaid eu hunain ar y fferm gynhyrchu, cyn belled mai dim ond *symiau bach* o gig sy'n cael ei gyflenwi.

Mae'r DU yn dehongli ‘symiau bach’ fel:

- cynhyrchwyr yn lladd o dan 10,000 o adar neu lagomorffiaid bob blwyddyn; neu
- cynhyrchwyr sy'n aelodau o gynllun sicrwydd priodol yn lladd dros 10,000 o adar neu lagomorffiaid bob blwyddyn ac sydd naill ai (a) yn pluo’n sych â llaw neu (b) yn lladd am 40 diwrnod y flwyddyn neu lai.

[74] Fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 2076/2005 (Mesurau Trosiannol a Gweithredu)

Dylai'r terfyn o 10,000 o adar neu lagomorffiaid yn y categori cyntaf ganiatáu ar gyfer rhywfaint o amrywiad mewn trwybwn blynyddol o amgylch y lefel honno ar yr amod nad yw fel arfer yn fwy na therfyn cyfun o 10,000 y flwyddyn.

Er nad oes cyfyngiad ar nifer yr adar neu lagomorffiaid y gall cynhyrchwyr yn yr ail gategori eu lladd, mae'r ASB yn rhagweld y bydd y cyfyngiadau yn cyfyngu'r lefelau cynhyrchu i feintiau cymharol fach. Wrth farnu a yw cynllun sicrwydd yn briodol, dylid ystyried a oes gan y cynllun ofynion sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol lleiaf mewn perthynas â diogelwch a hylendid bwyd ac a oes ganddo drefniadau gwirio annibynnol. Gall yr ASB gynghori os oes amheuaeth.

**Ble gellir gwerthu'r cig?**

Gellir cyflenwi cig a gynhyrchir o dan yr eithriad hwn:

- yn uniongyrchol i’r defnyddiwr terfynol; neu
- yn uniongyrchol i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig o'r fath yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol

Yn y categori cyntaf, mae cyflenwad uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol yn cynnwys archeb bost neu werthu dros y we, cyhyd â bod y cyflenwad yn *uniongyrchol* i'r defnyddiwr. Nid yw cyflenwadau o'r fath o reidrwydd yn gyfyngedig i gig ar ffurf cig ffres. Gallent fod ar ffurf cynhyrchion neu baratoadau cig.

Yn yr ail gategori, rhaid i'r cyflenwad fod yn uniongyrchol i sefydliadau manwerthu lleol (ar ffurf cig ffres, paratoadau cig neu gynhyrchion cig), ac fe allai gynnwys cyflenwad y cynhyrchydd i fwytai neu sefydliadau arlwyo eraill. Rhaid i'r sefydliadau manwerthu a gyflenwir fod yn *lleol*. Dehonglir bod cyflenwad ‘lleol’ yr un peth â chyflenwad ‘lleoledig’ (*localised*) ac, yn ogystal, unrhyw le yn y DU yn ystod y pythefnos cyn y Nadolig a'r Pasg ac (ar gyfer gwyddau) Gŵyl Fihangel (diwedd mis Medi).

**Pa reolau sy'n berthnasol?**

Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yn berthnasol i gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y gofyniad i gofrestru'r sefydliad gyda'r Awdurdod Bwyd lleol, i gynnal gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ac i gydymffurfio â gofynion hylendid a hyfforddiant cyffredinol. Mae'r rheolau cenedlaethol yn Atodlen 5 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar labelu a chadw cofnodion hefyd yn berthnasol.

Mae'r rheolau labelu yn ei gwneud yn ofynnol i'r cig ddwyn label neu farc arall sy'n nodi'n glir enw a chyfeiriad y fferm lle cafodd yr aderyn neu'r anifail ei ladd. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw labelu sy'n ofynnol gan Reoliad (UE) Rhif 1169/2011.

Mae'r rheol cadw cofnodion yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynhyrchydd gadw cofnod ar ffurf ddigonol i ddangos nifer yr adar a nifer y lagomorffiaid a dderbynnir i'r safle, a faint o gig sy'n cael ei anfon o'r safle, yn ystod pob wythnos. Dylai cofnodion o'r fath, er mwyn bod yn ddigonol, gofnodi'r wybodaeth hon o leiaf yn ôl rhywogaethau o anifeiliaid sy’n cael eu lladd. Dylai'r cofnodion gael eu cadw am flwyddyn a dylent fod ar gael i swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Bwyd lleol ar gais.

### 7.3.5 Cynhyrchion cig, briwgig a pharatoadau cig – Torri cig

Mae angen cymeradwyo safle sy'n torri cig yn gyfan gwbl ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig neu gig wedi'i wahanu'n fecanyddol mewn perthynas â'u gweithgareddau gweithgynhyrchu a’r angen i gydymffurfio â gofynion perthnasol Atodiad III Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer ffatrïoedd torri cig coch neu wyn, ond ni fydd angen eu cymeradwyo fel ffatrïoedd torri.

### 7.3.6 Lladd da byw gartref: canllaw i'r gyfraith yng Nghymru

Pan fydd anifail da byw yn cael ei ladd gan ei berchennog ar ei safle i'w fwyta'n bersonol neu gan aelodau uniongyrchol o'u teulu sy'n byw yno, ac nad yw'r cig yn cael ei roi ar y farchnad (p'un a yw'n rhad ac am ddim ai peidio), mae gweithgarwch o'r fath yn disgyn y tu allan i gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Fodd bynnag, mae Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 yn berthnasol lle bynnag y mae anifail sy'n agored i Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) yn cael ei ladd (gan gynnwys lladd gartref). Mae hyn yn golygu, ar ôl lladd gwartheg, defaid neu eifr, bod yn rhaid symud, staenio a chael gwared ar y deunydd risg penodedig yn unol â gofynion TSE (Rheoliad (CE) Rhif 999/2001) a gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid (Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009). Mae gofynion Lles Anifeiliaid o dan Reoliad (CE) Rhif 1099/2009 hefyd yn berthnasol. Mae canllawiau manylach ar ladd gartref ar gael ar wefan yr ASB.

### 7.3.7 Y sector anifeiliaid hela gwyllt *(wild game)* – pa reoliadau sy’n berthnasol i ba weithgareddau

Mae'r tabl yn darparu gwybodaeth am ba elfennau o'r gwahanol reoliadau sy'n berthnasol i hela anifeiliaid hela gwyllt a rhoi’r cig ar y farchnad.

| Gweithgarwch | Rheoliad (CE) 852/2004 | Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 | Rheoliad (UE) 2017/625[75] |
|---|---|---|---|
| Saethu i'w fwyta eich hun | Nac ydy<br>Mae Erthygl 1(2) (a) yn nodi eithriad | Nac ydy<br>Mae Erthygl 1(3) (a) yn nodi eithriad | Nac ydy |
| *cyflenwi symiau bach o garcasau cyfan yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i fanwerthwyr lleol (sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol) gan gynhyrchydd cynradd (heliwr neu ystâd)* | Nac ydy<br>Mae Erthygl 1(2) (c) yn nodi eithriad<br>Mae rheolau cenedlaethol yn berthnasol[76] | Nac ydy<br>Mae Erthygl 1(3) (c) yn nodi eithriad | Nac ydy |
| *b) <u>cyflenwi symiau bach o gig o garcasau</u> (a gynhyrchir gan heliwr ei hun yn saethu) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i fanwerthwyr lleol (sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol).* | Ydy<br>Safle i'w gofrestru fel busnes bwyd[77] ac i weithredu o dan Atodiad II | Nac ydy<br>Mae Erthygl 1(3) (e) yn nodi eithriad<br>Mae rheolau cenedlaethol yn berthnasol | Nac ydy |
| Cyflenwi carcasau cyfan i sefydliadau trin helgig cymeradwy (AGHEs) naill ai'n uniongyrchol ar ôl saethu neu o bantri *(larder)* helgig a weithredir gan y cynhyrchydd cynradd | Ydy<br>Safle i'w gofrestru fel busnes bwyd ac i weithredu o dan Atodiad I. | Rhannau'n ymwneud â chynhyrchydd cynradd (gofynion ac arferion hylendid 'person | Rhannau'n ymwneud â dogfennaeth ac arferion hylendid cynhyrchydd cynradd, gan gynnwys |

[75] Rheoliad (UE) Rhif 2017/625 a rheoliadau a wnaed oddi tano, fel Rheoliad (UE) 2019/627 a Rheoliad (UE) 2019/624

[76] Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Bwyd Cyffredinol 2004)

[77] Gan yr Awdurdod Cymwys (Awdurdod Lleol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cymwys[78]' er enghraifft, trin cychwynnol, rheoli tymheredd a chludo) | archwiliad y Milfeddyg Swyddogol[79] o wybodaeth 'person cymwys'. |
| Cyflenwi carcasau cyfan i sefydliadau trin helgig cymeradwy (AGHEs)<br>nid gan y cynhyrchydd cynradd, | Ydy<br>Sefydliad i'w gofrestru fel busnes bwyd ac i weithredu o dan Atodiad II (gan gynnwys unrhyw bantrïoedd a cherbydau helgig) | Rhannau'n berthnasol i ddogfennaeth a gyflenwyd yn wreiddiol gan 'berson cymwys', ynghyd â mesurau rheoli tymheredd, trin hylan a chludo | Rhannau'n berthnasol i arferion hylendid cyflenwr, a'r Milfeddyg Swyddogol i wirio dogfennau gan 'berson cymwys' |
| Pob sefydliad arall (nad ydynt yn rhai manwerthu) sy'n paratoi helgig gwyllt i'w roi ar farchnad ddomestig neu farchnad allforio y DU<br>Mae'r rhain yn sefydliadau trin helgig cymeradwy (AGHEs) | Ydy | Ydy<br>Sefydliadau i'w cymeradwyo gan yr ASB | Ydy |

[78] Naill ai'r unigolyn sy'n cadw'r helgig *(game)* neu reolwr yr helgig o fewn y parti hela/yn y cyffiniau neu heliwr sydd wedi cwblhau hyfforddiant i foddhad yr Awdurdod Bwyd (gweler Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IV, Pennod I)
[79] Milfeddyg Swyddogol (OV)

### 7.3.8 Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr (LTTC)

Ym mis Mawrth 2017, cyflwynwyd gofyniad penodol i sefydliadau sy'n cyflenwi briwgig *(minced meat)* a/neu baratoadau cig y bwriedir eu bwyta heb eu coginio'n drylwyr gael eu cymeradwyo naill ai gan yr ASB neu gan eu Hawdurdod Bwyd. Mae cymeradwyo'r gweithgarwch hwn yn benodol yn gam pwysig wrth sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd. Gellir gweld rhestr gyhoeddedig o sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Mae'r rhestr yn cynorthwyo gweithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau arlwyo i nodi cynhyrchwyr briwgig a pharatoadau cig cymeradwy sy'n addas i'w defnyddio wrth gynhyrchu byrgyrs na fydd yn cael eu coginio'n drylwyr.

Mae canllawiau i fusnesau bwyd a swyddogion awdurdodedig ar 'Fyrgyrs heb eu coginio'n drylwyr' (Saesneg yn unig) ar wefan yr ASB.

### 7.3.9 Materion bwyd Halal

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gyfer swyddogion gorfodi cyfraith bwyd ar ofynion bwyd Halal ar lwyfan gyfathrebu'r ASB.

## 7.4 Materion yn ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth amrwd

### 7.4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd mewn perthynas â Llaeth Amrwd a Chynhyrchion Llaeth Amrwd ac yn egluro cyfrifoldebau gorfodi rhwng Awdurdodau Bwyd a'r ASB.

### 7.4.2 Gorfodi

Mae Awdurdodau Bwyd yn cymeradwyo sefydliadau llaeth, ac fel arall yn gorfodi'r rheoliadau ac eithrio yn yr achosion a restrir isod:

Arolygwyr Hylendid Llaeth yr ASB sy'n delio â'r gofynion yn Rheoliad 5(2)(b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 sy'n ymwneud â daliadau cynhyrchu llaeth a goruchwylio ac arolygu daliadau cynhyrchu yn ddilynol (ar wahân i wiriadau iechyd anifeiliaid – gweler isod).[80]

Mae'r Arolygwyr Hylendid Llaeth hefyd yn gyfrifol am reolaethau o dan Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar gyfyngiadau gwerthu llaeth buwch i'w yfed yn amrwd (RCDM):

- sicrhau bod llaeth buwch i'w yfed yn amrwd yn cael ei gyflenwi o ffermydd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, mewn marchnadoedd ffermwyr cofrestredig, neu drwy ddosbarthwyr yn unig.
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion labelu llaeth yfed amrwd (RDM) priodol
- rheoli'r rhaglen samplu i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ar gyfer llaeth o'r fath

Mae Defra, gan weithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), yn gyfrifol am gynnal profion swyddogol ar fuchesi gwartheg godro ar gyfer twbercwlosis

[80] Daeth i rym o fis Ebrill 2012

buchol (TB) a brwcelosis lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys profion TB blynyddol ar fuchesi gwartheg sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd i’w yfed gan bobl.

Mae gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu fel daliad cynhyrchu llaeth a sefydliad prosesu wedi'u cofrestru â'r ASB fel daliadau cynhyrchu a naill ai wedi’u cofrestru neu wedi’u cymeradwyo gan yr Awdurdod Bwyd fel sefydliad cynhyrchu llaeth ar gyfer gweithgareddau prosesu.

#### 7.4.3 Gweithredwyr busnesau bwyd sy’n gwerthu llaeth yfed amrwd a hufen i'w hyfed neu eu bwyta’n uniongyrchol gan bobl

Mae Erthygl 10(8) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn caniatáu i'r DU sefydlu rheolau cenedlaethol ar werthu llaeth amrwd a hufen amrwd i’w hyfed/bwyta'n uniongyrchol gan bobl.

Mae'r ASB yn gyfrifol am orfodi Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas ag RCDM i’w yfed yn uniongyrchol. Mae Arolygwyr Hylendid Llaeth (DHIs) yn gwirio cydymffurfiaeth â'r darpariaethau hynny a nhw yw'r awdurdod gorfodi perthnasol os bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â’r canlynol:

- paramedrau meicro ar gyfer RCDM,
- cyfyngiadau ar lwybrau gwerthu ar gyfer RCDM i'w yfed yn uniongyrchol
- gofynion rhybuddio iechyd ar gyfer RCDM

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodi gofynion samplu Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â gwerthu RDM i’w yfed yn uniongyrchol gan bobl, o rywogaethau heblaw gwartheg – yn benodol paragraff 5, ac maent yn gyfrifol am y gofynion rhybuddion iechyd ar gyfer RDM o rywogaethau heblaw gwartheg.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau tebyg ar lwybrau gwerthu llaeth yfed amrwd o rywogaethau eraill o dan yr Atodlen hon, er ei bod yn ofynnol i'r cynnyrch barhau i gydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd ac olrhain a nodir yn Erthyglau 14 a 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth â gofynion hylendid yn ystod prosesau potelu neu becynnu ar gyfer RDM o bob rhywogaeth i’w yfed yn uniongyrchol. Nhw hefyd yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer labelu bwyd cyffredinol, gan gynnwys marcio dyddiadau para RDM o bob rhywogaeth.

Mae'n ofynnol hefyd i bob RDM i'w yfed yn uniongyrchol gydymffurfio â'r meini prawf diogelwch bwyd o dan Reoliad (CE) Rhif 2073/2005 mewn perthynas â bwyd parod i'w fwyta, a'r gofynion diogelwch ac olrhain cyfreithiol ar gyfer bwyd.

Os oes gan Awdurdodau Bwyd bryderon am safon ficrobiolegol RCDM naill ai ar y cam potelu neu pan fydd yn cael ei gynnig i'w werthu (hynny yw ar rownd laeth neu mewn siop fferm), gallant gynnal eu profion eu hunain am bathogenau penodol a gweithredu o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 os yw'n briodol. Dylid cydweithredu'n agos â'r Arolygwr Hylendid Llaeth lleol o dan yr amgylchiadau hyn.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd rybuddio'r ASB cyn gynted â phosibl os dônt yn ymwybodol o RCDM yn cael ei werthu heblaw o'r fferm, o farchnadoedd ffermwyr cofrestredig, neu drwy ddosbarthwr fel y caniateir o dan y rheoliadau hylendid bwyd.

Ar wahân i fod yn rhydd rhag TB yn swyddogol, rhaid i fuchesi gwartheg sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl hefyd fod yn destun profion TB blynyddol. Felly, mae'n hanfodol bod Awdurdodau Bwyd yn gweithio'n agos â'r ASB a swyddfeydd rhanbarthol APHA i gynnal rhestr gyfoes o weithredwyr busnesau bwyd lleol sy'n gwerthu RDM a chynhyrchion llaeth amrwd.

### 7.4.4 Cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Gall fod yn anodd cydymffurfio â'r gofynion i offer fod yn lân ac i ddiheintio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn fecanyddol, yn enwedig i rai sefydliadau llai. Fel rheol ni fydd angen cyfleusterau golchi poteli mecanyddol ar gyfer llaeth sy'n cael poteli glân o unedau canolog, ar yr amod nad yw'r poteli glân yn agored i unrhyw risg o halogiad wrth eu storio a chyn eu llenwi yn y llaethdy. Gellir golchi a storio poteli yn yr un ystafell lle mae cynhyrchion yn cael eu trin, ond ar wahanol adegau neu mewn ardal ar wahân – ar yr amod nad yw hylendid yn cael ei gyfaddawdu.

### 7.4.5 Gofynion iechyd ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd

Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod 1 yn cael eu bodloni trwy arolygiadau milfeddygol preifat yn rheolaidd. Bydd amlder arolygiadau o'r fath yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Gellir cynnal arolygiadau o'r fath pan fydd milfeddyg preifat ffermwr yn bresennol at ddibenion eraill. Bydd angen i weithredwyr busnesau bwyd gadw tystiolaeth o’r ymweliadau hyn, er enghraifft derbynneb/anfoneb, a thystiolaeth o unrhyw gamau dilynol a gymerir os bydd problemau'n codi – i'w gwirio gan swyddogion awdurdodedig. Mae'n ofynnol hefyd i brynwyr (neu broseswyr) masnachol cyntaf llaeth amrwd sicrhau, er enghraifft trwy gontractau, bod gwiriadau wedi'u cynnal i asesu cydymffurfiaeth â safonau iechyd anifeiliaid perthnasol. Fel rheol, bydd yr ASB, APHA neu lawfeddygon preifat yn rhoi gwybod i Awdurdodau Bwyd am broblemau uniongyrchol a allai effeithio ar ddiogelwch llaeth. Gellir hefyd cyfeirio materion tymor hirach sy'n codi o gofnodion at Awdurdodau Bwyd. Pan fo Awdurdodau Bwyd yn amau na chydymffurfir â gofynion, neu na chymerwyd camau dilynol, dylent godi'r mater gyda'r prynwr/prosesydd masnachol cyntaf, neu gyda'r cynhyrchydd yn uniongyrchol, a'u cynghori i gymryd cyngor priodol, er enghraifft gan eu milfeddyg preifat. Dylai'r Awdurdod Bwyd hefyd hysbysu'r ASB fel y gall Arolygwyr Hylendid Llaeth weithredu os bydd atgyfeiriad *(referral)* neu gŵyn.

### 7.4.6 Meini prawf a safonau ar gyfer llaeth amrwd

Yn achos y safonau a nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod I, Rhan 3 ar gyfer cyfrif platiau a chyfrif celloedd somatig, mae'r Rheoliadau'n nodi isafswm yr amlder samplu gan y cynhyrchydd neu'r prynwr masnachol cyntaf. Mae angen i swyddogion awdurdodedig sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cyflawni'r rhaglen samplu benodedig. Dylai swyddogion awdurdodedig wirio cofnodion gweithredwyr busnesau bwyd, ac os oes ganddynt bryderon am ganlyniadau'r profion, dylent ystyried gwiriadau swyddogol ar hap er mwyn gwneud yn siŵr bod y safonau

gofynnol yn cael eu bodloni. Nodir trefniadau sy'n ymwneud â thrin llaeth â gwres yn Atodiad III, Adran IX, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004, fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 8/Atodiad VII (2)(d) o Reoliad (CE) Rhif 2074/2005.

### 7.4.7 Gofynion tymheredd ar gyfer llaeth a ddefnyddir i weithgynhyrchu cynhyrchion llaeth

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod II, Rhan 1, Paragraff 1 yn nodi bod derbynioldeb llaeth amrwd yn berthnasol o'r amser y mae'r llaeth yn cyrraedd y sefydliad prosesu. Mae paragraff 2 yn caniatáu mynd y tu hwnt i'r tymereddau a'r amseroedd a bennir ar gyfer trin llaeth amrwd am 'resymau technolegol'. Bydd y rhesymau hyn yn cynnwys achosion lle gallai tymereddau uwch fod yn hanfodol i weithgynhyrchu rhai cynhyrchion, er enghraifft cawsiau, ac yn ystod penwythnos, er enghraifft, pan na all sefydliadau brosesu llaeth o fewn y cyfnod penodedig. Mae angen awdurdodiad gan yr Awdurdod Bwyd pryd bynnag y rhagwelir y eir y tu hwnt i'r amseroedd hyn.

### 7.4.8 Trin llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth â gwres

Nodir y gofynion ar gyfer pasteureiddio a thrin â gwres eithafol *(ultra-heat treatment)* yn Atodiad III, Adran IX, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004, fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 8 / Atodiad VII (2) (d) o Reoliad (CE) Rhif 2074/2005.

### 7.4.9 Profi ffosffatase *(phosphatase)*

Gweithredodd Rheoliad (CE) Rhif 1664/2006, a ddiwygiodd Reoliad (CE) Rhif 2074/2005, ofynion newydd ar gyfer y dull profi ffosffatase alcalïaidd (ALP) ar gyfer llaeth wedi'i drin â gwres:

- Dylai pob gweithredwr busnes bwyd fod wedi gweithredu'r dull cyfeirio newydd ar gyfer gweithgarwch ALP ISO 11816-1
- Ystyrir bod prawf ALP yn rhoi canlyniad negyddol os nad yw'r gweithgarwch mesuredig mewn llaeth buwch yn uwch na 350 mU/l

Gellir defnyddio dull dadansoddi amgen cyhyd â'i fod yn cael ei ddilysu yn erbyn y dull cyfeirio.

### 7.4.10 Labelu cawsiau wedi'u gwneud o laeth amrwd

Mae'n ofynnol i gawsiau wedi'u gwneud o laeth amrwd sy'n cael eu gwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw gael label ar y deunydd pecynnu sy'n nodi 'wedi'i wneud â llaeth amrwd' ar y pwynt gwerthu. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod 'labelu' yn cynnwys unrhyw ddeunydd pecynnu, dogfen, rhybudd, label, cylch neu goler sy'n cyd-fynd â chynhyrchion o'r fath neu'n cyfeirio atynt.

Mae'n ofynnol i flociau o gaws sy'n cael eu harddangos mewn cownter delicatessen y bwriedir eu torri'n ddognau llai i'w gwerthu i'r defnyddiwr gael eu labelu fel 'wedi'i wneud â llaeth amrwd' naill ai ar label ar y caws neu drwy rybudd sy'n cyfeirio ato. Fodd bynnag, ar ôl iddo gael ei dorri a'i lapio a'i roi i'r defnyddiwr i'w brynu, nid oes angen ei labelu gyda'r geiriad rhagnodedig.

### 7.4.11 Statws ‘rhydd rhag twbercwlosis’ swyddogol a deddfwriaeth hylendid llaeth

#### 7.4.11.1 Cwmpas

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth a chyngor i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a chanddynt fuchesi llaeth a/neu sefydliadau llaeth yn eu hardaloedd, gan gynnwys y rhai sy’n cynhyrchu RCDM[81] a/neu gynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio. Bydd y canllawiau o gymorth i'r rhai sy'n ymwneud â chamau gweithredu dilynol yn dilyn hysbysiad gan APHA o golli[82] statws 'Rhydd Rhag Twbercwlosis yn Swyddogol' (OTF) buchesi godro.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer ac at ddibenion deddfwriaeth Hylendid Llaeth, bydd y fuches wedi colli statws OTF: os yw’n adweithio i brofion twbercwlin, bod amheuaeth o friwiau TB yn cael eu nodi mewn archwiliad post mortem arferol cig “achosion lladd-dy”), os yw yw anifeiliaid yn adweithio’n amhendant i brawf TB cyn pen tair blynedd ar ôl digwyddiad TB blaenorol a gadarnhawyd yn yr un fuches; neu mae prawf croen twbercwlin hwyr (“statws wedi'i atal” – OTFS); neu pan fydd haint *M. bovis* yn cael ei gadarnhau mewn buches trwy archwiliad post mortem a/neu gelloedd meithrin bacteriolegol (‘statws wedi'i dynnu'n ôl – OTFW’).

#### 7.4.11.2 Cyflwyniad

Clefyd heintus ymysg pobl a llawer o rywogaethau o anifeiliaid, a achosir gan facteria’r genws *Mycobacterium* yw twbercwlosis (TB). Caiff y rhan fwyaf o achosion o dwbercwlosis dynol eu hachosi gan *Mycobacterium tuberculosis (M. tuberculosis)*. Achosir TB mewn gwartheg yn bennaf gan *Mycobacterium bovis (M. bovis)* sydd, yn wahanol i *M. tuberculosis*, yn gallu byw ar nifer o wahanol anifeiliaid. Mae APHA yn gyfrifol am gynnal profion gwyliadwriaeth ar fuchesi gwartheg godro ar gyfer twbercwlosis buchol (a brwselosis lle bo hynny'n briodol) ar sail risg clefyd.

#### 7.4.11.3 Y cefndir deddfwriaethol

Gellir gweld manylion y cefndir deddfwriaethol yn Adran 2 y Canllaw Hylendid Llaeth ar y Fferm, sy'n crynhoi darpariaethau Rheoliad (CE) 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod 1 ar gyfer llaeth amrwd a chynhyrchion llaeth.

#### 7.4.11.4 Materion gorfodi Awdurdodau Bwyd

**Camau i’w cymryd yn sgil buches laeth yn colli statws di-dwbercwlosis swyddogol (OTF)**

Pan roddir buches laeth o dan gyfyngiadau symud TB, am ba bynnag reswm, bydd APHA yn anfon hysbysiad at berchennog y fuches (gweithredwr y busnes bwyd), yr ASB a swyddog awdurdod lleol perthnasol. Gosodir cyfyngiadau TB ar berchennog y fuches o dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) ac mae hyn i

[81]Yn y cyd-destun hwn mae llaeth buwch amrwd yn cynnwys llaeth byffalo hefyd.

bob pwrpas yn atal (neu'n tynnu'n ôl) statws OTF y fuches honno nes bydd rhybudd pellach.

Pan fydd yr hysbysiad yn dod i law, mae’r ASB yn cychwyn y broses i sicrhau na chaiff llaeth o’r fuches ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion llaeth amrwd mwyach. Mae'r ASB yn cysylltu â'r tîm Cyngor TB yn APHA i sefydlu amgylchiadau'r achos a statws OTF y fuches. Os nad yw'r fuches bellach yn rhydd rhag TB yn swyddogol, bydd yr ASB yn dileu'r cofrestriad ar gyfer RDM.

Mae'r Hysbysiad a gyflwynir gan APHA ar weithredwr y busnes bwyd yn cynghori mai'r ASB yw'r Awdurdod Bwyd ar gyfer gorfodi Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 mewn daliadau cynhyrchu sylfaenol ‘cofrestredig’ yng Nghymru ac mai awdurdodau lleol sy’n gweithredu fel yr Awdurdod Bwyd mewn llaethdai prosesu ’cymeradwy’, canolfannau casglu a chanolfannau ail-lapio ac ail-becynnu.

Mae'r Hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- ni ddylid defnyddio llaeth o anifieiliaid sydd wedi adweithio i'w yfed gan bobl. Rhaid dal llaeth o'r anifeiliaid hyn yn ôl o'r tanc mawr *(bulk tank)*. Argymhellir na ddylech chi roi llaeth o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i loi na da byw eraill ar eich daliad eich hun. Os caiff ei fwydo, dim ond ar ôl triniaeth wres addas y gellir rhoi llaeth o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB i anifeiliaid ar yr un fferm.
- rhaid i laeth o anifeiliaid (o fuches sydd wedi adweithio) nad ydynt wedi adweithio’n bositif i’r prawf twbercwlosis gael ei drin â gwres cyn ei werthu i'w yfed gan bobl. Rhaid i weithredwr y busnes bwyd neu'r person sy’n gyfrifol yn y daliad cynhyrchu cynradd gysylltu â’u prynwr llaeth i wneud yn siŵr bod yr holl laeth yn cael ei drin â gwres.
- Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sydd â chofrestriad ychwanegol yng Nghymru ac yn Lloegr i werthu llaeth amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl roi'r gorau i werthu’r cynnyrch. Os yw gweithredwr y busnes bwyd yn bwriadu defnyddio llaeth amrwd o'r daliad cynhyrchu sylfaenol fel cynhwysyn i wneud hufen, caws, ac ati, rhaid iddo sicrhau bod llaeth o'r fath yn cael ei drin â gwres cyn ei ddefnyddio.
- gall llaeth o anifeiliaid sydd heb brofi’n negyddol nac yn bositif dal gael ei yfed gan bobl, ar yr amod ei fod yn cael ei drin â gwres cyn iddo gael ei werthu, fel y manylir ym mhwynt 2 uchod.

Ni ddylai proseswyr sy’n gwneud cynhyrchion gyda llaeth amrwd ddefnyddio llaeth o’r fuches yr effeithiwyd arni, a dim ond drwy gael cyflenwad amgen o fuches di-dwbercwlosis swyddogol y gallant barhau i gynhyrchu.

Ar ôl cael hysbysiad, dylai Awdurdodau Bwyd:

- gysylltu â phrynwr neu brynwyr cyntaf y llaeth i sefydlu eu bod yn ymwybodol o fanylion y fuches ac y bydd y llaeth o'r anifeiliaid nad ydynt wedi adweithio i’r prawf TB yn cael ei drin â gwres cyn ei werthu neu ei ddefnyddio mewn cynhyrchion llaeth.
- cadarnhau'r systemau glanhau sydd ar waith (CIP) ar gyfer y dull cludo.

Gellir hwyluso'r ymchwiliadau hyn trwy gysylltu â'r swyddfa APHA ranbarthol sy'n gyfrifol am reoli'r dadansoddiad o TB, yr Arolygwyr Hylendid Llaeth ac unrhyw Awdurdodau Bwyd eraill, gan gynnwys Awdurdod Bwyd y prynwr cyntaf a allai fod angen cymryd rhan lle bo hynny'n briodol.

Os oes cyfleusterau triniaeth â gwres ar y fferm, dylai'r Awdurdod Bwyd gadarnhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau HACCP ar waith ac yn gweithio'n effeithiol, gan gynnwys triniaeth ddigonol â gwres.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB yn syth os:

- darganfyddir bod llaeth o anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB wedi mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar ôl colli statws OTF,
- darganfyddir bod llaeth o'r anifeiliaid nad ydynt wedi adweithio i'r prawf TB mewn buches nad yw'n OTF wedi mynd i mewn i'r gadwyn fwyd heb gael ei drin â gwres.

**Camau i'w cymryd ar stociau o gynhyrchion llaeth amrwd ar ôl colli statws di-dwbercwlosis swyddogol (OTF)**

- bydd swyddogion gorfodi Awdurdodau Bwyd am ystyried goblygiadau iechyd y cyhoedd cynhyrchion a wneir cyn i'r fuches golli ei statws OTF, drwy gynnal asesiad risg yn lleol gyda'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC), swyddfa ranbarthol APHA a'r Arolygwyr Hylendid Llaeth. Dylid cael cyngor hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru lle bo hynny'n briodol. Os, o ganlyniad i reoli risg, y deuir i'r casgliad ei bod hi'n briodol tynnu cynhyrchion o'r fath yn ôl neu eu dinistrio, dylid dilyn gweithdrefnau tynnu'r cynhyrchion yn ôl/dinistrio'r cynhyrchion (yn wirfoddol). Bydd rhaid i Swyddogion Gorfodi benderfynu ar gamau priodol yn seiliedig ar amgylchiadau achosion unigol.
- lle ceir tystiolaeth o glefyd actif mewn anifail, mae'n debygol y byddai'n briodol tynnu sypiau o'r cynnyrch yn ôl cyn dyddiad y prawf TB fel cam rhagofalus (*precautionary*). Yn aml y Swyddog Milfeddygol sy'n ymdrin â'r digwyddiad TB yw'r person gorau i ddarparu gwybodaeth ac i gynorthwyo'r Awdurdod Bwyd i asesu risg.
- nid yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gwahardd marchnata cynhyrchion a weithgynhyrchir cyn colli statws OTF. Os na ellir cytuno ar ddatrysiad gwirfoddol gyda'r cynhyrchydd, gallai Swyddogion Gorfodi ystyried cymryd camau gorfodi os byddant yn amau nad yw'r cynhyrchion dan sylw yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd; fel y'u diffinnir yn Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002. Er mwyn i erlyniad fod yn llwyddiannus, bydd angen i swyddogion brofi bod trosedd wedi digwydd o dan Reoliad 17(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae hyn yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw berson fynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau penodedig yr UE neu fethu â chydymffurfio â nhw – gan gynnwys Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

**Camau i'w cymryd cyn i broblemau gyda statws rhydd rhag twbercwlosis swyddogol (OTF) godi**

- mae’r ASB yn trafod gyda APHA i sicrhau bod buchesi sy’n cyflenwi llaeth buwch i’w yfed yn amrwd a/neu sefydliadau neu broseswyr sy’n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio yn cael profion twbercwlin bob blwyddyn. Mae'r ASB yn hysbysu APHA pan ddônt yn ymwybodol o RCDM yn cael ei werthu i'w yfed gan bobl. Dylai Awdurdodau Bwyd hysbysu gweithgynhyrchwyr sy’n cynhyrchu cynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i’r llaeth a ddefnyddiant ddod o fuchesi OTF yn unig. Felly dylai swyddogion gorfodi gadarnhau bod y proseswyr hynny sy’n prynu llaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod y llaeth a brynant yn dod o fuchesi llaeth OTF sy’n cael profion blynyddol ar gyfer TB. Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu ag APHA a fydd yn gallu darparu rhagor o wybodaeth am y materion hyn.
- Efallai y bydd yn ddefnyddiol i Awdurdodau Bwyd drafod ag Arolygwyr Safonau Masnach Iechyd a Lles Anifeiliaid yr Awdurdod Bwyd gan fod eu cyfrifoldebau’n cynnwys gwirio cofnodion fferm dan ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid.

#### 7.4.11.5 Hysbysiad CCDC i'r Awdurdod Gorfodi am berson â TB buchol wedi'i gadarnhau

Os caiff CCDC ei hysbysu bod person/pobl yn dioddef o TB gwartheg, ac y credir ei fod/ei bod wedi dal yr haint yn ddiweddar, dylai’r CCDC ganfod a oes unrhyw gysylltiad â gwartheg sy’n nodi y gallai’r haint fod wedi’i ddal o anifail neu y gellir ei drosglwyddo i anifail. Os felly, rhaid iddynt hysbysu’r Awdurdod Bwyd. Os oes risg y gallai buches a/neu stoc fferm arall gael ei heintio, dylai'r swyddog awdurdodedig hysbysu APHA fel y gellir gwneud gwiriadau ar y buchesi. Gallai hefyd fod yn briodol hysbysu Awdurdodau Bwyd perthnasol eraill, ffermwyr lleol, llaethdai a chynhyrchwyr, prynwyr neu ddosbarthwyr llaeth a allai gael eu heffeithio (gan roi sylw dyledus i gyfrinachedd y claf). I gael canllawiau manwl ar ddelio ag achosion dynol o TB, cysylltwch â'r Adran Iechyd neu darllenwch ganllawiau TB Buchol perthnasol Llywodraeth Cymru.

Os oes angen cyngor pellach ar y camau i'w cymryd ar stociau o gynhyrchion llaeth amrwd yn dilyn colli statws OTF, dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â Thîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB: Wales.Foodincidents@food.gov.uk, a fydd yn gweithio gyda'r tîm ymchwilio lleol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth am weithdrefnau Defra sy'n ymwneud â rheolaethau TB, dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â'r Swyddog Milfeddygol ar ddyletswydd yn Swyddfeydd lleol neu ranbarthol APHA.

Gall y gwefannau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Canllawiau a Gwasanaethau TB Buchol Llywodraeth Cymru

## 7.5 Materion yn ymwneud â chanolfannau pacio wyau

### 7.5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar gyfer gorfodi Atodiad III, Adran X, Wyau a Chynhyrchion Wyau, Penodau I a II yn y drefn honno o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Yn ogystal â gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, mae'r rhan hon o'r Rheoliadau uchod yn gosod gofynion ar gyfer canolfannau pacio wyau sy'n ymwneud â:

- gofynion hylendid a thymheredd ar gyfer storio a chludo wyau
- yr amser hiraf a ganiateir ar gyfer dosbarthu wyau i'r defnyddiwr

### 7.5.2 Cwmpas y rheoliadau

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- Canolfannau Pacio Wyau – graddio, pacio, trin a storio wyau
- Cyfanwerthwyr a Manwerthwyr – trin a storio wyau

Mae cynhyrchu a chasglu wyau yn sefydliad y cynhyrchydd yn weithgareddau sy'n digwydd ar y lefel cynhyrchu cynradd.

O dan delerau deddfwriaeth hylendid yr UE, nid yw canolfannau pacio wyau yn cael eu dosbarthu fel cynhyrchwyr cynradd, gan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd un cam oddi wrth y cynhyrchu cynradd. Felly, yn ychwanegol at y darpariaethau hylendid wyau penodol yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, bydd canolfannau pacio wyau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau priodol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, gan gynnwys gofynion Erthygl 5 HACCP a'r penodau perthnasol yn Atodiad II.

Yn gyffredinol, bydd canolfannau pacio wyau yn cael wyau o unedau cynhyrchu cynradd. O'r ganolfan bacio, bydd wyau'n cael eu dosbarthu trwy'r gadwyn dosbarthu bwyd – i gyfanwerthwyr, manwerthwyr a'r fasnach arlwyo. Efallai y bydd canolfannau pacio wedi'u lleoli ar yr un safle â'r daliad cynhyrchu ond gallent hefyd fod yn cael wyau o nifer o wahanol safleoedd cynhyrchu a gallant hyd yn oed gymryd cyflenwadau o wyau mewn sypiau *(bulk)* o'r farchnad gyfanwerthu a'u hail-becynnu i gynwysyddion llai. Mae'r arferion hyn yn dderbyniol; fodd bynnag, rhaid i Awdurdodau Bwyd wirio bod canolfannau pacio wyau yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y rheoliadau hylendid bwyd a'r gyfraith fwyd gyffredinol.

Gellir dosbarthu cyfanwerthwyr wyau, er eu bod yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad III, Adran X, Pennod 1 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004, fel sefydliadau 'manwerthu' fel y'u diffinnir yn Erthygl 3(7) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 a'c cynnwys yn yr eithriad manwerthu. Fodd bynnag, os yw cyfanwerthwr hefyd yn pacio wyau, mae angen cymeradwyaeth ar gyfer ardal y sefydliadau sy'n ymwneud â phacio wyau.

### 7.5.3 Gofynion hylendid penodol ar gyfer wyau cregyn

Y gofynion penodol a nodir yn y Rheoliadau yw:

- yn sefydliad y cynhyrchydd, a hyd nes eu bod yn cael eu gwerthu i'r defnyddiwr, rhaid cadw wyau yn lân, yn sych, heb arogl allanol, eu diogelu'n effeithiol rhag siociau ac allan o heulwen uniongyrchol
- rhaid storio a chludo wyau ar dymheredd (cyson yn ddelfrydol) sydd fwyaf addas i sicrhau eu bod yn cadw eu priodweddau hylendid
- rhaid dosbarthu wyau i'r defnyddiwr o fewn yr amser hiraf a ganiateir, sef 21 diwrnod ar ôl dodwy

Mae'r gofynion penodol hyn yn hunanesboniadol heblaw am y gofyniad i ddosbarthu wyau i'r defnyddiwr terfynol cyn pen 21 diwrnod ar ôl dodwy. Nid yw'n bosibl pennu oedran wy yn uniongyrchol ac mae unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddarparu dyddiad dodwy neu oedran wy wedi'i gwmpasu mewn deddfwriaeth marchnata wyau. Efallai y bydd wyau wedi'u stampio â'r 'dyddiadau ar ei orau cyn' *(best before dates)*. Yn achos wyau Dosbarth A, mae'n ofyniad cyfreithiol i roi 'dyddiad ar ei orau cyn' ar bob label/deunydd pecynnu. O ystyried yr wybodaeth hon, os yw swyddog awdurdodedig yn amau bod wyau yn cael eu gwerthu y tu hwnt i'r terfyn amser sy'n ofynnol ar sail diogelwch bwyd, rhaid iddynt archwilio dogfennaeth gan y cynhyrchydd wyau i bennu oedran wy. Dylai'r swyddog awdurdodedig hefyd gysylltu â'r Arolygydd Marchnata Wyau (EMI) perthnasol i gael canllawiau pellach a chymorth i gymryd y camau priodol. O safbwynt hylendid, mae angen defnyddio wyau cyn pen 28 diwrnod ar ôl dodwy. Mae angen i fanwerthwyr werthu wyau ffres i'r cyhoedd cyn pen 21 diwrnod fel bod gan ddefnyddwyr 7 diwrnod i ddefnyddio'r wyau.

Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009 yn cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar gynhyrchu, marcio, cludo, graddio, pacio a marchnata wyau.

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ieir dodwy sydd â 350 neu fwy o ieir dodwy – p'un ai o ieir cewyll, ieir ysgubor, ieir maes *(free range)* neu ieir wyau organig – gael eu cofrestru gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Rhaid i gynhyrchwyr hefyd gofrestru gydag APHA:

- os oes ganddyn nhw 50 neu fwy o ieir ac mae rhai o'r wyau yn cael eu marchnata mewn marchnad gyhoeddus leol
- mae rhai o'r wyau yn cael eu marchnata i ganolfannau pacio cofrestredig

Sylwch hefyd, os yw'r wyau'n cael eu cyflenwi i siopau, bwytai neu siopau bara, bydd angen i'r cynhyrchydd gael ei gymeradwyo a'i awdurdodi fel canolfan pacio gan yr EMI er mwyn cael caniatâd i'w graddio fel wyau Dosbarth A.

Bydd pob sefydliad cofrestredig yn cael rhif unigryw y mae'n rhaid ei stampio ar bob wy sydd wedi'i raddio fel Dosbarth A.

#### 7.5.4 Marchnata wyau

Mae cynhyrchwyr wyau, gorsafoedd pacio, a chyfanwerthwyr hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau ansawdd wyau a marchnata. Defra sy'n gyfrifol am y rheoliadau hyn. Cynhelir arolygiadau o dan y rheoliadau hyn gan EMI. Argymhellir bod swyddogion gorfodi yn cysylltu â'u EMI priodol cyn arolygu gorsafoedd pacio wyau a chyfanwerthwyr.

#### 7.5.5 Cynllun 'Lion' a chynlluniau sicrwydd ansawdd eraill a arweinir gan y diwydiant

Mae nifer o gynlluniau sicrwydd ansawdd a arweinir gan y diwydiant yn gweithredu ledled y DU y dylai swyddogion gorfodi fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau 'Lion' a 'Laid in Britain'.

Mae'r ddau gynllun yn ymgorffori gweithdrefnau diogelwch bwyd yn seiliedig ar y Rheoliadau Hylendid Bwyd ond maent hefyd yn cynnwys gofynion ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys brechu gorfodol yn erbyn Salmonela Enteritidis ar gyfer yr holl

gywennod (*pullets*) sydd wedi’u bwriadu ar gyfer heidiau sy'n cynhyrchu wyau 'Lion' neu wyau 'Laid in Britain'. Mae gan y cynllun ’Lion’ hefyd ddyddiad 'ar ei orau cyn' wedi'i stampio ar y gragen yn ogystal ag ar y pecyn.

Gyda'r cynlluniau hyn, mae rheolaethau hylendid ychwanegol ar gyfer ffermydd a gorsafoedd pacio gan gynnwys cynllun HACCP gorfodol ar gyfer gorsafoedd pacio. Mae arolygu safleoedd pacio a chynhyrchu wyau yn rheolaidd gan arolygwyr annibynnol yn rhan o'r cynlluniau hyn, ond maent yn wahanol i arolygiadau Awdurdodau Bwyd neu EMI.

## 7.6 Materion yn ymwneud â chynhyrchion wyau ac wy ar ffurf hylif

### 7.6.1 Cyflwyniad

Mae'r Adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar orfodi Adran X, Wyau a Chynhyrchion Wyau Pennod II o Reoliad Rhif 853/2004. Mae hyn yn nodi rheolau iechyd y cyhoedd ar gyfer cynhyrchu a rhoi cynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif i'w bwyta gan bobl ar y farchnad.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar gyfer:

- sefydliadau
- deunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wy
- gofynion hylendid arbennig ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wy
- manylion dadansoddol
- labelu a marciau adnabod

### 7.6.2 Cwmpas y rheoliadau

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n cynhyrchu cynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif i'w bwyta gan bobl, sy'n cynnwys busnesau bwyd sy'n ymwneud â chynhyrchu:

- cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n deillio o brosesu wyau, neu amryw gydrannau neu gymysgeddau wyau, neu o brosesu cynhyrchion wedi'u prosesu o'r fath ymhellach
- wy ar ffurf hylif i'w gludo ymlaen i sefydliadau prosesu cymeradwy.

Mae angen cymeradwyo pob sefydliad os yw'r rheoliadau'n berthnasol iddynt.

Nid yw unrhyw un o'r gofynion yn Adran X, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol i fanwerthu, fel y'i diffinnir gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002, felly nid yw sefydliadau fel siopau bara ac arlwywyr sy'n prosesu wyau ac yn cyflenwi i'r defnyddiwr terfynol yn ddarostyngedig i unrhyw un o ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Fodd bynnag, mae'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth farchnata Defra i arlwywyr ddefnyddio wyau Dosbarth A yn unig, felly mae'n rhaid eu bod wedi dod o sefydliad pacio wyau cymeradwy sy'n bodloni'r gofynion yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

### 7.6.3 Mathau o safleoedd cymeradwy

Mae safle y mae’n rhaid ei gymeradwyo yn disgyn i ddau gategori:

I. safleoedd lle mae cynhyrchion wyau yn cael eu cynhyrchu a'u rhoi ar y farchnad, hynny yw, lle mae wyau amrwd yn cael eu prosesu
II. safleoedd lle cynhyrchir wy ar ffurf hylif i'w brosesu'n ddiweddarach gan weithgynhyrchwr cynnyrch wy cymeradwy,

Mae categori (ii) yn bodoli oherwydd efallai y byddai'n well gan ganolfannau pacio dorri wyau, gan gynnwys wyau wedi cracio, i gynhyrchu wy ar ffurf hylif yn hytrach na’r perygl bod y wyau’n torri cyn eu hanfon i sefydliad prosesu a ddisgrifir yng nghategori (i). Rhaid i gymeradwyaethau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i'r wyau gael eu torri cyn gynted â phosibl, yn unol â gweithdrefnau HACCP gweithredwr y busnes bwyd, a bod yr wy ar ffurf hylif sy'n deillio o’r broses yn cael ei rewi neu ei oeri i'w gludo i sefydliad cymeradwy arall. Os yw wedi'i oeri, rhaid i'r tymheredd storio beidio â bod yn uwch na 4°C a rhaid i'r cyfnod storio cyn prosesu beidio â bod yn fwy na 48 awr. Rhaid i unrhyw sefydliad a gymeradwyir ar gyfer categori (ii) yn unig, gydymffurfio â'r un gofynion ar gyfer cymeradwyaeth â gweithgynhyrchwyr cynhyrchu wyau yng nghategori (i). Wrth roi gwybod i'r ASB am gymeradwyaethau, dylai'r Awdurdod Bwyd nodi a yw'r gymeradwyaeth ar gyfer (i) neu (ii) ac a yw'r sefydliad hefyd yn ganolfan pacio.

### 7.6.4 Wyau budr

Ni ellir torri wyau oni bai eu bod yn lân ac yn sych. Gellir glanhau wyau budr (wyau nad ydynt yn Ddosbarth A), ond rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod unrhyw waith golchi, sychu a diheintio wyau yn cael ei wahanu oddi wrth holl weithrediadau eraill y busnes.

### 7.6.5 Allgyrchu *(centrifuging)* neu falu

Mae'r rheoliadau'n gwahardd defnyddio offer allgyrchu *(centrifuges)* neu falu i gael cynnwys wyau neu gael gwynwy *(egg whites)* o gregyn i'w bwyta gan bobl. Fodd bynnag, gellir defnyddio offer allgyrchu i waredu gwastraff, ac mewn achosion o'r fath, rhaid i'r offer gael ei leoli mewn man hollol ar wahân i weithrediadau eraill y sefydliad cymeradwy. Rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn fodlon na all deunydd wedi’i allgyrchu halogi cynhyrchion wyau y bwriedir eu bwyta gan bobl. Rhaid dadnatureiddio deunydd gwastraff wrth iddo fynd i mewn i'r offer allgyrchu, er enghraifft trwy ddefnyddio lliw *(dye)*.

### 7.6.6 Marciau adnabod a gofynion labelu eraill

Rhaid cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer marciau adnabod a nodir yn Atodiad II, Adran I o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac maent wedi'u nodi yn rhan 2.3.14 o'r Cod. Fodd bynnag, mae gofynion penodol ychwanegol ar gyfer cynhyrchion wyau. Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran X, Pennod II, Rhan V yn ei gwneud yn ofynnol i lwythi *(consignments)* o gynhyrchion wyau sy’n cael eu defnyddio fel cynhwysyn wrth weithgynhyrchu cynnyrch arall fod â label sy'n nodi'r tymheredd gofynnol ar gyfer cynnal y cynhyrchion wyau a’r cyfnod y gellir sicrhau cadwraeth felly. Os yw'r wy dan sylw yn wy ar ffurf hylif, mae'n rhaid i'r label hefyd nodi'r geiriau 'cynhyrchion wyau heb eu pasteureiddio – i'w trin yn y man cyrchfan' a nodi dyddiad ac awr torri’r wy.

### 7.6.7 Pasteureiddio a thrin â gwres

Nid yw'r Rheoliadau'n rhagnodi cyfuniad amser/tymheredd ar gyfer trin wyau, ond maent yn nodi bod yn rhaid i'r broses ddileu peryglon microbiolegol neu eu lleihau i lefel dderbyniol. Nid oes gofyn prosesu gwynwy y bwriedir ei weithgynhyrchu ar gyfer albwmen wedi'i sychu neu wedi'i grisialu a fydd yn ei dro yn cael ei drin â gwres.

Bydd angen i Awdurdodau Bwyd fod yn fodlon bod y broses trin â gwres yn ddigonol i sicrhau gostyngiad yn lefel y micro-organebau yn y cynnyrch wyau i unrhyw lefelau a nodir yn neddfwriaeth y DU ar feini prawf microbiolegol.

Pan gynigir proses ansafonol, mae'r cyfrifoldeb ar y busnes bwyd i ddangos bod ymchwil ddigonol wedi'i gynnal ar effeithiolrwydd y broses. Mewn sefydliadau lle mae prosesu â gwres yn digwydd, rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu bod gan weithredwr y broses wres lefel dderbyniol a phriodol o arbenigedd.

### 7.6.8 Manylion dadansoddol

Mae Rhan IV o Atodiad III, Adran X, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi manylebau dadansoddol na ddylai'r cynnyrch terfynol fod yn fwy na nhw. Er nad oes unrhyw ddulliau rhagnodedig ar gyfer profi am asidau lactig neu butyrig, mae dulliau'n bodoli. Pan ddefnyddir dulliau o'r fath, rhaid ystyried dibynadwyedd y canlyniadau. Pan brofir samplau, rhaid cymharu'r canlyniadau â'r safonau a nodwyd.

Gall swyddogion awdurdodedig helpu busnesau bwyd i ddatblygu cynlluniau samplu, nad ydynt wedi'u rhagnodi yn y rheoliadau.

### 7.6.9 Rheoli tymheredd

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion nad ydynt wedi'u sefydlogi er mwyn eu cadw ar dymheredd ystafell, gael eu hoeri i ddim mwy na 4°C. Mae'n rhaid rhewi cynhyrchion y bwriedir eu rhewi yn syth ar ôl eu prosesu.

### 7.6.10 Storio a chludo

Rhaid i sefydliadau gadw wyau a chynhyrchion wyau ar wahân er mwyn osgoi halogiad. Os nad oes ystafelloedd ar wahân ar gael, gellir storio cynhyrchion wyau mewn cynwysyddion ac ardaloedd ar wahân.

Rhaid i ystafelloedd storio allu cynnal unrhyw fesurau rheoli tymheredd gofynnol.

Nid yw'r rheoliadau'n cynnwys cynhyrchion wyau sy'n cael eu storio mewn sefydliadau ar wahân fel depos neu warysau y tu allan i sefydliadau cynhyrchion wyau cymeradwy. Mae storfa o'r fath yn dod o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

## 7.7 Bwyd ar gyfer grwpiau penodol

### 7.7.1 Rheoliad (UE) Rhif 609/2013 ar fwydydd ar gyfer grwpiau penodol

Cyflwynwyd deddfwriaeth genedlaethol ym mis Gorffennaf 2016 ar 'Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016' (OS Rhif 639 (W.175)), sy'n rhoi darpariaethau gorfodi ar waith i alluogi'r Rheoliad ar fwydydd i grwpiau penodol (y cyfeirir ato fel Rheoliad FSG) ar Reoliad (UE) Rhif 609/2013 gael ei orfodi yng Nghymru.

Disodlodd y ddeddfwriaeth hon y rheolau ar fwyd y bwriedir at ddefnydd maethol neilltuol (bwydydd PARNUTS). Mae'r Rheoliad yn diddymu Cyfarwyddeb 2009/39/EC ar fwydydd PARNUTS ac yn cynnwys:

- fformiwla i fabanod a fformiwla ddilynol
- bwyd wedi'i seilio ar rawnfwyd a bwyd babanod,
- bwyd at ddibenion meddygol penodol
- amnewid deiet yn llwyr *(total diet replacement)* mewn deietau â chyfyngiadau egni ar gyfer rheoli pwysau.

Y rheoliad newydd:

- yn gosod rheolau cyfansoddiadol a labelu cyffredinol
- yn trosglwyddo rheolau ar fwydydd heb glwten a lefelau glwten isel iawn o dan Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar wybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC) er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb.
- yn sefydlu y bydd bwydydd wedi'u rheoleiddio yn flaenorol o dan fframwaith PARNUTS, fel cynhyrchion y bwyteir yn lle prydau *(meal replacement products)* ar gyfer rheoli pwysau, yn cael eu trin fel bwydydd cyffredinol a'u rheoleiddio o dan Reoliad (CE) Rhif 1924/2006 ar honiadau maeth ac iechyd.

Mae'r Rheoliad FSG yn nodi gofynion cyffredinol ar gyfer y pedwar categori bwyd uchod. O ran labelu, dim ond gofynion cyffredinol sydd wedi'u sefydlu ar gyfer peidio â chamarwain y defnyddiwr neu briodoli elfennau atal, trin neu wella clefyd dynol i'r bwyd. Mae gofynion ychwanegol ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r labelu, y cyflwyniad a'r hysbysebu gael eu dylunio er mwyn peidio ag annog yn erbyn bwydo ar y fron ac ni ddylent gynnwys lluniau na thestun sy'n delfrydoli'r defnydd o fformiwla fabanod neu fformiwla ddilynol.

Sefydlodd Rheoliad FSG reolau cyfansoddiadol a gwybodaeth penodol trwy Reoliadau Dirprwyedig ar gyfer pob un o'r pedwar categori bwyd. Mae'r rheolau hyn wedi bod yn berthnasol ers 2019.

O dan y dull newydd, bydd bwyd ar gyfer grwpiau poblogaeth eraill yn cael ei reoleiddio fel bwydydd rheolaidd o dan gyfraith bwyd cyffredinol. O 20 Gorffennaf 2016, mae fformiwlâu plant ifanc a bwyd y bwriadwyd ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn dod o dan reolau llorweddol cyfraith bwyd yr UE yn unig.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi gofynion sylfaenol Rheoliad FSG ar waith, ac yn rhoi'r grym i swyddogion gorfodi gyflwyno Hysbysiadau Gwella am fethu â chydymffurfio â darpariaethau presennol ar gyfer labelu, cyfansoddiad, a hysbysebu bwydydd ar gyfer grwpiau penodol.

### 7.7.2 Gofynion Deddfwriaethol ar gyfer fformiwla fabanod, fformiwla ddilynol a bwydydd babanod

#### 7.7.2.1 Fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol

Mae fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol yn gynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion maethol penodol babanod a phlant ifanc iach. Mae fformiwla fabanod yn addas o enedigaeth a dyma'r unig fwyd y gellir ei farchnata fel un sy'n bodloni

gofynion maeth babanod yn ystod misoedd cyntaf eu bywydau. Mae fformiwlâu dilynol yn fwydydd y bwriedir ar gyfer babanod hŷn pan gyflwynir bwydo cyflenwol priodol ac sy'n ffurfio'r brif elfen hylif mewn deiet amrywiol y babanod. Mae'r cynhyrchion hyn yn dod o dan [Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/142/EC ]yn benodol.

O dan y Rheoliad FSG newydd, bydd Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 sy'n darparu'r rheolau labelu a chyfansoddiadol manwl ar gyfer fformiwla i fabanod a fformiwla ddilynol yn berthnasol o 22 Chwefror 2020.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfansoddiad, labelu a hysbysebu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar hysbysebu fformiwla fabanod a gofynion i wahaniaethu'n glir rhwng y ddau gynnyrch. Mae atodiadau'r ddeddfwriaeth yn rhoi meini prawf ar gyfer cyfansoddiad (protein, carbohydrad, braster, sylweddau mwynol, fitaminau a rhai cynhwysion eraill) fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol gan gynnwys, lle bo angen, y lefelau lleiaf ac uchaf. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod am bob fformiwla fabanod i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) cyn ei rhoi ar y farchnad.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cwmpasu'r rheolau penodol ar bresenoldeb gweddillion plaladdwyr mewn fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol nad yw bwyd babanod yn cynnwys unrhyw lefelau canfyddadwy o weddillion plaladdwyr, sy'n golygu dim mwy na 0.01 miligram o weddillion plaladdwyr y cilogram. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn gwahardd defnyddio rhai plaladdwyr gwenwynig iawn wrth gynhyrchu fformiwlâu i fabanod a fformiwla ddilynol ac yn sefydlu lefelau is na'r lefel uchaf gyffredinol o 0.01 miligram y cilogram ar gyfer ychydig o blaladdwyr gwenwynig iawn eraill[83] .

Yn ychwanegol at y gofynion sy'n ymwneud â fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol, mae hefyd darpariaethau penodol ar hylendid, defnyddio ychwanegion bwyd, presenoldeb halogion yn y cynhyrchion a defnyddio deunyddiau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd.

Mae’r Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 newydd:

- Yn diweddaru'r gofynion cyfansoddiadol presennol yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol diweddaraf.
- Yn addasu'r rheolau ar labelu i sicrhau cysondeb â Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr.
- Yn gwahardd defnyddio honiadau maeth ac iechyd ar fformiwla fabanod i amddiffyn bwydo o’r fron.
- Yn cryfhau'r gofyniad i sicrhau bod fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol yn amlwg yn wahanol i'w gilydd.

Fel aelod-wladwriaeth, roedd Llywodraeth y DU yn chwarae rhan lawn ac yn ymrwymedig i gyflwyno'r drefn newydd yn yr UE. Mae’r Rheoliad Dirprwyedig yn cael ei

[83]Cyhoeddir canlyniadau monitro a wnaed ar lefel genedlaethol gan y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegol ar gyfer gweddillion plaladdwyr mewn bwyd gan gynnwys bwyd babanod ar [wefan GOV.UK.]

orfodi yng Nghymru gan [Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) (Diwygio) 2020].

Gellir gweld canllawiau manwl ar y rheolau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol trwy'r [ddolen] ganlynol (gweithredir deddfwriaeth ar wahân ond cyfochrog yn yr Alban, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon).

#### 7.7.2.2 Bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod eraill

Mae bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod eraill *(*bwydydd diddyfnu neu *weaning)* wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer babanod (plant o dan 12 mis oed) a phlant ifanc (rhwng un a thair mlwydd oed) wrth iddynt symud ymlaen i ddeiet teulu cymysg.

Mae [Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/125/EC] yn ymdrin â bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc. Mae'n nodi rheolau ar gyfansoddiad a labelu bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod eraill. Mae hefyd yn rhoi meini prawf ar gyfer cyfansoddiad (protein, carbohydrad, braster, sylweddau mwynol a fitaminau) bwydydd diddyfnu gan gynnwys, lle bo angen, y lefelau lleiaf ac uchaf.

Mae'r Gyfarwyddeb yn cwmpasu'r rheolau penodol ar bresenoldeb gweddillion plaladdwyr mewn bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu ar gyfer babanod a bwydydd babanod a nodir yng [Nghyfarwyddeb y Comisiwn 99/39/EC] ac mae'n ei gwneud yn ofynnol nad yw bwyd babanod yn cynnwys unrhyw lefelau canfyddadwy o weddillion plaladdwyr, sy'n golygu dim mwy na 0.01 miligramau o weddillion plaladdwyr y cilogram. Yn ogystal, mae'r Gyfarwyddeb yn gwahardd defnyddio rhai plaladdwyr gwenwynig iawn wrth gynhyrchu bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu ar gyfer babanod a bwydydd babanod ac yn sefydlu lefelau is na'r lefel uchaf gyffredinol o 0.01 miligram y cilogram ar gyfer ychydig o blaladdwyr gwenwynig iawn eraill.

Yn ychwanegol at y gofynion sy'n ymwneud â bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod eraill yng Nghyfarwyddeb 2006/125/EC, mae hefyd darpariaethau penodol ar hylendid, ar ddefnyddio ychwanegion bwyd, ar bresenoldeb halogion yn y cynhyrchion ac ar ddefnyddio deunyddiau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd.

Y darpariaethau cenedlaethol yng Nghymru yw Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007.

Mae'r Rheoliad FSG newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fabwysiadu, trwy weithred ddirprwyedig, reolau cyfansoddiadol a labelu penodol ar gyfer bwydydd grawnfwyd wedi'u prosesu a bwydydd babanod, a fydd yn disodli Cyfarwyddeb 2006/125/EC. Hyd nes cwblhau'r ddeddf ddirprwyedig, mae rheolau Cyfarwyddeb 2006/125/EC yn parhau i fod yn berthnasol.

### 7.7.3 Bwyd at ddibenion meddygol arbennig (FSMP)

Mae bwyd meddygol yn cael ei ddosbarthu fel bwyd deietegol at ddibenion meddygol arbennig (FSMP) ac mae gofynion cyfansoddiadol a gofynion labelu'r bwyd yn cael eu

nodi a'u rheoleiddio gan y Rheoliadau canlynol: Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000.

Daeth Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 sy'n darparu'r rheolau labelu a'r rheolau cyfansoddiadol manwl ar gyfer FSMP i rym ar 22 Chwefror 2019. Gorfodir y Rheoliad hwn gan Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019.

O ran FSMP a ddyluniwyd i fodloni gofynion maethol babanod, mae Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 yn berthnasol o 22 Chwefror 2020 ac mae'n cael ei orfodi yng Nghymru gan y Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) (Diwygio) 2020.

### 7.7.4 Bwydydd ar gyfer amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau

Mae bwydydd deiet isel ac isel iawn mewn calorïau yn fwydydd wedi'u llunio'n arbennig sy'n amnewid y deiet yn llwyr. Mae bwydydd ar gyfer amnewid y deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau yn cael eu rheoleiddio ym Mhrydain Fawr gan Reoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 96/8/EC ar fwydydd y bwriedir eu defnyddio mewn deietau egni cyfyngedig at golli pwysau. Ers 20 Gorffennaf 2016, nid yw Cyfarwyddeb 96/8/EC bellach yn berthnasol i fwydydd a gyflwynir yn lle un neu fwy o brydau bwyd mewn deiet dyddiol. Trosglwyddir rheolau sy'n rheoleiddio amnewid prydau bwyd ar gyfer rheoli pwysau i Reoliad (CE) Rhif 1924/2006 ar honiadau maeth ac iechyd a wneir ar fwyd.

Mabwysiadwyd Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2017/1798 ar amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau ym mis Mehefin 2017 a bydd yn berthnasol yn Ewrop o 27 Hydref 2022. Tan hynny, mae rheolau Cyfarwyddeb 96/8/EC yn parhau i fod yn berthnasol i fwydydd ar gyfer amnewid deiet yn llwyr.

### 7.7.5 Ychwanegu sylweddau at FSG at ddibenion maethol penodol

Mae sylweddau maethol sy'n perthyn i'r categorïau canlynol: fitaminau, mwynau, asidau amino, carnitin a thawrin, niwcleotidau, colin ac inositol, y gellir eu defnyddio i weithgynhyrchu bwydydd ar gyfer grwpiau penodol wedi'u nodi yn yr Atodiad i Reoliad FSG (UE) Rhif 609/2013. Nodir y categori bwyd y gellir ychwanegu bob sylwedd ato yn Atodiad y Rheoliadau.

### 7.7.6 Gweithdrefnau hysbysu

Pan roddir y bwydydd canlynol ar y farchnad, rhaid i'r gweithgynhyrchwr neu'r mewnforiwr roi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lenwi ffurflen hysbysu ac anfon model o label y cynnyrch fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019, Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007.

- Fformwleiddiadau babanod newydd neu wedi'u diweddaru
- Bwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig (FSMP)

- O 22 Chwefror 2020 bydd angen hysbysu am rai cynhyrchion fformiwla ddilynol, hynny yw os yw eu cyfansoddiad yn wahanol i ofynion Atodiad II o Reoliad (UE) 2016/128
- O 22 Chwefror 2021 bydd angen hysbysu am fformiwla ddilynol sy'n cynnwys hydrolysadau protein.

#### 7.7.7 Bwydydd i bobl sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar fwydydd y bwriedir ar gyfer llosgi egni mewn gweithgareddau cyhyrol dwys, yn enwedig ar gyfer pobl sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon; felly mae cyfraith bwyd gyffredinol yn berthnasol. Mae angen i gynhyrchion a gyflwynir fel ‘ychwanegion bwyd’ *(food supplements)* gydymffurfio â Chyfarwyddeb 2002/46/EC. Mae angen i'r holl gynhyrchion a gyflwynir ar gyfer pobl sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon sicrhau bod unrhyw honiadau maeth neu iechyd a wneir yn cydymffurfio â Rheoliadau Honiadau am Faeth ac Iechyd Rhif 1924/2006 a Chofrestr honiadau awdurdodedig yr UE.

#### 7.7.8 Bwydydd sy'n addas i bobl sydd ag anoddefiad i glwten

Bydd y rheolau ar ddefnyddio'r datganiadau ‘heb glwten’ ac ‘isel iawn mewn glwten’ yn cael eu hymgorffori yn Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr.

## 7.8 Darpariaethau rheoli tymheredd

#### 7.8.1 Cyflwyniad

Nodir gofynion rheoli tymheredd ar gyfer bwyd yn y DU yn Atodiad II, Pennod IX, Paragraffau (5) a (6) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Rhoddir y gofynion hyn i rym yng Nghymru gan Reoliad 30 ac Atodlen 4 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mewn perthynas ag amgylchiadau sydd wedi'u heithrio o ofynion Rheoliad 30 ac Atodlen 4, a lle mae'n ofynnol cadw bwyd o dan reolaeth tymheredd am resymau diogelwch, byddai gofynion cyffredinol Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 sy'n cynnwys Pennod I, Paragraff 2 (d), Pennod III Paragraff 2(g), Pennod IV Paragraff 7, Pennod V Paragraff (2) a Phenodau IX Paragraffau (2), (5), (6) a (7), o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn dal i fod yn berthnasol, fel y bo'n briodol.

Nid yw Rheoliad 30 nac Atodlen 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithredwr busnes bwyd y mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys iddo.

#### 7.8.2 Dull cyffredinol o wirio tymheredd

Nid yw Atodlen 4 yn gymwys i unrhyw fusnes bwyd sy’n gweithredu ar longau neu awyrennau nac i’r busnesau hynny y mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol iddynt. Lle bo’n gymwys, mae’r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol cadw mathau penodol o fwydydd darfodus o fewn amrediadau tymheredd penodedig. Diben gwirio tymheredd y fath fwydydd at ddibenion gorfodi yw pennu a yw’r gofynion hyn yn cael eu bodloni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw eithriadau neu ffiniau goddefiant a allai fod yn gymwys.

Lle bo’n briodol, rhaid ystyried unrhyw ofynion tymheredd perthnasol yn Atodiad II o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Fel arfer, dylai swyddogion awdurdodedig ddefnyddio dull fesul cam i wirio cydymffurfiaeth â gofynion tymheredd y rheoliadau, fel a ganlyn:

**Cam 1 – Monitro tymheredd yr aer**

Mae monitro tymheredd yr aer yn rhoi syniad o berfformiad system oeri *(refrigeration)* dros amser, ac ni fydd un darlleniad ar unrhyw un adeg o reidrwydd yn nodi tymheredd y cynnyrch. Mae cofnodion monitro tymheredd yr aer yn arwydd o hanes tymheredd, gan gynnwys cylchredau dadmer, agor drysau, offer yn torri *(breakdowns)* ac ati. Rhaid eu hystyried fel canllaw i sut mae system benodol yn gweithredu.

**Cam 2 – Profi rhwng pecynnau**

Fel rheol rhaid defnyddio mesur tymheredd nad yw'n dinistrio, neu brofion rhwng pecynnau, fel y cam nesaf yn y broses orfodi. Gwneir hyn gyda thermomedr/prôb pen fflat wedi'i oeri ymlaen llaw, sy'n addas ar gyfer mesur tymereddau arwynebau neu rwng pecynnau.

Mae'n bwysig sicrhau cyswllt thermol da rhwng y cynnyrch a'r prôb wrth gymryd mesuriadau rhwng pecynnau. Rhaid caniatáu goddefiant llwyr o +2.8ºC (0.8ºC fel y nodir ar gyfer cywirdeb offer a 2ºC ar gyfer cyfyngiad y fethodoleg). Rhaid cymryd gofal i ganiatáu amser i'r darlleniad sefydlogi, ac i sicrhau bod y darlleniad tymheredd yn berthnasol i'r cynnyrch, nid yr aer o'i amgylch, a all ddigwydd os nad yw'r thermomedr wedi'i osod yn iawn rhwng y pecynnau. Rhaid cynnal profion gan aflonyddu cyn lleied â phosibl ar y cynnyrch neu ei amgylchedd a reolir gan dymheredd, yn enwedig y patrymau llif aer mewn cabinetau arddangos manwerthu. Ar gyfer cynhyrchion mewn casinau allanol, bydd angen agor y casin a rhoi'r thermomedr tymheredd rhwng pecynnau.

Nid yw pob pecyn neu ddeunydd pecynnu yn addas ar gyfer profi rhwng pecynnau. Mae pecynnau siâp afreolaidd lle nad yw'n bosibl cael cyswllt thermol da, deunyddiau pecynnu sy'n gweithredu fel ynysydd a chynhyrchion mewn cartonau neu becynnau swigen lle mae gofod aer mawr yn bodoli i gyd yn enghreifftiau lle na fyddai mesur y tymheredd rhwng pecynnau yn ddigon cywir i nodi tymheredd y cynnyrch. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd angen symud ymlaen yn uniongyrchol i fesur tymheredd trwy ddefnyddio dull profi dinistriol.

**Cam 3 – Profi cynnyrch (dinistriol)**

Os na fu'n bosibl mesur tymheredd gan ddefnyddio 'cam 2', neu os oes amheuaeth resymol ar ôl prawf 'cam 2' o ran cydymffurfio â gofynion tymheredd, bydd angen symud ymlaen i brofion dinistriol.

Fel rheol mae'n rhaid paratoi sampl a mesur tymheredd gyda'r sampl yn ei amgylchedd lle gaiff y tymheredd ei reoli. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid symud y sampl i amgylchedd sydd wedi'i oeri'n briodol, ar yr amod nad yw'r cludo yn effeithio ar dymheredd y cynnyrch. Rhaid cludo'r cynnyrch cyn paratoi'r sampl. Mae cludo cynhyrchion o fewn y gadwyn oer arferol, er enghraifft o gerbyd i storfa oer, yn dderbyniol.

Pan fydd mesuriad 'cam 3' yn cael ei gynnal, gallai gosod y thermomedr tymheredd yn y bwyd olygu nad oes modd gwerthu'r bwyd mwyach. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ystyried prynu'r bwyd dan sylw.

Y swyddog sy'n dewis yr eitemau i'w profi. Fodd bynnag, os cynhaliwyd profion 'cam 2' ac ymddengys bod diffyg cydymffurfio â'r gofynion tymheredd perthnasol, fel arfer, nid oes angen dewis nifer fawr o eitemau i'w profi yng 'ngham 3'.

Yn gyntaf, rhaid cymryd eitemau ar gyfer profion 'cam 3' o ran gynhesaf y system oeri. Fel arfer, gellir nodi hyn trwy ddefnyddio dangosyddion tymheredd stribed thermochromig (crisial hylifol). Er nad yw'r rhain yn rhoi darlleniad tymheredd manwl gywir, gallant ddarparu canllaw defnyddiol ar ddosbarthiad tymheredd cymharol o fewn system oeri.

**Dull cyffredinol**

Os bydd swyddog awdurdodedig yn fodlon ar ôl 'cam 1' neu 'gam 2' fod y gofynion tymheredd perthnasol wedi'u bodloni, nid oes angen symud ymlaen i'r cam nesaf a dylai'r gwaith gorfodi ddod i ben.

Os nad oes system monitro tymheredd ar gael, neu os oes gan y swyddog amheuaeth resymol am yr wybodaeth a gafwyd o'r system lle ceir un, dylai'r swyddog gynnal gwiriad 'cam 2'.

Os yw'r tymheredd a fesurwyd yn ystod 'cam 2' yn rhoi amheuaeth resymol i swyddog nad yw'r gofynion tymheredd perthnasol yn cael eu bodloni, dylai'r swyddog symud ymlaen i 'gam 3' a mesur tymheredd y bwyd ei hun.

Rhaid defnyddio dulliau (dinistriol) profi cynnyrch 'cam 3' bob tro i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer erlyniad.

Os yw'n bresennol, dylid gwahodd gweithredwr y busnes bwyd neu reolwr y busnes bwyd i fod yn dyst wrth fesur y tymheredd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gaiff tystiolaeth ei chasglu gyda golwg ar achos llys posibl.

### 7.8.3 Cymryd mesuriadau tymheredd

Rhaid peidio â rhagfarnu tymheredd cynnyrch trwy, er enghraifft, agor y drysau mewn cerbyd yn rhy aml neu am gyfnod rhy hir; aflonyddu'r llen aer mewn cabinet oeri, neu dynnu'r bwyd o amgylchedd oeri am gyfnodau hir.

Rhaid ail-selio unrhyw gasinau neu gartonau sydd wedi'u hagor a'u labelu'n briodol neu eu marcio â dyddiad ac amser yr arolygiad; enw'r person a'i agorodd, ac enw'r Awdurdod Bwyd. Mae hyn er mwyn dangos bod y casin neu'r carton wedi'i agor ar gyfer arolygiad swyddogol ac yn dileu unrhyw amheuaeth o ymyrraeth faleisus.

### 7.8.4 Lefelau goddefiant

Gallai darlleniadau tymheredd 'Cam 2' fod hyd at 2ºC yn gynhesach na gwir dymheredd y cynnyrch, yn enwedig cynnyrch â deunydd pecynnu trwchus. Gall symudiad diweddar nwyddau, cylchoedd dadmer neu anghywirdeb o ran yr offer fel y disgrifir isod hefyd effeithio arnynt.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol mewn achosion ffiniol i benderfynu a oes angen mesuriadau 'cam 2' pellach cyn symud ymlaen i 'gam 3'.

### 7.8.5 Gwirio a chalibro thermomedrau mesur gorfodi

Rhaid i brofwr achrededig addas (er enghraifft gwneuthurwr yr offer neu labordy neu dŷ profi a achredir gan UKAS) brofi a chalibro thermomedrau ac offer mesur tymheredd eraill a ddefnyddir at ddibenion arolygu a/neu orfodi yn gyfnodol, a hynny yn unol ag unrhyw argymhellion gan y gwneuthurwr neu’r cyflenwr, i sicrhau cywirdeb, cyfanrwydd a dibynadwyedd. Rhaid cael tystysgrif o’r graddnodi.

Hefyd, rhaid i Awdurdodau Bwyd wirio offer yn rheolaidd rhwng bob calibrad i sicrhau cywirdeb (er enghraifft yn erbyn thermomedr cyfeirio a ddefnyddir at y diben hwnnw’n unig) ac i sicrhau eu bod yn aros o fewn ffiniau goddefiant perthnasol. Rhaid cofnodi manylion y fath wiriadau, a chadw’r cofnodion hyn.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod yn defnyddio thermomedrau neu ddyfeisiau mesur eraill a chanddynt dystysgrif galibro gyfredol i gymryd mesuriadau tymheredd i’w defnyddio fel tystiolaeth.

Rhaid gwirio cywirdeb y thermomedr neu ddyfais mesur tymheredd arall, ac unrhyw brobau datodadwy, yn erbyn thermomedr cyfeirio neu raddnodi sydd wedi'i ardystio i safon briodol, er enghraifft NPL, a chofnodi'r canlyniad, cyn ac ar ôl cymryd unrhyw fesuriadau tymheredd sy'n debygol o arwain at gamau gorfodi.

Rhaid cyfeirio cofnod gwiriad o'r fath at dystysgrif graddnodi'r offer a chynnwys rhifau graddnodi’r offer ac unrhyw brobau cyfnewidiol.

Os nad oes thermomedr cyfeirio ar gael, gellir gwirio'r synhwyrydd mewn cymysgedd iâ gwlyb. Yn yr achos hwn, rhaid graddnodi'r system ar 0ºC. Tymheredd iâ gwlyb o ddŵr wedi’i ddistyllu yw 0ºC. Bydd dŵr yfed sydd â chynnwys halen 0.1ºC dim ond yn gostwng y pwynt toddi i -0.06ºC. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion gellir defnyddio dŵr yfed i wneud y rhew ar gyfer y weithdrefn wirio. Rhaid rhannu iâ yn ddarnau bach iawn, eu rhoi mewn fflasg dan wactod â gwddf llydan, eu gwlychu â dŵr oer a'u troi. Rhaid gosod y synhwyrydd yng nghanol y fflasg ar ddyfnder sydd o leiaf 50mm a'i symud yn aml a rhaid darllen y tymheredd ar ôl tri munud pan fydd wedi sefydlogi. Gellir gwirio'r offer sy’n darllen allan ar wahân gan ddefnyddio atodion graddnodi ar ddau neu dri thymheredd gwahanol. Rhaid i'r cyfuniad o wirio'r system ar 0ºC â'r un o wirio'r offeryn sicrhau cywirdeb ar dymheredd uwch.

### 7.8.6 Oeri offer ymlaen llaw

Rhaid i'r thermomedr neu'r ddyfais mesur tymheredd arall a'r prôb treiddio gael eu hoeri ymlaen llaw cyn eu defnyddio i fesur tymheredd y cynnyrch i sicrhau bod offer mor agos â phosibl at dymheredd y cynnyrch sy'n cael ei fesur. Mae oeri ymlaen llaw yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd tymheredd y cynnyrch yn codi oherwydd tymheredd y thermomedr a'r weithred o wneud y twll. Gellir oeri’r offer ymlaen llaw trwy adael yr offer a'r thermomedr yn yr un amgylchedd a reolir gan dymheredd â'r sampl am tua 10 munud. Cyn belled â nad yw tymheredd yr offer neu'r thermomedr yn codi’n sylweddol, gellir gwneud mesuriadau dilynol ar ôl cyfnod oeri ymlaen llaw llawer byrrach.

### 7.8.7 Paratoi samplau ar gyfer mesur tymheredd

Dim ond probau mesur tymheredd sydd wedi'u cynllunio'n benodol at y diben y dylid eu defnyddio i wneud twll yn y cynnyrch. Os nad yw'r prôb wedi'i ddylunio at y diben hwn, rhaid defnyddio teclyn treiddio cynnyrch wedi'i oeri ymlaen llaw ar wahân. Rhaid i ddiamedr y twll fod yn debyg i ddiamedr y thermomedr a bydd ei ddyfnder yn dibynnu ar y math o gynnyrch sy'n cael ei brofi (fel y disgrifir isod).

### 7.8.8 Mesur tymheredd cynnyrch

Rhaid paratoi'r cynnyrch i'w brofi a mesur ei dymheredd gyda'r cynnyrch yn ei amgylchedd a reolir gan dymheredd. Mae'r mesuriad fel a ganlyn:

- lle mae dimensiynau'r cynnyrch yn caniatáu, rhowch y thermomedr wedi'i oeri ymlaen llaw i ddyfnder sydd o leiaf 2.5cm o arwyneb allanol agosaf y cynnyrch.
- lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi’r prôb i ddyfnder lleiaf o'r wyneb sydd o leiaf 3 gwaith diamedr y prôb. Gyda rhai cynhyrchion, oherwydd eu maint bach, dylid cymryd mwy o ofal i osgoi codi tymheredd y cynnyrch yn ormodol o ganlyniad i drin y sampl yn ddiangen.

Ni ellir treiddio'n foddhaol i rai bwydydd i bennu eu tymheredd mewnol, oherwydd eu maint neu eu cyfansoddiad. Yn yr achosion hyn, rhaid pennu tymheredd mewnol y deunydd pecynnu bwyd trwy ddefnyddioprôb miniog addas wedi'i oeri ymlaen llaw i ganol y pecyn, i fesur y tymheredd mewn cysylltiad â'r bwyd.

Efallai na fydd bob amser yn bosibl pennu tymheredd mewnol y cynnyrch yn gywir, yn enwedig cynhyrchion bregus neu gynhyrchion gwead agored. Rhaid mesur tymheredd cynhyrchion o'r fath trwy dynnu'r cynnyrch yn ofalus o'i ddeunydd pecynnu a gosod prôb pen fflat wedi'i oeri ymlaen llaw rhwng dwy eitem o gynnyrch.

Ni ddylid cofnodi'r darlleniad tymheredd nes ei fod wedi sefydlogi.

### 7.8.9 Offer a ddefnyddir i fesur tymheredd cynnyrch wedi'i oeri

Rhaid i systemau mesur tymheredd a ddefnyddir at ddibenion gorfodi fodloni'r gofynion canlynol:

- rhaid i'r system gyrraedd 90% o'i ddarlleniad terfynol o fewn 3 munud
- rhaid i'r system fod â chywirdeb o +/- 0.5ºC, neu'n well pan fydd y synhwyrydd yn mesur o fewn yr ystod tymheredd -20ºC i + 30ºC
- rhaid i'r cywirdeb beidio â newid mwy na +/- 0.3ºC pan weithredir yr offer mewn tymereddau o -20ºC i + 30ºC
- rhaid i ddangosydd yr offer fod yn ddarllenadwy i o leiaf 0.1ºC
- rhaid i'r system fod yn gadarn ac yn ddiogel rhag sioc *(shock proof)*
- rhaid adeiladu'r rhan o'r system sy'n sensitif i dymheredd i hwyluso cyswllt thermol da â'r bwyd a rhaid iddi fod hawdd ei glanhau

Rhaid i’r offer mesur gael ei bweru gan fatri cell sych, nid trydan prif gyflenwad. Rhaid i'r offer ymgorffori dull o wirio foltedd y batri i nodi pryd mae angen newid neu ail-wefru. Mae dyluniad y thermomedr yn dibynnu ar y math o dymheredd sy’n cael ei fesur:

- **Ar gyfer profi cynnyrch:** coesyn anhyblyg cadarn gyda phwynt miniog sy'n addas i'w fewnosod yn y cynnyrch ac y gellir ei sterileiddio
- **Ar gyfer profion rhwng pecynnau:** pen gwastad sy'n addas ar gyfer mesur rhwng pecynnau gyda chysylltiad wyneb da, màs thermol isel a dargludedd thermol uchel. Os nad oes prôb fflat addas ar gael, gellir adeiladu un gan ddefnyddio synhwyrydd wedi'i raddnodi wedi'i grimpio yng nghanol sgwâr, (tua 4cm o hyd) neu gylch (tua 4cm o ddiamedr) neu haen ddwbl o ffoil alwminiwm. Rhaid i unrhyw geblau rhyng-gysylltiedig fod yn hyblyg rhwng 0ºC a + 30ºC

### 7.8.10 Bwyd sy'n gynhesach na'r tymheredd cadw oer rhagnodedig

Wrth fesur tymheredd y bwyd ei hun, rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol fod yr Atodlen yn caniatáu i dymheredd bwyd y mae'n ofynnol ei gadw ar dymheredd oer godi'n uwch nag 8ºC am un cyfnod yn unig o lai na 4 awr (Atodlen 4, Paragraff 5(1)(b) a 5(1)(c)) tra ei fod yn cael ei weini neu'n cael ei arddangos i'w werthu.

Rhaid i'r swyddog fod yn fodlon fod gweithredwr y busnes bwyd yn gweithredu mesurau, fel sy'n briodol, i sicrhau na ragorir ar y ffin goddefiant cadw oer a ddisgrifir uchod.

### 7.8.11 Bwyd sy'n oerach na'r tymheredd cadw poeth rhagnodedig

Wrth fesur tymheredd y bwyd ei hun, rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol fod yr Atodlen yn caniatáu i dymheredd bwyd y mae'n ofynnol ei gadw ar dymheredd poeth ddisgyn islaw 63ºC am un cyfnod yn unig o lai na dwy awr tra ei fod yn cael ei weini neu'n cael ei arddangos i'w werthu. (Atodlen 4, paragraff 7(2) (a) a (b)).

Dylai'r swyddog fod yn fodlon fod gweithredwr y busnes bwyd yn gweithredu mesurau, fel sy'n briodol, i sicrhau na ragorir ar y ffin goddefiant cadw poeth a ddisgrifir uchod.

### 7.8.12 Gwyriadau tymheredd

Lle bydd gweithredwr y busnes bwyd yn awgrymu na chydymffurfiwyd[84] â thymereddau penodedig am resymau nad oedd modd eu hosgoi, rhaid i'r swyddog awdurdodedig drafod y rhesymau gyda gweithredwr y busnes bwyd a, lle bo modd, ceisio cytuno ar gamau i'w atal rhag digwydd eto.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig sicrhau bob amser bod unrhyw fesurau a gymerwyd gan weithredwr y busnes bwyd o ran bwyd a amlygwyd i dymereddau sy'n uwch, neu'n is, na'r rheiny a ganiateir gan y rheoliadau yn gyson â diogelwch bwyd, a chymryd camau priodol i waredu'r fath fwyd o'r gadwyn fwyd os bydd hynny'n ofynnol.

Os yw'r bwyd ei hun ar dymheredd uwch na'r tymheredd cadw oer rhagnodedig, neu dymheredd is na'r tymheredd cadw poeth rhagnodedig, a bod y swyddog awdurdodedig o'r farn na chafodd y bwyd ei gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, mae'n rhaid i'r swyddog ymdrin â'r bwyd o dan reoliad 27 o'r Rheoliadau (gweler Rheoliad 23 yn y cyd-destun hwn hefyd). Fodd

[84] Rheoliad 30 ac Atodlen 4 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

bynnag, gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i dynnu bwyd o'r gadwyn fwyd o dan amgylchiadau priodol.

Os yw bwyd ar dymheredd uwch nag 8ºC (lle cadw oer) neu islaw 63ºC (lle cadw poeth) ond nad yw'n methu â bodloni gofynion diogelwch bwyd, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i bennu'r camau mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau. Gall y bwyd barhau i fod yn addas i'w fwyta, hyd yn oed os yw wedi'i gadw ar dymheredd o fewn yr ystod hon.

Dylai swyddogion awdurdodedig ymholi o ran hanes y bwyd, yn arbennig i ganfod a allai fod wedi cael ei amlygu i dymereddau o'r fath yn y gorffennol. Rhaid i benderfyniadau gorfodi ystyried hanes y bwyd ac a yw'n gyson â diogelwch bwyd. Gall swyddogion awdurdodedig ddefnyddio dull addysgiadol fel cam cyntaf tuag at sicrhau cydymffurfiaeth, a thrafod gofynion y ddeddfwriaeth gyda gweithredwr y busnes bwyd i sicrhau ei fod yn deall y rheolaethau, pam y mae eu hangen a sut y gellir eu cyflawni. Wrth ystyried y dull i'w gymryd, dylai swyddogion gorfodi ystyried pa mor debygol yw hi y gallai bwyd gael ei roi yn gyson ar y farchnad ar y tymereddau hyn.

## 7.9 Dŵr potel

### 7.9.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau i Awdurdodau Bwyd ar orfodi Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007.

Mae'r rheoliadau hyn yn trosi darpariaethau Cyfarwyddeb Senedd a Chyngor Ewrop 2009/54 a Chyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC i ddeddfwriaeth y DU, sy'n ymwneud â diogelwch ac ansawdd dŵr i'w yfed gan bobl fel y mae'n berthnasol i ddŵr potel.

Mae'r rheoliadau hefyd yn gweithredu:

- Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/40/EC sy'n pennu'r rhestr o gyfansoddion dŵr mwynol naturiol, y cyfyngiadau crynodiad a'r gofynion labelu, ynghyd â'r amodau ar gyfer defnyddio aer a gyfoethogir ag osôn i drin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon.
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 115/2010 sy'n gosod amodau ar gyfer defnyddio alwmina wedi'i actifadu ar gyfer tynnu fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon ac i ymgorffori testun o Gyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar fonitro gan Awdurdodau Bwyd at ddibenion rheoleiddio.
- Cyfarwyddeb 2013/51 EURATOM sy'n gosod gofynion ar gyfer monitro sylweddau ymbelydrol mewn dŵr y bwriedir ei yfed gan bobl i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n berthnasol i ddŵr potel.
- Cyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1787 sy'n diwygio Atodiadau II a III i Gyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd y dŵr y bwriedir ei yfed gan bobl i'r graddau bod y gofynion hynny'n berthnasol i ddŵr potel.

Diwygiwyd y rheoliadau yn ddiweddar i adlewyrchu statws newydd y DU mewn perthynas â'r UE a gweithrediad Protocol Gogledd Iwerddon gan Reoliadau Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

### 7.9.2 Dŵr mwynol naturiol (NMW)

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob ffynhonnell dŵr mwynol naturiol gael ei chydnabod gan yr Awdurdod Bwyd ar gyfer yr ardal lle mae'r ffynhonnell.

Ar ôl rhoi cydnabyddiaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd gynnal gwiriadau cyfnodol i sicrhau bod y ffynhonnell yn parhau i fod yn rhydd rhag bob risg o lygredd a bod cyfansoddiad y dŵr yn aros yn sefydlog yn unol ag Atodlen 3 a 4 o'r Rheoliadau.

Ni chaniateir gwerthu dŵr fel dŵr mwynol naturiol os nad yw'r ffynhonnell wedi'i chydnabod.

Mae'r rhestr ddiweddaraf o'r holl ffynonellau cydnabyddedig yn yr UE ar gael ar wefan yr UE.

Gellir gweld y rhestr wedi'i diweddaru o ddŵr mwynol naturiol a gydnabyddir yn y DU ar-lein yn y canllawiau canlynol.

### 7.9.3 Cydnabod dŵr mwynol naturiol

Cyflwynir ceisiadau i gydnabod dŵr mwynol naturiol yng Nghymru yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd asesu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu Defra pryd bynnag y maent yn dod ar draws cydnabyddiaeth dŵr mwynol naturiol newydd, tynnu cydnabyddiaeth yn ôl, neu gymeradwyo newid yn enw'r ffynhonnell neu ddisgrifiad masnach dŵr mwynol naturiol.

Ar gyfer Defra: anfonwch e-bost at: Bottled.Water@defra.gov.uk

Safonau Cyfansoddiadol Bwyd ar gyfer Dŵr Yfed
Wedi'i Botelu
Cyfarwyddiaeth Cadwyn Fwyd
2il Lawr Adeilad Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd hysbysu'r London Gazette am unrhyw gydnabyddiaeth o ddŵr mwynol naturiol.

Ni ellir tancro dŵr mwynol naturiol, oni bai ei fod wedi'i dancro at ddibenion ecsbloetio'r ffynnon *(spring)* cyn 17 Gorffennaf 1980. Felly mae'n rhaid cludo dŵr o'r ffynnon i'r ffatri potelu mewn piblinell *(pipeline)* gaeedig y mae'n rhaid iddi fod o ddefnyddiau sy'n addas ar gyfer dŵr ac wedi'i hadeiladu i atal unrhyw newid cemegol, ffisiocemegol neu ficrobiolegol i'r dŵr.

### 7.9.4 Cydnabyddiaeth dŵr mwynol naturiol o du allan i Gymru

Cydnabyddir dŵr fel dŵr mwynol naturiol lle:

(a) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear yng Nghymru, rhoddir cydnabyddiaeth gan yr awdurdod perthnasol yn unol â Rhan 1 o Atodlen 3;

(b) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn rhan arall o'r DU, ei fod yn cael ei gydnabod yno yn unol â Chyfarwyddeb 80/777 gan awdurdod cyfrifol o'r rhan honno o'r DU;

(c) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn Gwladwriaeth Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) heblaw'r DU, ei fod yn cael ei gydnabod yno yn unol â Chyfarwyddeb 80/777 gan awdurdod cyfrifol o'r Wladwriaeth AEE honno; a

(d) yn achos dŵr a echdynnwyd o'r ddaear mewn gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE — (i) mae'n cael ei gydnabod gan yr Asiantaeth, yn unol â Rhan 2 o Atodlen 3, neu (ii) mae ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol, a roddir gan awdurdod cyfrifol o — (aa) ran arall o'r DU, neu (bb) Gwladwriaeth AEE heblaw'r DU.

### 7.9.5 Labelu dŵr mwynol naturiol

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofynion labelu manwl ar gyfer cynwysyddion dŵr mwynol naturiol y mae'n rhaid eu bodloni pan fydd dŵr mwynol naturiol yn cael ei becynnu.

Yn eu plith, mae'r un rheol ffynnon yn berthnasol.

### 7.9.6 Dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi’i botelu arall

Nid yw'r broses gydnabod sy'n ofynnol ar gyfer Dŵr Mwynol Naturiol yn berthnasol ar gyfer dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi’i botelu. Mae'r paramedrau i'w mesur a'r terfynau uchaf y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi’i botelu hefyd yn wahanol i'r rhai ar gyfer dŵr mwynol naturiol.

Mae'r diwygiad diweddaraf (2017) i'r Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) yn diweddaru rhwymedigaethau monitro gan awdurdodau perthnasol mewn perthynas â sylweddau ymbelydrol ar gyfer dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi’i botelu ac yn sefydlu'r meini prawf ar gyfer samplu gan yr Awdurdodau Bwyd.

Mewn perthynas â pharamedrau cemegol a microbiolegol, mae'r amlder lleiaf ar gyfer gwiriadau monitro a samplu monitro archwilio ynghyd â'r paramedrau i'w cymryd gan bob awdurdod perthnasol ar gyfer dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi’i botelu wedi'u dileu gan y diwygiad diweddaraf i'r Rheoliadau.

Fodd bynnag, bydd angen ymyrraeth gan awdurdodau perthnasol gan fod rheolaethau swyddogol o dan Reoliadau (CE) Rhif 178/2002 a Rheoliad (UE) 2017/625 yn berthnasol. At hynny, bydd angen samplu dŵr i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Rheoliadau o ran paramedrau cemegol a microbiolegol.

Fel dŵr mwynol naturiol, ni ellir tancro dŵr ffynnon, oni bai ei fod wedi’i gludo mewn tanceri ar 13 Rhagfyr 1996 neu cyn hynny. Mae’r hawl i ddefnyddio tanceri’n gysylltiedig â’r *ffynnon,* nid y potelwr.

### 7.9.7 Labelu dŵr ffynnon a dŵr wedi’i botelu arall

Rhaid i unrhyw ddŵr wedi’i botelu a ddisgrifir fel 'dŵr ffynnon' fodloni'r gofynion labelu ac ecsbloetio perthnasol yn y Rheoliadau.

Yn eu plith, mae'r *rheol un ffynnon* hefyd yn berthnasol ar gyfer dŵr ffynnon.

Mae dŵr yfed wedi'i botelu yn ddarostyngedig i ofynion labelu cyffredinol Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, ac yn benodol ni ellir defnyddio unrhyw arwydd, p'un a yw'n arwyddluniol *(emblematic)* ai peidio, a fyddai’n peri dryswch bod y dŵr yn ddŵr mwynol naturiol, neu’r disgrifiad 'dŵr mwynol'.

## 7.10 Gwastraff bwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid

### 7.10.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Bwyd ar reoli gwastraff bwyd a chael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r broses o adnabod, categoreiddio, gwahanu, casglu a gwaredu gwastraff bwyd yn cynnwys rheoliadau a gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Rheoliad (CE) 852/2004.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, mae 'gwastraff bwyd' yn cynnwys deunydd bwyd nad yw'n addas ar gyfer pobl neu nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl, er mae'n bwysig nodi bod 'gwastraff bwyd' yn aml yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at fwyd sy'n cael ei ailddosbarthu ac felly yn yr achosion hynny yn parhau 'ar y farchnad' yn nhermau cyfraith bwyd.

Bydd llawer o fusnesau bwyd yn ymdrechu i leihau gwastraff bwyd a dosbarthu bwyd dros ben *(surplus)* i elusennau neu grwpiau ailddosbarthu. Mae'r ASB yn cefnogi ailddosbarthu bwyd dros ben lle gellir gwneud hynny'n ddiogel. Mae dogfen ganllaw gyda chyngor defnyddiol ar gyfer elusennau a busnesau sy'n ailddosbarthu bwyd dros ben o'r enw Arfer gorau ar labelu dyddiadau bwyd a chyngor ar storio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017 gan WRAP mewn cydweithrediad â'r ASB a Defra.

### 7.10.2 Arolygu busnesau bwyd

Rhaid i unrhyw arolygiad o fusnes bwyd, gan gynnwys arolygu sefydliadau/safleoedd symudol, llongau, awyrennau a threnau, gynnwys gwiriad o'r trefniadau sydd gan y busnes ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd.

Rhaid i'r gwiriadau:

- gynnwys y trefniadau mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd wedi'i fewnforio o longau ac awyrennau; a
- gwirio bod bygythiadau i iechyd pobl neu anifeiliaid, a all ddeillio o waredu gwastraff bwyd yn anghyfreithlon, yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy waredu'n briodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

### 7.10.3 Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Yn ôl Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009, ystyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) yw cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid, cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a geir o anifeiliaid (gan gynnwys wyau, llaeth a mêl), nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl gan gynnwys oocytau, embryonau a semen[85]. Mae erthyglau 8-10 o Reoliad (CE) 1069/2009 yn nodi'r hyn a gynhwysir gan ddeunyddiau Categori 1, 2 a 3 a dylid cyfeirio atynt.

Mae deunydd bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn dod yn sgil-gynhyrchion anifeiliaid pan fydd rheolwr y busnes bwyd yn penderfynu na ddylai'r cynnyrch gael ei fwyta gan bobl bellach. Unwaith y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud, nid oes modd newid y penderfyniad. Yna daw'r deunydd yn sgil-gynhyrchion anifeiliaid risg isel (categori 3), ac mae tarddiad a natur y deunydd bwyd

[85] Fel y'i diffinnir ym mhwynt (1) o Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009

hwn yn penderfynu sut y gellir ei waredu neu ei ddefnyddio, a'r cofnodion y mae'n rhaid eu cadw.

Lle bo hynny'n briodol, dylai arolygiadau, y gellir eu cynnal gan swyddog iechyd yr amgylchedd neu swyddog safonau masnach awdurdodedig yn dibynnu ar y ffordd y mae rheolaethau'n cael eu trefnu o fewn yr Awdurdod Bwyd, gynnwys gwiriadau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn sicrhau bod eu system rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys gweithdrefn wedi'i dogfennu ar gyfer adnabod, labelu (categori 1, 2 neu 3), trin a gwaredu cynhyrchion o'r fath. Mae angen i gynwysyddion a ddefnyddir i gasglu sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu labelu'n glir a gellir eu gwahaniaethu yn hawdd oddi wrth gynwysyddion a ddefnyddir i gasglu cynhyrchion y bwriedir eu prosesu a'u bwyta gan bobl wedi hynny. Mae Erthyglau 12-14 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 yn nodi gofynion ar gyfer gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1, 2 a 3.

Dylai gwiriadau hefyd wirio bod y gweithdrefnau cofnodedig hyn yn cael eu cyflawni yn unol â hynny yn y sefydliad gan weithredwr y busnes bwyd.

Gellir dod o hyd i ganllawiau manwl pellach ar nodi, labelu, storio a chludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid ym Mhennod 5 y Canllaw i'r Diwydiant ar gyd-gynhyrchion bwytadwy a sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

### 7.10.4 Bwyd anifeiliaid – deunyddiau a arferai fod yn fwyd *(former foodstuffs)* a chyd-gynhyrchion

Gall deunyddiau a arferai fod yn fwyd, y gellir eu disgrifio hefyd fel bwyd dros ben, yn ddarostyngedig i reolau sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gael eu cyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid lle nad yw'r bwyd bellach wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl am resymau masnachol. Gall hyn gynnwys cynnyrch sydd wedi mynd heibio'r dyddiad *(out of date)*, cynnyrch heb fanyleb, cynnyrch neu gynhwysion dros ben, neu fwyd mewn deunydd pecynnu sydd wedi'i ddifrodi.

Gellir cyflenwi cyd-gynhyrchion prosesu bwyd hefyd ar gyfer bwyd anifeiliaid, er enghraifft pwlp ffrwythau o gynhyrchu sudd ffrwythau a grawn bragu o gynhyrchu cwrw.

Gellir cyflenwi deunyddiau a arferai fod yn fwyd a chyd-gynhyrchion yn uniongyrchol i fferm neu eu hanfon i'w prosesu ymhellach.

Mae gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cyflenwi deunyddiau a arferai fod yn fwyd neu gyd-gynhyrchion hefyd yn weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid. Os ydynt yn ymwybodol bod eu cynhyrchion wedi'u bwriadu ar gyfer bwyd anifeiliaid, rhaid iddynt gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid gyda'u hawdurdod bwyd anifeiliaid a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 Hylendid Bwyd Anifeiliaid, Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 Marchnata a Defnyddio Bwyd Anifeiliaid gan gynnwys labelu a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 ar egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd gan gynnwys bwyd anifeiliaid.

Pan nodir yn ystod arolygiad o safle bwyd bod deunyddiau a arferai fod yn fwyd neu gyd-gynhyrchion yn cael eu cyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid, dylid sefydlu os yw'r busnes wedi'i gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid gyda'u hawdurdod bwyd anifeiliaid

lleol. Os nad yw gweithredwr y busnes bwyd wedi'i gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid neu na ellir ei sefydlu, rhaid hysbysu'r awdurdod bwyd anifeiliaid lleol.

### 7.10.5 Bwyd anifeiliaid – rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Os yw deunyddiau a arferai fod yn fwyd neu gyd-gynhyrchion yn cynnwys neu'n cael eu halogi â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, byddant bellach yn destun rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Yn gyffredinol, ni ellir defnyddio'r cynhyrchion hyn fel bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio. Mae rhagor o wybodaeth am waredu bwyd a deunyddiau a arferai fod yn fwyd ar gael yng nghanllawiau APHA. Pan fydd gweithredwr y busnes bwyd yn penderfynu nad yw bwyd sy'n dod o anifail neu fwyd sy'n cynnwys POAO bellach i'w fwyta gan bobl, daw'r deunydd a arferai fod yn fwyd yn sgil-gynnyrch anifail ac ni ellir gwrthdroi'r penderfyniad hwn.

### 7.10.6 Bwyd anifeiliaid – gwastraff arlwyo

Gwastraff arlwyo yw unrhyw fwyd gwastraff (gan gynnwys olew coginio wedi'i ddefnyddio) sy'n dod o fwytai, safleoedd arlwyo, ceginau masnachol neu geginau cartref. Ni ddylid anfon gwastraff arlwyo i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid gan gynnwys ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes oherwydd y risg o groeshalogi â POAO, er enghraifft llaeth. Mae gwastraff arlwyo wedi'i brosesu, a elwir yn 'swill', hefyd wedi'i wahardd rhag ei fwydo i anifeiliaid. Gweler yr erthygl ganlynol i gael rhagor o wybodaeth.

### 7.10.7 Ymchwiliadau mawr

Efallai y bydd Awdurdodau Bwyd yn dod yn ymwybodol o achosion o dwyll bwyd amlwg yn ymwneud â chamddefnyddio gwastraff bwyd a allai fod â goblygiadau difrifol i iechyd y cyhoedd neu i anifeiliaid, er enghraifft cig anaddas yn cael ei ddargyfeirio i'r gadwyn fwyd ddynol. Gweler Pennod 5 am gyngor ar droseddau bwyd.

Gallai ymchwilio i achosion o'r fath gael effaith ddifrifol ar adnoddau Awdurdodau Bwyd, o ran amser ac adnoddau eraill. Serch hynny, gall yr achosion hyn yn arwain at risgiau difrifol iawn i iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid, ac mae'n bwysig bod yr awdurdod gorfodi perthnasol yn ymwybodol ohonynt ac yn ymchwilio'n syth, a bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw'n drylwyr.

Gall yr adnoddau sydd eu hangen effeithio ar allu Awdurdod Bwyd i gynnal ei raglen arolygu a gorfodi arferol. Os bydd amgylchiadau o'r fath yn codi, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Bwyd yn cysylltu â'r ASB cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Yna bydd yr ASB a'r Awdurdod Bwyd yn gallu trafod opsiynau, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth sydd ar gael, neu a oes rhaid ail-flaenoriaethu rhaglen arolygu'r Awdurdod Bwyd i sicrhau bod arolygiadau o safleoedd risg uwch yn cael eu cynnal.

## 7.11 Gwerthu o bell/archebu drwy'r post

### 7.11.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau i Awdurdodau Bwyd ar orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell, a gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol cyffredinol eraill mewn perthynas â gwerthu o bell.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, mae 'gwerthu bwyd o bell' yn golygu hysbysebu bwyd i'w werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr lle mae'r gwerthiant neu'r cyflenwad dilynol yn digwydd heb i'r prynwr a'r gwerthwr gwrdd wyneb yn wyneb. Mae enghreifftiau o werthu o bell yn cynnwys gwerthu bwyd trwy wefannau, archebu drwy'r post, a gwerthu dros y ffôn.

Mae'r materion gorfodi ar gyfer Awdurdodau Bwyd sy'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell yn dibynnu'n bennaf ar leoliad yr hysbysebwr a/neu'r gwerthwr.

### 7.11.2 Lleoliad y gwerthwr

Mae gallu Awdurdodau Bwyd i orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell yn dibynnu ar ble mae'r gwerthwr wedi'i leoli.

Mae'n bwysig cofio bod bwyd a brynir trwy wefan yn cynnwys gwerthu trwy'r We Fyd-Eang, ac y gallai'r gwerthwr felly fod wedi'i leoli unrhyw le yn y byd.

### 7.11.3 Gwerthu bwyd o bell o'r DU

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU yn digwydd pan fydd yr hysbyseb bwyd i'w werthu neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd o fewn awdurdodaeth system gyfreithiol y DU, hyd yn oed os yw'r prynwr wedi'i leoli dramor.

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU wedi'i gynnwys yn y gyfraith bwyd perthnasol. Felly mae'n rhaid i fwyd a werthir o bell o'r DU gydymffurfio â'r un gofynion cyfreithiol a bwyd a werthir o archfarchnad ar y stryd fawr; ac mae'n rhaid i hysbysebion ar gyfer bwyd o'r fath gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer bwyd mewn papur newydd cenedlaethol yn y DU.

Awdurdodau Bwyd:

- mae awdurdodau bwyd yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell o'r DU, gan gynnwys bwyd a gaiff ei hysbysebu neu ei werthu drwy wefannau sydd wedi'u lleoli yn y DU.
- rhaid iddynt felly fod â dull priodol o fonitro bwyd a werthir o bell gan fusnesau y maent yn Brif Awdurdod arnynt.
- rhaid iddynt gynnwys asesiad o faterion hylendid bwyd, diogelwch, hysbysebu, cyfansoddi a labelu perthnasol mewn arolygiadau wedi'u rhaglennu o fusnesau sy'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell o'r DU yn eu hardaloedd.

### 7.11.4 Gwerthu bwyd o bell o'r tu allan i'r DU

Mae gwerthu bwyd o bell o'r tu allan i'r DU yn digwydd pan fydd yr hysbyseb bwyd i'w werthu neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd y tu allan i awdurdodaeth y DU.

#### 7.11.5 Cyfeiriadau eraill

Cafodd y Canllaw i Arfer Hylendid Da ar gyfer y Diwydiant Bwyd Archebu drwy'r Post , a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 8 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, ei gyhoeddi yn 2007. Mae hefyd canllawiau'r ASB ar fwyd sy'n cael ei werthu ar-lein (yn ogystal â chanllawiau i fusnesau bwyd a defnyddwyr).

Nodir cyfraith gyffredinol sy'n rheoleiddio gwerthu o bell yn y DU yn Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/7/EC yn y DU.

Awdurdod Cymwys canolog y DU sy'n gyfrifol am y rheoliadau hyn yw'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Cyfrifoldeb yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a'r Adrannau Safonau Masnach yw gorfodi.

### 7.12 Nodiadau canllaw ychwanegol i Awdurdodau Bwyd

Mae canllawiau ychwanegol ar amrywiaeth o faterion cyfraith bwyd ar gael ar lwyfan hwyluso cyfathrebu'r ASB.

# Geirfa

### Achos (outbreak)

Fel arfer/yn enwedig clefyd a gludir gan fwyd a/neu glefyd berfeddol heintus.

### Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw adran Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am yr amgylchedd, bwyd a’r diwydiant ffermio.

### Allforio

Y weithred o anfon neu gludo nwyddau y tu allan i diriogaeth berthnasol.

### Ar gael yn hawdd

Mae unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael yn hawdd yn golygu y gall defnyddwyr a busnesau eu cael yn gyflym ac yn hawdd, naill ai ar ffurf electronig neu fel copïau caled.

### Archwilio

Yn ôl Erthygl 3(30) o Reoliad (UE) 2017/625, ystyr ‘archwilio’ yw archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â threfniadau wedi'u cynllunio ac a yw'r trefniadau hyn yn cael eu cymhwyso'n effeithiol gan weithredwr y busnes bwyd ac a ydynt yn addas o ran cyflawni amcanion. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rhannol neu archwiliadau llawn wedi'u cynllunio:

mae 'archwiliad llawn', yn archwiliad o'r trefniadau wedi’u cynllunio ac yn archwilio a ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae’n ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr y busnes bwyd

mae ‘archwiliad rhannol’ yn archwiliad sy’n ymdrin â rhai agweddau ar weithrediad gweithredwr y busnes bwyd yn unig

### Archwiliwr bwyd

Unrhyw berson sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol i gynnal archwiliadau.

### Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)

Yn cynnwys aelod-wladwriaethau'r UE a thair gwlad Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA). Cytundeb rhwng pedair colofn sylfaenol y farchnad fewnol, sef rhyddid i symud, o ran pobl, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf.

**Ardystiad swyddogol**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(28) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu unrhyw label, marc neu fath arall o ardystiad a gyhoeddir gan y gweithredwyr o dan oruchwyliaeth, trwy reolaethau bwyd swyddogol pwrpasol, o’r Awdurdodau Bwyd neu gan yr Awdurdodau Bwyd eu hunain, ac yn darparu sicrwydd o ran cydymffurfio ag un neu fwy o’r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwn neu yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) Rheoliad (UE) 2017/625.

**Arolygiad**

Archwilio unrhyw agwedd ar fwyd, bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid er mwyn gwirio bod agweddau(au) o'r fath yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau rhannol neu lawn:

mae 'arolygiad llawn', yn gwirio cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol ac yn ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwyr busnesau bwyd

mae ‘arolygiad rhannol’ yn arolygiad sy'n cynnwys rhai agweddau ar weithrediadau gweithredwyr busnesau bwyd yn unig

**Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA)**

Mae'r MCA yn asiantaeth weithredol yn yr Adran Drafnidiaeth sy'n gweithio i atal colli bywydau ar yr arfordir ac ar y môr. Maent hefyd yn cynhyrchu deddfwriaeth a chanllawiau ar faterion morwrol ac yn darparu ardystiad i forwyr.

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**

Mae APHA yn asiantaeth weithredol o Defra sy'n gweithredu ledled Prydain Fawr ac mae'n gyfrifol am ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid. Mae gweithgareddau gorfodi bwyd anifeiliaid APHA yn canolbwyntio ar wahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid cnoi cil, o dan Reoliad (CE) Rhif 999/2001 (a elwir yn 'Rheoliadau TSE'), sef rheolaethau sy'n ymwneud â gwastraff arlwyo a golchion bwyd anifeiliaid o dan Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 (a elwir yn 'Rheoliadau ABP') a chymeradwyo neu gofrestru safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

Yr Awdurdod Bwyd Canolog yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

**Astudiaeth dichonolrwydd**

Astudiaeth ragarweiniol ar raddfa fach, a gynhelir fel rhan o Raglen dan arweiniad yr ASB, er mwyn nodi dichonoldeb, amser, cost, digwyddiadau andwyol, rhagweld

maint sampl priodol, a helpu i ddatblygu dyluniad yr astudiaeth cyn prosiectau braenaru (pathfinder) ar raddfa fwy.

**Awdurdod bwyd**

Fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(3) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, yn unol â'r Rheoliad hwnnw a'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2).

**Awdurdod Cartref**

Yn golygu'r awdurdod lle mae sylfaen gwneud penderfyniadau perthnasol y fenter wedi'i leoli.

**Awdurdod cofrestru**

Yr Awdurdod Bwyd lle mae gweithredwr busnes bwyd wedi’i leoli. Mewn perthynas â sefydliad symudol, yr awdurdod cofrestru fydd yr ardal lle mae'n cael ei gadw fel arfer.

**Awdurdod Cymwys Canolog**

Fel y'i diffinnir yn rhannol gan Erthygl 3(3)(a) o Reoliad (UE) 2017/625, i olygu awdurdod canolog y DU sy'n gymwys i drefnu rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn y DU. Yr Awdurdod Cymwys Canolog yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

**Awdurdod Gorfodi**

Mae ei ystyr wedi’i ddiffinio gan Reoliad 2(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru).

**Awdurdod gwreiddiol**

Yn golygu awdurdod yr ardal lle mae'r cynhyrchu bwyd terfynol yn digwydd.

**Awdurdod Iechyd Porthladd**

Fel y'i diffinnir yn Adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, yn golygu mewn perthynas â phorthladd neu ran o borthladd, unrhyw awdurdod lleol y mae ei ardal, neu unrhyw ran y mae ei ardal, yn rhan o, neu'n ffinio gyda, y porthladd hwnnw neu ran o borthladd, ac unrhyw gadwraethwyr, comisiynwyr neu bersonau

eraill sydd ag awdurdod yn y porthladd hwnnw, dros y porthladd neu o fewn y porthladd.

**Awdurdod lleol**

Fel y'i diffinnir yn Adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn golygu cyngor gwlad, cyngor bwrdeistref sirol, neu gyngor cymunedol.

**Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol (NEPs)**

Mae'r NEPs ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd ar y lefel a enillir yn cynorthwyo Awdurdodau Bwyd a busnesau i gynnal safonau a diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

**Briwgig (MM)**

Cig sydd wedi'i falu neu ei friwio.

**Busnes bwyd**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(2) Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, yn golygu cynnal gwaith, boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

**Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB)**

Corff dyfarnu yn y DU sy'n rhoi tystysgrifau cofrestru i'r rhai sydd wedi cwblhau cwrs astudio cymeradwy yn llwyddiannus ym mhwnc iechyd yr amgylchedd sy'n cynnwys cwrs achrededig, dysgu yn y gwaith ac arholiadau proffesiynol.

**Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB)**

Pwyllgor Sefydliad Iechyd yr Amgylchedd Brenhinol yr Alban, sy'n pennu'r safon academaidd cyn-gofrestru sydd ei angen gan bobl sy'n gwneud cais am ddyfarnu'r Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd, y Dystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a'r Dystysgrif Uwch mewn Cymwysterau Arolygu Safonau Bwyd.

**Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (FSG)**

Mae Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 yn sefydlu gofynion cyfansoddiadol a gwybodaeth ar gyfer y categorïau bwyd canlynol: fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol; bwyd

grawnfwyd a bwyd babanod; bwyd at ddibenion meddygol arbennig; amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau.

**Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB)**

Gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd a rheoliadau hylendid bwyd ar gyfer busnesau bach.

**Cadw gwyliadwriaeth**

Arsylwi gofalus ar un neu fwy o fusnesau bwyd, neu weithredwyr busnesau bwyd neu eu gweithgareddau.

**Canolfan Gwyddorau'r Amglychedd, Pysgodfeydd a Dyframaeth (CEFAS)**

Mae Cefas yn asiantaeth weithredol DEFRA sy'n casglu, yn rheoli ac yn dehongli data ar yr amgylchedd dyfrol, bioamrywiaeth a physgodfeydd.

**Camau ffurfiol**

Cymryd camau yn erbyn gweithredwr busnes bwyd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad statudol i ddatrys achos o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rhoi Rhybudd Syml neu achos cyfreithiol oherwydd torri gofynion cyfreithiol.

**Cofnodion**

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n ysgrifenedig neu mewn modd tebyg.

**Cosb**

Y gosb a osodir gan lys ar euogfarn am dramgwydd o dan ddeddfwriaeth fwyd.

**Cydnabyddiaeth a enillir**

Pan fydd Awdurdod Bwyd yn penderfynu pa mor aml i gynnal eu rheolaethau bwyd swyddogol, gallant gydnabod safonau gweithredwyr busnesau bwyd sy'n dangos eu bod yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd anifeiliaid drwy gymryd camau priodol i gydymffurfio â'r gyfraith. Felly, mae gweithredwyr o'r fath yn ennill cydnabyddiaeth.

**Cydymffurfio**

Yn bodloni gofynion y gyfraith.

**Cyfathrebu o Bell**

Unrhyw fodd o gyfathrebu y gellir ei ddefnyddio, heb bresenoldeb ffisegol y cyflenwr a'r defnyddiwr ar yr un pryd, i ddod i gontract rhwng y partïon hynny.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)**

WLGA yw llais cenedlaethol llywodraeth leol, gan weithio gydag Awdurdodau Bwyd i gefnogi, hyrwyddo a gwella gwasanaethau llywodraeth leol.

**Cymeradwyaeth amodol**

Cymeradwyaeth a roddwyd gan Awdurdod Bwyd yn unol ag Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) Rhif 2017/625 os yw Awdurdod Bwyd yn nodi bod sefydliad yn bodloni'r holl ofynion seilwaith ac offer. Rhaid i gymeradwyaeth amodol beidio â bod yn fwy na chwe mis, ac eithrio llongau ffatri a llongau rhewi, lle mae'n rhaid i'r gymeradwyaeth amodol beidio â bod yn fwy na 12 mis.

**Cymeradwyaeth lawn**

Bydd sefydliad dim ond yn cael cymeradwyaeth lawn os yw'n ymddangos yn sgil rheolaeth swyddogol newydd ar y sefydliad, a gynhelir o fewn tri mis ar ôl rhoi cymeradwyaeth amodol, bod y sefydliad yn bodloni gofynion perthnasol eraill cyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd.

**Cynhyrchu cynradd (Bwyd)**

Cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro a chynhyrchu anifeiliaid sy'n cael eu ffermio cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt fel y'u diffinnir yn Erthygl 3(17) Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

**Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (FHRS)**

Cynllun sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am yr hyn yr oedd pob busnes bwyd wedi'i gyflawni yn eu harolygiad hylendid bwyd diwethaf a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol, wedi'i sgorio o 0 (angen gwella ar frys) – 5 (Safonau hylendid da iawn).

**Cyrff dyfarnu**

Mewn perthynas â'r Cod, y cyrff dyfarnu yw: Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH); Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) a; Y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST).

**Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)**
Mae HACCP yn ddull systematig tuag at ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i atal peryglon biolegol, cemegol a ffisegol mewn prosesau cynhyrchu, a all achosi i'r cynnyrch terfynol fod yn anniogel, ac mae'n cynllunio mesuriad i leihau'r risgiau hyn i lefel ddiogel.

**Dadansoddwr Cyhoeddus**

Gwyddonwyr sy'n sicrhau diogelwch a disgrifiad cywir o fwyd trwy brofi am gydymffurfiaeth â deddfwriaeth fel y nodir yn Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Sut mae aelodau o broffesiwn yn parhau i wella neu ehangu'u gwybodaeth a'u sgiliau ac i ddatblygu'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau proffesiynol.

**Diffyg cydymffurfiaeth**

Methiant i gydymffurfio ag un neu ragor o ofynion cyfraith bwyd.

**Digwyddiad bwyd**

Unrhyw ddigwyddiad lle ceir pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, am fygythiadau gwirioneddol neu fygythiadau a amheuir i ddiogelwch, ansawdd neu uniondeb bwyd lle gall fod angen ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

**Dilysu (validate)**

Yn golygu cadarnhad y cydymffurfiwyd â'r gofynion.

**Diogelwch**

Gwrthdroi neu beidio ag achosi anaf, perygl neu golled.

**Dogfen Mynediad Iechyd Cyffredin (CHED-D)**

Defnyddir y Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn amodol ar eu mynediad i'r DU i unrhyw un o'r mesurau neu'r amodau y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (d), (e), neu (f) o Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Dylai (Should)**

Yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau arfer gorau.

**Efallai na fydd (May not)**

Yn nodi gwaharddiad.

**Escherichia coli O157 (E.coli O157)**

Straen VTEC a all achosi salwch mewn pobl. Gall symptomau amrywio o gastroenteritis ysgafn, dolur rhydd, a niwed i'r arennau.

**Ffosffatase alcalïaidd (ALP)**

O ran profion ffosffatase mewn AP llaeth; mae ffosffatase alcalinaidd yn ensym cynhenid sydd wedi’i guddio mewn llaeth anifeiliaid cnoi cil (ruminants). Mae'r ensym wedi'i ddadnatureiddio wrth basteureiddio'r llaeth, felly fe'i defnyddir i bennu effeithiolrwydd llaeth sy'n cael ei drin â gwres.

**Fframwaith**

Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol.

**Gall (May)**

Ar ei ben ei hun yn dynodi ymarfer dewisol o bŵer neu swyddogaeth.

**Gallai (could)**

Yn cael ei ddefnyddio’n gyffredinol i nodi'r darpariaethau hynny sy'n ganllawiau yn unig.

**Glanhau yn y fan â’r lle (CIP)**

Dull glanhau, i dynnu gweddillion (residues) o eitemau cyflawn o offer ffatrïoedd heb ddatgymalu nac agor yr offer.

**Gorchymyn Gwahardd (PO)**

Gorchymyn a gyflwynir gan y Llys yn gosod gwaharddiadau priodol i fusnes bwyd pan gaiff ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan unrhyw reoliadau y mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn berthnasol iddynt, a lle mae'r Llys wedi'i fodloni bod amod i

risg iechyd yn cael ei fygwth gan y busnes hwnnw.

**Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid (HPO)**

Gorchymyn a roddir gan y llys ynadon yn dilyn euogfarn gweithredwr busnes bwyd am drosedd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodol fel y nodir yn Rheoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Gorchymyn Gwahardd Brys (EPO)**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 12(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn golygu os yw swyddog awdurdodedig yn fodlon bod y risg i iechyd yn bodoli, gallai roi hysbysiad i berchennog y busnes er mwyn gosod y gwaharddiad priodol.

**Grŵp Gweithredu Lleol (LAG)**

Grŵp dielw, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, sy'n darparu cefnogaeth i'w priod ardaloedd gwledig, yn enwedig gweithredu prosiectau ar raddfa fach.

**Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS)**

Corff Achredu Cenedlaethol y DU, sy'n gyfrifol am bennu cymhwysedd technegol a chywirdeb sefydliadau er budd y cyhoedd.

**Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG/NHS)**

Gwasanaeth gofal meddygol ac iechyd yn y DU a ariennir gan y llywodraeth.

**Gweithdrefnau dilysu rheolaethau**

Cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel gweithdrefnau monitro mewnol, ac fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(6) o Reoliad (UE) 2017/625, dyma'r trefniadau a roddir ar waith a'r camau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd at ddibenion sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson ac yn effeithiol.

**Gweithgareddau swyddogol eraill**

Fel y'u diffinnir gan Erthygl 2(2) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu gweithgareddau, ac eithrio rheolaethau bwyd swyddogol, a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r unigolion naturiol y dirprwywyd rhai gweithgareddau swyddogol eraill iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625. Gan gynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o wirio presenoldeb afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, atal neu gynnwys lledaeniad afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion o'r fath, cael gwared ar yr afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, rhoi awdurdodiadau neu gymeradwyaethau, a chyhoeddi tystysgrifau swyddogol neu ardystiadau swyddogol.

**Gweithredwr busnes bwyd (FBO)**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, yn golygu'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth.

**Gwiriadau dogfennol**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(41) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu archwilio dogfennau masnachol a, lle bo hynny'n briodol, tystysgrifau swyddogol, ardystiadau swyddogol a dogfennau eraill sy'n ofynnol o dan gyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd i gyd-fynd â'r llwyth.

**Gwiriad ffisegol**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(43) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu gwiriad ar anifeiliaid neu nwyddau ac, fel y bo'n briodol, gwiriadau ar ddeunydd pecynnu, y dull cludo, labelu a thymheredd, y samplu ar gyfer dadansoddi, profi neu ddiagnosis ac unrhyw wiriad arall sy'n angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Gwiriad hunaniaeth**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(42) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu arolygiad gweledol i wirio bod cynnwys a labelu llwyth, gan gynnwys y marciau ar anifeiliaid, seliau a dull cludo, yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir yn y tystysgrifau swyddogol, yr ardystiadau swyddogol a dogfennau eraill sy'n cyd-fynd â nhw

**Gwirio (verify)**

Gwirio a yw'r gofynion penodedig wedi'u bodloni drwy archwilio ac ystyried tystiolaeth wrthrychol.

**Gwlad nad yw yn y DU**

Gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**Heb eu coginio'n drylwyr (LTTC)**

Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr, sy'n cynnwys cig pinc yn y canol.

**Hyder mewn rheolwyr (CIM)**

Mae'r sgôr hyder mewn rheolwyr yn rhan 3 o'r Cynllun Sgorio Ymyriadau Hylendid/Safonau. Mae'r Awdurdod Bwyd yn asesu gweithdrefnau rheoli/mesurau rheoli diogelwch bwyd y busnes gan ddefnyddio eu barn ar y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol. Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddyfarniad yr Awdurdod Bwyd mae: cofnod blaenorol o weithredwr y busnes bwyd yn cydymffurfio; gwybodaeth am ddiogelwch bwyd; agwedd tuag at gydymffurfio â hylendid a gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol.

**Hylendid**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl gan ystyried y defnydd a fwriadwyd ar gyfer y bwyd.

**Hylendid bwyd**

Yn golygu'r mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl gan ystyried y defnydd a fwriadwyd ar gyfer y bwyd, fel y nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

**Hysbysiad Cadw**

Hysbysiad a roddir i weithredwr busnes bwyd neu gynrychiolydd awdurdodedig priodol lle mae angen cadw unrhyw anifail neu fwyd at ddibenion archwilio (gan gynnwys cymryd samplau) fel y nodir yn Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Hysbysiad Camau Unioni (RAN)**

Hysbysiad a gyflwynir gan swyddog awdurdodedig i weithredwr busnes bwyd os troseddir yn erbyn unrhyw un o ofynion y “Rheoliadau Hylendid”, fel y’u diffinnir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu os ymyrrir ar arolygiad o dan y “Rheoliadau Hylendid”.

**Hysbysiad cydymffurfio**

Hysbysiad a gyflwynir gan swyddog awdurdodedig lle mae ganddo sail resymol dros gredu nad yw unigolyn wedi cydymffurfio, nad yw'n cydymffurfio ar hyn o bryd, neu nad yw'n debygol o gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 o Atodlen 1, 2, 3 neu 4 neu reoliad 13(2) o Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013.

**Hysbysiad ffurfiol**

Yn golygu hysbysiad fel y'i diffinnir yn y gwahanol Ddeddfau Seneddol neu offerynnau statudol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd.

**Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid (HEPN)**

Hysbysiad a gyflwynir gan y swyddog awdurdodedig lle mae risg o niwed i iechyd ar fin digwydd sy'n gwahardd defnyddio proses, triniaeth, safle neu offer, fel y bo'n briodol, fel y nodir yn Rheoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Hysbysiad Gwella**

Hysbysiad a gyflwynir i weithredwr busnes bwyd gan swyddog awdurdodedig sydd â sail resymol dros gredu nad yw perchennog busnes bwyd yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad rheoliadol, fel y nodir yn Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

**Hysbysiad Gwella Hylendid (HIN)**

Hysbysiad a gyflwynir gan y swyddog awdurdodedig ar weithredwr busnes bwyd lle maent wedi methu â chydymffurfio â chyfraith bwyd benodol fel y nodir yn Rheoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)**

Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Genedlaethol, sy'n adrodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon yn Senedd Cymru. Ei rôl yw amddiffyn a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

**Labordy Rheolaethau Swyddogol**

Labordy wedi'i achredu at ddibenion dadansoddi, ac sy'n ymddangos ar y rhestr o labordai rheolaethau bwyd swyddogol

**Llaeth buwch i'w yfed yn amrwd (RCDM)**

Llaeth buwch nad yw wedi cael ei drin â gwres uwchlaw 40°c (sef llaeth amrwd) ac mae wedi'i fwriadu i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl.

**Llofnodwyd**

Yn golygu cael llofnod wedi'i osod naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddulliau electronig.

**Llu Awyr Brenhinol (RAF)**

Llu rhyfela awyr y DU.

**Llwyth**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(37) o Reoliad (UE) 2017/625, mae'n golygu nifer yr anifeiliaid neu faint o nwyddau a gwmpesir gan yr un dystysgrif swyddogol, ardystiad swyddogol neu unrhyw ddogfen arall, a gludir trwy'r un dull cludo ac yn dod o'r un diriogaeth neu wlad y tu allan i'r DU, ac, ar wahân i'r nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau y cyfeirir atynt ym mhwynt (g) o Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad.

**Man Rheoli ar y Ffin (BCP)**

Yr ystyr a ddiffinnir yn Erthygl 3(38) o Reoliad (UE) 2017/625 yw man, a'r cyfleusterau sy'n perthyn iddo, wedi'i ddynodi ar gyfer cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU)**

Cytundeb ysgrifenedig ar gyfnewid gwybodaeth rhwng dau barti neu fwy.

**Mewnforio**

Y weithred o ddod â nwyddau a/neu wasanaethau o wlad arall y tu allan i'r DU.

**Milfeddyg Swyddogol**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(32) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu Milfeddyg a benodir gan Awdurdod Cymwys, naill ai fel staff neu fel arall, ac sydd â'r cymwysterau priodol i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â'r Rheoliad hwn a'r rheolau perthnasol y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Molysgiaid dwygragennog byw**

Mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw hefyd yn cynnwys ecinodermiaid, tiwnigogion byw a boldroediaid (gastropods) y môr byw, yn unol ag Atodiad I, Adran 2 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid ac eithrio rhannau o'r Cod hwn sy'n ymdrin â phuro molysgiaid dwygragennog byw.

**Monitro**

Cyflawni cyfres o arsylwadau neu fesuriadau wedi'u cynllunio er mwyn cael trosolwg ar hyd a lled y gydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd.

**Monitro pysgod cregyn yn amgylcheddol**

Casglu samplau rheolaethau swyddogol pysgod cregyn a dŵr o bwyntiau samplu dynodedig fel rhan o'r Rhaglenni Monitro Rheolaethau Swyddogol Pysgod Cregyn,

yn unol ag Erthygl 57 a Phennod II o Deitl V Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627.

**MP**

Paratoadau cig (meat preperations)

**Person Gwaharddedig**

Gweithredwr busnes bwyd sydd wedi'i gael yn euog o drosedd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac sy’n destun gorchymyn gwahardd.

**Perygl**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(14) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, yn golygu sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn neu fwy anifeiliaid, neu gyflwr bwyd sydd â'r potensial i achosi effaith niweidiol ar iechyd.

**Perygl bwyd**

Sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd a all effeithio’n andwyol ar iechyd y cyhoedd.

**Prif Awdurdod**

Fel y’i nodir yn Adran 25 Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn golygu, mewn perthynas â pherson rheoledig, rheoleiddiwr cymwys ar gyfer arfer y swyddogaethau partneriaeth mewn perthynas â'r person hwnnw fel y'i henwebwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu mewn perthynas â grŵp rheoledig, rheoleiddiwr cymwys ar gyfer arfer swyddogaethau partneriaeth mewn perthynas ag aelodau'r grŵp fel y'i enwebwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Pwynt Rheoli Critigol**

Unrhyw gam mewn proses lle gellir atal, dileu neu leihau peryglon i lefelau derbyniol. Mae enghraifft o bwyntiau rheoli critigol yn cynnwys coginio, oeri, e-gynhesu a chadw bwyd yn boeth/oer.

**Rhaid/Mae'n rhaid**

Yn cael eu defnyddio i gadarnhau rhwymedigaeth.

**Rheolaethau swyddogol**

Fel y'u diffinnir gan Erthygl 2(1) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r unigolion naturiol y dirprwywyd rhai tasgau rheolaethau swyddogol iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gan y gweithredwyr a bod anifeiliaid neu nwyddau yn bodloni'r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, gan gynnwys ar gyfer cyhoeddi tystysgrif swyddogol neu ardystiad swyddogol.

**Rheoliad Hylendid**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

**Rheoliadau hylendid yr UE**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 2(1) Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Cymru) 2006, yn golygu Rheoliad (CE) 852/2004, Rheoliad (CE) 853/2004, Rheoliad (CE) 2073/2005, Rheoliad (UE) 2015/1375, a Rheoliad (UE) 2017/625 a deddfwriaeth a wnaed oddi tanynt.

**Rhybudd bwyd**

Cyfathrebiad gan yr ASB i Awdurdodau Bwyd sy'n ymwneud â pherygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd arall, lle mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd weithredu/ymateb. Dylid darllen ‘Diweddariad ar Rybudd Bwyd’ yn unol â hynny.

**Rhybudd syml**

Mae rhybudd syml (a elwir cyn hyn yn rhybudd ffurfiol neu rybudd yr heddlu) yn rhybudd ffurfiol y gall yr heddlu ei roi i bobl 18 oed neu hŷn sy'n cyfaddef eu bod wedi cyflawni trosedd ('troseddwyr'). Mae'r cynllun rhybudd syml wedi'i gynllunio i ddarparu ffordd o ddelio â throseddu lefel isel, y tro cyntaf yn bennaf, heb erlyniad. Dim ond pan fydd meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellir rhoi rhybudd syml. Mae rhagor o fanylion wedi’u nodi yn nodyn canllaw y Weinyddiaeth Gyfiawnder: ‘Rhybuddion Syml i Droseddwyr sy'n Oedolion’.

**Risg**

Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio neu'n profi effaith iechyd andwyol os yw'n dod i gysylltiad â pherygl.

**Safle domestig**

Tŷ annedd neu adeilad arall a ddefnyddir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, fel annedd, a'i gwrtil (curtilage).

**Safe Catering**

Canllaw rheoli diogelwch bwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon yw Safe Catering. Mae'n helpu busnesau arlwyo a manwerthwyr sydd â swyddogaeth arlwyo i gydymffurfio â rheoliadau hylendid bwyd.

**Safonau**

Rheolau neu egwyddorion a ddiffinnir yn y gyfraith diogelwch bwyd fel sail ar gyfer dyfarniad yn erbyn.

**Safonau Bwyd yr Alban**

Yr Awdurdod Bwyd Canolog yn yr Alban.

**Samplu**

Dulliau sy'n cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys yr amgylchedd) sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd anifeiliaid, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd neu reolau iechyd anifeiliaid drwy ddadansoddi.

**Sancsiwn/Cosb**

Y ddarpariaeth o fewn statud i gymryd camau cosbi am fethu â chydymffurfio â darpariaethau'r statud.

**Sefydliad**

Mae ei ystyr wedi'i ddiffinio yn Erthygl 2(c) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 i olygu unrhyw uned o fusnes bwyd.

**Sefydliad cymeradwy**

Sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo yn unol ag Erthygl 4 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer trin, paratoi a/neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

**Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST)**

Corff proffesiynol sy'n ymwneud â phob agwedd ar wyddoniaeth a thechnoleg bwyd.

**Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI)**

Mae CTSI yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol safonau masnach sy'n gweithio yn y DU a thramor – mewn awdurdodau lleol, sectorau busnes a defnyddwyr a llywodraeth ganolog. Mae CTSI yn bodoli i:

hyrwyddo a gwarchod llwyddiant economi fywiog fodern

diogelu iechyd, diogelwch a lles dinasyddion trwy wella proffesiynoldeb ei aelodau

**Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Sefydliad symudol**

Mae safleoedd heblaw safleoedd parhaol, a 'safleoedd symudol perthnasol' yn golygu safleoedd symudol, a ddefnyddir i gludo neu baratoi bwyd neu i werthu bwyd ar bum diwrnod neu fwy, p'un a yw'n olynol ai peidio, mewn unrhyw gyfnod o bum wythnos yn olynol, ac eithrio – cerbydau modur sy'n cael eu hadeiladu at ddibenion cludo dim mwy nag 8 o deithwyr (gan gynnwys y gyrrwr) a'u heitemau personol, pebyll, neu safleoedd symudol y cedwir fel rheol y tu allan i Brydain Fawr.

**Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy (AGHE)**

Sefydliad cymeradwy yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Lle mae busnes yn prosesu meintiau diderfyn o helgig o ffwr sy’n dod i mewn/mewn carcasau plu a'i gyflenwi i gwsmeriaid manwerthu a chyfanwerthu.

**Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (ABP)**

Wedi'i ddiffinio yn Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 fel 'cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid, cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a gafwyd o anifeiliaid nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl'.

**Swyddog awdurdodedig**

Unigolyn (boed yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd, naill ai’n gyffredinol neu’n benodol, i weithredu o ran materion sy’n codi o dan y Rheoliad Hylendid.

**Swyddog Bwyd Arweiniol (LFO)**

Y Swyddog(ion) Bwyd Arweiniol Awdurdodedig, a benodir gan yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â bwyd, sy'n arddangos y gofynion, a nodir yn y Cod, y Fframwaith Cymwyseddau a Phennod 3 o'r Canllawiau Ymarfer.

**Swyddog Iechyd yr Amgylchedd**

Swyddogion awdurdodedig sy'n gyfrifol am gyflawni mesurau ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gweinyddu a gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd.

**System Goruchwylio Bwyd y Deyrnas Unedig (UKFSS)**

Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer data samplu Bwyd mewn Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd a Labordai Dadansoddwyr Cyhoeddus.

**System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS)**

System ar-lein sy’n galluogi awdurdodau lleol i lanlwytho'r data oddi ar y system(au) a ddefnyddir ganddynt yn lleol i gofnodi data ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.

**System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)**

Mae RASFF yn adnodd cyflym ac effeithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng Awdurdodau Cymwys pan ganfyddir risgiau i iechyd pobl yn y gadwyn bwyd a bwyd anifeiliaid a chymerir mesurau, fel dal bwyd yn ôl, galw bwyd yn ôl, atafael neu wrthod y cynhyrchion dan sylw. Mae cyfnewid yr wybodaeth hon yn gyflym yn caniatáu i bob aelod o'r rhwydwaith wirio ar unwaith a yw'r broblem hefyd yn effeithio arnyn nhw. Pryd bynnag y mae'r cynnyrch eisoes ar y farchnad ac na ddylid ei ddefnyddio, mae'r awdurdodau wedyn mewn sefyllfa i gymryd pob mesur brys, gan gynnwys rhoi gwybodaeth uniongyrchol i'r cyhoedd, os oes angen.

**System Rhybuddio Cynnar (EWS)**

Adnodd canfod risgiau sy'n dod i'r amlwg i ragweld peryglon ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid penodol.

**Taliadau Gwledig Cymru (RPW)**

Taliadau Gwledig Cymru yw'r adran yn Senedd Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu pob agwedd ar gynlluniau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru.

**Twbercwlosis (TB)**

Clefyd heintus a achosir fel arfer gan y bacteria Mycobacterium tuberculosis sy'n effeithio'n bennaf ar yr ysgyfaint.

**Tystiolaeth**

Gwybodaeth neu eitemau sy'n darparu prawf o honiad.

**Tystysgrif swyddogol**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(27) o Reoliad (UE) 2017/625, yn golygu papur neu ddogfen electronig wedi'i llofnodi gan y swyddog ardystio ac sy'n rhoi sicrwydd o ran cydymffurfio ag un neu fwy o'r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Ymchwiliad**

Y cam a gymerir gan yr Awdurdod Bwyd i gasglu tystiolaeth lle mae'n credu bod trosedd wedi digwydd.

**Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC)**

Rôl uwch o fewn y tîm diogelu iechyd i ddarparu arweinyddiaeth, rheolaeth a goruchwyliaeth o'r swyddogaeth diogelu iechyd, gan gynnwys yr ymateb i ddigwyddiadau ac achosion.

**Ymyrraeth faleisus**

At ddibenion y Cod a'r Canllawiau Ymarfer, yn golygu halogi bwyd yn fwriadol gan weithgaredd terfysgol, neu gyda'r nod o flacmelio ac ati.

**Ymyriad**

Camau rheoleiddiol a gymerir gan lywodraeth er mwyn effeithio ar neu ymyrryd â phenderfyniadau a wneir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd. Mae ymyriadau yn cynnwys rheolaethau bwyd swyddogol ac ymyriadau eraill fel addysg, cyngor a hyfforddi, casglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu lle nad yw'r dadansoddiad i'w gynnal gan Labordy Rheoli Swyddogol).

**Ymyriadau amgen**

Mae ymyriadau amgen yn ymyriadau heblaw mesurau rheoli bwyd swyddogol a gynhelir mewn busnesau bwyd risg isel ac maent yn cynnwys strategaethau gorfodi amgen.

**Ymyriadau eraill**

Addysg, cyngor a hyfforddiant a ddarperir mewn sefydliad bwyd a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu lle nad yw'r dadansoddiad na'r archwiliad i'w gynnal gan Labordy Swyddogol).

**Ymyriad hylendid bwyd**

Ymyriad sy'n sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd, gan gynnwys:

ansawdd microbiolegol

absenoldeb micro-organebau pathogenig

diogelwch i'w fwyta.

**Ymyriad safonau bwyd**

Ymyriad sy'n sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd, gan gynnwys:

labelu a hysbysebu priodol er mwyn peidio â drysu neu gamarwain cydymffurfiaeth â safonau cyfansoddiadol

absenoldeb lefelau gormodol o ychwanegion, halogion a gweddillion neu lefelau na chaniateir

**Ysgrifennu**

Fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 Deddf Dehongli 1978, yn golygu teipio, argraffu, lithograffeg, ffotograffiaeth a dulliau eraill o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy, a dehongli'r ymadroddion sy'n cyfeirio at ysgrifennu yn unol â hynny.

**Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)**

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn darparu ffocws ledled y wlad ar orfodi yn erbyn twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid.